# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Mawrth, 5 Medi 2023

Lisa Evans

Dwynwen Jones

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Llun, 11 Medi 2023 am 9.30 am i drafod y materion canlynol:**

**1.** **Ymddiheuriadau**

**2.** **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**

**3.** **Adroddiad Diogelu Gr?p Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 4 2022/23 (Tudalennau 3 - 54)**

**4.** **Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad drafft a Fframwaith Rheoli Perfformiad (Tudalennau 55 - 84)**

**5.** **Offeryn Asesiad Effaith Integredig diwygiedig (Tudalennau 85 - 106)**

**6.** **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft Ceredigion 2024-28 (Tudalennau 107 - 164)**

**7.** **Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-23 (Tudalennau 165 - 204)**

**8.** **Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2023 ac Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2023 (Tudalennau 205 - 232)**

**9.** **Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2023 (Tudalennau 233 - 240)**

**10.** **Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion. (Tudalennau 241 - 300)**

11. **Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu (Tudalennau 301 - 356)**

12. **Hunanwerthuso'r trefniadau craffu (Tudalennau 357 - 370)**

13. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy’n codi o’r Cofnodion hynny (Tudalennau 371 - 380)**

14. **Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft (Tudalennau 381 - 398)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi’r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i’r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio’r Gymraeg neu’r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**
**Weddill Aelodau’r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **11/9/23** |
| **LLEOLIAD:** | |
| **TEITL:** | **Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 4 2022/23** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Monitro gweithgarwch ar sail amlasiantaethol o ran y camau a gymerwyd i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion. |
| **RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | Sicrhau bod aelodau'n monitro cynnydd yng nghyfarfodydd rheoli chwarterol Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS |

**CEFNDIR:**

Amgaeir Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS ar gyfer Chwarter 4 2022/23.

Adroddiadau rheoli amlasiantaethol yw'r rhain ar ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2023. Darparant wybodaeth reoli ar y camau a gymerwyd o dan Ganllawiau Diogelu Cymru.

Mae'r adroddiadau yn cynnwys y wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu llesiant plant ac oedolion yng Ngheredigion.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS (Ceredigion) yn trafod y wybodaeth reoli hon er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Mae'r cyfarfodydd amlasiantaethol hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar unrhyw faterion perfformiad a materion eraill o fewn y maes gwaith hwn.

Mae gwybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y rhanbarth.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol:

- Yn Chwarter 4, roedd gostyngiad yn nifer y cysylltiadau/adroddiadau a dderbyniwyd ynghylch plant/pobl ifanc o'i gymharu â Chwarter 3 gyda 1112 o gysylltiadau/adroddiadau wedi'u derbyn yn Chwarter 3 o'i gymharu â 1010 o gysylltiadau/adroddiadau yn Chwarter 4.
- Fodd bynnag, roedd cynnydd yn nifer y cysylltiadau/adroddiadau a aeth ymlaen i gymryd camau o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Plant o 193 yn Chwarter 3 o'i gymharu â 200 yn Chwarter 4.
- Canran yr adroddiadau a aeth ymlaen i Drafodaeth Strategaeth yn y chwarter hwn oedd 19.8% o'i gymharu â 17.3% yn Chwarter 3.
- Yn Chwarter 3, aeth 7.3% o adroddiadau ymlaen i Ymholiad Adran 47 o'i gymharu ag 8.4% yn Chwarter 4. Yn y chwarter hwn, roedd angen i 1.6% o adroddiadau a dderbyniwyd fynd ymlaen i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant, sef yr un ganran a aeth ymlaen i gynhadledd yn Chwarter 3.
- Cyfanswm y plant sy'n destun Cynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant yn Chwarter 4 oedd 23, ac mae hyn yn cymharu â 35 yn Chwarter 3.
- Cyfanswm y plant a gafodd eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn Chwarter 4 yn dilyn y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant oedd 20 o'i gymharu â 31 yn Chwarter 3.
- Cyfanswm y plant a gafodd eu dileu o'r gofrestr ar ôl Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn oedd 15 o'i gymharu â 28 yn Chwarter 3.
- Cyfanswm yr Ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y chwarter hwn oedd 85 o'i gymharu ag 81 yn Chwarter 3. Cafodd 70 o'r ymholiadau hyn eu cynnal ar y cyd â'r Heddlu, a chafodd 25 eu cynnal fel un Asiantaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Y prif gategori o gam-drin a arweiniodd at ymholiad Adran 47 yn Chwarter 4 oedd cam-drin corfforol (32), cam-drin/cam-fanteisio rhywiol (24), cam-fanteisio arall (11), esgeulustod (9) a cham-drin emosiynol (8). Mae hyn yn dilyn yr un patrwm a welwyd yn Chwarter 3.
- Roedd 52 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ddiwedd y chwarter hwn, o'i gymharu â 49 ar ddiwedd Chwarter 3. Roedd 22 o blant wedi'u cofrestru o dan y categori cam-drin emosiynol/seicolegol yn y chwarter hwn, 26 o dan y categori esgeulustod a 4 o dan y categori esgeulustod a cham-drin emosiynol/seicolegol.
- Y prif ffactorau risg ar gyfer y 52 o blant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31/03/23 oedd cam-drin domestig, iechyd meddwl rhieni, rhieni'n camddefnyddio sylweddau/alcohol a rhieni'n gwahanu.
- O ran Diogelu Oedolion, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin a/neu eu hesgeuluso, gyda 190 o oedolion mewn perygl wedi'u hadrodd yn y chwarter hwn o'i gymharu â 142 yn Chwarter 3.
- Unwaith eto, y categori cam-drin yr adroddwyd amdano fwyaf y chwarter hwn oedd cam-drin emosiynol/seicolegol, gyda 97 o adroddiadau o oedolion mewn perygl lle mai hwn oedd y prif gategori o gam-drin. Esgeulustod oedd yr ail brif gategori o gam-drin a adroddwyd (66), yna cam-drin corfforol (62), cam-drin ariannol (40), a cham-drin rhywiol (24). Mae hyn yn dilyn patrwm y chwarter blaenorol.
- O'r adroddiadau a dderbyniwyd, mewn perthynas â phob categori o gam-drin, adroddir mai menywod sy'n wynebu'r risg fwyaf, a hynny o gryn dipyn. Fodd bynnag, o ran pryderon ynghylch esgeulustod, roedd mwy o wrywod (36) yn cael eu heffeithio gan y categori hwn o gam-drin na merched (30), sydd yn wahanol iawn i'r chwarteri blaenorol.
- Yn Chwarter 4, fel yn Chwarter 3, yr Heddlu oedd y ffynhonnell fwyaf o adroddiadau (46).

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam** | Naddo |

***Crynodeb:***

Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir ar ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Hirdymor:** | Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol |
| | **Integreiddio:** | Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt |
| | **Cydweithredu:** | Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod |
| | **Cynnwys:** | Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid |
| | **Atal:** | Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu |

**ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):**
Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch â'r Awdurdod Lleol

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):**
Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner

**Enw cyswllt:** **Audrey Somerton-Edwards**

**Swydd:** **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: (Plant a Theuluoedd)**

**Dyddiad yr Adroddiad:** **29 Mehefin 2023**

**Acronymau:**
CP – Amddiffyn Plant

CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant
Part 4 – Honiadau a wnaed yn erbyn aelod o staff neu'r rhai sy'n gweithio gyda phlant e.e. – gofalwyr maeth, gwirfoddolwyr, cylchoedd chwarae at ati
CPCC – Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant
ICPC – Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant

# GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR CEREDIGION

## Adroddiad Rheoli Perfformiad

**Chwarter: 4**

**1.1.23 – 31.3.23**

| **CYNNWYS:** | **TUDALEN** |
|---|---|
| ADRAN 1:<br>Cyflwyniad | 3 |
| ADRAN 2:<br>Prif Ddata a Data Cymharol | 4 |
| ADRAN 3:<br>Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant | 6 |
| ADRAN 4:<br>Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant | 8 |
| ADRAN 5:<br>Cynadleddau Amddiffyn Plant | 9 |
| ADRAN 6:<br>Cofrestr Amddiffyn Plant | 17 |
| ADRAN 7:<br>Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn mewn Amgylchiadau Arbennig | 19 |
| ADRAN 8:<br>Cyfarfodydd Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE) | 20 |
| ADRAN 9<br>Adroddiad Cryno Blynyddol | 21 |
| ADRAN 10:<br>Yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC) | 22 |
| ADRAN 11:<br>Gwasanaethau Dysgu | 25 |
| ADRAN 12:<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 31 |
| ADRAN 13:<br>Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS) | 35 |
| ADRAN 14:<br>Diogelu Oedolion | 42 |

## ADRAN 1: CYFLWYNIAD

Dyma'r adroddiad rheoli amlasiantaethol ar gyfer diogelu plant yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2023. Mae'n darparu gwybodaeth rheoli perfformiad am y camau a gymerwyd i ddiogelu plant.

Mae'n cynnwys adroddiadau gan asiantaethau sy'n bartneriaid ynglŷn â diogelu a hybu llesiant plant yng Ngheredigion.

Mae'r dangosyddion a'r mesurau a ddefnyddir yn cael eu diffinio a'u hadrodd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR Ceredigion yn trafod y wybodaeth reoli hon yn gyson er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau diogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr adroddiad hwn at:

Elizabeth Upcott
Rheolwr Corfforaethol Diogelu
Elizabeth.Upcott@ceredigion.gov.uk
01545 574212

## ADRAN 2: Prif Ddata a Data Cymharol


| **Canlyniadau'r Atgyfeiriadau** | **Ion-Maw 2023** | **Hyd-Rhag 2022** | **Gorff-Medi 2022** | **Ebr-Meh 2022** | **Ion-Maw 2022** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiadau / Atgyfeiriadau sy'n arwain at Drafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant | 200 | 193 | 171 | 221 | 154 |
| | | | | | |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (ac eithrio Cynadleddau Trosglwyddo a Chyn Geni) | 15 | 16 | 7 | 5 | 8 |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant Cyn Geni | 1 | 1 | 2 | 4 | 2 |
| Nifer y Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant | - | 1 | 1 | - | - |
| Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant Cyn Geni | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (gan gynnwys Cynadleddau Trosglwyddo a Chyn Geni)** | **16** | **18** | **10** | **9** | **10** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Cychwynnol / Cyn Geni / Trosglwyddo** | **23** | **35** | **21** | **13** | **21** |
| | | | | | |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (ac eithrio Cynadleddau Throsglwyddo a Chyn Geni) | 20 | 30 | 14 | 8 | 19 |
| Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni | - | 1 | 2 | 4 | 2 |
| Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill | - | - | - | - | - |
| Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant adeg geni ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl Cynadleddau Cychwynnol** | **20** | **31** | **16** | **12** | **21** |
| Cyfanswm y plant na roddwyd eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 3 | 4 | 5 | 1 | - |
| | | | | | |
| Nifer y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant | **32** | **17** | **16** | **19** | **13** |
| Nifer y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant Cyn Geni | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant (gan gynnwys Cyn Geni)** | **32** | **17** | **16** | **19** | **13** |
| Nifer y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant | **51** | **39** | **26** | **43** | **23** |
| Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu / Cyn Geni** | **51** | **39** | **26** | **43** | **23** |
| **Cyfanswm y plant sy'n parhau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **36** | **11** | **13** | **29** | **11** |
| Cyfanswm y plant y tynnwyd eu henwau oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 15 | 28 | 13 | 14 | 12 |

**Dadansoddiad:**

Roedd ychydig o gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau a arweiniodd at gymryd camau gweithredu o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru yn ystod y chwarter hwn.


Canran y plant a drafodwyd mewn cynadleddau adolygu ac a gafodd eu datgofrestru oedd 28%.


## ADRAN 3: Adroddiadau ac Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant




## Dadansoddiad:

Yr Heddlu yw'r ffynhonnell fwyaf o atgyfeiriadau o hyd yn ystod y chwarter hwn; mae atgyfeiriadau Gwasanaethau Cymdeithasol mewnol wedi cynyddu ac mae cyfradd ysgolion wedi lleihau ychydig.







## Dadansoddiad:


Aberystwyth yw'r ardal lle y ceir y nifer fwyaf o atgyfeiriadau yn gyson.

| **Dadansoddiad yn ôl % o Weithgarwch Diogelu<br>Chwarter 4 2022/2023 (1 Ionawr – 31 Mawrth)** | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer yr holl Gysylltiadau Cychwynnol ynghylch gwybodaeth plant | | | |
| Cysylltiadau/Atgyfeiriadau<br>1010 | Trafodaethau Strategaeth<br>19.8% | Ymholiadau Adran 47<br>8.4% | Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant<br>1.6% |

Yn Chwarter 3 roedd 1112 o gysylltiadau/atgyfeiriadau ac o'r rhain aeth 17.3% ymlaen i Drafodaeth Strategaeth, aeth 7.3% ymlaen i Ymholiad Adran 47, ac aeth 1.6% ymlaen i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant.

## ADRAN 4: Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant








**Dadansoddiad:**
Y pryderon pennaf a arweiniodd at gwblhau ymholiadau amddiffyn plant yn Chwarter 4 oedd honiadau am gam-drin corfforol a cham-drin/camfanteisio'n rhywiol. Cynhaliwyd y mwyafrif o'r ymholiadau ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant.


## ADRAN 5: Cynadleddau Amddiffyn Plant

| Mae'r tabl hwn yn cynnwys ffigurau wedi'u dadansoddi mewn perthynas â Chanlyniadau Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant** | **Nifer y plant heb eu geni** | **Nifer y teuluoedd** | **Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, gan gynnwys y rhai heb eu geni a'r rhai a drosglwyddwyd** | **Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth os na chofrestrwyd** |
| 16 | 22 | 1 | 16 | 20 | 3 |

**Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser**
Cofnodwyd bod 87.0% o'r Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl y Drafodaeth/Cyfarfod Strategaeth. Ar gyfer 1 gynhadledd i 2 sibling, bu oedi wrth gynnal y gynhadledd oherwydd argaeledd asiantaeth, ac ar gyfer cynhadledd arall i 1 person ifanc roedd yr oedi oherwydd yr angen am eglurhad ynghylch gwneud penderfyniadau.
Mae Cynadleddau Cychwynnol ac Adolygu Achos yn cael eu cynnal trwy ddulliau hybrid / rhithiol trwy Microsoft Teams. Bu modd i rieni a phlant gymryd rhan yn y cyfarfodydd.



**Cyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 90.0% o Gyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant. Gohiriwyd 2 Grwp Craidd oherwydd argaeledd gweithwyr proffesiynol dros wyliau'r Pasg.





| Mae'r tabl hwn yn cynnwys ffigurau wedi'u dadansoddi mewn perthynas â Chynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant** | **Nifer y plant heb eu geni** | **Nifer y teuluoedd** | **Nifer y plant sy'n aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant a gafodd eu tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant** | **Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth yn dilyn datgofrestru** |
| 32 | 51 | - | 31 | 36 | 15 | 9 |


**Canlyniadau'r Adolygiadau:**
O'r 14 o blant a ddatgofrestrwyd, derbyniodd 9 ymyrraeth bellach trwy Gynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth, daeth 3 o blant yn blant sy'n derbyn gofal ac nid oedd angen unrhyw wasanaethau ar 3 phlentyn arall.


**Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:**
Cofnodwyd bod 86.3% o'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn y terfynau amser. Y rheswm dros yr oedi wrth gynnal cynadleddau mewn pryd oedd fel a ganlyn:-
Ar gyfer 1 teulu gyda 2 sibling, bu oedi wrth dderbyn adroddiadau proffesiynol, a chafodd cynhadledd arall ar gyfer 1 plentyn ei haildrefnu oherwydd nid oedd cworwm yn y cyfarfod. Gohiriwyd y gynhadledd ar gyfer 1 teulu gydag 1 plentyn oherwydd y Nadolig, ac yn achos 2 gynhadledd arall gydag 1 plentyn yr un, argaeledd rhieni oedd y rheswm dros yr oedi. Mewn cynhadledd ychwanegol ar gyfer 1 plentyn nodwyd bod

yr oedi oherwydd bod y plentyn wedi'i ddosbarthu'n Blentyn sy'n Derbyn Gofal ar ddiwrnod y gynhadledd a rhoddwyd blaenoriaeth i faterion Llys.




| Cyfranogiad rhieni a phlant mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant<br>*Data cymharol ar gyfer Chwarter 3 mewn cromfachau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Adroddiad y Gweithiwr Cymdeithasol i rieni 24 awr cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant | *Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r teulu cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant | *Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r plentyn cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant | *Aelod o'r teulu yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant | *Barn plant wedi'i chlywed mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant os nad oeddent yn bresennol (5-18 oed) | *Presenoldeb plant yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant (11 oed neu'n hŷn) | *Plant y penod-wyd eiriolwr / Tros Gynnal ar eu cyfer |
| 100% (100%) | 94% (85%) | 67% (100%) | 94% 84%) | 88% (89%) | 20% (4%) | 20% 22%) |


Crynodeb o'r Peryglon Pennaf ar gyfer y 52 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredgion ar 31 Mawrth 2023
60
50
40
30
20
10
0
49
42
42
37
36
30
11
8
8
7
7
5
Rhieni'n gwahanu
Cam-drin Domestig
Anawsterau iechyd meddwl y rhieni
Rhieni'n camddefnyddio sylweddau / alcohol
Troseddau treisgar gan oedolion
Rhieni heb gydweithredu â'r Cynllun Amddiffyn Plant
Ymddygiad...
Troseddau gan oedolion yn erbyn plant
Mam, tad neu bartner wedi bod yn y carchar
Camau cyfreithiol wedi'u cymryd i ddiogelu plant blaenorol
Perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant
Anableddau dysgu'r rhieni


Crynodeb o'r Peryglon Pennaf ar gyfer y 49 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredgion ar 31 Rhagfyr 2022
50
45
40
35
30
25
20
15
10
5
0
43
43
42
40
38
35
8
6
6
6
6
5
Cam-drin Domestig
Rhieni'n gwahanu
Anawsterau iechyd meddwl y rhieni
Rhieni'n camddefnyddio sylweddau / alcohol
Rhieni heb gydweithredu â'r Cynllun Amddiffyn Plant
Troseddau treisgar gan oedolion
Perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant
Camau cyfreithiol wedi'u cymryd i ddiogelu plant blaenorol
Ymddygiad...
Mam, tad neu bartner wedi bod yn y carchar
Troseddau gan oedolion yn erbyn plant
Anhawster dysgu rhieni


| **Y Tri Pherygl Pennaf Tocsig ar gyfer y 52 o blant a oedd ar Gofrestr Cofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 31 Mawrth 2023** | | |
|---|---|---|
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r Tri Pherygl Tocsig yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau a Phroblemau Iechyd Meddwl Rhieni) | 32 | 61.5% |
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae Rhieni'n Gwahanu a / neu yn y Carchar yn ymddangos (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) | 49 | 94.2% |
| Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r pum Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl Rhieni, Rhieni'n Gwahanu ac yn y Carchar) | 6 | 11.5% |


**Dadansoddiad:**
Y prif ffactorau risg a gofnodwyd oedd rhieni'n gwahanu, cam-drin domestig, anawsterau iechyd meddwl rhieni a rhieni'n camddefnyddio sylweddau/alcohol.


Roedd rhieni 2 sibling yn bodloni'r meini prawf a chawsant eu hatgyfeirio at y Prosiect Ysbrydoli Teuluoedd; cawsant eu hatgyfeirio hefyd at y rhaglen Dewisiadau i gyflawnwyr trais domestig.

Roedd rhieni 1 plentyn arall yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Prosiect Ysbrydoli Teuluoedd ond ni chawsant eu hatgyfeirio oherwydd nad oeddent yn fodlon ymgysylltu â'r broses; fodd bynnag, cawsant eu hatgyfeirio at y rhaglen Dewisiadau i gyflawnwyr trais domestig.

## Presenoldeb Asiantaethau mewn Cynadleddau:






Mae'r siartiau uchod yn dangos yr asiantaethau a fu'n bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant. Ar gyfartaledd estynnwyd gwahoddiad i 6 aelod o staff asiantaethau i bob cynhadledd, a bu 3 yn bresennol ar gyfartaledd.
Roedd 5 adroddiad ysgrifenedig ar gyfartaledd ar gael ym mhob Cynhadledd Amddiffyn Plant.

Roedd 6 Chynhadledd Amddiffyn Plant (8%) ar gyfer plant wedi argymell galw cyfarfod Grŵp Teulu.
Roedd 59 (80%) o benderfyniadau cofrestru Cynhadledd Amddiffyn Plant yn ddienw, gyda 15 (20%) o gofrestriadau Cynhadledd Amddiffyn Plant yn benderfyniad mwyafrif.
Roedd 2 Gynhadledd Amddiffyn Plant (3%) ar gyfer plant wedi nodi bod anghytuno ynghylch diogelwch y Cynllun Amddiffyn Plant ar gyfer diogelu llesiant plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.
Cafodd 8 (11%) o blant eu nodi fel gofalwyr ifanc.
Ar gyfer 5 (8%) o blant nodwyd bod diffyg gwybodaeth ynghylch partner y fam.
Ar gyfer 10 (14%) o bobl ifanc nodwyd bod ganddynt anabledd dysgu cymedrol/difrifol, a nodwyd bod gan 8 (14%) o bobl ifanc Gynllun Datblygu Unigol.
Nodwyd bod gan 3 (4%) o blant anabledd corfforol/nam ar y synhwyrau, a nodwyd bod anawsterau o ran ymddygiad gan 10 (14%) o bobl ifanc.
Nodwyd bod gan 4 (5%) o blant anawsterau lleferydd/iaith, a nodwyd bod 4 (7%) person ifanc wedi'u gwahardd o'r ysgol.


## ADBORTH PLANT A RHIENI


Nid yw'r system flaenorol ar gyfer cael adborth plant a theuluoedd yn dilyn eu presenoldeb yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant wedi bod yn bosibl ers dechrau'r pandemig ym Mawrth 2020 oherwydd y ffaith bod y rhan fwyaf o Gynadleddau yn cael eu cynnal yn rhithiol.


Fodd bynnag, ers dechrau Ebrill 2022, mae Holiaduron Gwerthuso wedi cael eu hanfon at deuluoedd ar ôl iddynt fod yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant i geisio eu barn a'u hadborth. Bydd y broses hon yn parhau hyd nes bod y Cynadleddau Amddiffyn Plant yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb.


<table>
<tr><th colspan="7">ADBORTH PLANT A RHIENI</th></tr>
<tr><td colspan="7">Darparwyd holiaduron gwerthuso i blant/pobl ifanc (o oedran/lefel dealltwriaeth briodol), rhieni a gofalwyr a fynychodd Gynadleddau Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter. Dosbarthwyd cyfanswm o 62 holiadur a chwblhawyd 7 (11.3%). Mae'r tabl canlynol yn darparu crynodeb o'r ymatebion.</td></tr>
<tr><th colspan="4">Sut oedd lleoliad ac amser y gynhadledd?</th><th colspan="3">Oeddech chi'n teimlo'n barod i fod yn bresennol yn y gynhadledd?</th></tr>
<tr><th></th><th>Addas iawn</th><th>Iawn</th><th>Anaddas</th><th>Oeddwn</th><th>Ddim yn siŵr</th><th>Ddim o gwbl</th></tr>
<tr><td>Plant</td><td>1</td><td>0</td><td>0</td><td>1</td><td>0</td><td>0</td></tr>
<tr><td>Rhieni</td><td>3</td><td>0</td><td>0</td><td>2</td><td>1</td><td>0</td></tr>
<tr><td>Gofalwyr</td><td>0</td><td>0</td><td>0</td><td>0</td><td>0</td><td>0</td></tr>
<tr><td>Aelodau'r Teulu</td><td>3</td><td>0</td><td>0</td><td>3</td><td>0</td><td>0</td></tr>
<tr><th colspan="4">Oeddech chi'n gallu dweud eich dweud?</th><th colspan="3">Oeddech chi'n teimlo bod eich barn chi'n cyfrif?</th></tr>
<tr><th></th><th>Oeddwn</th><th>Dim digon</th><th>Nac ydw</th><th>Oeddwn</th><th>Peth</th><th>Ddim o gwbl</th></tr>
<tr><td>Plant</td><td>1</td><td>0</td><td>0</td><td>1</td><td>0</td><td>0</td></tr>
<tr><td>Rhieni</td><td>2</td><td>1</td><td>0</td><td>1</td><td>2</td><td>0</td></tr>
<tr><td>Gofalwyr</td><td>0</td><td>0</td><td>0</td><td>0</td><td>0</td><td>0</td></tr>
<tr><td>Aelodau'r Teulu</td><td>3</td><td>0</td><td>0</td><td>3</td><td>0</td><td>0</td></tr>
<tr><th colspan="4">Hoffech chi ddweud rhywbeth a allai ein helpu i wella'r broses?</th><th colspan="3">Y camau a gymerwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol i fynd i'r afael â phryderon</th></tr>
<tr><td>Plant</td><td colspan="3">•</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Rhieni</td><td colspan="3">• Cyfarfodydd wyneb yn wyneb, methu cysylltu i'r gynhadledd rithwir.</td><td colspan="3">*Cadeirydd wedi cwrdd â'r teulu yn dilyn y gynhadledd</td></tr>
<tr><td>Gofalwyr</td><td colspan="3">•</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Aelodau'r Teulu Estynedig</td><td colspan="3">•</td><td colspan="3"></td></tr>
</table>

## ADRAN 6: Cofrestr Amddiffyn Plant






| **Mesur 28 Llywodraeth Cymru – Yr amser ar gyfartaledd y bu pob plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant:** | | |
|---|---|---|
| Ar gyfer y Mesur hwn mae'n ofynnol rhoi'r amser ar gyfartaledd mewn diwrnodau calendr y treuliodd pob plentyn ar y Gofrestr cyn ei ddatgofrestru yn ystod y chwarter dan sylw | Ionawr – Mawrth | 287.5 |

| **Mesur 27 Llywodraeth Cymru – Nifer y plant a ail-gofrestrwyd ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol o fewn y flwyddyn** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynadleddau Cychwynnol** | **Ion-Maw 2023** | **Hyd-Rhag 2022** | **Gorff-Medi 2022** | **Ebr-Meh 2022** | **Ion-Maw 2022** | **Hyd-Rhag 2021** | **Gorff-Medi 2021** | **Ebr-Meh 2021** |
| Nifer y plant oedd wedi bod ar y gofrestr o'r blaen ac a ddatgofrestrwyd dros y 12 mis diwethaf | 3 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 | 0 |

**ADRAN 7: Cyfarfodydd Strategaeth Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan**

| Categori o Gyfarfod Strategaeth Amddiffyn Plant | Cyfanswm yr achosion | Cyfanswm y cyfarfodydd |
|---|---|---|
| Perygl o gamfanteisio ar blentyn | **23** | **42** |
| Pryderon ynghylch esgeulustod | **3** | **3** |
| Pryderon ynghylch cam-drin rhywiol | **1** | **2** |
| Pryderon ynghylch cam-drin corfforol | **2** | **2** |
| Pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol | **10** | **10** |
| Pryderon ynghylch person ifanc yn mynd ar goll | **4** | **4** |
| Pryderon ynghylch cam-drin emosiynol | **1** | **1** |
| Pryderon ynghylch person sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rhinwedd ei swydd | **13** | **16** |
| **Cyfanswm y cyfarfodydd** | | **80** |
| **Cyfanswm yr achosion a drafodwyd yn y chwarter hwn** | **57** | |

## ADRAN 8: Cyfarfodydd Rheoli Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACE)

| Achos Newydd / Adolygu | Ymadael / Aros yn MACE | Gwryw / Benyw | Oedran | Yn y cartref / mewn gofal | Cofrestr Amddiffyn Plant | Dyddiad y cyfarfod | Presenoldeb Asiantaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adolygu | Aros | B | 16 | C | Ie | 13.03.23 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gofal wedi'i Gynllunio, Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Adolygu | Aros | B | 14 | C | Ie | 24.01.23<br>15.02.23<br>02.03.23<br>15.03.23 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gofal wedi'i Gynllunio, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Iechyd |
| Adolygu | Aros | G | 17 | C | Na | 08.03.23<br>27.03.23 | Diogelu, yr Heddlu, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, IOM, Camddefnyddio Sylweddau, CAMHS, DDAS |
| Adolygu | Aros | G | 15 | C | Na | 12.01.23<br>23.03.23 | Diogelu, yr Heddlu, PGT, Addysg, Iechyd, Barod, Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Adolygu | Aros | G | 17 | C | Ie | 24.01.23<br>14.02.23<br>28.03.23 | Diogelu, yr Heddlu, PGT, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Addysg, Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Newydd | Aros | G | 15 | C | Ie | 28.02.23 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg, PGT, Iechyd, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| Adolygu | Ymadael | G | 15 | C | Ie | 31.01.23<br>01.03.23 | Diogelu, yr Heddlu, TPA, Addysg, Tîm o Amgylch y Teulu, Iechyd, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Llamau |
| Adolygu | Ymadael | G | 10 | C | Ie | 17.03.23 | Diogelu, yr Heddlu, Addysg |

## ADRAN 9: Adroddiad Cryno Blynyddol

| 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfodydd/Trafodaethau Strategaeth Amddiffyn Plant** | | Data cymharol ar gyfer y flwyddyn flaenorol |
| Cyfarfodydd / Trafodaethau Strategaeth | 785 | 498 |
| Cyfarfodydd Strategaeth (Rhan 4 a 5) | 272 | 193 |
| **Canlyniadau Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant** | | |
| Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (ac eithrio Cynadleddau Trosglwyddo a Chyn Geni) | 43 | 29 |
| Cynadleddau Cychwynnol Cyn Geni Amddiffyn Plant | 8 | 4 |
| Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant | 2 | 1 |
| Cyfanswm Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (gan gynnwys Cynadleddau Trosglwyddo a Chyn Geni) | 53 | 34 |
| Cyfanswm y plant a gafodd eu trafod mewn Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant | 92 | 80 |
| Cyfanswm y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (gan gynnwys adeg eu geni) | 79 | 72 |
| Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant heb eu cofrestru | 13 | 8 |
| Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant lle roedd plant ar y Gofrestr yn flaenorol ond wedi cael eu datgofrestru o fewn y 12 mis diwethaf | 8 | 0 |
| **Canlyniadau Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant** | | |
| Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant | 84 | 51 |
| Cyfanswm y plant a adolygwyd | 159 | 105 |
| Enwau wedi'u datgofrestru o'r Gofrestr Amddiffyn Plant | 70 | 55 |
| **Nifer y Plant a Theuluoedd sy'n destun Cynadleddau Amddiffyn Plant** | | |
| Nifer y Plant | 126 | 106 |
| Nifer y Teuluoedd | 66 | 49 |

## ADRAN 10: Adroddiad yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC)

Ionawr
Manylion Data Misol

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC** | 290 |
| **Nifer yr achosion a adolygwyd ac a benderfynwyd yng ngham adolygu MRE** **(Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)** | **Adolygwyd:** 174<br>**Penderfynwyd:** 90 |
| **Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol** | **Trafodwyd:** 200<br>**Penderfynwyd:** 182 |
| **Achosion aeth i MARAC** | **18 MARAC** |
| **Canran yr achosion** | **MRE**<br>Penderfynwyd: 52%<br><br>**DD**<br>91% wedi'i benderfynu yn y Trafodaethau Dyddiol<br>9% wedi mynd i MARAC |
| **Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth (wedi bodloni meini prawf MARAC)** | **Sir Gaerfyrddin: 110**<br>**Sir Benfro: 67**<br>**Ceredigion: 41**<br>**Powys: 72** |
| **Nifer y plant ar yr aelwyd** | **Cyfanswm: 285**<br>**Sir Gaerfyrddin: 101**<br>**Sir Benfro: 81**<br>**Ceredigion: 40**<br>**Powys: 63** |

| | **Wedi'i benderfynu yn MRE** | **Wedi'i benderfynu yn y Trafodaethau Dyddiol** | **MARAC** | **Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC** **(*10 munud yr achos ar gyfartaledd)** | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 28 | 73 | 9 | | |
| Sir Benfro | 22 | 45 | 6 | | |
| Ceredigion | 18 | 17 | 0 | | |
| Powys | 22 | 47 | 3 | | |

Chwefror
Manylion Data Misol

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC** | **258** |
| **Nifer yr achosion a adolygwyd ac a benderfynwyd yng ngham adolygu MRE** **(Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)** | **Adolygwyd: 140**<br>**Penderfynwyd: 80** |
| **Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol** | **Trafodwyd: 178**<br>**Penderfynwyd:** 160 |
| **Achosion aeth i MARAC** | **18 MARAC** |
| **Canran yr achosion** | **MRE**<br>Penderfynwyd: 57%<br><br>**DD**<br>92% wedi'i benderfynu yn y Trafodaethau Dyddiol<br>8% wedi mynd i MARAC |
| **Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth (wedi bodloni meini prawf MARAC)** | **Sir Gaerfyrddin: 110**<br>**Sir Benfro: 55**<br>**Ceredigion: 27**<br>**Powys: 66** |
| **Nifer y plant ar yr aelwyd** | **Cyfanswm: 254**<br>**Sir Gaerfyrddin: 87**<br>**Sir Benfro: 83**<br>**Ceredigion: 26**<br>**Powys: 58** |

| | **Wedi'i benderfynu yn MRE** | **Wedi'i benderfynu yn y Trafodaethau Dyddiol** | **MARAC** | **Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC** **(*10 munud yr achos ar gyfartaledd)** | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 30 | 68 | 12 | | |
| Sir Benfro | 21 | 31 | 3 | | |
| Ceredigion | 7 | 20 | 0 | | |
| Powys | 22 | 41 | **3** | | |

Mawrth
Manylion Data Misol

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC** | **300** |
| **Nifer yr achosion a adolygwyd ac a benderfynwyd yng ngham adolygu MRE** **(Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)** | **Adolygwyd gan: 157**<br>**Penderfynwyd: 97** |
| **Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol** | **Trafodwyd: 203**<br>**Penderfynwyd: 185** |
| **Achosion aeth i MARAC** | **18 MARAC** |
| **Canran yr achosion** | **MRE**<br>Penderfynwyd: 62%<br><br>**DD**<br>91% wedi'i benderfynu yn y Trafodaethau Dyddiol<br>9 % wedi mynd i MARAC |
| **Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth (wedi bodloni meini prawf MARAC)** | **Sir Gaerfyrddin: 108**<br>**Sir Benfro: 73**<br>**Ceredigion: 45**<br>**Powys: 74** |
| **Nifer y plant ar yr aelwyd** | **Cyfanswm: 172**<br>**Sir Gaerfyrddin: 75**<br>**Sir Benfro: 44**<br>**Ceredigion: 17**<br>**Powys: 36** |

| | **Wedi'i benderfynu yn MRE** | **Wedi'i benderfynu yn y Trafodaethau Dyddiol** | **MARAC** | **Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC** **(*10 munud yr achos ar gyfartaledd)** | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 25 | 83 | 10 | | |
| Sir Benfro | 29 | 44 | 2 | | |
| Ceredigion | 14 | 31 | 3 | | |
| Powys | 29 | 45 | 3 | | |

# ADRAN 11: Gwasanaethau Dysgu

**ADRODDIAD LOG GWASANAETHAU YSGOLION**

**BWLIO**

Mae data bwlio yn cael eu casglu gan bob ysgol yn ystod cyfarfodydd Cyrff Llywodraethu bob tymor. Gweler isod y data a gasglwyd ar gyfer Tymor yr Hydref 2022 (a gafodd eu coladu yn nhymor yr Hydref 2022).

| Mathau o Fwlio | Gwanwyn 2022 | Haf 2022 | Hydref 2022 |
|---|---|---|---|
| Gallu | 4 | 2 | 2 |
| Oedran | | | |
| Edrychiad | 7 | 5 | 7 |
| Deuffobig | | | |
| Anabledd | | 1 | 3 |
| Rhyw | 2 | | 3 |
| Homoffobig | | | 3 |
| Plentyn sy'n derbyn gofal | | | |
| Anneuaidd | | | |
| Beichiogrwydd neu Famolaeth | | | |
| Hiliol | 2 | 5 | 12 |
| Crefydd neu Gred | | | |
| Rhywiol | 2 | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | | | |
| Trawsffobig | | | |
| Gofalwyr Ifanc | | | |
| E-ddiogelwch | 4 | 2 | 9 |
| Arall | 5 | 9 | 26 |
| Heb ei nodi | | 3 | 2 |
| Cyfanswm | 26 | 27 | 67 |

Mae'r ffigyrau uchod yn dangos cynnydd sylweddol yn yr achosion o fwlio a gofnodwyd yn Nhymor yr Hydref o'i gymharu â Thymor yr Haf blaenorol.

**HYFFORDDIANT**

Mae hyfforddiant Diogelu ac Amddiffyn Plant Lefel 1 ar gael fel rhaglen e-ddysgu yn unig a nodir isod nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod cyfnod Chwarter 4. Yn ogystal, mae nifer y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 2 yn rhithiol yn ystod y cyfnod hwn wedi'i nodi isod hefyd.

| | |
|---|---|
| Lefel 1 | 221 mewnol<br>89 allanol |
| Lefel 2 | 78 |

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Mae 315 aelod o staff mewnol a 44 aelod o staff allanol wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ystod cyfnod Chwarter 4.

**ADDYSG DDEWISOL GARTREF**


| Nifer y plant rydych yn ymwybodol ohonynt sydd yn cael eu haddysgu'n ddewisol gartref | Nifer y plant Addysg Ddewisol Gartref sy'n hysbys i'r Awdurdod Lleol sydd wedi cael cynnig ymweliad blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf | Canlyniad |
|---|---|---|
| 245 | 264 | Wedi gwrthod – 59<br><br>Heb fynychu – 14<br><br>Plentyn wedi'i weld – 109<br><br>Plentyn heb ei weld – 14<br><br>Llythyr Gorchymyn Mynychu'r Ysgol wedi'i anfon at 2 |


**PLANT SY'N DERBYN GOFAL**


| | |
|---|---|
| Plant oedran ysgol statudol sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion | *Ionawr: 53 (2 wedi symud allan o'r sir yn ystod y mis)*<br>*Chwefror: 51 (2 wedi symud allan o'r sir yn ystod y mis)*<br>*Mawrth: 48* |
| Plant oedran ysgol statudol sy'n derbyn gofal a leolir y tu allan i'r Sir | Ionawr: 38 (2 wedi gadael Ceredigion yn ystod y mis)<br>Chwefror: 42 (3 wedi gadael Ceredigion yn ystod y mis)<br>Mawrth: 44 (2 wedi symud allan o Geredigion) |
| Plant oedran ysgol statudol sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol eraill | Ionawr: 26<br>Chwefror: 27<br>Mawrth: 26 |

**CYSYLLTIADAU YSGOLION**


Gweler isod nifer a natur y cysylltiadau a dderbyniwyd gan ysgolion/sefydliadau addysg yn ystod cyfnod Chwarter 4.







Sylwer, roedd 24 o ysgolion cynradd wedi cysylltu yn ystod Chwarter 4. Oherwydd y nifer uchel nid oedd modd cynnwys pob ysgol ar un tabl. Felly mae'r uchod dim ond yn nodi'r ysgolion oedd wedi cysylltu pedair gwaith neu ragor yn ystod y cyfnod.







Oherwydd y nifer fawr o resymau a roddwyd ar gyfer cysylltu, mae rhai wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd fel y nodir isod er mwyn gallu cyflwyno'r wybodaeth yn fwy eglur ar y siart. Yn yr adroddiad arbennig hwn, rwyf wedi tynnu sylw at y prif bryderon a godwyd er mwyn cymharu â Chwarter 1 y flwyddyn ddiwethaf.

| | |
|---|---|
| Llesiant | Gan gynnwys plant sydd ar goll, presenoldeb, tor-berthynas, gofalwyr ifanc, problemau cysylltu yn ystod y cyfnod clo, problemau cysylltu rhwng rhieni |
| Rhywiol | Gan gynnwys perthnasau amhriodol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant |

Sylwer, cafodd cyfanswm o 86 o ddisgyblion eu gwahardd o ysgolion uwchradd Ceredigion yn ystod cyfnod Chwarter 4 am gyfanswm o 275.5 o ddiwrnodau. (Mae'r ffigurau hyn yn llawer uwch na'r rhai a adroddwyd yn Chwarter 3 pan gafodd 59 o ddisgyblion eu gwahardd am gyfanswm o 173.5 o ddiwrnodau). Mae'r rhesymau a nodwyd ar gyfer y gwaharddiadau wedi'u nodi fel: ymddygiad sy'n tarfu ar eraill yn barhaus, bwlian, difrod, cysylltiedig â sylweddau neu alcohol, ymosodiadau corfforol yn erbyn disgyblion ac oedolion, cam-drin hiliol, cam-drin geiriol, arall.

Yn ogystal â hyn, derbyniodd Porth Cymorth Cynnar 150 o atgyfeiriadau ar gyfer cymorth ac atal yn ystod Chwarter 4, sydd unwaith eto yn gynnydd sylweddol o'i gymharu â Chwarter 3 pan gafodd 119 o atgyfeiriadau eu gwneud (nid yw'r data yn cynnwys atgyfeiriadau gan y Tîm o Amgylch y Teulu).




Mae'r ffigurau uchod yn dangos cynnydd sylweddol yn yr atgyfeiriadau Operation Encompass sydd wedi cael eu rhannu â'r ysgolion o fewn yr un cyfnod amser Chwarter 4 ers 2020.

## ADRAN 12: IECHYD


**Adroddiad Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
ar gyfer y Grwpiau Gweithredol Lleol**

**Chwarter 4 2022/23**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth a diweddariadau i'r Grwpiau Gweithredol Lleol ar y datblygiadau o ran diogelu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystod Chwarter 4, 2022/23.

### Diogelu Oedolion

- **<u>Chwarter 4 2022/23 Data Difrod Pwysau Osgoi Ysbyty Acíwt</u>**




Graff 1


Roedd cyfanswm o 51 o achosion o ddifrod pwysau y gellir eu hosgoi ar draws pob un o'r pedwar safle ysbyty acíwt yn Chwarter 4 (Graff 1). O'r rhain, roedd 39 o'r achosion a adroddwyd yn achosion gradd 1 neu 2 (ni fyddai'r graddau hyn wedi cael eu hadrodd i'r tîm diogelu cyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)); cafodd 8 achos eu cofnodi fel anaf meinwe dwfn posibl amheus. Nid yw'n anghyffredin i ddifrod pwysau gael ei adrodd fel anaf meinwe dwfn amheus, ond o fewn ychydig ddiwrnodau daw'n amlwg ei fod yn radd 1 neu 2. Mae adrodd am achosion yn dal y difrod pwysau ar ei radd fwyaf arwyddocaol. Adroddwyd bod un yn

radd 3 ac roedd tri achos nad oedd modd pennu cam iddynt. O'i gymharu ag adroddiad y chwarter blaenorol, roedd cyfran uwch o achosion o raddau is.

Mae nifer yr achosion yn yr adroddiad yn adlewyrchu pryd y cynhaliwyd y cyfarfodydd craffu yn hytrach na phryd y digwyddodd y difrod pwysau; yn yr adroddiad hwn digwyddodd 72.5 % o achosion yn y chwarteri blaenorol. Mae'r treiglad amser hwn yn digwydd pan fydd achosion yn cael eu gohirio os oes angen rhagor o wybodaeth neu ymchwiliad pellach, neu eu cario drosodd os caiff cyfarfodydd eu gohirio a'u haildrefnu

Mae ysbyty Bronglais wedi dweud bod cyfarfodydd craffu ar gyfer mis Chwefror a mis Mawrth wedi'u hatal oherwydd problemau staffio, felly bydd achosion yn cael eu cario drosodd i'r chwarter nesaf. Gall hyn fod yn ffactor sy'n cyfrannu at y nifer isel o achosion a adroddwyd.

Graff 2




Rhoddir sicrwydd o ran yr achosion o ddifrod pwysau a adroddwyd sydd heb eu trafod eto yn y cyfarfod craffu y bydd camau gweithredu priodol wedi cael eu rhoi ar waith i reoli difrod pwysau unigolion yn ddiogel pan gaiff ei nodi.

**Tîm Diogelu Oedolion**

Yn ddiweddar, cynhaliodd y Tîm Diogelu Oedolion arolwg ar addasrwydd Ffurflen Ymateb i Ymholiadau Tîm Diogelu Oedolion Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae'r Ffurflen Ymateb i Ymholiadau yn hwyluso'r broses o gasglu gwybodaeth yn amserol gan wasanaethau'r Bwrdd Iechyd, gan ddefnyddio cwestiynau wedi'u targedu i lywio Ymholiadau Adran 126. Anfonir y Ffurflen Ymateb i Ymholiadau at y Timau Diogelu Oedolion yn yr Awdurdod Lleol perthnasol er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch adroddiadau diogelu. Mae hefyd yn galluogi'r gwasanaeth i nodi unrhyw wersi a ddysgwyd a helpu i lywio'r camau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.  Yn ogystal, mae defnyddio ffurflen ymateb safonedig yn darparu adroddiad cadarn ar gyfer unrhyw graffu neu herio achos a all ddigwydd yn y dyfodol.

Gofynnwyd am ymatebion gan y Bwrdd Iechyd yn ogystal â Thimau Diogelu Awdurdodau Lleol.



SBAR.docx

Mae'r Tîm Diogelu Oedolion yn falch o groesawu aelod newydd i'r tîm gyda Charlotte Holyoak sydd wedi dechrau yn y swydd Ymarferydd Diogelu Cymorth.

**Plant sy'n Derbyn Gofal**

- **Risgiau**

  Mae'r risg yn parhau i'r gwasanaeth oherwydd pwysau cost ar gyllideb gwasanaeth plant sy'n derbyn gofal i ateb anghenion plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches a leolir o dan y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol. Ar hyn o bryd o'r 30 sydd wedi'u lleoli dim ond un sy'n byw o fewn ôl troed Hywel Dda. Mae'r gwasanaeth yn ysgwyddo costau yn dilyn comisiynu asesiadau iechyd yn yr ardaloedd lle mae'r plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches wedi'u lleoli.

**Diogelu Plant**

- **Adolygiad Carlam Amddiffyn Plant**

Yn dilyn cyfranogiad y Bwrdd Iechyd yn yr adolygiad gydag Awdurdod Lleol Sir Benfro, mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu er mwyn manteisio ar yr hyn a ddysgwyd ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol.

- **Diweddariad**

Mae Nyrs a Enwir a Swyddog Arweiniol Diogelu Plant wedi cael eu penodi. Bydd deiliad newydd y swydd yn dechrau ar ddiwedd yr haf a gofynnir i randdeiliaid allweddol gwrdd â hi fel rhan o'i chyfnod cynefino.

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

- **Risgiau**

Mae gennym risg ar y gofrestr risg gwasanaeth ar gyfer ansicrwydd gallu'r Bwrdd Iechyd i reoli nifer yr achosion o ddigwyddiadau domestig a chyfarfodydd MARAC. Achosir hyn gan gynnydd mewn gweithgarwch o ganlyniad i'r pandemig a bylchau mewn capasiti cynaliadwy yn adnoddau'r ymarferydd diogelu corfforaethol a'r tîm gweinyddu diogelu i reoli hysbysiadau digwyddiadau domestig trwy'r system cyfiawnder troseddol a rhannu'r wybodaeth honno a thynnu sylw at systemau'r Bwrdd Iechyd mewn achosion risg uchel.

- **Diweddariad**

Mae'r Swyddog Cymorth Cam-drin Domestig newydd Donna Walters wedi dechrau yn ei swydd.

**System Reoli Unwaith Dros Gymru**

Yn dilyn ymgais y tîm cenedlaethol i geisio datrys rhai materion sydd heb gael sylw ac sydd wedi bod yn effeithio ar dreialu ffurflen adrodd GIG Cymru, rydym yn y camau cynnar o brofi ffordd o weithio o'i gwmpas. Rhagwelir y byddwn yn dechrau treialu'r ffurflen adrodd o fewn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y dyfodol agos. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhannu pan fydd profion mewnol wedi'u cynnal.

**Mandy Nichols-Davies**
**Pennaeth Diogelu**

## ADRAN 13: Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS):

### Adroddiad Diweddaru S-CAMHS ar gyfer CYSUR

Yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru "Canllawiau Derbyn", mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi rhoi Polisi/Llwybr Derbyn cadarn yn ei le yn amlinellu'r broses ar gyfer derbyn unrhyw berson ifanc i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion. Mae'r canllawiau yn datgan bod rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael uned ddynodedig, ac o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr uned ddynodedig yw Ward Morlais ar gampws Ysbyty Glangwili.

Mae protocol newydd wedi cael ei gymeradwyo i fodloni'r gofyniad statudol hwn a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth yn erbyn disgwyliadau Llywodraeth Cymru.


Gall cael eich derbyn i ward iechyd meddwl oedolion fod yn brofiad brawychus a gwneir pob ymdrech i ystyried y dewis arall lleiaf cyfyngol ar gyfer derbyn cleifion. Yn y mwyafrif o achosion caiff person ifanc ei dderbyn i'r uned ddynodedig ar Ward Cilgerran gyda chymorth staff o'r uned iechyd meddwl.


Yn unol â'r canllawiau, mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ar ddiogelu pobl ifanc ac, yn ogystal, mae staff ar Ward Morlais i gyd wedi cwblhau'r canlynol:

- Hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 3
- Tystysgrif DBS fanylach ddilys
- Hyfforddiant penodol ar anghenion emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc
- Hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014


Rhaid i bawb a dderbynnir i wely iechyd meddwl gael ei adrodd, yn fewnol i gychwyn, fel DATIX, a dilynir hyn gan adroddiad Digwyddiad Anffafriol Difrifol i'r Uned Gyflenwi yn unol â'r ddogfen Canllawiau Derbyn Llywodraeth Cymru.

**Chwarter 4 Derbyniadau i'r gwely addas i'r oedran yr Enfys / Morlais ar y Ward Iechyd Meddwl Oedolion ar safle Ysbyty Glangwili:**




**Chwarter 4 Derbyniadau i'r gwely addas i'r oedran yr Enfys / Morlais yn ôl rhyw:**





**Chwarter 4 Derbyniadau i'r gwely yr Enfys / Morlais yn ôl ardal:**




**Derbyniadau i'r Gwely Addas i Oedran Paediatreg (Uned yr Enfys, ddim yn adroddadwy)**

Mae cofnodion arbenigol CAMHS ar gyfer Chwarter 4 wedi'u hamlinellu uchod gyda chyfanswm o 8 wedi'u derbyn, gyda 5 wedi'u derbyn i'r gwely pediatrig a 3 wedi'u derbyn i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion (Morlais). Ym mis Chwefror, cafodd un person ifanc ei dderbyn i'r gwely paediatrig ar ddau achlysur gwahanol yn yr un mis. Ym mis Mawrth, cafodd un person ifanc ei dderbyn i'r gwely paediatrig ar ddau achlysur gwahanol yn yr un mis; yn dilyn ei dderbyn am yr eildro cafodd y person ifanc ei drosglwyddo i Dŷ Lidiard.

**Chwarter 4 Derbyniadau i'r Enfys / Morlais wedi'i rannu yn ôl tîm derbyn:**




**Statws Deddf Iechyd Meddwl**

Gweithgarwch Deddf Iechyd Meddwl dan 18 oed yn Chwarter 4:

3 x Adran 136

1 x Adran 5(2) Cadw

**Canlyniadau Derbyn**

| | Wedi'i ryddhau gartref | Ei dderbyn i ward arall | Aros ar y ward |
|---|---|---|---|
| **Enfys** | 4 | 1 (person ifanc wedi'i drosglwyddo i Dŷ Lidiard) | 0 |
| **Morlais** | 3 | 0 | 0 |


**Derbyniadau sy'n gysylltiedig â chleifion hunan-niweidio**

O fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mae systemau cadarn yn eu lle i S-CAMHS ddarparu asesiad iechyd meddwl yn dilyn atgyfeiriad gan y ward pediatrig pan gaiff unrhyw berson ifanc ei dderbyn yn dilyn achos o hunan-niweidio. Yn gyffredinol y rheswm am ei dderbyn yw gorddos, ond gall fod yn dilyn achos bwriadol o dorri'r croen neu geisio crogi ei hun.


Bydd pob achos o orddos/hunan-niweidio yn cael apwyntiad dilynol o fewn tri diwrnod gwaith i fonitro risg a darparu cymorth. Mae llwybr cadarn yn ei le ynghyd ag arweiniad ar gyfer derbyn yr holl bobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain yn dilyn hunan-niweidio er mwyn gallu cytuno ar asesiad iechyd meddwl cynhwysfawr a chynllun rheoli risg. Lle y bo'n briodol, gellir ystyried atgyfeirio i'r Tîm Diogelu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion am y nifer a dderbyniwyd yn dilyn achos o hunan-niweidio bwriadol yn Chwarter 4 2022/2023 ar gyfer y 3 Ardal Awdurdod Lleol:


**Chwarter 4 Ystadegau derbyniadau hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw ac ardal:**





**Chwarter 4 Ystadegau derbyniadau hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw a phroffil oedran:**



**Data Cymhariaeth (12 mis diwethaf) – Gwely Addas i'r Oedran**





**Tueddiadau Derbyniadau yn ôl ardal (12 mis diwethaf)**



**Cymhariaeth Derbyniadau Blynyddol yn ôl Ardal**

Mae'r graff canlynol yn cymharu'r nifer a dderbyniwyd ar gyfer Chwarter 4 2022/2023 yn erbyn y nifer a dderbyniwyd ar gyfer yr un chwarter yn 2021/2022 a 2021/2020, wedi'i ddiffinio ymhellach yn ôl ardal.




**Eiriolaeth**

| **Cynnwys**<br>Cynnwys pobl sydd â buddiant a gofyn am eu barn<br><br>AWGRYM | |
| **Atal**<br>Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu<br><br>AWGRYM | |
| **Integreiddio**<br>Ystyried effaith eich cynnig ar bedwar piler llesiant (cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a'r amgylchedd), amcanion cyrff cyhoeddus eraill ac ar draws meysydd gwasanaeth yn y Cyngor.<br><br>AWGRYM | |

## Risg

Crynhowch y risg sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Meini prawf asesu effaith | Isel iawn | Isel | Canolig | Uchel | Uchel iawn |
| Meini prawf asesu tebygolrwydd | Annhebygol o ddigwydd | Llai tebygol o ddigwydd | Yr un mor debygol o ddigwydd ag o beidio digwydd | Mwy tebygol o ddigwydd | Tebygol o ddigwydd |

| **Disgrifiad o'r risg** | **Effaith** (difrifoldeb**)** | **Tebygolrwydd** (y gallu i gyflawni) | **Sgôr** (Effaith x Tebygolrwydd) |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Cymeradwyo

| **Swydd** | **Enw** | **Llofnod** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| **Rheolwr Corfforaethol** | | X ________ | Cliciwch yma i fewnosod dyddiad |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** | | X ________ | Cliciwch yma i fewnosod dyddiad |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol** | | X ________ | Cliciwch yma i fewnosod dyddiad |
| **Deiliad y Portffolio** | | X ________ | Cliciwch yma i fewnosod dyddiad |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | 11/09/2023 |
| **LLEOLIAD:** | Siambr y Cyngor, Penmorfa |
| **TEITL:** | Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft Ceredigion 2024-28 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb drafft a'r adroddiad ymgysylltu cysylltiedig. |
| **Y RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Craffu ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2024-28 a sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011. |

**CEFNDIR:**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gorff cyhoeddus penodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb Penodol Sector Cyhoeddus Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni nodi ein Hamcanion Cydraddoldeb ac yna eu hadolygu bob pedair blynedd. Rhaid cyhoeddi'r amcanion diwygiedig ar gyfer 2024-28 a'r cynllun gweithredu cysylltiedig erbyn 31ain Mawrth 2024.

**SEFYLLFA AR HYN O BRYD:**

Cynhaliwyd ymgyrch ymgysylltu ranbarthol i gasglu adborth cychwynnol ar gyflwr cydraddoldeb yn ardal Dyfed Powys. Cynhaliwyd yr ymgyrch rhwng 22 Mai 2023 a 2 Awst 2023. Mae adroddiad am yr ymgyrch ymgysylltu hon wedi'i atodi fel Atodiad 2.

Mae canfyddiadau'r ymgyrch ymgysylltu wedi'u hystyried, ynghyd â thystiolaeth o ymgynghoriadau a thrafodaethau blaenorol yng nghyfarfodydd Gweithgor Cydraddoldeb Ceredigion. Y canlyniad yw ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft 2024-28.

Rydym wedi adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb yn sgil ein hymgysylltu a'n hymchwil. Ein casgliad yw bod ein hamcanion yn dal yn addas i'r diben ond, oherwydd natur newidiol cymdeithas a'r gwaith yr ydym wedi'i wneud hyd yma, mae angen i ni ddiwygio'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion. Ein Hamcanion Cydraddoldeb yw:

1. Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol

2. Meithrin Perthynas Dda a Mynd i'r Afael â Rhagfarn

3. Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogi

4. Sicrhau Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau

5. Darparu Addysg Deg a Chynhwysol

Unwaith y caiff ei gymeradwyo gan y Cabinet, bydd y cynllun drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Gaeaf 2023.

Pan ddaw'r ymgynghoriad cyhoeddus i ben a phan fydd unrhyw newidiadau gofynnol wedi'u gwneud, bydd y cynllun terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar gyfer adborth cyn cael ei gyflwyno i Gabinet Cyngor Ceredigion i'w gymeradwyo ym mis Chwefror 2024.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2024-28, sydd wedi'i atodi fel Atodiad 1, i'w gyhoeddi ar ein gwefan erbyn 31ain Mawrth 2024.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam** | Oes |
| | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | Mae hwn yn gynllun pedair blynedd sy'n adeiladu ar gynlluniau blaenorol. Gellir cario materion cydraddoldeb hirsefydlog o un cynllun pedair blynedd i'r nesaf. Mae hyn yn ein galluogi i fynd i'r afael ag anghenion tymor hwy a chynllunio ar gyfer y dyfodol. |
| | **Integreiddio:** | Mae'r gweithgor Cydraddoldeb yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod o Wasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn ein helpu i ystyried cyd-ddibyniaethau a thensiynau posibl rhwng gwasanaethau. |
| | **Cydweithio:** | Mae llawer o gyfleoedd i gydweithio ag eraill i gyflawni'r cynllun. Er enghraifft, bydd y cynllun graddedigion newydd yn gofyn am gydweithio â phrifysgolion; byddwn yn gweithio gyda Chymorth i Ddioddefwyr i gyflawni'r Trustmark Troseddau Casineb a byddwn yn gweithio gyda'r tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol ar ystod o gamau gweithredu. |

| | |
|---|---|
| **Cynnwys:** | Cynhaliwyd ymgyrch ymgysylltu ranbarthol i gasglu adborth cychwynnol ar gyflwr cydraddoldeb yn ardal Dyfed Powys. Cyfrannodd yr ymatebion at Ddatblygu'r Cynllun drafft hwn.<br><br>Bydd y Cynllun drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus eto yn ystod gaeaf 2023 cyn iddo gael ei gymeradwyo'n ffurfiol.<br>Mae'r Cynllun Cydraddoldeb ei hun yn cynnwys camau gweithredu i wneud mwy gyda grwpiau o randdeiliaid o grwpiau lleiafrifol penodol ac i wella'r ffordd yr ydym yn rhoi adborth i'r rheini sydd wedi cymryd rhan yn ein hymgyrchoedd Ymgysylltu ac ymgynghori. |
| **Atal:** | Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu o ganlyniad i'n gwaith ymgysylltu a'n hymchwil i gyflwr presennol cydraddoldeb yng Ngheredigion. Nod y cynllun yw cydlynu ein hadnoddau i nodi achosion sylfaenol anghydraddoldeb a mynd i'r afael â nhw. |

**ARGYMHELLION:**
Cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2024-28 cyn iddo fynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod gaeaf 2023. Gwneud argymhellion fel y bo'n briodol pan gyflwynir yr adroddiad i'r Cabinet ar 3ydd Hydref 2023.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**
Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2024-28 arfaethedig yn datblygu nod y Cyngor o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yng Ngheredigion.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Cathryn Morgan |
| **Swydd:** | Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 21/08/2023 |
| **Acronymau:** | |

# Ceredigion Deg a Chyfartal 2024-28

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Awdur:** Rheolwr Corfforaethol Partneriaethau a Pherfformiad

**Cymeradwywyd gan y Cabinet:** XX/XX/XXXX

**Dyddiad Cyhoeddi:** XX/XX/XXXX

Drafft 4

**Sut i gysylltu â ni:**

Gellir cyflwyno sylwadau ac awgrymiadau i'n helpu i wella a pherfformio orau fel sefydliad cyfle cyfartal ar unrhyw adeg i'r:

**Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant**

Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3UE

clic@ceredigion.gov.uk

**Fformatau hygyrch**

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Mae pob cyhoeddiad hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'i archebu mewn amrywiaeth o fformatau o'n gwefan.

DRAFT

## Cynnwys

1. Rhagair ....................................................................................................4
2. Cefndir ......................................................................................................4
2.1 Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ..........................................4
2.2 Ymrwymiad i’r Gymraeg........................................................................5
2.3 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol ...............................................5
2.4 Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus (Cymru).......5
3. Proffil Ceredigion .....................................................................................6
3.1 Dinasyddion Ceredigion.........................................................................6
3.2 Cyngor Sir Ceredigion ...........................................................................7
4. Ein Hamcanion Cydraddoldeb..................................................................8
4.1 Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol ........................................8
4.2 Meithrin Perthynas Dda a Mynd i'r Afael â Rhagfarn...........................10
4.3 Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogi ........................................................12
4.4 Sicrhau Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau ............................14
4.5 Darparu Addysg Deg a Chynhwysol ....................................................17
5. Casgliad...................................................................................................18

## 1. Rhagair

Dyma ein pedwerydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28. Mae'n disgrifio sut y byddwn yn parhau tuag at ein nod i gyflawni ein hymrwymiad i gydraddoldeb a sut y byddwn yn cyflawni ein rhwymedigaethau a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Yn ystod haf 2023 buom yn gweithio gyda chydweithwyr yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru i gasglu barn pobl ar gydraddoldeb yn ein hardal leol. Rydym hefyd wedi defnyddio ffynhonnell dystiolaeth gyfoethog o ymgyrchoedd blaenorol a gynhaliwyd gan y cyngor a Llywodraeth Cymru, er enghraifft, ein Hasesiad o Lesiant Lleol (Mawrth 2022), ein Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant (Mehefin 2022) a Chynllun Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2022). Mae mwy o wybodaeth yn ein Hadroddiad Ymgysylltu 2023.

Rydym wedi adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb yn sgil ein hymgysylltu a'n hymchwil i gyflwr presennol cydraddoldeb yng Ngheredigion. Ein casgliad yw bod ein hamcanion yn dal yn addas i'r diben ond, oherwydd natur newidiol cymdeithas a'r gwaith yr ydym wedi'i wneud hyd yma, mae angen i ni ddiwygio'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion. Ein Hamcanion Cydraddoldeb yw:

1. Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol
2. Meithrin Perthynas Dda a Mynd i'r Afael â Rhagfarn
3. Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogi
4. Sicrhau Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau
5. Darparu Addysg Deg a Chynhwysol

## 2. Cefndir

### 2.1 Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

Nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yw sicrhau ein bod yn ystyried anghenion pob unigolyn wrth gyflawni ein gwaith o ddydd i ddydd, wrth ddatblygu polisi, wrth ddarparu gwasanaethau ac mewn perthynas â'r cyhoedd ac â'n gweithlu. Rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

1. Cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
2. Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt.

DRAFT

3. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt.

Mae’r Ddeddf Cydraddoldeb yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu os ydynt yn rhannu un neu ragor o’r ‘nodweddion gwarchodedig canlynol.

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred)
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae rhai pobl yn rhannu mwy nag un o'r nodweddion hyn. Gelwir hyn yn ‘groestoriadedd’. Gall effaith croestoriadedd amrywio, ac mae'n anodd ei fesur. Mae angen i ni fod yn ymwybodol o hyn pan fyddwn yn datblygu polisi, yn hybu cydraddoldeb ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu.

**2.2 Ymrwymiad i’r Gymraeg**

Mae hybu a defnyddio’r Gymraeg yn dod o dan ofynion Mesur y Gymraeg 2011 yn hytrach na’r Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, yng Ngheredigion rydym yn ystyried gofynion y Gymraeg ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn annog dull cydweithredol o weithredu o ran anghenion pob cymuned wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Mae Mesur y Gymraeg 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Rhaid i ni gynnig gwasanaethau Cymraeg i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt. Gelwir hyn yn ‘gynnig gweithredol’.

**2.3 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol**

Daeth y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru yn 2021. Ei nod yw gwella'r broses o wneud penderfyniadau a helpu'r rheini sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu bod â chynilion isel neu incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, gan ei gwneud yn anos cael gafael ar wasanaethau a chyfleoedd sylfaenol. Gall hyn arwain at anghydraddoldeb o ran canlyniadau, er enghraifft lefelau is o iechyd da, gwaith â chyflog is, cyrhaeddiad addysgol gwaeth a risg uwch o ddioddef trosedd.

Mae angen i ni ddeall sut y gall y penderfyniadau a wnawn gynyddu neu leihau cyfleoedd i bobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Gwnawn hyn gyda'n hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb sydd wedi'i gynnwys yn ein Teclyn Asesu Effaith Integredig.

### 2.4 Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus (Cymru)

Yn ogystal â chyflawni'r ddyletswydd gyffredinol, rhaid i gyrff cyhoeddus fel y cyngor gyflawni'r dyletswyddau penodol a ganlyn:


- Pennu Amcanion Cydraddoldeb a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Ymgysylltu â phobl mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig.
- Casglu a chyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol.
- Cyhoeddi gwybodaeth monitro cyflogaeth bob blwyddyn.
- Sicrhau bod ein gweithlu yn gwybod ac yn deall ein dyletswydd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.
- Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o bolisïau ac arferion perthnasol
- Mynd i'r afael â gwahaniaethau annheg rhwng cyflogau.
- Sefydlu amodau perthnasol i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol mewn prosesau caffael.
- Adolygu cynnydd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Hamcanion Cydraddoldeb.

## 3. Proffil Ceredigion

### 3.1 Dinasyddion Ceredigion

Mae gan Geredigion boblogaeth o 71,475. Pe gallem gywasgu ein poblogaeth i bentref o tua 100 o bobl, byddai:

DRAFT



- 51 o fenywod a 49 o wrywod.
- 14 o blant 15 oed neu iau a 6 o bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed.
- 54 o bobl rhwng 20 a 64 oed.
- 22 o bobl rhwng 65 ac 84 oed a 3 pherson 85 oed neu hŷn.
- 12 myfyriwr prifysgol (amcangyfrif yw hwn sy'n seiliedig ar Where do HE students study? | HESA)
- 1 person y mae ei rywedd bellach yn wahanol i'r hyn ydoedd pan gawsant eu geni. Byddai'n well gan 8 person beidio â dweud wrthych beth yw eu hunaniaeth o ran rhywedd.
- 5 o bobl sy’n hoyw, lesbiaidd, deurywiol, panrywiol, arywiol neu gwiar. Byddai'n well gan 10 o bobl beidio â dweud wrthych beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol.
- 4 o bobl o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig heb fod yn wyn.
- 46 o bobl sy'n Gristnogion, 2 berson sydd â chrefydd arall, 43 o bobl heb ddim crefydd. Byddai'n well gan 8 o bobl beidio â dweud wrthych am eu credoau neu ddiffyg credoau.
- 45 o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Byddai 7 o'r rhain yn 65 oed neu'n hŷn.
- 22 o bobl sy'n cael eu hystyried yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae 9 o'r bobl hyn yn cael llawer o anawsterau gyda'u gweithgareddau o ddydd i ddydd.
- 11 o bobl sy'n darparu gofal di-dâl i aelod o'u teulu neu ffrind.

*Ffynhonnell: SYG Proffil Cyfrifiad 2021 ar gyfer ardaloedd yng Nghymru a Lloegr - Nomis (nomisweb.co.uk)*

DRAFT

Pan fyddwn yn ystyried y ddelwedd hon o bobl Ceredigion yn cyd-fyw, mae’n hawdd gwerthfawrogi amrywiaeth ein poblogaeth a’r angen i ni gydnabod a deall hoffterau ac anghenion pawb. Mae'n bwysig bod grwpiau o bobl sydd wedi'u hymyleiddio ac nas clywir yn aml yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau a'u bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau.

### 3.2 Cyngor Sir Ceredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn gwneud ein gwaith yn unol â’r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrifo’n briodol, ac yn cael ei ddefnyddio’n effeithlon, ac yn effeithiol.

Rydym wedi ymrwymo i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn astudio yng Ngheredigion, ac sy’n ymweld â Cheredigion. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i nodi yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 sy'n disgrifio sut y bydd y cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau sydd o'i flaen ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol ar gyfer y cyfnod hwn yw:

1. Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
2. Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
3. Darparu’r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi i Bobl o Bob oed Ddysgu
4. Creu Cymunedau Cynaliadwy, Gwyrdd sydd â Chysylltiadau Da

Etholir Cynghorwyr Lleol gan y gymuned i benderfynu sut y dylai'r cyngor gyflawni ei weithgareddau. Maent yn cynrychioli budd y cyhoedd yn ogystal â buddiannau unigolion sy'n byw yn y ward y maent wedi'u hethol ynddi. Mae 38 o Gynghorwyr yn cynrychioli'r 34 ward etholiadol yng Ngheredigion.

Mae'r cyngor yn gyfrifol am ystod eang o wasanaethau, megis casglu sbwriel, glanhau strydoedd, cynllunio, addysg, gofal cymdeithasol, cynnal a chadw ffyrdd, iechyd y cyhoedd, amddiffyn plant, unigolion a theuluoedd sy’n agored i niwed, tai, hamdden, amgueddfeydd a llyfrgelloedd. Mae'r cyngor yn cyflogi 2,037 o bobl i ddarparu ein gwasanaethau.

Mae angen i'n holl wasanaethau gydweithio i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb. Mae ein Gweithgor Cydraddoldeb yn ein helpu i wneud hyn. Mae'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolydd o ystod o wasanaethau perthnasol ac yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro cynnydd ein gwaith ar gydraddoldeb ac i rannu arferion da ar draws gwasanaethau.

Isod mae ein Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2024-28 a’r camau y byddwn yn eu cymryd i fynd i’r afael ag anghydraddoldeb, cael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig a’r rheini nad ydynt yng Ngheredigion.

## 4. Ein Hamcanion Cydraddoldeb

### 4.1 Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol

Fel y cyflogwr mwyaf yn y sir, mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn croesawu ei gyfrifoldeb o hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth ar draws ein gweithlu ac arferion recriwtio.

Rydym yn cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i gyflogi gweithlu sy'n cynrychioli ein poblogaeth, a bod anghydraddoldebau o safbwynt cyflogaeth ar gyfer pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu lleihau.

Y pedwar grŵp uchaf a nododd ymatebwyr i'n harolwg rhanbarthol oedd â phrofiad gwaeth, neu waeth o lawer na'r boblogaeth gyfan o ran gwaith oedd pobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl hŷn (65+ oed) a phobl sy'n feichiog neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar.

Rydym yn hyderus bod dynion a menywod yn cael eu talu'n gyfartal am wneud swyddi cyfatebol ar draws y Cyngor. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae llai o fenywod mewn rolau uwch na dynion a chyfran uwch o fenywod o gymharu â dynion ar raddfeydd is.

Mae'n dra hysbys ac yn fater sy'n cael ei drafod yn aml bod llawer o bobl ifanc yn gadael y sir i fynd ar drywydd cyfleoedd mewn mannau eraill yng Nghymru neu ymhellach ledled y DU. Rydym yn rhagweld y bydd ein cynllun graddedigion a'n cynlluniau prentisiaeth yn helpu i fynd i'r afael â hyn.

"Mae cyfleoedd gwaith i bobl anabl yn symbolaidd ac nid yw cyrff cyhoeddus yn gwneud digon i ddyrchafu a recriwtio pobl anabl mewn cyflogaeth y tu hwnt i swyddi cyflog is. Mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae rhwystrau ychwanegol, megis yr angen i siarad Cymraeg sy'n gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl fyddar gan nad oes cyrsiau Cymraeg hygyrch i bobl fyddar yng Nghymru gyfan."

"I bob gwasanaeth cyhoeddus gael mwy o hyfforddiant gwrth-hiliol, cyflogi staff o gefndiroedd amrywiol, a gwybod y gall pobl dduon hefyd fod yn Gymry a pherthyn".

"Nid yw pobl o liw hyd yn oed yn cael cyfle."

*(Arolwg Cydraddoldeb Rhanbarthol, 2023)*

Rhaid i ni wneud yn siŵr bod ein gweithlu, yn enwedig staff sy'n delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau allweddol, yn deall anghenion amrywiol ein holl ddinasyddion ac yn cael digon o wybodaeth i allu ymateb i'r anghenion hyn.

**Camau i gyflawni'r Amcan Cydraddoldeb hwn**

**4.1.1 Byddwn yn cyhoeddi adroddiad bob blwyddyn o ran y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac yn cymryd camau i annog cymysgedd mwy cyfartal o ddynion a menywod mewn swyddi gradd is a gradd uwch.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod canran y bobl sy'n ymgeisio am swyddi, ac sy'n cael eu penodi, yn adlewyrchu demograffeg poblogaeth Ceredigion (Cyfrifiad 2021)

**4.1.2 Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol o ran cydraddoldeb y gweithlu ac yn cymryd camau i annog cynrychiolaeth gymesur yn ein gweithlu, yn enwedig yn y gweithlu gofal cymdeithasol ac mewn uwch reolwyr.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod canran y bobl sy'n ymgeisio am swyddi, ac sy'n cael eu penodi, yn adlewyrchu demograffeg poblogaeth Ceredigion (Cyfrifiad 2021)

**4.1.3 Byddwn yn adolygu polisïau adnoddau dynol a llenyddiaeth recriwtio fel eu bod yn adlewyrchu anghenion a hunaniaethau amrywiol y gymuned yr ydym yn byw ynddi.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod polisïau adnoddau dynol a llenyddiaeth recriwtio yn cael eu hadolygu a'u diweddaru lle bo'n briodol.

**4.1.4 Byddwn yn parhau i ddatblygu a darparu ystod o hyfforddiant o safbwynt ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Nifer cynyddol o staff, rheolwyr ac aelodau etholedig yn cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb.

**4.1.5 Byddwn yn hyrwyddo ein cynllun graddedigion ac yn datblygu dull cydgysylltiedig o weithredu o ran profiad gwaith a chyfleoedd prentisiaeth.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Nifer y cyfleoedd a gynigir o ran profiad gwaith, nifer y prentisiaid a recriwtiwyd, a nifer y graddedigion a recriwtiwyd o dan y cynllun graddedigion.

**4.1.6 Byddwn yn adeiladu ar ein gweithgareddau ymgysylltu â chyflogeion ac yn parhau i sicrhau bod lleisiau ein gweithlu i gyd yn sail i wneud penderfyniadau.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Canran y cyflogeion sy'n teimlo bod y Cyngor yn poeni am eu hiechyd a'u lles.

**4.2 Meithrin Perthynas Dda a Mynd i'r Afael â Rhagfarn**

Mae Cymorth i Ddioddefwyr wedi gweld cynnydd mawr yn y galw am ei wasanaethau cymorth troseddau casineb. Roedd y cynnydd hwn yn bennaf oherwydd digwyddiadau hiliol a homoffobig.

Tair prif thema'r 'gobeithion a dymuniadau' a fynegwyd yn nigwyddiad Balchder Aberystwyth ym mis Ebrill 2023 oedd 'cynhwysiant, derbyniad a diogelwch'.

Y pedwar grŵp uchaf a nododd ymatebwyr i'n harolwg rhanbarthol oedd â phrofiad gwaeth, neu waeth o lawer o gyd-dynnu yn y gymuned na'r boblogaeth gyfan oedd pobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl sy'n lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol a phobl drawsryweddol.

Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddathlu a gwella cynrychiolaeth pobl LHDTC+ a phobl dduon, Asiaidd a phobl o leiafrifoedd ethnig yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru.

Mae gwahaniaethu ar sail oedran yn sail i lawer o'r problemau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu ar hyn o bryd, gan arwain at bobl hŷn yn cael eu trin yn annheg, yn teimlo eu bod wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac nad yw eu hawliau'n cael eu parchu. Mae cymunedau oed-gyfeillgar yn herio gwahaniaethu ar sail oedran trwy ddod â phobl o wahanol oedran at ei gilydd a meithrin delweddau cadarnhaol o heneiddio.

"Mae hiliaeth a phroblemau casineb anabledd yn rhemp. Mae rhywiaeth yn rhemp ac mae'n anodd teimlo'n ddiogel".

*(Arolwg Cydraddoldeb Rhanbarthol, 2023)*

"Rhowch y gorau i ledaenu jôcs, beirniadaeth, gwahaniaethu, trais trawsffobig ac ati a dewch i weld normalrwydd unigolion traws."

*Dymunaf…*"I bobl beidio â theimlo cywilydd neu ofn byw fel eu hunan go iawn."

*(Balchder Aberystwyth, 2023)*

Mae ein teclyn Asesu Effaith Integredig yn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried effaith ein penderfyniadau ar bobl sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Mae hefyd yn ein helpu i nodi camau y gallwn eu cymryd i wella'r berthynas rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt.

**Camau i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn**

**4.2.1 Byddwn yn monitro'r defnydd a wneir o Asesiadau Effaith Integredig ac yn rhoi cyngor arnynt.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Nifer yr Asesiadau sy'n cyrraedd y safon ofynnol a gyflwynir gyda phapurau'r Cabinet / cyfanswm yr Asesiadau sydd eu hangen = % llwyddiant

**4.2.2 Byddwn yn gweithredu ar ein hymrwymiad i 'Siarter Troseddau Casineb' Cymorth i Ddioddefwyr ac yn defnyddio marc y Siarter Troseddau Casineb lle bo'n briodol.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Ein bod wedi ein rhestru fel partner gweithredol ar wefan Cymorth i Ddioddefwyr ac yn defnyddio marc ymddiriedaeth Troseddau Casineb ar ein gwefan, mewn ymgyrchoedd recriwtio a mannau priodol eraill.

**4.2.3 Byddwn yn sicrhau bod casgliadau perthnasol, yn enwedig rhai a ddefnyddir i gyflwyno'r cwricwlwm, yn dathlu amrywiaeth ac yn annog ymgysylltu gwrth-hiliol.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Canran y bobl sy'n cytuno bod eu hardal leol yn fan lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda *(Arolwg Cenedlaethol Cymru/Arolwg Blynyddol y Rhanddeiliaid)*

**4.2.4 Byddwn yn cefnogi'r tîm Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol i fonitro tensiynau mewn cymunedau.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Cynhelir cyfarfodydd aml-asiantaethol bob wythnos i fonitro tensiynau, a rhoddir sylw priodol i bryderon.

**4.2.5 Byddwn yn cefnogi'r tîm Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol i gyflwyno ymgyrch flynyddol yn y cyfryngau i hyrwyddo ymwybyddiaeth, dathlu amrywiaeth a choffáu digwyddiadau hanesyddol perthnasol.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Nifer yr ymgyrchoedd a hyrwyddir bob blwyddyn ar y cyfryngau.

**4.2.6 Byddwn yn ymuno â'r rhwydwaith o gymunedau Oed-gyfeillgar ac yn rhoi cynllun gweithredu ar waith sy'n adlewyrchu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Ein bod yn aelod o'r rhwydwaith o gymunedau Oed-gyfeillgar ac yn cyflawni amcanion y cynllun gweithredu.

**4.3 Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogi**

Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae trigolion Ceredigion yn ei wneud i'n helpu i ddatblygu a gwerthuso ein gwasanaethau. Rydym eisiau ei gwneud hi'n haws i bawb yng Ngheredigion gael llais, yn enwedig pobl sy'n cael eu tangynrychioli.

Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weld mwy o bobl sy'n cael eu tangynrychioli yn cymryd rhan mewn democratiaeth, gan gynnwys sefyll am swyddi etholedig. Hefyd rydym yn cefnogi uchelgais y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod o weld cyfartaledd dynion a menywod mewn gwleidyddiaeth.

Roedd y bobl a atebodd ein harolwg cydraddoldeb yn teimlo mai'r tri grŵp o bobl sy'n cael y profiad gwaethaf wrth ddylanwadu ar benderfyniadau yw pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl ifanc. Roeddent o'r farn mai dynion, pobl hŷn, a siaradwyr Cymraeg sydd â'r profiad gorau o ddylanwadu ar benderfyniadau, ond nodwyd bod pobl hŷn sydd ddim yn defnyddio'r we yn cael eu gadael allan yn fynych hefyd.

Mae gennym fwy o waith i'w wneud i hysbysu rhanddeiliaid fel eu bod yn deall yn well yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ac fel eu bod yn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch newid gwasanaethau. Mae angen i ni wneud hyn mewn ffyrdd amrywiol i wneud yn siŵr fod pawb yn cael cyfle i roi adborth a helpu i lunio gwasanaethau at y dyfodol.

"Mae pethau ar-lein fwyfwy ac mae yna raniad digidol sy'n effeithio'n wael, o bosib, ar bobl hŷn".

"Mae cyfarfodydd ymgynghori etc bron bob amser yn anghyfleus i bobl fyddar. Felly os na allwch chi fod yn bresennol, nid oes cyfle i gael dylanwad".

*(Arolwg Cydraddoldeb Rhanbarthol, 2023)*

"Mae'r rhan fwyaf o systemau gwneud penderfyniadau yn cael eu rhedeg gan bobl hŷn a phobl hŷn sy'n cyfrannu atyn nhw, felly mae'n gallu bod yn fyd caeëdig".

"O fy mhrofiad i, mae menywod yn cael eu hanwybyddu yn aml pan fyddant yn mynegi barn".

*(Arolwg Cydraddoldeb Rhanbarthol, 2023)*

**Camau i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn**

**4.3.1 Byddwn yn cefnogi rhaglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth leol a'r drefn leol o wneud penderfyniadau, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, menywod, pobl anabl, pobl LGBTQ+ a phobl o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod canran y menywod, pobl anabl, pobl LGBTQ+ a phobl o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol sy'n cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol a'r drefn leol o wneud penderfyniadau yn adlewyrchu demograffeg poblogaeth Ceredigion (Cyfrifiad 2021).

**4.3.2 Byddwn yn datblygu aelodaeth Fforwm Anabledd Ceredigion.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod presenoldeb yng nghyfarfodydd y Fforwm yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn a bod yr aelodau'n teimlo eu bod yn rhan o'r drefn leol o wneud penderfyniadau (cyfartaledd presenoldeb 2023 = 6 o bobl).

**4.3.3 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu fforwm rhanddeiliaid Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol fel y gallwn ddeall yn well enghreifftiau o arfer da.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Sefydlir fforwm rhanddeiliaid Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a bod yr aelodau'n teimlo eu bod yn rhan o'r drefn leol o wneud penderfyniadau.

**4.3.4 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu fforwm rhanddeiliaid LGBTQ+ fel y gallwn ddeall yn well enghreifftiau o arfer da.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Sefydlir fforwm rhanddeiliaid LGBTQ+ a bod yr aelodau'n teimlo eu bod yn rhan o'r drefn leol o wneud penderfyniadau.

**4.3.5 Byddwn yn datblygu ac yn gwella ein defnydd o blatfformau ymgysylltu ar-lein a'n defnydd o ddulliau ymgysylltu sydd ddim yn ddigidol.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod ein pecyn ymgysylltu yn cael ei ddatblygu a'i hyrwyddo. Bod yr Adroddiad Blynyddol ar Ymgysylltu yn adlewyrchu'r dulliau ymgysylltu gwell ac yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet.

**4.3.6 Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn rhoi adborth i'r rheiny sydd wedi cymryd rhan yn ein hymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod ein pecyn ymgysylltu yn cael ei ddatblygu a'i hyrwyddo. Bod yr Adroddiad Blynyddol ar Ymgysylltu yn adlewyrchu'r adborth ac yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet.

**4.4 Sicrhau Urddas, Parch a Mynediad at Wasanaethau**

DRAFT

Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cynnwys anghenion penodol pobl LGBTQ+ a phobl o gefndiroedd ethnig gwahanol, p'un a ydynt yn siarad Cymraeg, Saesneg neu ieithoedd eraill.

Mae ein Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (Mehefin 2022) yn cydnabod bod gofal plant i blant anabl yng Ngheredigion yn gyfyngedig iawn a'i bod hi'n anodd dod o hyd i leoliadau gofal plant lle mae'r staff wedi'u hyfforddi'n drwyadl ac â phrofiad o weithio gyda phlant anabl.

Roedd ein Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (Mehefin 2022) yn cydnabod bod yna angen am gyfleoedd chwarae yn y Gymraeg ac am weithgareddau ar gyfer un rhyw yn achos plant dros ddeg oed lle bo'u crefydd/diwylliant yn mynnu nad ydynt yn cymysgu.

Roedd ein Asesiad o Lesiant Lleol (Mehefin 2022) yn cydnabod bod angen mwy o ddarpariaeth tai ar gyfer pobl hŷn, a thai â gofal arferol a gofal nyrsio, er mwyn diwallu anghenion pobl hŷn a'u dyhead i aros yn annibynnol a byw yn eu cartref.

Y prif bwnc a drafodwyd yng nghyfarfodydd Fforwm Anabledd Ceredigion yn ystod 2022-23 oedd traffig a'r trefniadau parcio yn nhrefi Ceredigion. Roedd y bobl a atebodd ein harolwg cydraddoldeb yn teimlo bod pobl anabl yn cael profiad llawer gwaeth na gweddill y boblogaeth o ran defnyddio trafnidiaeth a chael mynediad i'r arfordir a'r cefn gwlad.
Roedd y sawl a atebodd ein harolwg cydraddoldeb o'r farn fod pobl anabl yn cael profiad gwaeth, neu lawer gwaeth, na gweddill y boblogaeth o ran defnyddio gwasanaethau. Y carfanau a oedd fwyaf o dan anfantais wedyn oedd pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl hŷn.

Rydym eisiau cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ym mhob elfen o fywyd cyhoeddus Ceredigion er mwyn i bobl fedru byw, dysgu, perthyn a llwyddo drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Camau i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn**

"Dim gofal plant ar gael i blant a phobl ifanc anabl yng Ngheredigion naill ai yn ystod y tymor neu yn y gwyliau".

*(Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, 2022)*

"Cydbwyso'r angen i gadw'r Gymraeg yn fyw gydag anghenion pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg".

"Nid yw hygyrchedd wedi'i wreiddio wastad mewn systemau ar-lein a gall hyn beri anhawster i bobl â gwahanol anableddau".

"Rwy'n 'nabod pobl sydd heb y we o gwbl ac rwy'n gweld eu bod nhw wedi cael eu gadael allan dipyn o lawer o wybodaeth".

"Fel menyw wen mewn perthynas â menyw ddu rwyf wedi profi aflonyddu ar drafnidiaeth gyhoeddus yn y gorffennol ac rwy'n ceisio peidio defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus nawr os oes modd".

"Bydden i'n dwlu cael mynediad i'r cefn gwlad ond nid yw'r rhan fwyaf o hwnna chwaith yn hwylus i bobl anabl".

"Anghofir am bobl hŷn ac anabl ac nid ydynt yn cael eu cynnwys wrth wneud gwaith uwchraddio digidol. Gwneir awgrymiadau anymarferol ac maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl a'u cau allan".

*(Arolwg Cydraddoldeb Rhanbarthol, 2023)*

**4.4.1 Byddwn yn parhau i fwrw ati i hyrwyddo'r cyfleoedd i ddatblygu Cymraeg Gwaith i ddiwallu anghenion ein gwasanaethau a chefnogi ein diwylliant dwyieithog.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Nifer y gweithwyr sydd wedi gwella eu sgiliau Cymraeg (ar y continwwm).

**4.4.2 Byddwn yn parhau i gynnig cyfleoedd cynhwysol ac arbenigol i blant a phobl ifanc anabl gael chwarae a gwneud gweithgareddau corfforol.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Nifer y cyfleoedd cynhwysol ac arbenigol a gynigir neu a ariennir gan y Cyngor a nifer y plant a phobl ifanc anabl sy'n mynychu.

**4.4.3 Byddwn yn parhau i gefnogi darpariaeth gofal plant gynhwysol ac arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Nifer y llefydd gofal plant cynhwysol ac arbenigol a gynigir neu a ariennir gan y Cyngor a nifer y plant a phobl ifanc anabl sy'n mynychu.

**4.4.4 Byddwn yn sefydlu model integredig o ofal cymunedol a thai yn Nhregaron.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Mae prosiect Cylch Caron wedi'i gwblhau.

**4.4.5 Byddwn yn ystyried anghenion pobl anabl wrth gynnal a chadw neu wella palmentydd a ffyrdd (er enghraifft, cyrbiau is a pharcio i'r anabl).**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod yr holl waith cynnal a chadw a gwelliannau i balmentydd a ffyrdd yn dilyn canllawiau'r Adran Drafnidiaeth parthed symudedd cynhwysol.

**4.4.6 Byddwn yn anelu at gyflawni sgôr o AAA ar gyfer ein gwefan.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod dogfennau pdf ddim yn cael eu defnyddio mwyach fel y prif ddull o ddiweddaru gwybodaeth ar ein gwefan.

**4.4.7 Byddwn yn parhau i ddatblygu ein ffyrdd o gyfathrebu â'r cyhoedd.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod ein pecyn Ymgysylltu yn cael ei ddiweddaru, yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd a rhoddir hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio.

**4.4.8 Byddwn yn darparu tai sy'n diwallu anghenion ein cymunedau.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Tystiolaeth o'r angen o ran tai a nifer y cleientiaid o grwpiau penodol a ailgartrefir mewn llety addas.

**4.4.9 Byddwn yn adolygu ein Strategaeth Toiledau fel ei bod yn adlewyrchu anghenion poblogaeth sy'n newid, lle bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol bosib.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod y Strategaeth Toiledau ddiweddaredig yn adlewyrchu anghenion pobl ag anableddau a phobl â hunaniaethau rhywedd amrywiol.

**4.4.10 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu atebion cynaliadwy a fforddiadwy o ran teithio.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith sy'n galluogi mynediad priodol i'n gwasanaethau.

**4.4.11 Byddwn yn sicrhau bod egwyddorion Safonau'r Gymraeg yn sail i'r ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau i'r cyhoedd, fel bod defnyddwyr gwasanaethau yn gallu defnyddio'r gwasanaethau hyn drwy'r Gymraeg yn naturiol, os mai dyna'u dewis.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod Comisiynydd y Gymraeg yn barnu bod ein Hadroddiad Cydymffurfio yn foddhaol.

**4.5 Darparu Addysg Deg a Chynhwysol**

DRAFT

Rhaid inni wneud yn siŵr fod plant, pobl ifanc, ac oedolion Ceredigion yn cael mynediad teg a chyfartal i addysg. Mae gan bawb yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu, bwlio a chamdriniaeth mewn lleoliadau addysgol, gan gynnwys rhai dysgu gydol oes ac addysg bellach.

Roedd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwethaf yn cynnwys cam gweithredu i roi Canllawiau Gwrth-fwlio 2020 Llywodraeth Cymru ar waith. Mae'r canllawiau wedi'u diweddaru i adlewyrchu dyheadau cynllun gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru ac mae angen inni wneud yn siŵr fod ein hysgolion i gyd yn gweithredu'r fersiwn ddiweddaredig.

Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi pobl ifanc LGBTQ+ a mynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig, ac i weithredu dull ysgol gyfan sy'n gwbl gynhwysol o LGBTQ+.

Yn ôl yr ymatebwyr i'n harolwg rhanbarthol, y tri grŵp sy'n cael profiad o fyd addysg sy'n waeth, neu lawer gwaeth, na'r boblogaeth gyffredinol yw pobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig, a phobl sy'n feichiog neu sydd newydd roi genedigaeth.

"Gwneud yr ysgol yn lle gwell a stopio bwlis".
*Gŵyl Plant a Phobl Ifanc, 2023*

"Mynnu bod ysgolion yn caniatáu clybiau Pride/ clybiau hunaniaethau eraill. Dim mynnu eu bod yn creu rhai, dim ond bod hawl ganddynt i'w cael nhw".
*Pride Aberystwyth, 2023*

"Er ei bod hi'n ysgol cyfrwng Cymraeg, mae'r plant yn siarad Saesneg gyda'u ffrindiau – mae'n dorcalonnus ein bod yn mynd â'n plant i ysgol Gymraeg a'u bod nhw wedyn yn siarad Saesneg."

"Gyda'r cyllid yn fach, mae cael cymorth i ddisgyblion ag anabledd ym myd addysg yn gallu bod yn her".

*Arolwg Cydraddoldeb, 2023*

**Camau i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn**

**4.5.1 Byddwn yn mabwysiadu ac yn gweithredu canllawiau trawsryweddol cenedlaethol Llywodraeth Cymru.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod y Cabinet yn cymeradwyo mabwysiadu'r canllawiau trawsryweddol cenedlaethol a'u bod yn cael eu rhoi ar waith yn ysgolion Ceredigion.

**4.5.2 Byddwn yn anelu at sicrhau bod Cyrff Llywodraethu Ysgolion yn cynrychioli rhychwant amrywiaeth y disgyblion a geir yn y lleoliad addysg.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Canran y cyrff llywodraethu ysgolion y mae eu haelodau yn adlewyrchu amrywiaeth y disgyblion a geir yn y lleoliad.

**4.5.3 Byddwn yn sicrhau bod y polisïau gwrth-fwlio mewn ysgolion a lleoliadau addysg yn adlewyrchu fersiwn ddiweddaredig Llywodraeth Cymru o'r canllawiau gwrth-fwlio, 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb'.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod y Cabinet yn cymeradwyo mabwysiadu canllawiau gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru a'u bod yn cael eu rhoi ar waith yn ysgolion Ceredigion.

**4.5.4 Byddwn yn gweithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod y gwaith o weithredu'r cynllun yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd a bod adroddiadau monitro yn cael eu cymeradwyo gan y Cabinet.

**4.5.5 Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth addysgol a'r canlyniadau i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant heb ADY a'r rheiny gydag ADY.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Bod yr holl ddisgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd priodol a bod tystiolaeth o hyn drwy gyfrwng data ar gyrhaeddiad disgyblion ADY ym mhob cyfnod allweddol.

**4.5.6 Byddwn yn parhau i gefnogi pobl hŷn a phobl anabl i fanteisio ar dechnolegau digidol, ac i gydnabod manteision bod ar-lein.**

**Sut fyddwn yn mesur llwyddiant:**

Nifer y bobl dros 50 oed a nifer y bobl ag anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol sy'n cofrestru gyda Dysgu Bro ar gyfer dosbarth/gweithdy ar lythrennedd digidol.

## 5. Casgliad

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft hwn yn awr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu er mwyn cael adborth cyn ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Hydref 2023.

Unwaith y bydd wedi ei gymeradwyo, bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ar y cynllun drafft yn ystod y gaeaf, 2023. Pan ddaw'r ymgynghoriad cyhoeddus i ben ac y gwneir unrhyw newidiadau gofynnol, bydd y cynllun terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu er mwyn cael adborth cyn ei gyflwyno gerbron Cabinet Cyngor Ceredigion ym mis Chwefror 2024.

Bwriedir cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2024-28 ar ein gwefan erbyn y 1af o Ebrill 2024.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Asesiad Cydraddoldeb Ceredigion 2023

## Adroddiad dadansoddi yn dilyn yr ymgyrch ymgysylltu



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Cynnwys


1. Y Dull ..... 2

2. Ymatebion i'r Arolwg Cydraddoldeb ..... 5

3. Sylwadau a phrofiad bywyd ..... 9

- 3.1 Addysg ..... 9
- 3.2 Gwaith a Lefelau Cyflog ..... 10
- 3.3 Safonau Byw ..... 11
- 3.4 Iechyd ..... 13
- 3.5 Trosedd a Mynediad at Gyfiawnder ..... 14
- 3.6 Dylanwadu ar benderfyniadau ..... 15
- 3.7 Mynediad at Wybodaeth a Gwasanaethau Digidol ..... 16
- 3.8 Cyd-dynnu yn y gymuned ..... 16
- 3.9 Effaith digwyddiadau ers yr arolwg cydraddoldeb diwethaf yn 2019 ..... 17

4. Casgliad ..... 18

# 1. Y Dull

Cynhaliwyd ymgyrch ymgysylltu ranbarthol i gasglu adborth cychwynnol ynglŷn â chydraddoldeb yn ardal Dyfed Powys. Cynhaliwyd yr ymgyrch rhwng 22 Mai 2023 a 2 Awst 2023.

Mae grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys Cynghorau Sir Ceredigion, Powys, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cynghorau Gwirfoddol pob sir (CAVO, CAVS, PAVO a PAVS), Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Aberystwyth ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog.

Gyda'n gilydd fe wnaethom ni greu arolwg (a oedd ar gael yn Gymraeg, Saesneg, Wcreineg, Rwsieg, Pwyleg a Rwmaneg ac ar ffurf Hawdd ei Ddeall) a phoster dwyieithog. Gwahoddwyd pobl i gwblhau'r arolwg ar-lein neu i ofyn am gopi papur yn ein llyfrgelloedd a'n canolfannau hamdden neu drwy'r post trwy wasanaeth Clic.

Yng Ngheredigion anfonwyd neges e-bost at y rhestr isod o randdeiliaid gan gynnwys dolen i'r wybodaeth ar-lein a chopïau o'r arolwg a'r poster. Gofynnwyd i bawb gwblhau'r arolwg, arddangos y poster a rhannu'r wybodaeth gyda'u rhwydweithiau. Gofynnwyd iddynt gysylltu â ni os byddai angen copïau o'r arolwg arnynt neu os byddai angen anfon poster atynt.

Rhestr rhanddeiliaid Cyngor Sir Ceredigion:

- Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (105 o aelodau)
- Grŵp Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae (42 o aelodau)
- Gweithgor Cydraddoldeb Cyngor Ceredigion (46 aelod)
- Cynghorwyr Sir Ceredigion
- Clercod Cynghorau Tref a Chymuned Ceredigion
- Aelodau'r Fforwm Anabledd (55 unigolyn/grŵp drwy e-bost ynghyd â 199 trwy eu tudalen ar Facebook)
- Coleg Ceredigion
- Hyfforddiant Ceredigion
- Grŵp Lleisiau Mamolaeth y Bwrdd Iechyd
- Gwasanaethau ysgolion

Cafodd y wybodaeth ei rhoi ar safle MS Teams y Cyngor Ieuenctid ac ar safle MS Teams staff Cyngor Ceredigion. Fe'i hyrwyddwyd hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy ddatganiad i'r wasg ar 25/05/2023.

Fodd bynnag, nid ydym yn dibynnu ar yr arolwg ar-lein yn unig. Mae gennym ffynhonnell dda o dystiolaeth yn dilyn ymgyrchoedd ymgysylltu blaenorol a gynhaliwyd gan Gyngor Ceredigion a Llywodraeth Cymru. Mae'r data hwn wedi cyfrannu at y gwaith o adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb presennol a datblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-28.

Casglwyd llawer o wybodaeth ansoddol yn sgil y sylwadau a gyflwynwyd yn yr arolwg ar-lein. Casglwyd rhagor o ddatganiadau yn nigwyddiad 'Pride' Aberystwyth ym mis Ebrill 2023 ac yng Ngŵyl Plant a Phobl Ifanc Ceredigion ym mis Awst 2023.

Cafwyd trafodaethau hefyd yn ystod cyfarfodydd gyda'r Fforwm Anabledd a'r Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ym mis Gorffennaf 2023. Gallwch chi weld detholiad o'r sylwadau hyn yn Adran 3.

**Ymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori lleol perthnasol**

- Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (Mehefin 2022)
- Asesiad o Ddigonolrwydd Chwarae (Mehefin 2022)
- Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion (Mawrth 2022)
- Hunanasesiad Oed-gyfeillgar Ceredigion (2022-23)

**Ymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori cenedlaethol perthnasol**

- Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol | GOV. CYMRU (Gorffennaf 2022)
- Cynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru (Chwefror 2023)

Mae gweithgor Cydraddoldeb Strategol Ceredigion yn cyfarfod yn rheolaidd. Rydym wedi trafod ein hymateb lleol i Gynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru. Rydym wedi nodi'r camau y mae angen eu cymryd i ddangos ein hymrwymiad i Siarter Troseddau Casineb, Cymorth i Ddioddefwyr, y gwnaeth y Cyngor ymrwymo iddo yn 2022. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith ar rai o'r camau gweithredu yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi mynegi pryderon penodol am y ddibyniaeth gynyddol ar ddulliau cyfathrebu ar-lein am nad oes gan lawer o bobl hŷn fynediad atynt.

Rydym hefyd wedi ystyried adborth gan 170 o blant ac 84 o rieni mewn sesiynau chwarae yng Ngheredigion ynghylch ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Dlodi Plant. Gofynnwyd iddynt, "Pa dri pheth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i blant a'u teuluoedd, yn awr ac yn y dyfodol?" Yr ymateb pennaf oedd, "help gyda chostau bwyd, tanwydd a thai" a'r ail ymateb mwyaf poblogaidd oedd "cael eu trin â pharch waeth beth fo'u hoedran, rhyw, anabledd neu ethnigrwydd."


## 2. Ymatebion i'r Arolwg Cydraddoldeb

Cwblhaodd 237 o ymatebwyr yr arolwg cydraddoldeb rhanbarthol. Roedd 72 o'r ymatebion o Geredigion. Roedd 67 o'r rhain gan unigolion a 5 oddi wrth sefydliadau (Partneriaeth Natur Lleol Ceredigion, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Tref Llandysul a Chynghorau Cymuned Llangwyryfon a Llanrhystud). Ni chafwyd unrhyw gopïau papur.


Roedd 73 ymateb o Sir Gaerfyrddin, 28 o Bowys, 60 o Sir Benfro, 3 o Abertawe ac 1 o ardal 'Hywel Dda'.

Ar gyfartaledd, 0.7% yw'r gyfradd ymateb ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus yn y DU. Roedd ymateb Ceredigion i'r arolwg yn is (0.1% o'r boblogaeth). Fodd bynnag, roedd y gyfradd ymateb gan bobl sy'n rhannu nodweddion a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb yn gyffredinol uwch na'r boblogaeth yn gyffredinol. Gallwch weld enghreifftiau yn y graffiau isod.


*Ffigur 1.*





*Ffigur 2.*




*Ffigur 3.*




*Ffigur 4.*




*Ffigur 5.*



Gofynnodd ein harolwg cydraddoldeb rhanbarthol a oedd pobl yn teimlo bod grwpiau penodol o bobl wedi cael gwell profiad neu waeth profiad na'r boblogaeth yn gyffredinol mewn chwe agwedd ar fywyd.

**Dyma'r grwpiau penodol:**

- Pobl anabl
- Pobl o leiafrif ethnig
- Lesbiaid, pobl hoyw neu ddeurywiol
- Pobl anneuaidd
- Pobl drawsrywiol
- Pobl ifanc (25 oed neu'n iau)
- Pobl hŷn (65 oed neu'n hŷn)
- Menywod
- Dynion
- Pobl sengl
- Pobl sydd mewn perthynas
- Cymry Cymraeg
- Pobl sy'n feichiog neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar
- Aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog

**Dyma'r chwe agwedd ar fywyd a oedd dan sylw:**

1. Addysg
2. Gwaith a lefelau cyflog
3. Safonau byw (mynediad at ofal a chymorth, tai, trafnidiaeth a hamdden)
4. Iechyd
5. Troseddau a mynediad at gyfiawnder
6. Cymryd rhan (mynediad at wybodaeth, dylanwadu ar benderfyniadau, cyd-dynnu yn y gymuned)

Mae'r tabl isod yn dangos y 3 grŵp yr oedd y bobl a atebodd ein harolwg yn teimlo bod ganddynt brofiad gwaeth neu lawer gwaeth o'r chwe agwedd ar fywyd.

Y grwpiau a oedd yn ymddangos amlaf yn y tri chategori uchaf oedd:

- Pobl anabl (14 waith)
- Pobl o leiafrif ethnig (11 waith)
- Pobl hŷn (6 waith)
- Pobl drawsrywiol a phobl sy'n feichiog/wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar (4 waith)
- Pobl ifanc (3 waith),
- Lesbiaid, pobl hoyw neu bobl ddeurywiol (ddwywaith)
- Menywod (unwaith)

| Y Chwe Agwedd ar Fywyd | | Profiad gwaeth neu lawer gwaeth |
|---|---|---|
| **Addysg** | **1** | Bod yn anabl |
| | **2** | Bod o leiafrif ethnig |
| | **3** | Bod yn feichiog/wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar |
| **Gwaith** | **1** | Bod yn anabl |
| | **2** | Bod o leiafrif ethnig a bod yn berson hŷn (65+) |
| | **3** | Bod yn feichiog/wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar |
| **Lefelau cyflog** | **1** | Bod yn berson ifanc (dan 25 oed) |
| | **2** | Bod yn anabl |
| | **3** | Bod yn fenyw |
| **Mynediad at ofal a chymorth** | **1** | Bod yn anabl |
| | **2** | Bod o leiafrif ethnig |
| | **3** | Bod yn drawsrywiol |
| **Tai** | **1** | Bod yn anabl |
| | **2** | Bod o leiafrif ethnig |
| | **3** | Bod yn berson ifanc (dan 25 oed) |
| **Mynediad i Drafnidiaeth** | **1** | Bod yn anabl |
| | **2** | Bod yn berson hŷn (65+) |
| | **3** | Bod yn feichiog/wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar |
| **Hamdden a mynediad i'r arfordir a chefn gwlad** | **1** | Bod yn anabl |
| | **2** | Bod yn berson hŷn (65+) |
| | **3** | Bod yn feichiog/wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar |
| Will the proposal have an | Positive | Negative | None/ | | | |

Tudalen 161

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| effect on opportunities for persons to use the Welsh language? | | | Negligible | The plan includes actions to promote our work Welsh development opportunities, to ensure that service users are able to access services in the Welsh language and to implement our Welsh in Education Strategic Plan 2022-32. | As above | |
| | ✓ | | | | | |
| Will the proposal increase or reduce the opportunity for persons to access services through the medium of Welsh? | Positive | Negative | None/ Negligible | As above | As above | |
| | ✓ | | | | | |
| How will the proposal treat the Welsh language no less favourably than the English language? | Positive | Negative | None/ Negligible | The plan and annual reports will be published in Welsh and in English.<br><br>Council services are delivered bilingually.<br><br>Our corporate Equality workgroup meetings are held bilingually with simultaneous translation. | As above | |
| | ✓ | | | | | |
| Will it preserve promote and enhance local culture and heritage? | Positive | Negative | None/ Negligible | The services that will be provided will be promoted bilingually, in line with our Welsh Language Policy Statement. | As above | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Work Welsh development opportunities and the Welsh in Education Plan 2022-32 will help the promotion of the Welsh language.<br>The plan will increase opportunities for disabled children and young people to take part in sport, art and recreation activities.<br>We hope that our local culture and heritage will be enhanced by ensuring that relvent collections celebrate diversity. | | |

**4. STRENGTHENING THE PROPOSAL:** If the proposal is likely to have a negative impact on any of the above (including any of the protected characteristics), what practical changes/actions could help reduce or remove any negative impacts as identified in sections 2 and 3?

**4.1 Actions.**

| What are you going to do? | When are you going to do it? | Who is responsible? | Progress |
|---|---|---|---|
| We will deliver the Strategic Equality plan 2024-28 | March 2024 - April 2028 | Ceredigion County Council | |
| | | | |
| | | | |

**4.2. If no action is to be taken to remove or mitigate negative impacts please justify why.**
*(Please remember that if you have identified unlawful discrimination, immediate and potential, as a result of this proposal, the proposal must be changed or revised).*

The two negative impacts that have been identified are on men and people who are white. The intention of the plan is to increase the diversity of the workplace and of people who take part in local politics and decision making. If the plan is successful, fewer white people and fewer men will be in these positions.

| |
|---|
| This negative impact must be accepted if we are to achieve improved gender equality and equality of race/ethnicity. |
| **4.3. Monitoring, evaluating and reviewing.**<br>*How will you monitor the impact and effectiveness of the proposal?* |
| The Corporate Equalities Workgroup will meet three times each year to monitor the impact and effectiveness of the plan. Annual monitoring reports will be submitted to Scrutiny and Cabinet and published on our website. |

**5. RISK:** What is the risk associated with this proposal?

| Impact Criteria | 1 - Very low | 2 - Low | 3 - Medium | 4 - High | 5 - Very High |
|---|---|---|---|---|---|
| Likelihood Criteria | 1 - Unlikely to occur | 2 - Lower than average chance of occurrence | 3 - Even chance of occurrence | 4 - Higher than average chance of occurrence | 5 - Expected to occur |

| Risk Description | Impact (severity) | Probability (deliverability) | Risk Score |
|---|---|---|---|
| Failure to comply with the Equality Act | **5** | **1** | **5** |
| | | | |

Does your proposal have a potential impact on another Service area?

Equality is a cross-cutting theme across all council services. The Strategic Equality plan has a positive impact on service areas in terms of strategically mainstreaming and delivering on our Equality Duty.

**6. SIGN OFF**

| Position | Name | Signature | Date |
|---|---|---|---|
| Service Manager | Diana Davies | | |
| Corporate Lead Officer | Alun Williams | | |
| Strategic Director | Barry Rees | | |
| Portfolio Holder | Cllr Catrin M S Davies | | |

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **11/09/2023** |
| **LLEOLIAD:** | **Siambr y Cyngor, Penmorfa** |
| **TEITL:** | Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-23 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Disgrifio'r cynnydd wrth gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb a geir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-24. |
| **Y RHESWM PAM MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | I fonitro cynnydd y Cyngor wrth leihau anghydraddoldeb yng Ngheredigion ac wrth gwrdd â'i ddyletswyddau parthed Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011. |

**Y CEFNDIR:**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ystyried anghenion pob unigolyn wrth i'r awdurdodau gyflawni eu gwaith bob dydd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Penodol i Gymru sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor bennu Amcanion Llesiant mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac mae'n rhaid adolygu'r cynllun bob pedair blynedd.

Mae'r modd y caiff y Gymraeg ei hybu a'i defnyddio yn cael sylw ym Mesur y Gymraeg 2011 yn hytrach nag yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, rydym yn ystyried gofynion y Gymraeg ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb fel bod gennym ddull cydlynus o fodloni anghenion cyfathrebu pob cymuned.

Mae cynllun gweithredu'n sicrhau bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 y Cyngor yn cael ei gyflawni, a chaiff ei rannu yn bum Amcan Cydraddoldeb sef:

1. **Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol**
2. **Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn**
3. **Ymgysylltu a Chyfranogi**
4. **Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau**
5. **Addysg Deg a Chynhwysol**

Gellir gweld y cynllun a'r dogfennau cysylltiedig yma: Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion - Cyngor Sir Ceredigion.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL**

Dyma’r trydydd adroddiad blynyddol ynghylch hynt ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. Mae’n amlinellu’r cynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran ei Amcanion Cydraddoldeb rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023.
Dengys y system lliwiau (BRAG) ba mor dda y mae cam gweithredu’n perfformio neu’n cael ei gyflawni.

- Glas: Cam gweithredu wedi’i gwblhau
- Coch: Cam gweithredu heb ddechrau / pryderon na fydd y cam gweithredu’n cael ei gwblhau
- Oren: Cam gweithredu ychydig ar ei hôl hi
- Gwyrdd: Cam gweithredu yn mynd rhagddo yn ôl y cynllun

| Ffigurau 2022/23 | | Glas | Coch | Oren | Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyflogwr Cyfle Cyfartal | 1 | 0 | 2 | 5 |
| 2 | Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i’r Afael â Rhagfarn | 1 | 0 | 0 | 5 |
| 3 | Ymgysylltu a Chyfranogiad | 1 | 0 | 4 | 7 |
| 4 | Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau | 3 | 0 | 4 | 10 |
| 5 | Addysg Deg a Chynhwysol | 2 | 0 | 0 | 9 |

**Dyma’r camau gweithredu Oren:**

1. Byddwn yn parhau i hyrwyddo a gweithredu cynllun Hyderus o ran Anabledd (sy’n croesawu ceisiadau gan bobl anabl gan ymrwymo i wneud addasiadau yn y gweithle).

2. Byddwn yn gweithio tuag at leihau gwahaniaethu rhwng y rhywiau a diffyg cynrychiolaeth ar gyfer lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl mewn prentisiaethau, gan gynnwys gweithio gyda’n contractwyr i gynnwys buddion cymunedol fel elfen graidd ym mhob un o gontractau caffael perthnasol y Cyngor.

3. Byddwn yn ymgysylltu â phobl Ceredigion gan gynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig, ac yn cysylltu â grwpiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

4. Byddwn yn parhau i gefnogi Fforwm Anabledd Ceredigion.

5. Byddwn yn monitro ac yn cynghori ynghylch Asesiadau Effaith Integredig.

6. Byddwn yn mabwysiadu egwyddorion Siarter Anableddau Dysgu *Dream Team.*

7. Prosiect Cylch Caron – byddwn yn sefydlu gofal yn y gymuned sy’n addas i’r diben er mwyn ateb anghenion iechyd a thai.

8. Byddwn yn ystyried anghenion pobl anabl wrth gynnal a chadw neu wella palmentydd a ffyrdd (er enghraifft, cyrbiau is).

9. Byddwn yn parhau i gefnogi clybiau chwaraeon cymunedol er mwyn iddynt gyflawni Safon Anabledd Insport.

10. Byddwn yn datblygu gweledigaeth ar gyfer Ceredigion Actif gan ennill safon aur Insport.

**Uchafbwyntiau 2022/23**

- Mae nifer y staff sydd wedi mynychu hyfforddiant ar gydraddoldeb wedi cynyddu'n sylweddol. Yn 2020-21, cwblhaodd 514 o staff fodiwlau e-ddysgu a threfnwyd pedair sesiwn hyfforddiant. Yn 2022-23 cwblhaodd 4,021 o staff fodiwlau e-ddysgu a threfnwyd 28 o sesiynau hyfforddiant.

- Manteisiodd mwy o bobl ar y pasbortau i ofalwyr sy'n rhoi pum diwrnod ychwanegol o wyliau blynyddol â thâl i ofalwyr di-dâl. Mae'r polisi interim Gweithio Hybrid wedi caniatáu i'r rhan fwyaf o'r staff corfforaethol weithio mewn ffordd fwy hyblyg. Mae'n bwysig inni gadw talent yn ein gweithlu ac rydym yn gweithio'n galed er mwyn bod yn hyblyg o ran sut rydym yn gwneud ein gwaith.

- Gwnaeth y Cabinet gefnogi Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr yn Nhachwedd 2022. Byddwn yn cydweithio gyda Chymorth i Ddioddefwyr yn 2023-24 i roi camau ar waith a fydd yn caniatáu inni fod yn bartner gweithredol.

- Mae ein Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi wedi cael ei adolygu. Fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Hydref 2022 ac fe'i cyhoeddwyd ar ein gwefan. Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn craffu ar yr adroddiadau monitro cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet.

- Cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus – 'Pawb a'i Farn Ceredigion 2022' – a roddodd gyfle i aelodau'r Cyngor Ieuenctid drafod materion pwysig gyda Ben Lake AS, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion, ein Prif Swyddog Addysg, a Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod o'r Cabinet dros Lesiant Gydol Oes - y Cynghorydd Alun Williams. Digwyddiad blynyddol yw hwn.

- Cynyddodd canran y Cynghorwyr Sir benywaidd o 12% i 24% yn dilyn yr etholiad ym mis Mai ac is-etholiad Llanbedr Pont Steffan ym mis Hydref. Mae canran yr Aelodau benywaidd sydd newydd eu hethol yn sylweddol uwch sy'n dangos y camau cadarnhaol tuag at gyflawni amrywiaeth mewn democratiaeth.

- Mae nifer y camau gweithredu sydd ar eu hôl hi wedi gostwng o 14 i 10. Nid oes yr un o'r camau gweithredu wedi'u marcio'n Goch. Mae nifer y camau gweithredu a gwblhawyd wedi cynyddu o 3 i 8.

Am ragor o wybodaeth gweler Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Mawrth 2022 i Ebrill 2023, sydd ynghlwm ar ffurf Atodiad 1.

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam** | Naddo, gan nad yw'r adroddiad hwn yn ymwneud â pholisi newydd na newid i wasanaeth. |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | **Ddim yn berthnasol** |
| | **Integreiddio:** | **Ddim yn berthnasol** |
| | **Cydweithio:** | **Ddim yn berthnasol** |
| | **Cynnwys:** | **Ddim yn berthnasol** |
| | **Atal:** | **Ddim yn berthnasol** |

**ARGYMHELLION:**

Derbyn a chymeradwyo Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2022-23 a gwneud argymhellion - fel y bo'n briodol - pan gyflwynir yr adroddiad i'r Cabinet ar 03/10/2023.

**RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION:**

Mae'n ofyniad o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ein bod yn llunio Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022/23 ac yn ei gyhoeddi ar ein gwefan erbyn 31/03/24.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Cathryn Morgan |
| **Swydd:** | Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 21/08/2023 |
| **Acronymau:** | |

# Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# Ebrill 2022 - Mawrth 2023



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Awdur:** Cathryn Morgan, Partneriaethau a Pherfformiad

**Cymeradwywyd gan y Cabinet:** XX / XX / XXXX

**Dyddiad cyhoeddi: XX/** XX/XXXX

## Cynnwys

1. Cefndir 3
1.1 Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol 3
1.2 Ymrwymiad i'r Gymraeg 3
2. Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru 4
2.1 Amcanion Cydraddoldeb, Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Adroddiad Blynyddol 4
2.2 Ymgysylltu 5
2.3 Hygyrchedd Gwybodaeth wedi'i chyhoeddi 5
2.4 Gwahaniaeth mewn Cyflog 5
2.5 Asesu Effaith 5
2.6 Hyfforddiant Staff 5
2.7 Caffael 6
3. Cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion penodol yn ystod 2022-23 6
3.1: Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Ebrill 2022 - Mawrth 2023 7

# 1. Cefndir

## 1.1 Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

1. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd sector cyhoeddus ar Awdurdodau Lleol i ystyried anghenion pob unigolyn yn eu gwaith bob dydd, wrth ddatblygu polisïau, darparu gwasanaethau ac mewn perthynas â'r cyhoedd a'u gweithwyr eu hunain. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r canlynol: Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf.

2. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

3. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n rhannu un neu fwy o 'nodweddion gwarchodedig'. Mae rhai pobl yn rhannu mwy nag un o'r nodweddion hyn. Gelwir hyn 'croestoriadedd'. Mae angen i ni fod yn ymwybodol o hyn wrth ystyried ein Dyletswydd Cydraddoldeb. Mae’r nodweddion gwarchodedig wedi'u rhestru isod

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred (gan gynnwys dim cred)
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

### 1.2 Ymrwymiad i’r Gymraeg

Mae hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn cael ei gwmpasu gan ofynion Mesur y Gymraeg 2011 yn hytrach na'r Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, yng Ngheredigion mae'n bwysig ystyried gofynion y Gymraeg ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn hyrwyddo dull cydweithredol o ymdrin ag anghenion pob cymuned wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.

O dan ofynion Mesur y Gymraeg 2011, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt (h.y. cysyniad y cynnig gweithredol).

## 2. Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus Cymru

Mae'r Dyletswyddau Penodol yng Nghymru wedi eu nodi yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r Dyletswyddau Penodol ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn cynnwys:

- Amcanion cydraddoldeb, cynlluniau cydraddoldeb strategol ac adroddiadau blynyddol,
- Ymgysylltu,

- Hygyrchedd gwybodaeth,
- Gwahaniaeth cyflog,
- Asesu effaith,
- Hyfforddiant staff,
- Caffael.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein hymrwymiad i fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 gan gynnwys Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

**2.1 Amcanion Cydraddoldeb, Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Adroddiad Blynyddol**

Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb wedi'u hamlinellu yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol '*Ceredigion Deg a Chyfartal 2020-24'*. Mae'r cynllun yn sicrhau bod ein hamcanion yn cael eu cyflawni. Ein hamcanion cydraddoldeb yw:

1. Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol
2. Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i’r Afael â Rhagfarn
3. Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogiad
4. Sicrhau Urddas, Parch a Mynediad at Wasanaethau
5. Darparu Addysg Deg a Chynhwysol

Mae ein Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol yn cyfarfod bob tri mis i fonitro cynnydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac i drafod materion eraill sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Cadeirydd y grŵp yw ein Heiriolydd Cydraddoldeb, sy'n aelod o Gabinet Cyngor Sir Ceredigion.

Dyma'r trydydd adroddiad blynyddol ar gynnydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24, *'Ceredigion Teg a Chyfartal.'* Gellir dod o hyd i'r cynllun a'r dogfennau cysylltiedig ar Cynllun Strategol Cydraddoldeb & Amcanion - Cyngor Sir Ceredigion <https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/cydraddoldeb-ac-amrywiaeth/cynllun-strategol-cydraddoldeb-amcanion/>

**2.2 Ymgysylltu**

Pan fyddwn yn dylunio neu'n diwygio ein hamcanion cydraddoldeb, mae'n rhaid i ni ymgysylltu ag a chynnwys pobl sy'n cael eu diogelu gan y Ddeddf Cydraddoldeb, neu bobl sy'n eu cynrychioli. Mewn gwirionedd, rydym yn ymgysylltu ag unrhyw berson yr ydym yn teimlo sy'n briodol.

Mae canllawiau ymgysylltu ac ymgynghori ar gael i'r holl staff a darperir cymorth gan ein staff Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Rhestrir rhagor o wybodaeth am ein gwaith ymgysylltu o dan Amcan 3 adroddiad monitro'r cynllun gweithredu yn Adran 3.1.

**2.3 Hygyrchedd Gwybodaeth wedi'i chyhoeddi**

Mae'r Cyngor yn cynhyrchu gwybodaeth mewn amrywiaeth eang o fformatau yn ôl yr angen ac ar gais. Mae'n ofynnol i bob dogfen gyhoeddus gynnwys y frawddeg 'mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, neu mewn fformatau eraill ar gais'. Mae canllawiau ar fformatau hygyrch ar gael i staff ar ein gwefan fewnol.

Mae ein gwefan wedi cyflawni sgôr hygyrchedd AA ond nid yw'n gwbl hygyrch eto. Adroddir ar gynnydd o dan Amcan 4 (cam 4.12) yn yr adroddiad monitro yn Adran 3.1.

**2.4 Gwahaniaeth mewn Cyflog**

Mae ein tîm Adnoddau Dynol yn casglu a dadansoddi data sy'n ymwneud â gwahaniaeth mewn cyflog rhwng y rhywiau a chyfran ein gweithlu sy'n rhannu un neu fwy o nodweddion gwarchodedig. Cyflwynir adroddiadau blynyddol i'r Cabinet ac yna eu cyhoeddi ar ein gwefan. Adroddir ar gynnydd o dan Amcan 1 (camau 1.1 a 1.2) yn yr adroddiad monitro yn Adran 3.1.

**2.5 Asesu Effaith**

Os byddwn yn gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau, mae'n rhaid i ni asesu'r effaith y gallai hyn ei chael ar y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau, yn enwedig pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae ein hofferyn Asesu Effaith Integredig yn ein galluogi i wneud hyn. Mae hyn yn cael ei ddiwygio, byddwn yn dechrau defnyddio'r fersiwn wedi'i diweddaru yn 2023-24. Adroddir ar gynnydd o dan Amcan 3 (camau 3.9 a 3.10) yn yr adroddiad monitro yn Adran 3.1.

**2.6 Hyfforddiant Staff**

Mae gan bob aelod o staff fynediad i Bwll Dysgu Ceredigion. Mae'r adnodd dwyieithog hwn yn caniatáu i fodiwlau e-ddysgu gael eu cwblhau. Mae llawer o'n hyfforddiant staff bellach yn cael ei ddarparu'n rhithiol trwy Microsoft Teams ac mae'r defnydd o gapsiynau a chyfieithu wedi gwneud hyfforddiant yn fwy hygyrch i'r rhai sydd â nam ar eu clyw neu eu golwg. Mae ystod eang o hyfforddiant cydraddoldeb wedi'i ddarparu yn 2022-23. Adroddir ar gynnydd o dan Amcan 1 (cam 1.3) yn yr adroddiad monitro yn Adran 3.1.

**2.7 Caffael**

Mae ein polisi caffael a'n manylebau contract yn cynnwys gofynion cydraddoldeb a'r Gymraeg yn safonol. Adroddir rhagor o fanylion o dan Amcan 4 (cam 4.15) yn yr adroddiad monitro yn Adran 3.1.

Mae angen mwy o waith i sicrhau bod cymalau budd cymunedol yn ein contractau yn cael eu hystyried i'w llawn botensial i helpu i leihau anghydraddoldebau a meithrin cysylltiadau da yng Ngheredigion. Adroddir ar hyn o dan Amcan 5 (cam 5.9) yn yr adroddiad monitro yn Adran 3.1.

## 3. Cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion penodol yn ystod 2022-23

Mae system 'GCAG' yn dangos i ni pa mor dda mae gweithred yn perfformio neu'n cael ei chyflawni. Dangosir cyfanswm statws GCAG isod.

Yn ôl y disgwyl, mae mwy o weithredoedd 'Glas' a llai o gamau gweithredu 'Ambr' yn 2022-23 wrth i ni symud i flwyddyn olaf y Cynllun Cydraddoldeb Strategol pedair blynedd hwn.

| Statws GCAG | Diffiniad | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|
| **Glas** | Cam gweithredu wedi'i gwblhau | **1** | **3** | **8** |
| **Coch** | Cam gweithredu heb ddechrau / mae pryderon na chaiff ei gwblhau | **0** | **0** | **0** |
| **Ambr** | Gweithredu ychydig y tu ôl i'r targed | **14** | **17** | **10** |
| **Gwyrdd** | Cam gweithredu yn mynd rhagddo yn ôl y disgwyl | **39** | **34** | **36** |

Mae'r tabl isod yn  dangos cynnydd pob un o'n Hamcanion Cydraddoldeb.

| **Ffigyrau 2022-23** | | **Glas** | **Coch** | **Ambr** | **Gwyrdd** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyflogwr Cyfle Cyfartal | **1** | **0** | **2** | **5** |
| 2 | Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn | **1** | **0** | **0** | **5** |
| 3 | Ymgysylltu a Chyfranogiad | **1** | **0** | **4** | **7** |
| 4 | Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau | **3** | **0** | **4** | **10** |
| 5 | Addysg Deg a Chynhwysol | **2** | **0** | **0** | **9** |

3.1: Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Ebrill 2022 – Mawrth 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan 1: Cyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol.**<br>**Bod yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda staff wedi'u hyfforddi ac yn ymwybodol o anghenion a materion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb. Parhau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.** | | | |
| **Gweithred 1.1** | • Byddwn yn monitro ac yn cau gwahaniaethau bwlch cyflog rhwng y rhywiau posibl.<br>• Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Bwlch Cyflog Blynyddol y Gweithlu. | **Pobl a Threfniadaeth** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Parhau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. | | | |
| Dangosodd adroddiad Bwlch Cyflog y Gweithlu 2021-22 fod bwlch cyflog cymedrig o -6.0% a bwlch cyflog canolrifol o -7.6% yn bodoli rhwng dynion a menywod. Mae hyn wedi cynyddu o 31 Mawrth 2021 lle'r oedd y bwlch cyflog cymedrig yn -5.3% a'r bwlch cyflog canolrifol oedd -3.9%.<br><br>Rydym yn hyderus bod dynion a menywod yn cael eu talu'n gyfartal am wneud swyddi cyfatebol ar draws y Cyngor. Y prif reswm dros ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar draws y sefydliad yw anghydbwysedd rhwng cydweithwyr gwrywaidd a benywaidd ar draws y sefydliad. Ar hyn o bryd mae llai o fenywod mewn rolau uwch na dynion, yn ogystal â chyfran uwch o fenywod o'i gymharu â dynion ar raddfeydd is. Darperir mwy o fanylion yn adroddiad blynyddol Bwlch Cyflog y Gweithlu ynghyd â'r mesurau yr ydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog.<br><br>Bydd adroddiad Bwlch Cyflog y Gweithlu ar gyfer 2022-23 yn cael ei gynhyrchu erbyn diwedd mis Hydref 2023 a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn dilyn cymeradwyaeth drwy'r broses ddemocrataidd. | | | |
| **Gweithred 1.2** | • Byddwn yn parhau i gasglu data cydraddoldeb y gweithlu a'r Gymraeg gan staff newydd a data gwirfoddol gan staff presennol.<br>• Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb y Gweithlu blynyddol. | **Pobl a Threfniadaeth** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Cynnydd yn nifer y staff sy'n datgelu data cydraddoldeb a sgiliau Cymraeg. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cesglir data Cydraddoldeb y Gweithlu a'r Gymraeg gan yr holl staff newydd sy'n ymuno â'r Cyngor ac atgoffir staff presennol yn flynyddol i ddiweddaru eu data cydraddoldeb drwy hunanwasanaeth Ceri. Mae diweddaru data Cymraeg hefyd wedi'i gynnwys yn y broses arfarnu flynyddol. Mae dros 92% o staff wedi datgelu data cydraddoldeb gwirfoddol. Cyflwynwyd Adroddiad Cydraddoldeb y Gweithlu 2021-22 i'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2022.<br><br>Bydd Adroddiad Cydraddoldeb y Gweithlu ar gyfer 2022-23 yn cael ei gynhyrchu erbyn diwedd mis Hydref 2023 a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn dilyn cymeradwyaeth drwy'r broses ddemocrataidd. | | | |
| **Gweithred 1.3** | Byddwn yn gwella ymwybyddiaeth staff o faterion cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus trwy hyfforddiant. | **Pobl a Threfniadaeth** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniadau:**<br>• Cynnydd yn nifer y staff sy'n cwblhau'r e-ddysgu gorfodol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.<br>• Mwy o reolwyr yn cwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.<br>• Cynnydd yn nifer y staff sy'n cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth LHDT. | | | |
| **E modiwlau dysgu**<br>• Cydraddoldeb ac Amrywiaeth: 1,969 o gyflawniadau (1,817 o staff mewnol a 152 allanol )<br>• Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg: 1,225 o gyflawniadau (1,129 o staff mewnol a 96 allanol)<br>• Deall Awtistiaeth: 721 o gyflawniadau (577 mewnol a 144 allanol)<br>• Cyfathrebu Effeithiol Awtistiaeth: 106 o gyflawniadau (56 mewnol a 50 allanol)<br><br>**Hyfforddiant a gynigir i gynyddu ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth ac anabledd:**<br>• 7 x Sesiynau Ymwybyddiaeth LHDT: 44 o staff mewnol yn bresennol.<br>• 1 x Ymwybyddiaeth Trawsryweddol: 17 wedi mynychu (7 aelod o staff mewnol a 10 allanol)<br>• Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i reolwyr bellach wedi'i gynnwys ar ffurf newydd rhaglen Rheolwyr Ceredigion ac nid yw'n cael ei chyflwyno ar wahân.<br>• 1 x Troseddau Casineb: 6 aelod o staff yn mynychu (4 mewnol a 2 allanol)<br>• 1 x Troseddau Casineb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: mynychodd 5 aelod o staff (3 mewnol a 2 allanol)<br>• 6 x Sesiynau Atal / WRAP: Mynychodd 110 o staff (101 mewnol a 9 allanol) | | | |

Tudalen 176

- 1 x Deall proses Lloches a Ffoaduriaid: 17 aelod o staff wedi mynychu (12 mewnol a 5 allanol)
- 1 x Ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar: 12 aelod o staff mewnol yn bresennol.
- 1 x Gweithdy Ymwybyddiaeth o fod yn Fyddar ac Iaith Arwyddion: 8 aelod o staff mewnol yn bresennol.
- 3 x Ymwybyddiaeth Epilepsi: 38 aelod o staff wedi mynychu (21 mewnol ac 17 allanol)
- 1 x Ymwybyddiaeth o Nam ar y Golwg: Mynychodd 10 aelod o staff mewnol.
- 2 x Cyflwyniad i glefyd Parkinson: mynychodd 36 aelod o staff (24 mewnol a 12 allanol)
- 2 x Trosolwg Clefyd Huntington: 13 o staff mewnol yn bresennol.
- 1 x Deddf Galluedd Meddyliol a Sesiwn Anaf i'r Ymennydd: mynychodd 24 o staff mewnol.

Roedd 10 aelod o staff y Cyngor hefyd yn bresennol mewn digwyddiadau rhanbarthol ar niwroymwahanu a'r Ddeddf Iechyd Meddwl ac Anaf Ymennydd Caffaeledig a'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

| **Gweithred 1.4** | Byddwn yn parhau i hyrwyddo a gweithredu'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd, (sy'n croesawu ceisiadau gan bobl anabl ac yn ymrwymo i wneud addasiadau yn y gweithle). | **Pobl a Threfniadaeth** | **Ambr** |
|---|---|---|---|

**Canlyniad:** Mwy o benodiadau wedi eu cofnodi fel pobl sydd ag anabledd.

Mae'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd yn rhan sefydledig o weithdrefnau recriwtio'r Cyngor ac mae'n cael ei gynnwys yn Rhaglen Hyfforddi orfodol Rheolwyr Ceredigion. Rydym yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd; mae hyn yn cael ei hyrwyddo ar ein gwefan Gyrfaoedd.

Dangosodd Cyfrifiad 2021 fod 20% o boblogaeth Ceredigion yn anabl. Dim ond 5% o gyfanswm y rhai a wnaeth gais am swyddi gyda'r Cyngor yn 2022-23 oedd yn nodi eu bod yn anabl. Derbyniwyd 196 o geisiadau gan unigolion a gofnododd fod ganddynt anabledd; penodwyd 23 (12%) ohonynt. Roedd y ffigwr ar gyfer 2021-22 yn uwch ar 16%. Penodwyd 17% o'r ymgeiswyr nad oeddent yn nodi eu bod yn anabl.

Yn ystadegol, mae ymgeisydd sy'n datgelu ei fod yn nodi ei fod yn anabl yn llai tebygol o gael ei benodi. Byddai'n ymddangos, o'i gymharu â data poblogaeth, efallai na fydd llawer o ymgeiswyr yn teimlo'n hyderus i ddatgelu eu hanabledd neu nad ydym yn denu ymgeiswyr anabl.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nid yw'r maes hwn wedi datblygu cymaint ag yr hoffem, a'n nod yw hyrwyddo'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd ymhellach trwy hyfforddiant ychwanegol i reolwyr a thrwy'r wefan recriwtio a'r sianel cyfryngau cymdeithasol. Mae angen gweithredu cadarnhaol hefyd i annog mwy o geisiadau gan ymgeiswyr anabl ac i hyrwyddo'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd. | | | |
| **Gweithred 1.5** | Byddwn yn cefnogi gweithwyr sy'n feichiog neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar trwy fabwysiadu'r chwe maes gweithredu o dan yr adroddiad '*Gwahaniaethu ar sail Beichiogrwydd a Mamolaeth yn y Gweithle: Argymhellion ar gyfer Newid*'. | **Pobl a Threfniadaeth** | **Glas** (cyflawn) |
| **Canlyniad:** Mae'r 6 maes gweithredu wedi eu mabwysiadu | | | |

Dyma'r 6 maes gweithredu a fabwysiadwyd, a'n hymateb i'r argymhellion. Mae monitro'n digwydd drwy Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Gweithlu.

**Arweinyddiaeth ar gyfer newid: Fel bod cyflogwyr yn denu'r dalent orau, creu'r amodau i'w staff berfformio'n dda, ac osgoi colli sgiliau a phrofiad a all ddeillio o gamsyniadau ac arfer gwael mewn perthynas â gweithwyr beichiog a mamau newydd.** Mae Dysgu a Datblygu yn sicrhau bod rheolwyr yn cael eu hyfforddi i sicrhau nad ydynt yn wahaniaethol ac mae'r Tîm Adnoddau Dynol yn darparu cyngor ac arweiniad i reolwyr ar bob cam o gylch bywyd y gweithwyr. Anogir rheolwyr i ddarparu ar gyfer ceisiadau gweithio hyblyg lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gan gynnwys ceisiadau rhan-amser ar gyfer gweithwyr sy'n gofyn am hyn wrth ddychwelyd ar ôl absenoldeb mamolaeth. Mae cadw'r dalent orau yn ein gweithlu yn bwysig i ni.

**Gwella ymarfer cyflogwyr: Hyrwyddo gweithleoedd sy'n gyfeillgar i deuluoedd, rheoli effeithiol a chyfathrebu agored.** Mae'r polisi gweithio hybrid dros dro wedi dod â hyd yn oed mwy o hyblygrwydd i nifer fawr o rolau swyddi. Ar hyn o bryd mae'r polisi cydbwysedd bywyd gwaith yn cael ei ddiwygio a'i ddadgyfuno i gyfres o bolisïau newydd sy'n addas i deuluoedd.

**Gwella mynediad at wybodaeth a chyngor: fel bod menywod a chyflogwyr yn deall eu hawliau a'u rhwymedigaethau.** Mae llawer o wybodaeth ar CeriNet a'r porth gweithwyr ac yn ogystal â hyn rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag undebau llafur cydnabyddedig drwy gydol gwaith achos ac ymgynghoriadau.

**Gwella rheolaeth iechyd a diogelwch yn y gweithle: fel bod cyflogwyr yn rheoli risgiau'n effeithiol ac nad yw menywod yn cael eu gorfodi i ddewis rhwng eu swydd a'u hiechyd neu iechyd eu plentyn heb ei eni.** Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch yn cynghori rheolwyr a gweithwyr ar asesiadau risg beichiogrwydd sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd yn ystod beichiogrwydd.

**Gwella mynediad at gyfiawnder: Trwy gael gwared ar rwystrau i fenywod godi cwynion.** Mae'r Cyngor eisoes yn gwneud trefniadau cadarn i weithwyr godi pryderon e.e. cwyn, urddas yn y gwaith, chwythu'r chwiban.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 1.6** | Byddwn yn cynnig, lle y bo'n briodol, trefniadau gweithio'n hyblyg a rhan-amser i gefnogi rhieni a gofalwyr. Byddwn yn diwygio ein polisïau ar weithio'n hyblyg a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. | **Pobl a Threfniadaeth** | **Gwyrdd** |

**Canlyniad:** Mae polisïau gweithio'n hyblyg a gweithio ystwyth diwygiedig ar waith.

Bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n manteisio ar basbortau Gofalwyr sy'n arwain at ofalwyr di-dâl yn cael mynediad at hyd at 5 diwrnod ychwanegol o absenoldeb â thâl. Mae'r polisi gweithio Hybrid Dros Dro wedi caniatáu i'r rhan fwyaf o staff corfforaethol weithio mewn ffordd fwy hyblyg. Dim ond 52.8% o'n staff sy'n llawn amser.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu polisïau gweithio'n hyblyg a byddwn yn cynnal adolygiad yr hydref hwn o'n polisi gweithio hybrid dros dro. Mae'r Cyngor yn rhoi hyd at 5 diwrnod ychwanegol o absenoldeb â thâl i ofalwyr di-dâl sydd â phasbort gofalwyr ac mae Polisi Gofalwyr mewn Cyflogaeth y Cyngor yn darparu cymorth ychwanegol i'r gweithwyr hyn i gadw eu talent yn ein gweithlu.

- Mae 47.2% o'n staff yn rhan-amser.
- Mae 38.5% o'n gweithwyr yn fenywod rhan amser.
- Mae 8.8% o'n gweithwyr yn ddynion rhan amser.

Mae mwy o fenywod yn cael eu cyflogi'n llawn amser (614) na dynion (533).

Mae rheolwyr llinell yn rhagweithiol iawn wrth ddarparu ar gyfer llawer o geisiadau gweithio hyblyg; mae'n bwysig i ni gadw talent yn ein gweithlu, ac rydym yn gweithio'n galed i fod yn hyblyg o ran sut mae ein gwaith yn cael ei wneud. Bydd dadgyfuno ein polisi Cydbwysedd Rhwng Bywyd a Gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod 2023/24.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 1.7** | Byddwn yn gweithio tuag at leihau gwahaniaethu rhwng y rhywiau a diffyg cynrychiolaeth ar gyfer lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl mewn prentisiaethau, gan gynnwys gweithio gyda'n contractwyr drwy gynnwys Buddion Cymunedol fel elfen graidd ym mhob contract caffael perthnasol y Cyngor. | **Porth Cymorth Cynnar** | **Ambr** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniad:** Llai o wahaniaethu rhwng y rhywiau mewn prentisiaethau. Mwy o brentisiaid Du, Asiaidd, ethnig lleiafrifol ac anabl. | | | |
| Mae Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT) yn hyrwyddo prentisiaethau mewn digwyddiadau Gyrfaoedd ar draws y sir. Mae 90% o brentisiaid yn Ddynion, 9% yn Fenywod ac mae 1% yn nodi eu bod yn 'arall'. Mae 12% wedi datgelu bod ganddyn nhw rai anableddau a dywedodd 0% eu bod o gefndir Du neu ethnig lleiafrifol.<br><br>Crëwyd taenlen adrodd safonedig ar gyfer contractau cyfalaf mawr yn Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru sy'n gofyn am unrhyw hyfforddiant a recriwtio newydd y gellir eu cyflawni i gofnodi yn ôl rhyw, anabledd ac ethnigrwydd. Mae hyn yn dilyn yr un dull â'r un a ddefnyddir ym Mhartneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae gwybodaeth yn cael ei chasglu ar gyfer contractau yn Ysgol Gynradd Aberteifi ac Ysgol Uwchradd Aberteifi. | | | |
| **Gweithred 1.8** | Byddwn yn parhau i weithredu ein Polisi Caethwasiaeth Fodern. Mae hyn yn cynnwys ein hymrwymiad gyda'n cyflenwyr a'n contractwyr i ddilyn Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol a Thryloywder yn y Gadwyn Gyflenwi, er enghraifft gwarchod rhag contractau cyflogaeth ansicr a sicrhau hawliau gweithwyr. | **Pobl a Threfniadaeth** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniadau:**<br>• Mwy o sesiynau Caethwasiaeth Fodern wedi cael eu darparu, nifer cynyddol o staff sy'n mynychu<br>• Mwy o sesiynau Masnachu mewn Pobl a Phlant. | | | |
| Roedd 7 x sesiwn hyfforddiant am Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl: 50 staff yn bresennol (45 mewnol a 5 allanol) | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan 2: Meithrin Perthnasoedd Da a Mynd i'r Afael â Rhagfarn.**<br>**Meithrin perthnasoedd da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt drwy adeiladu cydlyniant cymunedol a mynd i'r afael â rhagfarn. Dylai pawb allu byw heb ofni trais a cham-drin a chael eu trin â pharch.** | | | |
| **Gweithred 2.1** | Byddwn yn gweithio gyda'r Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i gefnogi Ceredigion o gymunedau cydlynol. | **Tîm Cydlyniant Cymunedol** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Datblygir fframwaith cydlyniant cymunedol a chyflawnir canlyniadau. | | | |

Mae ein tîm Cydlyniant Cymunedol yn un o 8 tîm rhanbarthol ledled Cymru sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Y nod yw darparu dull cyson o gydweithio ar draws Cymru. Mae'r tîm yn gweithio i gynllun gweithredu blynyddol ac wedi cwblhau camau gweithredu a sefydlwyd yn foddhaol ar gyfer 2022-23, y mae llawer ohonynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 2.2** | Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac i gyfeirio dioddefwyr posibl at wasanaethau adrodd a chymorth. | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd/ Cydlyniant Cymunedol** | **Gwyrdd** |

**Canlyniadau:**

- Mwy o sesiynau ymwybyddiaeth o droseddau casineb wedi'u cyflwyno.
- Roedd mwy o staff yn bresennol.

Cytunodd y Cabinet i lofnodi'r Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr ym mis Tachwedd 2022. Mae'r siarter yn nodi hawliau dioddefwyr, a'r ymrwymiadau y mae sefydliadau'n eu gwneud i fynd i'r afael â throseddau casineb, darparu cefnogaeth a gwybodaeth i ddioddefwyr, a chodi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ymhlith staff a chymunedau. Byddwn yn gweithio gyda Chymorth i Ddioddefwyr yn 2023-24 i gyflawni camau gweithredu a fydd yn ein galluogi i ddod yn 'bartner gweithredol'.

Mynychodd 52 o staff mewnol a 9 aelod o staff allanol sesiynau hyfforddi ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl, Troseddau Casineb a hyfforddiant Troseddau Casineb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Cyfarfu Cymorth i Ddioddefwyr hefyd â'n tîm Gwasanaeth Ieuenctid i drafod codi ymwybyddiaeth am Droseddau Casineb.

Gweithiodd y tîm Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol gyda Chymorth i Ddioddefwyr i gydlynu diwrnod hyfforddi LHDTC+ rhanbarthol wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol a gweminar ledled Cymru ar y pwnc '*Codi Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o Eithafiaeth a Gwrywdod Gwenwynig*' ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Cafodd Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ei hyrwyddo gyda sesiwn hyfforddi yn edrych ar effeithiau casineb ar-lein ar unigolion a chymunedau a gyda digwyddiad ymgysylltu yng ngêm Uwch Gynghrair Cymru - Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth yn erbyn Sir Hwlffordd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 2.3** | Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith i gynyddu adroddiadau o gam-drin domestig i Goleudy, (Cymorth i Ddioddefwyr). | **Porth Cynnal** | **Gwyrdd** |

**Canlyniadau:**

- Nifer cynyddol o staff sy'n cwblhau e-ddysgu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Mwy o sesiynau Holi a Gweithredu wedi'u cwblhau.

Cwblhaodd 1,696 o staff (1,589 mewnol a 107 allanol) e-ddysgu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mynychodd 40 o staff mewnol Sesiynau Hyfforddi Holi a Gweithredu.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 2.4** | Byddwn yn monitro ac yn ymateb i densiynau cymunedol sy'n ymwneud â phroses Brexit. | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd/ Cydlyniant Cymunedol** | **Gwyrdd** |

**Canlyniad:** Mwy o ymyriadau a dad-ddwysáu.

Mae materion Brexit (Masnach) wedi lleihau ers llofnodi'r Cytundeb Masnach a Chydweithio. Ni fu unrhyw heriau na materion sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf ac mae Brexit wedi'i dynnu o'r gofrestr risg gorfforaethol. Fodd bynnag, cynhelir brîff gwylio yn enwedig o ran yr hawl i weithio, mewnfudo a mynediad at fudd-daliadau a gwasanaethau.

Rydym yn monitro tensiynau cymunedol drwy gynnal cyfarfodydd monitro tensiwn gyda Heddlu Dyfed Powys, Prifysgol Aberystwyth, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr, Cyngor Hil Cymru, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac adrannau amrywiol o fewn yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys Diogelwch Cymunedol, Tai a Chamddefnyddio Sylweddau. Mae amrywiaeth o densiynau wedi'u nodi a'u lliniaru dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys mudiadau protest, dosbarthiad taflennu gan grŵp asgell dde eithafol a llety dros dro i bobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Rydym hefyd yn sganio cyfryngau cymdeithasol / ffynonellau ar-lein i fonitro materion a thensiynau. Mae materion allweddol yn cael eu codi a'u cofnodi mewn cyfarfodydd Monitro Tensiwn. Mae cydlyniant cymunedol a monitro tensiwn yn eitemau agenda rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, CONTEST (Gwrthderfysgaeth), Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a Thrais (SVOC),

| | | | |
|---|---|---|---|
| grŵp Ailsefydlu Ffoaduriaid Ceredigion a Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr. Rydym hefyd yn mynychu *Grŵp Diddordeb Arbennig cenedlaethol ar Wrthweithio Eithafiaeth (SIGCE)* i drafod gweithgarwch grwpiau asgell dde yn ein rhanbarth a gweithgarwch cenedlaethol wedi'i dargedu at ffoaduriaid a grwpiau mudol. | | | |
| **Gweithred 2.5** | Byddwn yn cyfeirio dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw yng Ngheredigion at Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE y Swyddfa Gartref ac yn darparu'r lefel briodol o gymorth gan yr awdurdod lleol. | **Cydlyniant Cymunedol a Chyswllt Cwsmeriaid** | **Glas** |
| **Canlyniad:** Mwy o ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Ngheredigion yn gwneud cais i'r cynllun. | | | |
| Mae'r cynllun bellach wedi cau. | | | |
| **Gweithred 2.6** | Byddwn yn parhau i weithredu ymgyrch flynyddol yn y cyfryngau ac ymwybyddiaeth y cyhoedd. Gallai enghreifftiau gynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a Diwrnod Cofio'r Holocost. | **Gwasanaethau Democrataidd / Cydlyniant Cymunedol** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Mwy o ymgyrchoedd wedi eu cynnal. | | | |
| Mae'r tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol a thîm Cyfathrebu Allanol y Cyngor yn cefnogi calendr blynyddol o ddiwrnodau cenedlaethol ac ymgyrchoedd i hyrwyddo ymwybyddiaeth, dathlu amrywiaeth, a choffáu rhai digwyddiadau hanesyddol. Yn ystod 2022/23 bu'r ddau dîm yn hyrwyddo ac yn cefnogi nifer o ymgyrchoedd gan gynnwys:<br>1. Mae Casineb yn Brifo Cymru - ymgyrch Llywodraeth Cymru.<br>2. Diwrnod Hawliau Dynol<br>3. Diwrnod Hawliau'r Gymraeg<br>4. Diwrnod Hawliau Gofalwyr<br>5. Diwrnod y Rhuban Gwyn - ymgyrch ryngwladol yn galw ar ddynion i sefyll yn erbyn trais yn erbyn menywod.<br>6. Wythnos Diogelu Genedlaethol<br>7. Diwrnod Pobl Hyn/Older Persons' Day<br>8. Diwali<br>9. Wythnos/diwrnod y lluoedd arfog | | | |

10. Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb
11. Mis Pride – cyfryngau cymdeithasol
12. Mis Hanes Pobl Dduon – cyfryngau cymdeithasol
13. Diwrnod Gwelededd Trawsryweddol – cyfryngau cymdeithasol
14. Wythnos Rhyng-ffydd – cyfryngau cymdeithasol
15. Diwrnod Cofio'r Holocost – negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol a goleuo adeiladau cyhoeddus yn borffor
16. Mis Hanes LHDT - negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol
17. Wythnos Ffoaduriaid – negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol
18. Mis Hanes Teithwyr Sipsiwn – negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol (rhanbarthol).

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan 3: Ymgysylltu a Chyfranogiad**<br>**Sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Galluogi pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau ac i fanteisio ar y cyfle i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a bywyd bob dydd.** | | | |
| **Gweithred 3.1** | Byddwn yn ymgysylltu â phobl Ceredigion, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig ac yn cysylltu â grwpiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. | **Polisi, Performance a Diogelu'r Cyhoedd (a phob maes gwasanaeth i'w weithredu)** | **Ambr** |
| **Canlyniad:** Mae'r ymgysylltu a wneir yn ystyrlon. Mae pobl yn cymryd rhan ac yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau ac mae Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu yn adlewyrchu hyn. | | | |
| Mae llawer yn cael ei wneud i ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid, ond mae'r dull corfforaethol o weithredu yn anghyson. Mae enghreifftiau da o ymgysylltu parhaus wedi'u rhestru yn ein Hadroddiad Blynyddol Ymgysylltu a Chyfranogiad 2022-23 ac rydym yn hwyluso amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth ar gyfer grwpiau a rhanddeiliaid a chyfranddalwyr. Cynhaliwyd saith ymarfer ymgysylltu wedi'u targedu, pum ymarfer ymgynghori a phedwar ymarfer 'hysbysu' (lle mae gan y Cyngor ddyletswydd i hysbysu'r cyhoedd a darparu ffordd i bartïon sydd â diddordeb i ymateb) yn ystod 2022-23. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r gyfradd ymateb ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus y DU yn 0.7% ar gyfartaledd ac mae nifer yr ymatebion i ymgyrchoedd y Cyngor yn gyffredinol yn is. Mae angen i ni barhau i ddatblygu dulliau ymgysylltu arloesol wrth gydnabod bod yr adnodd ar gyfer y gwaith hwn yn gyfyngedig. | | | |
| **Gweithred 3.2** | Byddwn yn adolygu ac yn gweithredu ein Polisi Ymgysylltu. | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | **Glas (cyflawn)** |
| **Canlyniad:** Mae'r Polisi Ymgysylltu wedi'i gyhoeddi a'i weithredu. Cynnydd yn cael ei gofnodi mewn Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu. | | | |
| Mae'r polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad wedi'i ddiwygio. Fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Hydref 2022 ac fe'i cyhoeddwyd ar ein gwefan. Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn craffu ar adroddiadau monitro cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet. | | | |
| **Gweithred 3.3** | Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ac yn ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, (CCUHP) wrth wneud penderfyniadau. | **Porth Cymorth Cynnar** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniadau:**<br>• Targedau penodol wedi eu cyhoeddi yn Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc 2018-21. Cynnydd yn cael ei gofnodi mewn Adroddiad Blynyddol Cyfranogiad CYP.<br>• Rhaglen e-ddysgu ar CCUHP wedi cael ei datblygu, rhagwelir y bydd yn cael ei lansio i staff 2020 | | | |
| Mae Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion 2018-2021 bellach wedi dod i ben. Mae ein dull o sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn benderfyniadau bellach wedi'i gynnwys ym Mholisi Ymgysylltu a Chyfranogiad newydd y Cyngor. Mae hyn yn golygu bod cyfranogiad plant a phobl ifanc yn rhan o'n dull ymgysylltu a chyfranogi gydol oes.<br><br>Mae Cyngor Ieuenctid Ceredigion yn cynnwys 25 o bobl ifanc sy'n cynrychioli pob Ysgol Uwchradd Ceredigion, Coleg Ceredigion, Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth, Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion, Fforwm yr Urdd a Gwasanaeth Cymorth ac Atal, Porth Cymorth Cynnar. Cynhaliwyd 4 cyfarfod llawn a digwyddiad diwedd y flwyddyn, 'Pawb a'i Farn Ceredigion 2022' - cyfle i aelodau'r cyngor ieuenctid drafod materion allweddol gyda Ben Lake AS, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Sir Ceredigion, ein Prif Swyddog Addysg a'n | | | |

Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gydol Oes a Lles, y Cynghorydd Alun Williams.  Cafodd y digwyddiad ei gadeirio gan Lloyd Warburton, aelod o Senedd Ieuenctid Cymru dros Geredigion. Mae cofnodion pob cyfarfod y Cyngor Ieuenctid yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Craffu ac i Gabinet.

Mynychodd bobl ifanc y Fforwm Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys  i drafod lefelau plismona a throseddu yn ardal Heddlu Dyfed Powys. Yn ogystal, cyflwynwyd tri grŵp ffocws gyda grŵp o bobl ifanc ar iechyd meddwl a dioddefwyr trosedd ifanc, gweithgareddau atal camddefnyddio sylweddau a chymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n cyflawni troseddau lefel isel.

Mae fforwm GUS (‘Give Us Support’)  yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc na glywir yn aml yn cael eu clywed. Cyfarfu 12 o bobl ifanc yn fisol yn ystod 2022-23 a rhoddwyd eu barn ar 10 ymgynghoriad lleol a chenedlaethol.

Cwblhaodd 114 o bobl (94 o staff mewnol ac 20 allanol) modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth CCUHP  sydd ar gael i holl staff Cyngor Sir Ceredigion. Cafodd pecyn gweithdy Pobl Ifanc CCUHP ei ddiweddaru a'i ailgynllunio. Pwrpas y pecyn yw galluogi staff i gyflwyno sesiwn awr o hyd yn yr ystafell ddosbarth neu mewn man cymunedol o amgylch Hawliau Plant a Chyfranogiad.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 3.4** | Byddwn yn cefnogi’r rhaglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth a gwneud penderfyniadau lleol, yn enwedig i fenywod, pobl anabl neu bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol. | **Gwasanaethau Democrataidd** | **Gwyrdd** |

**Canlyniad:** Mwy o fenywod, pobl anabl a phobl bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn cael eu cynrychioli.

Cynyddodd canran y Cynghorwyr Sir benywaidd o 12% i 24% yn dilyn yr etholiad ym mis Mai ac isetholiad Llanbedr Pont Steffan ym mis Hydref, ac mae canran yr Aelodau benywaidd newydd yn sylweddol uwch sy'n dangos camau cadarnhaol tuag at gyflawni amrywiaeth mewn democratiaeth.  Nodwyd hefyd bod nifer y Cynghorwyr benywaidd a etholwyd yn cynrychioli nifer yr ymgeiswyr a safodd etholiad.

Mae'r ffigurau ar gyfer Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gadarnhaol ond mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd.  Nododd aelodau annibynnol nad yw'r ffigyrau'n cynrychioli nifer y menywod y gofynnwyd iddynt sefyll fel ymgeiswyr, a bod angen gwneud mwy o waith i'w hannog i sefyll etholiad.

Nid yw ffigurau sy'n dangos cynrychiolaeth pobl anabl ac aelodau o gefndiroedd ethnig lleiafrifoedd ar gael.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 3.5** | Byddwn yn cefnogi ymgysylltu â phobl ifanc 16 ac 17 oed os yw'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng yng Nghymru. | **Gwasanaethau Democrataidd / Porth Cymorth Cynnar** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Dull wedi'i dargedu ar gyfer hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth gan ddefnyddio Cyngor Ieuenctid Ceredigion, 6ed Dosbarth Ysgolion Uwchradd, sefydliadau Addysg Bellach, Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, Fforymau Plant a Phobl Ifanc a chyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth Ieuenctid. | | | |
| Mae gwybodaeth am 'Bleidleisio yn 16 oed' a sut i gofrestru i bleidleisio ar gyfer etholiadau lleol a Senedd y dyfodol wedi cael eu rhannu ar Sianel Timau Cyngor Ieuenctid Ceredigion. Mae aelodau'r Cyngor Ieuenctid yn gyfrifol am rannu'r wybodaeth gyda'u cyfoedion.<br><br>Rhannodd Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion wybodaeth ar eu cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth i ymgyrch 'Wythnos croeso i'ch pleidlais' y comisiwn etholiadol a gynhaliwyd rhwng 30 Ionawr a 5 Chwefror 2023. Helpodd yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth i gofrestru i bleidleisio. Rhannwyd gwybodaeth am 'Wythnos Croeso i'ch pleidlais' hefyd gyda Chyngor Ieuenctid Ceredigion, partneriaid y trydydd sector a sefydliadau addysg bellach yng Ngheredigion. | | | |
| **Gweithred 3.6** | Byddwn yn parhau i gefnogi Fforwm Anabledd Ceredigion. | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | **Ambr** |
| **Canlyniad:** 4 cyfarfod agored y flwyddyn a 4 cyfarfod gyda CSC. Mae llais pobl anabl yn cael ei glywed ac yn ddylanwadol. | | | |
| Cynhaliwyd cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn, ond mae'r presenoldeb yn parhau'n isel. Mae llais pobl anabl sy'n mynychu cyfarfodydd i'w glywed ond mae gwaith i'w wneud i sicrhau bod pobl anabl yn cael eu cynrychioli'n llawn yn y Fforwm Anabledd. | | | |
| **Gweithred 3.7** | Byddwn yn cynnal y dudalen cydraddoldeb ar wefan y cyngor i gyfeirio at wybodaeth berthnasol ac i gyhoeddi ein cynllun a'n hadroddiadau Cydraddoldeb Strategol. | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Tudalen Cydraddoldeb gyfoes ar wefan CCC. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r dudalen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar wefan Cyngor Sir Ceredigion yn gyfredol ac mae'n cynnwys dolenni i Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 ac Adroddiad Monitro Blynyddol 2021-22. | | | |
| **Gweithred 3.8** | Byddwn yn monitro cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad monitro blynyddol. | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Nifer y Camau Gweithredu Glas (wedi ei gwblhau) a Gwyrdd (yn dangos cynnydd da) yn erbyn cyfanswm y camau gweithredu. | | | |
| Mae 54 o gamau gweithredu yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. 8 yn Glas (cyflawn), 0 yn Goch (heb ddechrau eto), 10 yn Ambr (y tu ôl i'r targed) a 36 yn Wyrdd (ar y targed). Caiff cynnydd ei fonitro gan y Gweithgor Cydraddoldeb Strategol a chyhoeddir adroddiad blynyddol ar ein gwefan ar ôl i'n Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu graffu arno ac mae'r Cabinet wedi cymeradwyo'r cynnwys. | | | |
| **Gweithred 3.9** | Byddwn yn adolygu'r broses Asesiad Effaith Integredig. | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Proses AEI ddiwygiedig yn cael ei gweithredu | | | |
| Mae'r offeryn Asesu Effaith Integredig diwygiedig ar gam 'drafft'. Mae'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am boblogaeth Ceredigion *(Cyfrifiad 2021)* ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogion ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'r asesiad. Bydd yr offeryn drafft yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo ym mis Hydref 2023 a'i weithredu ar ôl hyn. | | | |
| **Gweithred 3.10** | Byddwn yn monitro ac yn cynghori ar Asesiadau Effaith Integredig (AEI). | **Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd** | **Ambr** |
| **Canlyniadau:** Nifer yr AEI sy'n cyrraedd y safon ofynnol a gyflwynir gyda Phapurau'r Cabinet / nifer yr AEI sy'n ofynnol x 100 = A% | | | |

Tudalen 188

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflwynwyd 12 x Asesiad Effaith Integredig i'r safon ofynnol gyda Phapurau'r Cabinet / roedd angen 21 x AEI = 57% o'r safon ofynnol. Yn 2020-21, roedd 41% o'r safon ofynnol ac yn 2021-22, roedd 48% o'r safon ofynnol. Mae hyn yn dangos gwelliant cyson ar y blynyddoedd blaenorol ond mae mwy o waith i'w wneud i gyflawni 100%. | | | |
| **Gweithred 3.11** | Darparu cymorth ac arweiniad i holl wasanaethau'r Cyngor i sicrhau eu bod yn gweithredu Safonau'r Gymraeg, a chynyddu argaeledd a safon y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. | **Gwasanaethau Democrataidd** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Mae gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael yn weithredol i siaradwyr Cymraeg | | | |
| Bydd Adroddiad Cydymffurfiaeth Flynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mehefin 2023. Datblygwyd fframwaith hunan-fonitro ac mae pob Prif Swyddog Corfforaethol wedi sgorio eu perfformiad gwasanaeth yn erbyn hwn. Mae Swyddog Polisi'r Gymraeg y Cyngor yn gweithio'n agos gyda rheolwyr gwasanaethau i'w helpu i osod cynlluniau i wella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg.<br><br>Yn ystod 2022-23 fe wnaethom adolygu Siarter Cwsmeriaid y Cyngor, sy'n disgrifio lefel y gall defnyddwyr gwasanaethau ei disgwyl wrth gysylltu â'r Cyngor; mae hyn yn cynnwys darparu ein gwasanaethau yn Gymraeg neu Saesneg, yn unol â'r iaith a ffefrir gan y defnyddiwr. Rydym wedi cyhoeddi'r Polisi Iaith Gymraeg ar Wobrwyo Grantiau, er mwyn sicrhau bod prosesau dyfarnu grantiau yn ystyried unrhyw effaith ar y Gymraeg.<br><br>Rydym wedi adolygu proses gwynion gorfforaethol y Cyngor i hwyluso cyflwyno pryderon yn y Gymraeg. Ni chawsom unrhyw gwynion am ein gwasanaethau Cymraeg nac am weithredu Safonau'r Gymraeg eleni. Datblygwyd Adroddiad Adolygiad Strategaeth Iaith pum mlynedd y Cyngor a chyhoeddwyd adroddiad pwnc ar oblygiadau data'r cyfrifiad 2021 ar y Gymraeg yng Ngheredigion; hyn er mwyn paratoi ar gyfer datblygu a chyhoeddi Strategaeth Iaith newydd ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd nesaf. | | | |
| **Gweithred 3.12** | Byddwn yn mabwysiadu egwyddorion Siarter Anabledd Dysgu y 'Dream Team' | **Swyddogion Arweiniol -**<br><br>**Yr holl wasanaethau** | **Ambr** |

| **Canlyniad:** Gwell canlyniadau i bobl ag anableddau dysgu. |
|---|
| Mae'r Cyngor wedi llofnodi'r Siarter – ldcharter.com. Ysgrifennwyd hyn gan bobl ag anableddau dysgu ac mae'n gofyn i ni ystyried eu bywyd a'u hawliau, y ffordd rydym yn cyfathrebu, eu cefnogaeth, eu cymuned, eu mynediad at iechyd, eu hannibyniaeth, eu bywyd cymdeithasol a'u perthnasoedd. Mae staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio gyda'r 'Dream Team' ar sail ranbarthol i ddatblygu ffyrdd o wella gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu. Fel rhan o ymrwymiad y Siarter, bydd aelodau'r 'Dream Team' Gorllewin Cymru yn cynnal archwiliadau. Nid oes gan Gyngor Ceredigion dyddiad archwilio eto.<br><br>Yn 2022-23, mynychodd 128 o staff sesiynau hyfforddiant ar ymwybyddiaeth anabledd, profiad realiti awtistiaeth a sesiynau hyfforddi Ymwybyddiaeth Awtistiaeth Hanfodol (89 o staff mewnol a 38 allanol). Mynychodd 15 o bobl hyfforddiant Hawdd ei Ddeall (14 mewnol ac 1 allanol). Prynwyd 12 trwydded i ddefnyddio llyfrgell Ffoto-symbolau Hawdd eu Darllen i helpu'r Cyngor i greu arwyddion, llythyrau a dogfennau Hawdd eu Deall. |

| **Amcan 4: Urddas, Parch a Mynediad at Wasanaethau.**<br><br>**Sicrhau mynediad teg a chyfartal i bob gwasanaeth. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin ag urddas a hefyd yn diwallu eu hanghenion lle maent yn wahanol i anghenion pobl eraill.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithredu 4.1** | Byddwn yn hwyluso mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth trwy Porth Cymorth Cynnar, gan gynnwys Dewis a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. Byddwn hefyd yn cyflwyno sesiynau cymunedol dementia-gyfeillgar a thechnoleg hygyrch. | **Porth Cymorth Cynnar** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniadau:**<br>• Mae mwy o bobl yn cael eu cynorthwyo.<br>• Mwy o sesiynau dementia-gyfeillgar yn cael eu darparu. | | | |
| Mae 543 o ddefnyddwyr cofrestredig a 607 o adnoddau ar gyfer Ceredigion ar wefan Dewis ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Atgoffir pob darparwr gofal plant cofrestredig i ddiweddaru eu gwybodaeth ar Dewis. Mae'r holl grantiau a weinyddir gan yr Uned Gofal Plant yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddiweddaru gwybodaeth am Dewis yn rheolaidd i fod yn gymwys ar gyfer y grantiau. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynigiodd y Cysylltwyr 42 sesiwn galw heibio ledled Ceredigion i ddarparu cyngor a chymorth wyneb yn wyneb i'r cyhoedd. Deliodd y tîm Gofalwyr a Chymuned â 3,538 o ymholiadau drwy Clic. Roedd y rhain yn cynnwys ceisiadau am gymorth gan y Cysylltwyr, ceisiadau am daliad incwm isel Llywodraeth Cymru i ofalwyr di-dâl a chardiau Gofalwyr Ceredigion sy'n rhoi mynediad i ofalwyr di-dâl i aelodaeth a gostyngiadau am ddim ledled Ceredigion. Yn ogystal â'r ymholiadau hyn, deliodd y tîm â 621 o geisiadau ychwanegol ar gyfer y gronfa Gofalwyr. Roedd 1,970 o Ofalwyr di-dâl yn gofrestredig gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr ym mis Mawrth 2023.<br><br>Mynychodd 86 o staff sesiynau ymwybyddiaeth dementia a sesiynau hyfforddi Dementia Interpreter (59 o staff mewnol a 27 allanol). Cafodd 146 o bobl eraill, rhai ohonynt yn Ofalwyr di-dâl, hyfforddiant dementia rhithwir ar y bws dementia. Cynhaliwyd 5 sesiwn ymgysylltu gyda 93 o bobl hŷn. Mae eu hadborth wedi cyfrannu at ein hunanasesiad Oed-gyfeillgar a fydd yn ein galluogi i ymuno â'r rhwydwaith Cymunedau Oed-gyfeillgar yng Nghymru. | | | |
| **Gweithred 4.2** | Byddwn yn darparu cefnogaeth wedi'i dargedu megis "Cynllun Cyfeirio" a'r cynllun "Ymuno" i alluogi plant ag anghenion ychwanegol i fynychu gweithgareddau prif ffrwd. | **Porth Cynnal / Ysgolion** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Gall plant ag anghenion ychwanegol fynychu gweithgareddau gofal plant a chwarae prif ffrwd. | | | |
| Manteisiodd 6 o blant ar gymorth Ymuno mewn 3 lleoliad gofal plant yn ystod 2022-23 (manteisiodd 1 plentyn yn 2021-22). Ymatebodd 1 lleoliad gofal plant a 2 teulu i'r holiadur adborth 2022-23. Adroddodd pob un ohonynt fod Ymuno wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddatblygiad cymdeithasol y plentyn a dywedodd y teulu fod y cynllun wedi eu galluogi i aros mewn gwaith.<br><br>Mae'r nifer sy'n manteisio ar Ymuno yn parhau i fod yn isel ond mae'n gwella'n araf. Roedd nifer y plant anabl a fynychodd glybiau ar ôl ysgol yn ddealladwy wedi lleihau yn ystod y pandemig ac mae'n cymryd amser i niferoedd gynyddu. Gwaethygir y sefyllfa gan y ffaith bod y ddau brif leoliad gofal plant a ddefnyddiodd gynllun Ymuno (yn Aberteifi a Phenparcau), wedi cau yn ystod y pandemig. Nid yw'r ddarpariaeth gofal plant wedi ailddechrau yn y ddwy ardal hon eto ac mae hyn yn golled fawr i blant anabl a'u teuluoedd. Mae nifer y clybiau y tu allan i'r ysgol gofrestredig yng Ngheredigion wedi gostwng oherwydd amryw o resymau ond rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y clybiau sydd heb eu cofrestru. Mae Ymuno yn ariannu cefnogaeth mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig yn unig.<br><br>Cefnogwyd 175 o blant ag anghenion ychwanegol mewn lleoliadau cyn ysgol gan Gynllun Cyfeirio (150 yn 2021-22). Cefnogwyd 7 o blant gan y Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant. Roedd hyn yn ychwanegol i'r cyllid Cynllun Cyfeirio a dderbynion nhw hefyd. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn dilyn penodiad y Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar gan yr Awdurdod Lleol, datblygwyd rhaglen hyfforddi benodol ar gyfer y sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mae 87% o warchodwyr plant a 100% o arweinwyr lleoliadau gofal plant bellach wedi ymgymryd â'r hyfforddiant hwn ac mae'r sector yn ei werthfawrogi. Casglwyd y sylwadau canlynol o ffurflenni adborth:<br><br>• *"Mae'n fy ngwneud i'n fwy ymwybodol o unrhyw anawsterau y gallai plentyn eu cael a sut alla i eu helpu neu gael help ychwanegol iddyn nhw".*<br>• *"Dwi'n teimlo bod gen i'r hyder i fynd i'r afael â phroblemau gyda'r teulu ac maen nhw'n gwrando arna i"*<br>• *"Mae un ferch fach yn fy ngofal a heb sgiliau iaith. Roedden ni'n teimlo'n ddigon hyderus i drafod y ffordd ymlaen i'r rhieni heb eu poeni."* | | | |
| **Gweithred 4.3** | Byddwn yn darparu cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu ddatblygu ystod o sgiliau bywyd sy'n diwallu eu hanghenion (Cyfathrebu Cyflawn, Creative Lifestyle Solutions, Llond Bol, Canolfan Cymorth Cymunedol). | **Porth Gofal / Ysgolion** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Mwy o bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau eiriolaeth. | | | |
| Mae 'Camu 'Mlaen' yn cael ei arwain gan Gyngor Ceredigion ac yn cael ei ddarparu gan ysgolion Ceredigion, staff Gwasanaethau Cymdeithasol, Coleg Ceredigion a Gyrfa Cymru. Mae'r fenter yn rhoi cyfle i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol aros a pharhau â'u haddysg yng Ngheredigion a datblygu sgiliau allweddol wrth iddynt baratoi ar gyfer eu cam nesaf mewn bywyd. Mae'r 3ydd garfan o bobl ifanc wedi dechrau'r cwrs 2 flynedd ym mis Medi 2022 gyda'r garfan 1af yn graddio ym mis Awst 2022. Mae pobl ifanc yn yr ysgol yn dechrau pontio'n raddol o'r ysgol i ddarpariaeth 'Camu 'Mlaen' ym mis Ionawr bob blwyddyn. | | | |
| **Gweithred 4.4** | Byddwn yn datblygu manyleb a dogfennau tendro ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth newydd ar gyfer Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl a Phobl Hŷn. | **Cyllid a Chaffael** | **Glas** (cyflawn) |
| **Canlyniad:** Mwy o bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau eiriolaeth. | | | |
| Dechreuodd y contract eiriolaeth ranbarthol newydd gyda 3CIPA ar 1 Ebrill 2022. Mae yn gonsortiwm o 5 darparwr, sy'n ehangu'r cwmpas meysydd darpariaeth eiriolaeth ac arbenigeddau. Mae hyn wedi galluogi'r gwasanaeth i fod ar gael i bawb, nid yn unig i bobl hŷn neu'r rhai sydd ag anableddau dysgu neu faterion iechyd feddwl. Cymerodd 3CIPA 65 o atgyfeiriadau newydd yn 2022-23. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r Strategaeth Eiriolaeth ranbarthol wedi'i drafftio ac mae'n mynd drwy'r prosesau arwyddo gyda'r tri Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Hywel Dda cyn mabwysiadu. | | | |
| **Gweithred 4.5** | Byddwn yn darparu ystod ddwyieithog o ddosbarthiadau Ymyrraeth Iechyd ar draws pob rhan o'r sir, gan gynnwys cyflyrau cronig cymhleth ar gyfer cyflyrau ar y galon, Iechyd Meddwl, Rheoli Poen (Dianc) Canserau ac Atal Cwympiadau, gan gynnwys y rhaglen Hyfforddiant Sadrwydd Osgo o dan y Cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Ymarfer Corff (NERS). | **Porth Cymorth Cynnar** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniadau:**<br>• 200 neu mwy o Ddosbarthiadau Ymyrraeth Iechyd bob mis, pob un o fewn 20 munud o amser teithio i bob cleient.<br>• Nifer yr unedau gweithgaredd a ddarperir y flwyddyn.<br>• Rhaglenni sydd wedi'u hadeiladu o amgylch y cleient er mwyn adeiladu arferion sy'n newid bywydau wrth gadw lles gweithredol ac iechyd meddwl. | | | |
| Derbyniwyd 1,011 o atgyfeiriadau NERS yn 2022/23. Dilynir yr holl atgyfeiriadau, er nad yw pob preswylydd yn penderfynu dechrau'r ymyrraeth. Darparwyd 29,000 o Unedau Gweithgareddau yn 2022-23.<br><br>Cynigiwyd 424 o ddosbarthiadau neu weithgareddau Ymyrraeth Iechyd, gan gynnwys NERS, Fit4Life a Theithiau Cerdded Lles bob mis yng Ngogledd, Canolbarth a De'r sir. Roedd 3,137 o bobl yn mynychu rhaglenni Ymyrraeth Iechyd ym mis Ebrill 2023. Mae'r holl raglenni yn brysur ac yn cael derbyniad da gan gleientiaid o bob cwr o Geredigion. | | | |
| **Gweithred 4.6** | Prosiect Cylch Caron – byddwn yn sefydlu gofal yn y gymuned i ddiwallu anghenion iechyd a thai sy'n addas i'r diben. | **Porth Gofal** | **Ambr** |
| **Canlyniad:** Mae'r nifer o wasanaethau ychwanegol sydd eu hangen fel rhan o Brosiect Cylch Caron yn cael eu nodi. | | | |
| Rydym yn weithio ar manylebau tendr ar gyfer prosiect Cylch Caron ar hyn o bryd a'u trefnu i fynd trwy Craffu a'r Cabinet i'w cymeradwyo yn 2023-24. | | | |
| **Gweithred 4.7** | Byddwn yn bwrw ymlaen â datblygu Cofrestr Tai Hygyrch ac yn gweithio ar sicrhau bod cyngor a gwasanaethau Opsiynau Tai yn hygyrch. | **Porth Gofal** | **Gwyrdd** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniad:** Lefelau boddhad uwch o bobl sy'n gwneud cais am dai hygyrch. | | | |
| Mae'r Gofrestr Tai Hygyrch bellach yn fyw. Gall ymgeiswyr hunangyfeirio ond cymerir camau ychwanegol gan swyddogion i sicrhau eu bod ar y rhestr fer ar gyfer yr eiddo cywir a bod cyfleoedd yn cael eu gwneud i'r eithaf ar gyfer pobl sy'n gwneud cais am dai hygyrch. Mae gwaith pellach ar y gweill i fapio'r eiddo hygyrch yn y Sir fel y gallwn gynghori ymgeiswyr yn briodol. Nid oedd dyraniad tai hygyrch yn 2022-23. | | | |
| **Gweithred 4.8** | Byddwn yn ystyried darparu mynediad i'r gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl, pobl hŷn a theuluoedd â phlant ifanc fel rhan o unrhyw waith cynnal a chadw neu wella a wneir. | **Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniadau:**<br>• Mae gwaith i wella arosfannau bysiau ar hyd y llwybr T2/T5.<br>• Parhau i gefnogi a hwyluso menter Llywodraeth Cymru sy'n cynnig teithio am ddim i bawb ar benwythnosau ar rwydwaith TrawsCymru.<br>• Mae'r ddwy fenter yn gwella hygyrchedd trwy gyfrwng gwelliannau i'r seilwaith a'r gwasanaethau | | | |
| Mae menter Llywodraeth Cymru a oedd yn darparu teithiau penwythnos am ddim ar rwydwaith TrawsCymru bellach wedi dod i ben. Mae gwaith wedi parhau ar welliannau i fynediad, arosfannau newydd a darparu gwybodaeth ar goridorau'r T2 a'r T5. Rydym wedi sefydlu contractau tymor byr i gadw lefelau gwasanaeth yn ystod cyfnod anodd i'r diwydiant bysiau. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a'r gweithredwyr gyda'r bwriad o ddarparu'r lefel orau o gyfleoedd a gwasanaethau teithio i'r cyhoedd gyda'r adnoddau sydd ar gael.<br><br>Rydym wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ac wedi cynnal ymarfer caffael i ddarparu contractau bysiau lleol. Bydd y gwasanaethau newydd yn dechrau ym mis Medi 2023. Fel rhan o hyn, rydym wedi darparu bwrdd prisiau wedi'i seilio ar filltiroedd a ddylai wneud prisiau bws yn fwy cyson ar draws y sir.<br><br>Rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol cyfagos ar wasanaethau gan gynnwys y Cyswllt / Bwcabus yn ogystal â gwasanaethau trawsffiniol. Mae bysiau trydan newydd wedi dechrau ar y gwasanaeth T1 rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu comisiynu a'u rheoli gan Trafnidiaeth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Dyma'r model gwasanaethau TrawsCymru yn symud ymlaen - hyd yn hyn yr Awdurdodau Lleol sydd wedi cyflawni'r rôl comisiynu a rheoli contractau. | | | |

<table>
<tr><td>Gweithred 4.9</td><td>Byddwn yn ystyried anghenion pobl anabl wrth gynnal a chadw neu wella llwybrau troed a cherbytffyrdd (er enghraifft cyrbiau is).</td><td>Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol</td><td>Ambr</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canlyniad: Mwy o welliannau i lwybrau troed sy'n mynd i'r afael â materion hygyrchedd.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Gyda chyllideb Priffyrdd sy'n gostwng mae'r gwaith a wneir yn lleihau ac felly mae'n rhaid i'r pwyslais fod ar gynnal a chadw yn hytrach na gwella.</td></tr>
<tr><td>Gweithred 4.10</td><td>Byddwn yn parhau i weithredu Cymhennu Ceredigion er mwyn codi ymwybyddiaeth a lleihau nifer y rhwystrau ar lwybrau troed yn ein trefi megis byrddau hysbysebu ffrâm A a biniau ar olwynion.</td><td>Priffyrdd a gwasanaethau amgylcheddol</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canlyniad: Mae Cyhoeddiadau Clutter Free Ceredigion yn cael eu rhannu / cyhoeddi ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn rheolaidd sy'n darparu ar gyfer codi ymwybyddiaeth yn barhaus.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mae cyhoeddiadau Cymhennu Ceredigion <http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/caru-ceredigion/> yn cael eu defnyddio a'u cyfeirio gyda'r bwriad o gael dylanwad cadarnhaol ar y mater rhwystrau ar lwybrau troed.</td></tr>
<tr><td>Gweithred 4.11</td><td>Byddwn yn cynnal archwiliadau hygyrch i sicrhau bod pob aelod o'r cyhoedd yn gallu cael mynediad i swyddfeydd y Cyngor.</td><td>Economi ac Adfywio</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canlyniad: Nifer cynyddol o adolygiadau hygyrch wedi’u cynnal, a’r gwelliannau a argymhellwyd wedi cael sylw.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Rydym yn parhau i gynnal archwiliadau hygyrchedd ar gyfer adeiladau'r Cyngor a datblygiadau mawr. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r Strategaeth Toiledau o ran hygyrchedd a gwaith parhaus i gynyddu nifer y toiledau gyda mannau newid yn y Sir.</td></tr>
<tr><td>Gweithred 4.12</td><td>Rydym wedi cyflawni safon hygyrchedd AA ar gyfer ein gwefan a byddwn yn gweithio tuag at ennill safon AAA, gan gynnwys darparu bar offer darllenadwy.</td><td>Cyswllt Cwsmeriaid</td><td>Glas (cyflawn)</td></tr>
<tr><td colspan="4">Canlyniad: Lefelau uwch o foddhad cwsmeriaid.</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd y camau hyn bob amser yn mynd rhagddynt i fodloni unrhyw safonau newydd – rydym wedi cyflawni'r holl safonau sylfaenol angenrheidiol ar gyfer hygyrchedd (gradd AA). Mae dros 90% o'r wefan wedi cyrraedd safon AAA. Mae'r 10% sy'n weddill oherwydd y defnydd dogfennau PDF sydd bron yn amhosibl eu cyrraedd. Rydym yn annog darparwyr cynnwys gwe i ystyried cyhoeddi 2 neu 3 tudalen we yn hytrach na dogfennau PDF sengl. | | | |
| **Gweithred 4.13** | Byddwn yn parhau i reoli llwybr yr arfordir i sicrhau bod y llwybr yn bodloni disgwyliadau ymwelwyr, gan gynnwys parhau i ddilyn egwyddorion ' *Mynediad Lleiaf Rhwystrol'* lle bo hynny'n bosibl. Byddwn yn ystyried anghenion pobl ag anableddau wrth gynnal neu wella hawliau tramwy cyhoeddus. | **Economi ac Adfywio** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Mae'r egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. | | | |
| Mae nodi rhwystrau i fynediad, er enghraifft, graddiannau, camfâu, wyneb y llwybr, wedi'u cynnwys fel safon ym mhob taflen llwybrau a hyrwyddir. Rydym yn parhau i weithio tuag at yr egwyddorion mynediad lleiaf rhwystrol. Gatiau yw'r prif opsiwn ar hawliau tramwy cyhoeddus gyda chamfa yn unig yn cael ei defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol a lle na ellir perswadio tirfeddianwyr fel arall. Mae gwelliant parhaus yn cael ei wneud ar wynebu llwybrau a gwella lled ar y llwybr arfordirol a llwybrau mewndirol eraill. Mae holiadur ar-lein wedi'i sefydlu i ddeall anghenion lleol. Mae hwn yn arolwg penagored sy'n llywio gwaith gwella mynediad lleol.<br><br>Defnyddiwyd cyllid cyfalaf pellach i ddisodli pontydd troed sy'n helpu i gydymffurfio â lled o 1.2m sydd wedi'i gynnwys yn y canllawiau "trwy bob dull rhesymol" ar fynediad lleiaf cyfyngol. Cafwyd Grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru gwerth £75,000 i wella mynediad ar draws y sir. | | | |
| **Gweithred 4.14** | Byddwn yn mynd i'r afael â mynediad cyfartal i ardaloedd chwarae i gefnogi'r cynllun gweithredu digonolrwydd chwarae | **Porth Cymorth Cynnar** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Cynnydd yn y nifer o geisiadau am grant wrth y Cyngor i wella ardaloedd chwarae a gefnogir gan bolisi neu gynlluniau i ddarparu man chwarae hygyrch. | | | |
| Cynigir cefnogaeth i holl aelodau'r Rhwydwaith Ardal Chwarae drwy e-bost. Yn anffodus, nid oedd unrhyw grantiau cyfalaf ar gael eleni gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n anodd iawn gwella hygyrchedd heb gyllid cyfalaf. Roedd cais i UKSPF am gyllid cyfalaf i wella parciau | | | |

Tudalen 196

| | | | |
|---|---|---|---|
| ac ardaloedd chwarae yn aflwyddiannus. Bûm yn gweithio gyda CAVO i greu dogfen sy'n amlinellu lle gall ymddiriedolwyr ardal Parc a Chwarae wneud cais am gymorth. | | | |
| **Gweithred 4.15** | Byddwn yn sicrhau bod ein polisi caffael a'n manyleb contract yn cynnwys Cydraddoldeb a'r Gymraeg fel gwybodaeth safonol. | **Cyllid a Chaffael** | **Glas** (cyflawn) |
| **Canlyniad:** Canran y manylebau contract a gyhoeddwyd gyda gofynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg. | | | |
| Mae'r holl gontractau sylweddol yn cael eu hysbysebu ar system e-dendro Cymru. Mae gan 100% o'r tendrau hyn gwestiynau Cydraddoldeb a gofynion Iaith Gymraeg wedi'u hymgorffori ynddynt fel rhan o broses safonol. Efallai na fydd y rhai sy'n cyflwyno tendr ac sy'n methu ymateb yn gadarnhaol i'r gofynion yn symud ymlaen i'r cam nesaf. Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi hefyd wedi'i gynnwys yn y tendrau hyn fel safon. Datblygwyd templed manyleb contract safonol sy'n rhoi gofynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar y rhai sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau ar ran y Cyngor. | | | |
| **Gweithred 4.16** | Byddwn yn parhau i gefnogi clybiau chwaraeon cymunedol i gyflawni'r Wobr Anabledd Insport. | **Porth Cymorth Cynnar** | **Ambr** |
| **Canlyniad:** Mwy o brosiectau gwirfoddol /cymunedol i hyfforddi ac addysgu pobl i fod yn fwy hyderus a datblygu cyfleoedd mwy cynhwysol yn ein cymunedau. | | | |
| Mae peth oedi wedi bod gyda chefnogi Clybiau Chwaraeon Cymunedol Ceredigion gyda'r broses achredu clwb Insport. Mae hyn oherwydd newidiadau staff yn ein gwasanaeth yn ogystal â Chwaraeon Anabledd Cymru (DSW) yn adolygu'r broses Clwb Insport. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn amharu ar ein cynnydd wrth gefnogi cyfleoedd cynhwysol yn ein cymunedau.<br><br>Aeth Gwobrau Chwaraeon Ceredigion eleni i Wirfoddolwr Chwaraeon Anabledd y Flwyddyn ac mae dau enillydd y Wobr Gwirfoddolwr Llysgennad Ifanc y Flwyddyn yn gwirfoddoli gyda Chlwb Chwaraeon Anabledd yn Aberteifi. Yn ogystal, helpodd 15 o wirfoddolwyr ifanc (sydd ag anableddau dysgu) i redeg y rhaglen gynhwysol Chwarae i Bawb ledled Ceredigion ar gyfer tua 60 o bobl ifanc.<br><br>Roedd y Rhaglen Wyliau eleni yn cynnwys digwyddiadau penodol i anabledd a drefnwyd yng ngogledd, canolbarth a de Ceredigion. Hefyd cynhaliodd Ceredigion Actif ddau ddigwyddiad Insport yn 2023 - digwyddiad tîm yn cynnig saethyddiaeth, ffensio, boccia, pêl-fasged cadair olwyn a rygbi a nofio a digwyddiad i'r nam ar y clyw yn cynnig rygbi, golff, pêl-droed, tenis, tenis bwrdd ac athletau. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithredu 4.17** | Byddwn yn datblygu gweledigaeth ar gyfer Ceredigion Actif gan ennill gwobr Insport safon aur. | **Porth Cymorth Cynnar** | **Ambr** |

**Canlyniadau:**
- Parhau â'r broses o deithio a dysgu staff, partneriaid a gwasanaethau o statws Rhuban i Aur.
- Bod yn wasanaeth cynhwysol a gweledigaethol ar gyfer pob safon.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyn-panel cychwynnol rhwng ein tîm a chynrychiolwyr Chwaraeon Anabledd Cymru i drafod yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer achrediad Aur a lle rydym fel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Mae angen rhagor o waith yn awr i gasglu'r wybodaeth er mwyn symud ymlaen i'r panel llawn.

**Amcan 5: Addysg Deg a Chynhwysol**

**Rydym am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyrraedd eu potensial llawn. Dylai'r hawl i addysg a hyfforddiant hefyd sicrhau hygyrchedd ac amgylchedd sy'n rhydd rhag bwlio neu aflonyddu. Mae hyn yn cynnwys dysgu gydol oes.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 5.1** | Byddwn yn cefnogi Ysgolion i sicrhau eu bod yn adolygu ac yn diweddaru eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. | **Ysgolion a Diwylliant** | **Glas** (cyflawn) |

**Canlyniadau**:
- Mae pob ysgol yn adrodd ac yn cadarnhau eu bod wedi cwblhau cynlluniau cydraddoldeb strategol unigol yn ystod tymor yr haf yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu.
- Mae gan bob ysgol Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith.

Mae'r ddau ganlyniad wedi’u cyflawni.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 5.2** | Byddwn yn cefnogi ysgolion i fynd i'r afael â bwlio ar sail hunaniaeth ac i weithredu Pecyn Cymorth a Chanllawiau Gwrth-fwlio arfaethedig Llywodraeth Cymru ar ôl iddo gael ei lansio yng ngwanwyn 2020. | **Ysgolion a Diwylliant** | **Glas** (cyflawn) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canlyniadau:**<br>• Mae pob ysgol wedi adolygu eu polisi gwrth-fwlio.<br>• Mae polisi drafft wedi ei greu ar gyfer ysgolion o'r canllawiau gwrth-fwlio newydd.<br>• Copi drafft wedi ei anfon i'w ymgynghori arno a cheisio cymeradwyaeth uwch staff addysg cyn cael ei gylchredeg i'r ysgolion. | | | |
| Mae'r Canllawiau Gwrth-fwlio wedi'u cymeradwyo gan y Cabinet ac mae bellach yn cael ei fabwysiadu fel polisi. Mae gan bob ysgol gopi o'r polisi, sy'n parhau i gael ei ddiwygio'n flynyddol. Mae pob ysgol gynradd wedi cael cynnig hyfforddiant gwrth-fwlio KiVa. Mae 6 ysgol gynradd wedi derbyn yr hyfforddiant. Ar hyn o bryd nid oes hyfforddiant ar gael ar gyfer ysgolion uwchradd.<br><br>Mae'r polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi cael ei gymeradwyo gan y Cabinet a'i rannu gydag ysgolion. Bydd hyn nawr yn cael ei fabwysiadu gan Lywodraethwyr i gefnogi perthnasoedd iach a pharchus. | | | |
| **Gweithred 5.3** | Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant heb ADY a'r rhai sydd ag ADY. | **Ysgolion a Diwylliant** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniadau:**<br>• Mae pob disgybl ag ADY wedi gwneud cynnydd priodol yn unol â'i anghenion.<br>• Tystiolaeth trwy ddata ar gyflawniad plant ADY ym mhob cyfnod allweddol. | | | |
| Yn 2021/22, cyflawnodd 44.4% o ddysgwyr ADY 5 gradd A*- C (neu gyfwerth) yn CA4, tra bod 78.8% wedi ennill 5 gradd A*- G. Ar gyfartaledd, cyflawnodd dysgwyr ADY sgôr 9 wedi'i Capio o 283. Nid yw'n bosib cymharu hyn â blynyddoedd blaenorol oherwydd yr effaith y mae COVID wedi'i chael ar gymwysterau ers 2019, a hefyd yr effaith y mae'r cod ADY newydd yn ei gael ar y garfan hon o ddisgyblion. | | | |
| **Gweithred 5.4** | Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn lleihau bylchau a nodwyd mewn cyrhaeddiad. | **Ysgolion a Diwylliant** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Gwnaeth yr holl ddisgyblion sy'n Blant sy'n Derbyn Gofal gynnydd priodol yn ôl yr angen (a dystiwyd gan ddata ar gyflawniad plant sy'n derbyn gofal ar bob cam allweddol). | | | |

Ar y cyfan, mae perfformiad Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion yn dda. Mae tystiolaeth fonitro fewnol yn dangos bod disgyblion yn gwneud cynnydd. Ni fydd unrhyw adrodd ar ddata Diwedd Cyfnod Allweddol oherwydd Covid-19. Ar hyn o bryd mae 92 o blant Ceredigion mewn gofal ar y gofrestr (48 wedi'u gosod yng Ngheredigion a 44 wedi'u lleoli allan o'r sir), gyda 35 ohonynt ag ADY. Yn ogystal, mae 26 o ddisgyblion y tu allan i'r sir wedi'u rhoi yng Ngheredigion gan awdurdodau eraill; Mae gan 14 o'r rhain ADY sy'n gofyn am lefel ychwanegol o gymorth, gweler y rhifau isod:

| **Lefel cymorth** | **Disgyblion Ceredigion o Geredigion** | **Disgyblion Ceredigion o awdurdodau eraill** |
|---|---|---|
| Gweithredu gan yr Ysgol a Chytundeb Adnoddau | 5 | |
| Datganiad | 1 | 7 |
| Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 13 | 3 |
| Gweithredu gan yr Ysgol | 11 | 3 |
| Cynllun Datblygu Unigol | 5 | 1 |
| **Cyfanswm** | **35** | **14** |

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n derbyn gofal yn cael eu haddysgu yn ein hysgolion prif ffrwd, ond mewn rhai achosion mae angen darparu pecyn cwricwlwm amgen i ddiwallu anghenion y disgybl. Ar hyn o bryd mae'r garfan a nodwyd yn trosglwyddo o'r hen system AAA i'r system ADY newydd.

Mae modiwlau ymlyniad, trawma a hyfforddiant chwarae sy'n seiliedig ar berthynas bellach ar gael i bob aelod o staff addysg drwy blatfform HWB. Bu ffocws ychwanegol hefyd ar les disgyblion. Mae hyn wedi cynyddu capasiti staff ysgolion i ddeall a bodloni anghenion ymlyniad nifer ehangach o ddisgyblion.

| **Gweithred 5.5** | Byddwn yn helpu dysgwyr o ethnig leiafrifol i gael mynediad i'r cwricwlwm i sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial llawn ac yn gwella eu cyrhaeddiad. | **Ysgolion a Diwylliant** | **Gwyrdd** |
|---|---|---|---|

**Canlyniadau:**

- Darparu cymorth peripatetig parhaus a/neu ymyrraeth ar gyfer ysgolion a dargedwyd a gweithredu rhwng rhanddeiliaid yn yr Awdurdod Lleol.

- 5% o ddisgyblion wedi symud i fyny lefel o ran cynnydd Saesneg fel Iaith Ychwanegol, gydag 1% yn gwneud 2 lefel neu fwy o gynnydd.
- 64% o'r disgyblion ar god C-E, o'r rhain mae 61% yn ddigonol (D) neu'n rhugl (E).

Wrth gymharu PLASC yn 2023 â 2022, symudodd 20% o'r disgyblion i fyny lefel o ran eu rhuglder, tra bod 8% yn gwneud cynnydd o 2 lefel neu fwy. Mae 73% o ddisgyblion EAL bellach yn cael eu codio C-E, gyda 55% yn ddigonol (D) neu'n rhugl (E).

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 5.6** | Byddwn yn datblygu ymyraethau wedi'u targedu ar gyfer plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. | **Ysgolion a Diwylliant** | **Gwyrdd** |

**Canlyniadau:**

- Darperir hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer ymyraethau e.e. Rhifedd, Iaith, ADY, Sgiliau Meddwl.
- Mae hyfforddiant yn cefnogi defnydd effeithiol o Hafan a chymhwystra prydau Ysgol am Ddim o fewn asesiad proffil.
- Mae cynadleddau yn hyrwyddo dealltwriaeth ac ymyrraeth ar fwlio, llais y plentyn, iechyd a llesiant.

Darparwyd hyfforddiant Rhifedd, Iaith, ADY (heriau ymddygiad ac emosiynol) a Sgiliau Meddwl gan ystod o dimau ac mae'r adnoddau hyfforddi bellach ar gael ar ein gwefan. Mae ein dull ataliol yn golygu bod yr hyfforddiant wedi'i dargedu yn unol â gallu ac anghenion unigolion, nid yn unig ar ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae'r hyfforddiant yn targedu anghenion a strategaethau sy'n berthnasol iawn i ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyfforddiant Codi Cyrhaeddiad Plant dan Anfantais (RADY), hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a hyfforddiant Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma hefyd wedi'i gyflwyno.

Cynhaliwyd hyfforddiant a chefnogaeth i staff Hafan ddechrau'r flwyddyn. Cynhaliwyd arolwg mewnol i fonitro'r holl ddarpariaeth Hafan yn y Sir. Dangosodd y canlyniadau fod ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ddosbarthiadau Hafan, bod disgyblion yn hoffi'r hyn y mae Hafan yn ei gynnig a'u bod yn teimlo ei fod o fudd mawr iddynt. Nodwyd hefyd y defnydd effeithiol o Gynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA). Mae disgyblion ar draws ysgolion yn defnyddio'r ddarpariaeth, yn enwedig disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, ond nid oes data penodol ar y plant unigol sy'n defnyddio Hafan.

Cynhaliwyd cynhadledd Llais y Plentyn ar-lein oherwydd costau cludo. Gwahoddwyd disgyblion Blwyddyn 6 a 7 yn y cyfnod pontio ac fe wnaethant roi mewnbwn i gynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bu ein swyddog lles hefyd yn cynnal trafodaethau gyda chynghorau ysgol ar draws y sir.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 5.7** | Byddwn yn gwneud gwaith uwchraddio i adeiladau ysgolion ar sail anghenion ar y cyd â chynlluniau hygyrchedd ysgolion unigol. | **Ysgolion a Diwylliant** | **Gwyrdd** |

**Canlyniadau:**

- Bydd ceisiadau am gyfalaf yn cael eu derbyn trwy dderbyn cynlluniau hygyrchedd ysgolion sy'n tynnu sylw at y gwaith sydd ei angen.
- Nifer yr addasiadau i'r ysgol a'r nifer a gwblhawyd.

Derbyniwyd un cais i ddarparu lifft newydd mewn ysgol gynradd i gydymffurfio â'r cynllun hygyrchedd - mae'r cynlluniau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i'w gweithredu yn ystod 2023/24.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 5.8** | Byddwn yn gweithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. | **Ysgolion a Diwylliant** | **Gwyrdd** |

**Canlyniadau:**

- Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar waith ac yn parhau tan 2021 hyd nes y cyhoeddir Cynllun Strategol 2021-2031.
- Mae'r cynllun wedi ei weithredu a'r canlyniadau yn cael eu monitro.

Cafodd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2022 yn dilyn diwygiadau yn seiliedig ar adborth gan Lywodraeth Cymru. Mae trosolwg o bum mlynedd a chynllun dwy flynedd manylach wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru a phwyllgor Craffu Cyngor Ceredigion i gael adborth. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo yn 2023-24.

Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol y Fforwm ym mis Chwefror 2023 gydag Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, wedi'i benodi'n Gadeirydd a'r Cynghorydd Wyn Thomas yn Is-gadeirydd. Cynhaliwyd cyfarfod pellach ym mis Mawrth gyda'r Prif Swyddog Addysg, Swyddogion Adran Ysgolion a Phenaethiaid ysgolion cynradd trosiannol i'w diweddaru ar y cynllun gweithredu a fydd yn cael cyhoeddusrwydd mewn papurau newydd lleol ac a gyhoeddir ar wefan y Cyngor ar ôl cymeradwyaeth y Cabinet.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 5.9** | NEET (nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) – byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd a'r darpariaethau ar gyfer pobl ifanc agored sy'n i niwed a gefnogir gan gwricwlwm amgen. | **Porth Cymorth Cynnar** | **Gwyrdd** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Byddwn yn sicrhau bod buddion cymunedol yn cael eu cynnwys fel gofyniad craidd i holl gontractau caffael perthnasol y Cyngor a bod canran y cyfleoedd Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant a grëwyd yn cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. | | |

**Canlyniadau:**

- Nifer y cyrsiau newydd sydd wedi'u hychwanegu at ddarpariaeth y cwricwlwm amgen ers mis Medi 2019.
- Mae cynnydd da yn cael ei wneud; mae gan bob contract caffael CSC priodol fuddion cymunedol fel gofyniad craidd.
- Caiff cynnydd ei fesur trwy ddata 'NEET' blynyddol.

Mae Gweithiwr Ieuenctid wedi'i ddynodi i bob ysgol uwchradd. Maent yn darparu cefnogaeth mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRU) a'r Cwricwlwm Amgen.  Mae Gweithwyr Ieuenctid  yn gweithio'n agos gyda Mentoriaid Sgiliau a Swyddogion Atal a Dargyfeirio i ddarparu cymorth i bobl ifanc ôl-16 sy'n 'NEET' neu sydd mewn perygl o fod yn 'NEET'. Ail-gysylltodd **63** o bobl ifanc gydag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl cael eu cyfeirio at weithiwr ieuenctid.

Darparwyd **88** o weithdai gan weithwyr ieuenctid. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol a chymdeithasol, lles ac Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant – mae enghreifftiau'n cynnwys gwirfoddoli i'r gymuned leol, bowlio, garddio, diwylliant a darganfod treftadaeth Cymru a siaradwyr gwadd.

Mae staff y Gwasanaeth Ieuenctid a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn parhau i weithio gyda Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith i ddatblygu profiad, prentisiaethau a hyfforddeiaethau i sicrhau bod y rhai nad ydynt yn barod i weithio yn gallu cael gafael ar gymorth. Cynigir sesiynau blas mewn gwaith coed, mecaneg, trin gwallt, harddwch a phlymio. Mae'r rhaglenni Gweithffyrdd+ a Cymunedau am Waith hefyd yn rhoi cymorth i bobl ifanc gael mynediad i Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant.

Mae angen mwy o waith i sicrhau bod cymalau budd cymunedol yn cynnwys targedau penodol ar gyfer lleoliadau profiad gwaith, swyddi newydd a grëwyd a chefnogaeth gan gontractwyr mewn digwyddiadau gyrfaoedd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithred 5.10** | Byddwn yn helpu pobl hŷn a phobl anabl i fanteisio ar dechnolegau digidol, ac i gydnabod manteision bod ar-lein. | **Porth Cymorth Cynnar** | **Gwyrdd** |

**Canlyniadau:**

- Cynnydd yn nifer y cofrestriadau Dysgu Bro dros 50 oed.

| | | | |
|---|---|---|---|
| • Cynnydd yn nifer y bobl dros 50 oed ar ddosbarthiadau llythrennedd digidol.<br>• Cynnydd yn nifer y bobl dros 50 oed gydag anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol sydd wedi cofrestru ar ddosbarthiadau llythrennedd digidol. | | | |
| Mae 186 o bobl 50+ oed wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau gyda blwyddyn academaidd Dysgu Bro. O'r rhain nododd 8 person (4.3%) fod ganddynt anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol. Rydym wedi cynyddu nifer y bobl drwy ddarparu mwy o leoliadau cymunedol o amgylch Ceredigion a chynnig gweithdai un dydd.  Rydym wedi teilwra ein dosbarthiadau digidol i ymdrin â materion sy'n ymwneud ag unigolion, er enghraifft siopa ar-lein ac aros yn ddiogel ar-lein.  Rydym hefyd  yn benthyg gliniaduron yn ôl yr angen. | | | |
| **Gweithred 5.11** | Byddwn yn cynnig cyrsiau 'Chwarae Gyda'n Gilydd' (Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd) i ddisgyblion ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o namau a sut i gynnwys ffrindiau mewn gweithgareddau corfforol cynhwysol. | **Porth Cymorth Cynnar** | **Gwyrdd** |
| **Canlyniad:** Mewn partneriaeth â Phobl Ifanc Egnïol a Chwaraeon Cymru byddwn yn hyfforddi disgyblion ysgol a gwirfoddolwyr i ddysgu sut i addasu / cynnwys eraill mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. | | | |
| Mae pob Llysgennad Ifanc Efydd mewn ysgolion cynradd wedi derbyn hyfforddiant yn 2022-23. Mae'n rhaglen dreigl flynyddol. | | | |

# Eitem Agenda 8

## Cyngor Sir CEREDIGION

**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

**DYDDIAD:** 11 Medi 2023

**LLEOLIAD:** Hybrid

**TEITL:** Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2023 ac Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2023

**DIBEN YR ADRODDIAD:** Er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn bodloni ei ofynion mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011 i gyhoeddi gwybodaeth am y gweithlu yn flynyddol.

**Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** Er mwyn sicrhau bod yr adroddiad yn addas i'r diben ac er mwyn gwneud argymhellion i'r Cabinet fel y bo'n briodol.

**CEFNDIR:**
Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion, ynghyd â'r holl awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru, adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chyhoeddi gwybodaeth am y gweithlu yn flynyddol.

**Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2023**
Mae'r gofyniad i adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi'i gynnwys yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i wneud chwe chyfrifiad ynglŷn â'r gweithlu ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ddata a gymerwyd am y gweithle ar 31 Mawrth 2023.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cymedr y bwlch cyflog rhwng y rhywiau | Y gwahaniaeth rhwng enillion fesul awr cyfartalog gweithwyr gwryw perthnasol ar gyflog llawn a gweithwyr benyw perthnasol ar gyflog llawn. |
| 2 | Canolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau | Y gwahaniaeth rhwng canolrif enillion fesul awr gweithwyr gwryw perthnasol ar gyflog llawn a gweithwyr benyw perthnasol ar gyflog llawn. |
| 3 | Cymedr bonws y bwlch cyflog rhwng y rhywiau | Y gwahaniaeth rhwng cymedr y tâl bonws a delir i weithwyr gwryw perthnasol a'r hynny a delir i weithwyr benyw perthnasol. |
| 4 | Canolrif bonws y bwlch cyflog rhwng y rhywiau | Y gwahaniaeth rhwng canolrif y tâl bonws a delir i weithwyr gwryw perthnasol a'r hynny a delir i weithwyr benyw perthnasol. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Y cyfrannau sy’n derbyn taliadau bonws | Cyfran y gweithwyr gwryw a benyw perthnasol a dderbyniodd daliadau bonws yn ystod y cyfnod perthnasol. |
| 6 | Bandiau cyflog chwartel | Cyfran y gweithwyr gwryw a benyw perthnasol ar gyflog llawn sydd yn y chwartel isaf, y chwartel canol isaf, y chwartel canol uchaf a’r chwartel uchaf. |

Fodd bynnag, yn sgil cyflwyno'r Cytundeb Statws Sengl yn 2012, nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud taliadau bonws (perfformiad neu benodol) felly ni chyhoeddir ffigurau ar gyfer pwyntiau 3, 4 a 5 yn y tabl uchod.

Ar 31 Mawrth 2022, cymedr y bwlch cyflog oedd -7.8% a chanolrif y bwlch cyflog oedd -10.4% rhwng dynion a menywod. Mae hyn yn gynnydd o 31 Mawrth 2022, lle -6.0% oedd cymedr y bwlch cyflog a -7.6% oedd canolrif y bwlch cyflog. Ymdrinnir â'r rheswm pam fod y bwlch yn bodoli yn yr adroddiad ynghyd â'r mesurau yr ydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng cyflogau.

**Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2023**
Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011, sy’n rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cyngor gyhoeddi amrywiaeth o ddata am ein gweithlu o dan bob un o’r nodweddion gwarchodedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred (gan gynnwys dim cred)
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Priodas a Phartneriaeth Sifil

Mae’r data a gasglwyd yn ymwneud â’r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 ac mae’n adrodd ar bob nodwedd warchodedig yn y canlynol:

- ein gweithlu presennol ar 31 Mawrth 2023;
- y rhai a wnaeth gais am swyddi yn ystod y cyfnod
- y rhai a adawodd ein cyflogaeth yn ystod y cyfnod

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam**<br><br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:** | Na. Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at bolisi na newid gwasanaeth |

**Cynnwys:**
**Atal:**

**ARGYMHELLION:** (1) Derbyn Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2023
(2) Derbyn Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2023

**Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:** (1) Cydymffurfio â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017
(2) Cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010: Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011

**Enw Cyswllt:** Geraint Edwards

**Swydd:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth

**Dyddiad yr Adroddiad:** 15/08/2023

**Acronymau:**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol



# Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

2023

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Caru·Love
Ceredigion

## Cyngor Sir Ceredigion


Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion ynghyd â'r holl awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru lunio Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017.

Mae hyn yn cynnwys gwneud chwe chyfrifiad sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog dynion a menywod yn ein sefydliad, ond ni chyhoeddir data am weithwyr unigol.

1. Cymedr y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
2. Canolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
3. Cymedr bonws y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
4. Canolrif bonws y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
5. Cyfran y gwrywod a benywod sy'n cael taliadau bonws
6. Cyfran y gwrywod a benywod ym mand pob chwartel


Bydd yr adroddiad hwn sy'n cynnwys yr wybodaeth a'r camau gweithredu gofynnol y bydd y Cyngor yn ymgymryd â nhw er mwyn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan a bydd hefyd ar gael i staff ar y safle mewnrwyd Ceri Net.

## Cyd-destun




Ar 31 Mawrth 2023 roedd gweithlu'r Cyngor yn cynnwys 66% o weithwyr benyw a 34% o weithwyr gwryw.

## Ffigurau bwlch cyflog rhwng y rhywiau




Diffinnir y bwlch cyflog rhwng y rhywiau fel y gwahaniaeth rhwng cyfradd tâl fesul awr cymedr neu ganolrif staff gwryw a benyw.

**Cymedr y bwlch cyflog** yw'r gwahaniaeth rhwng enillion fesul awr cyfartalog dynion a menywod.

**Canolrif y bwlch cyflog** yw'r gwahaniaeth rhwng mannau canol yn yr amrediadau o enillion fesul awr dynion a menywod. Mae'n cymryd yr holl gyflogau yn y sampl, yn eu trefnu o'r cyflog isaf i'r cyflog uchaf, ac yn dewis y cyflog mwyaf canolig.


Mae'r wybodaeth a roddir yn y siartiau yn seiliedig ar y gyfradd tâl fesul awr ar 31 Mawrth 2023.

**Mae'r gyfradd hon yn gynnydd ar y flwyddyn ddiwethaf (2022): cymedr y bwlch cyflog oedd -6.0% a chanolrif y bwlch cyflog oedd -7.6%.**

Yn sgil cyflwyno'r Cytundeb Statws Sengl yn 2012, nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud taliadau bonws (perfformiad neu benodol) felly ni chyhoeddir ffigurau ar gyfer pwyntiau 3, 4 a 5 uchod.

## Cyfran y gweithwyr gwryw a benyw ym mhob chwartel tâl

Mae'r siart yn dangos y rhaniad rhwng y rhywiau pan fyddwn yn trefnu tâl fesul awr o'r tâl uchaf i'r tâl isaf a'i grwpio yn bedwar chwartel cyfartal.



## Pam bod bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Er ein bod yn hyderus bod dynion a menywod yn cael tâl cyfartal am wneud swyddi tebyg ar draws y Cyngor, y prif reswm dros y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ein sefydliad yw'r anghydbwysedd rhwng gweithwyr gwryw a benyw ar draws y sefydliad. Ar hyn o bryd mae llai o fenywod mewn swyddi uwch na dynion, ac mae cyfran uwch o fenywod o'i gymharu â dynion hefyd mewn swyddi graddfa is.

## Sut y byddwn yn parhau i roi sylw i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau

**Recriwtio -** Byddwn yn denu'r bobl iawn.

- Ceisiwn recriwtio o'r gronfa dalent ehangaf bosibl. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwefan Gyrfaoedd er mwyn denu cynifer o ymgeiswyr â phosibl i weithio i Gyngor Sir Ceredigion.
- Byddwn yn sicrhau bod yr iaith mewn hysbysebion swyddi yn niwtral o ran y rhywiau.
- Byddwn yn parhau i archwilio llwyfannau pellach i hyrwyddo proffil recriwtio'r Cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn denu cynifer o ymgeiswyr â phosibl, a byddwn yn monitro'r rhain i werthuso'r effaith ar nifer yr ymgeiswyr.
- Byddwn yn parhau i gynyddu nifer y lleoliadau profiad gwaith a chyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc gan eu galluogi i ddatgloi eu potensial drwy ennill a dysgu yr un pryd.

**Cadw staff** - Unwaith y bydd gennym y bobl iawn, rydym am iddynt aros gyda ni.

- Byddwn yn parhau i gynnig amrywiaeth o drefniadau gweithio oriau hyblyg ar bob lefel, ac ar hyn o bryd mae 49% o'n staff (ac eithrio staff ysgolion) yn gweithio'n rhan-amser. Byddwn yn parhau i ddatblygu a gwerthuso ffyrdd newydd o weithio.
- Byddwn yn adolygu ein polisïau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a bod yn ystyriol o'r teulu i sicrhau eu bod nhw'n cynnig y cyfleoedd gorau i gadw staff sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol i ddarparu ein gwasanaethau.
- Rydym wedi cyflwyno 'Polisi Gofalwyr' i gefnogi'r aelodau hynny o staff sydd â chyfrifoldebau gofalu ochr yn ochr â'u gwaith cyflogedig.
- Mae Rhaglen Rheolwyr Ceredigion, gafodd ei chyflwyno yn 2018, wedi cael ei diwygio a'i hail-lansio mewn fformat newydd lle bydd pob rheolwr newydd yn derbyn hyfforddiant sy'n cynnwys recriwtio, dewis, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhaglen ac yn monitro bod pob rheolwr yn mynychu'r hyfforddiant a ddarperir
- Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu hyfforddiant i staff ar 'Ragfarn ddiarwybod' gan sicrhau bod Rheolwyr yn deall beth yw 'rhagfarn ddiarwybod' a'i effaith ar benderfyniadau'r rheolwyr yn y gweithle.

**Datblygu –** Rhaid inni sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfleoedd datblygu

- Byddwn yn parhau i gynnig cyfleoedd i wneud cymwysterau'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) yn y gweithle.
- Rydym wedi cyflwyno Panel Cymwysterau Corfforaethol i sicrhau bod yr holl staff â chyfle cyfartal i ymgeisio am gymorth i wneud cymwysterau a fydd yn hybu eu gyrfa yng Nghyngor Sir Ceredigion.

*"Grymuso ein pobl i wireddu eu potensial"*



# Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu

2023

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Caru·Love
Ceredigion

## Cyflwyniad

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi dwyn ynghyd a disodli'r holl gyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol o dan un Ddeddf. Cyn hynny roedd dyletswyddau ar wahân gan gyrff sector cyhoeddus o ran hil, anabledd a chydraddoldeb rhyw. Fodd bynnag, roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cydgrynhoi'r rhain o dan ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus newydd (y ddyletswydd gyffredinol) gan gwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil – gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gred – gan gynnwys dim cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Statws priodasol – mae'n gymwys i briodasau a phartneriaethau sifil, ond dim ond mewn perthynas â'r gofyniad i roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu.

Yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol nod y ddyletswydd gyffredinol yw "sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau bob dydd." Mae hyn yn golygu ei bod hi'n ofynnol i ni roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl â nodwedd warchodedig berthnasol a phobl heb nodwedd o'r fath
- meithrin perthynas dda rhwng pobl â nodwedd warchodedig berthnasol a phobl heb nodwedd o'r fath

Yn ogystal â'r ddyletswydd gyffredinol, fel awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru, mae amrywiaeth o ddyletswyddau penodol gan Gyngor Sir Ceredigion, ac un o'r rhain yw casglu a chyhoeddi amrywiaeth o ddata am ein gweithlu yn flynyddol; y rhai a wnaeth gais am swyddi yn yr Awdurdod; y rhai a adawodd yn ystod y flwyddyn ac unrhyw wahaniaeth mewn cyflog a hyfforddiant staff.

Er bod yr Awdurdod yn cydnabod nad oes unrhyw rwymedigaeth i staff ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â'u nodweddion gwarchodedig, rydym wedi annog staff i gwblhau eu proffil monitro cydraddoldeb yn yr adran hunanwasanaeth ar y system AD/Cyflogres. Cysylltwyd â staff i esbonio ymrwymiad yr Awdurdod at gydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth ym mhob un o'i rolau, a'r dyletswyddau a roddir arnom

gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cafodd staff wybod sut y byddai'r wybodaeth yn cael ei dal yn ddiogel a'i defnyddio at ddibenion monitro yn unig.

**Sylwch:**

- Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys staff a gyflogir yn ganolog gan Gyngor Sir Ceredigion yn unig, ac felly nid yw'n cynnwys y staff hynny (athrawon a staff cymorth) a gyflogir yn uniongyrchol gan Gyrff Llywodraethu ysgolion.

# Y Gweithlu Presennol

Proffil gweithlu Cyngor Sir Ceredigion ar 31 Mawrth 2023





## Graddfa a Thâl

Mae'r tablau isod yn dangos y categori swydd fel y nodir gan amodau gwasanaeth, graddfeydd ac amrediadau cyflog wedi'i ddadansoddi yn ôl gweithwyr gwryw a benyw ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion.


Mae'r data wedi'i goladu i ddangos y grwpiau canlynol o weithwyr: Prif Swyddog, y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC – Llyfr Gwyrdd), Soulbury ac Athrawon a Gyflogir yn Ganolog.

### Rhyw yn ôl Gwasanaeth




## Rhyw yn ôl Graddfa


## Prif Swyddogion





## NJC



## Soulbury





## Athrawon a Gyflogir yn Ganolog




## Rhyw yn ôl Tâl




## Rhyw yn ôl Math o Gontract



**Rhyw yn ôl Patrwm Gweithio (Cyfwerth ag Amser Llawn)**




# Oedran

Mae proffil gweithlu presennol yr Awdurdod yn cynnwys 56.5% o weithwyr dros 44 oed. Y grŵp sengl mwyaf yw'r categori 45 – 54 oed (26.1%), wedi'i ddilyn gan y categori 55 – 64 oed (25.9%), 35 – 44 oed (19.8%), 25 – 34 oed (17.2%), 16 – 24 oed (6.5%), 65 – 74 oed (4.1%), a 75 oed a hŷn (0.4%).

Mewn cyferbyniad, roedd 67.6% o ymgeiswyr o dan 45 oed. Y grŵp sengl mwyaf o ymgeiswyr oedd y categori 25 – 34 oed ar 26.8%, wedi'i ddilyn gan y categori 35 – 44 oed (20.7%), 16 – 24 oed (19.9%),  45 – 54 oed (18.4%) a 55 – 64 oed (11.5%), 65 – 74 oed (1.3%), o dan 16 oed (0.2%), 75 oed a hŷn (0.1%), ac roedd 1.1% heb ddweud.

Mae'r data ar gyfer staff sy'n gadael Cyngor Sir Ceredigion yn dangos mai'r categori 55 – 64 oed oedd â'r canran uchaf o ymadawyr, sef 22.0%, wedi'i ddilyn gan y categori 25 – 34 oed a oedd yn cyfrif am 20.7%,  35 – 44 oed yn cyfrif am 16.7%, 45 – 54 oed ar 16.0%, categori 16 – 24 oed ar 16.0%, roedd y categori 65 – 74 oed yn cyfrif am 7.6%, ac y rhai 75 oed a throsodd oedd 1.0%.




# Anabledd

Yng ngweithlu presennol yr Awdurdod, mae 3.0% yn dweud bod anabledd ganddynt ac mae 70.6% yn dweud nad oes anabledd ganddynt. Ni wyddys statws y 26.4% sy'n weddill.

Dywedodd 4.6% o ymgeiswyr fod anabledd ganddynt, a dywedodd 83.1% nad oedd anabledd ganddynt. Ni wyddys statws y 12.3% sy'n weddill.

Mae'r data ar gyfer staff sy'n gadael Cyngor Sir Ceredigion yn dangos bod 2.3% wedi dweud bod anabledd ganddynt, 77.0% wedi dweud nad oedd anabledd ganddynt, ac ni wyddys statws y 20.7% sy'n weddill.




# Ailbennu Rhywedd

Ni chyhoeddwyd gwybodaeth benodol ynghylch y nodwedd warchodedig hon oherwydd y posibilrwydd o adnabod unigolion gan fod llai na phum unigolyn wedi dweud nad oedd eu rhyw yr un fath â'u rhyw a bennwyd adeg geni.


# Beichiogrwydd a Mamolaeth

Roedd 27 o weithwyr wedi dechrau cyfnod o absenoldeb mamolaeth yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023. Mae hyn yn cynrychioli 2.0% o'r cyfrif pennau benyw.


**Oedran**





**Hil**




**Crefydd**




**Anabledd**




# **Hil –** gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd

Mae gweithlu presennol yr Awdurdod yn cynnwys 79.8% a ddewisodd y categori Gwyn fel eu tras ethnig, wedi'i ddilyn gan ethnigrwydd Cymysg (0.4%), Grŵp ethnig arall (0.3%), Asiaidd (0.2%), Du/Affricanaidd/Caribïaidd (0.2%), a Sipsiwn – Teithwyr (0.1%). Roedd 19.0% o'r gweithlu wedi dewis peidio â dweud.

Roedd y gyfran fwyaf o ymgeiswyr yn y categori Gwyn (85.6%), wedi'i ddilyn gan Asiaidd (2.5%), Du/Affricanaidd/Caribïaidd (2.1%), ethnigrwydd Cymysg (0.8%), Grŵp ethnig arall (0.5%), a Sipsiwn – Teithwyr (0.1%). Roedd 8.4% o'r ymgeiswyr wedi dewis peidio â dweud.

Mae'r data ar gyfer staff a adawodd Cyngor Sir Ceredigion yn dangos bod 81.7% yn y categori Gwyn, wedi'i ddilyn gan Asiaidd (1.7%), Du/Affricanaidd/Caribïaidd (0.7%), ac ethnigrwydd Cymysg (0.7%), tro bo'r 15.2% sy'n weddill wedi dewis peidio â dweud.




# Crefydd neu Gred

O'r rheini a ddewisodd grefydd neu gred, Cristion (pob enwad) sy'n ffurfio'r grŵp mwyaf o'r gweithlu presennol ar 38.0%, wedi'i ddilyn gan Dim crefydd (26.9%), Anffyddiwr (5.0%), Arall (2.0%), Bwdhydd (0.3%), a Moslem (0.2%), gyda 27.6% yn dewis peidio â dweud.

O ran y broses ymgeisio roedd llai o bobl (13.2%) wedi dewis peidio â dweud o'i gymharu â'r grŵp gweithlu presennol neu'r rhai a adawodd y sefydliad. Roedd y gyfran fwyaf o ymgeiswyr wedi dewis ‘Dim crefydd’ (40.3%), wedi'i ddilyn gan y categori ‘Cristion’ (34.3%), Anffyddiwr (7.6%), Arall (1.8%), Moslem (1.1%), Hindŵ (0.9%),  Bwdhydd (0.5%) a Sikh (0.1%).

Mae'r data ar gyfer staff a adawodd Gyngor Sir Ceredigion yn dangos y nifer fwyaf yw Cristion (34.7%), wedi’i ddilyn gan Dim crefydd (33.3%), Anffyddiwr (4.3%), Arall (3.4%) Moslem (1.7%) a Hindŵ (0.3%), gyda 22.3% yn dewis peidio â dweud.




# Rhyw

Roedd Cyngor Sir Ceredigion yn cyflogi 2,041 o staff ar 31 Mawrth 2023. Roedd y gweithlu yn cynnwys 1,337 (66%) o fenywod a 704 (34%) o wrywod.

Adlewyrchwyd hyn hefyd yn y canran o wrywod oedd yn gwneud cais am swyddi, sef 36% o ymgeiswyr gwrywaidd, er bod cyfradd yr ymgeiswyr benyw ychydig yn is sef 63%. Roedd yr 1% o ymgeiswyr oedd yn weddill heb nodi eu rhyw.

Roedd y data ar gyfer staff a adawodd Cyngor Sir Ceredigion yn ystod y flwyddyn hefyd yn adlewyrchu darlun tebyg, sef 63% o fenywod a 37% o wrywod.




# Cyfeiriadedd Rhywiol

O'r rheini yn y gweithlu presennol a ddewisodd gyfeiriadedd rhywiol, y ffigurau yw 71.8% heterorywiol, 0.9% deurywiol, 0.6% dyn hoyw, 0.3% menyw hoyw, 0.3% arall, ac roedd 26.1% wedi dewis peidio â dweud.

O ran y broses ymgeisio mae llai o bobl (12.7%) wedi dewis peidio â dweud o'i gymharu â'r grŵp gweithlu presennol neu'r rhai a adawodd y sefydliad. Roedd y gyfran fwyaf o ymgeiswyr yn heterorywiol (81.2%), wedi'i ddilyn gan ddeurywiol (3.3%), dyn hoyw (1.1%), menyw hoyw (0.9%), ac Arall (0.8%).

Mae'r data ar gyfer staff a adawodd Cyngor Sir Ceredigion yn dangos bod y mwyafrif yn heterorywiol ar 73.0%, dyn hoyw 2.3%, menyw hoyw ar 0.7%, Arall ar 0.7%, deurywiol 0.3%, ac roedd 23.0% wedi dewis peidio â dweud.



# Hyfforddiant

**Gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant, a faint oedd wedi gwneud cais llwyddiannus**

Mae nodi'r angen am hyfforddiant, dysgu a datblygu yn cael ei wneud trwy systemau adolygu cynllunio a pherfformiad gweithlu'r Cyngor.

Yn ystod cyfweliadau datblygiad personol, bydd Rheolwyr yn trafod â'u gweithwyr eu hanghenion hyfforddi, dysgu a datblygu sy'n cyfateb â'r adolygiad perfformiad a chymwyseddau'r swydd. Mae'r canlyniadau yn bwydo i mewn i Gynllun Hyfforddi Gwasanaeth.

Nid yw'r Cyngor yn monitro llwyddiant ceisiadau hyfforddi ar hyn o bryd gan nad yw'r broses a ddefnyddir i nodi'r hyfforddant yn addas ar gyfer y math hwn o fonitro. Rydym wrthi'n ystyried a oes prosesau a fyddai'n caniatáu i'r data hwn gael ei ddal, ei ddadansoddi a'i adrodd arno.

**Gweithwyr a gwblhaodd hyfforddiant yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023.**

Ar hyn o bryd ni allwn ddarparu adroddiad ar y gweithwyr hynny sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn ystod y flwyddyn. Mae modiwl Dysgu a Datblygu'r system AD/Cyflogres wedi cael ei gyflwyno, a disgwylir iddo ddarparu'r data gofynnol. Rydym wrthi'n ystyried a oes prosesau a fyddai'n cynnig modd i'r data hwn gael ei ddal, ei ddadansoddi a'i adrodd arno.


# Cwyno

**Gweithwyr sy'n destun i'r drefn gwyno naill ai fel achwynydd neu fel rywun y gwnaethpwyd cwyn yn ei erbyn.**


**Sylwch:** Oherwydd y nifer o unigolion oedd yn destun i'r drefn ddisgyblu (cyfanswm o 10) mae'r data a ddangosir isod yn ymwneud â dwy nodwedd warchodedig yn unig, sef oedran a rhyw. Ni chyhoeddwyd y data ynghylch cyfeiriadedd disgyblu oherwydd y posibilrwydd o adnabod unigolion. Ni chafodd unrhyw nodweddion gwarchodedig eraill eu cynnwys yn y set ddata hon.

Cyfanswm y gweithwyr oedd yn destun i'r drefn gwyno oedd 10. O'r rhain roedd 3 yn weithiwr gwryw a 7 yn weithiwr benyw.

**Rhyw**




**Oedran**




# Disgyblu

**Gweithwyr oedd yn destun i'r drefn ddisgyblu**


**Sylwch:** Oherwydd y nifer o unigolion oedd yn destun i'r drefn ddisgyblu (cyfanswm o 10) mae'r data a ddangosir isod yn ymwneud â dwy nodwedd warchodedig yn unig, sef oedran a rhyw. Ni chafodd unrhyw nodweddion gwarchodedig eraill eu cynnwys yn y set ddata hon.

Cyfanswm y gweithwyr oedd yn destun i'r drefn ddisgyblu oedd 10. O'r rhain roedd 6 yn weithiwr gwryw a 4 yn weithiwr benyw.

**Rhyw**




**Oedran**



Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 9

## Cyngor Sir CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | 11 Medi 2023 |
| **LLEOLIAD:** | Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron |
| **TEITL:** | Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2023 |
| **PURPOSE OF REPORT:** | Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu graffu ar benderfyniadau a chamau gweithredu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | Y Pwyllgor Craffu hwn sy'n cadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

**CEFNDIR:**

O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

**COFNODION DRAFFT CYFARFOD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CEREDIGION A GYNHALIWYD AR 13 MEHEFIN 2023**

Cyflwynir cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2023 i'r Pwyllgor a gallwch chi eu gweld yn **Atodiad 1**.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?**<br>**Os naddo, nodwch pam**<br><br>***Crynodeb:***<br><br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br><br>**Cydweithio:** | Nid ydyw wedi'i gwblhau gan nad yw'r adroddiad yn cynnig newid mewn Polisi na Gwasanaeth. |

**Cynnwys:**
**Atal:**

**ARGYMHELLIAD:**

i. Derbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2023.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**
Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Timothy Bray |
| **Swydd:** | Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 11 Medi 2023 |

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion Public Services Board

Caru•Love Ceredigion

**Cyfarfod 35**
**13 Mehefin 2023**
**Cyfarfod Rhithiol dros Zoom**

**COFNODION**

| Yn bresennol: | |
|---|---|
| Hazel Lloyd Lubran (HLL) | Cadeirydd, CAVO |
| Gavin Bown (GB) | Is-gadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Rachel Jarvis (RJ) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Y Cynghorydd Bryan Davies (BD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Barry Rees (BR) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Dr. Phil Kloer (PK) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Dr Peter Skitt (PS) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Dr Joanna Dainton (JD) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Megan Harris (MH) | Tîm Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Iwan Cray (IC) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Gwilym D. Jones (GJ) | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Rhodri Llwyd Morgan (RLM) | Prifysgol Aberystwyth |
| Dewi Day (DD) | Prifysgol Aberystwyth |
| Claire Bryant (CB) | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| Vanessa Cashmore | Coleg Ceredigion |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Amy Richmond-Jones (ARJ) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Bailie Olivia-Jones (BOJ) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Greg Jones (GJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Wyn Evans (WE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Catrin Davies (CD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Alun Williams (AW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Matthew Vaux (MV) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Gerwyn Jones (GJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iwan Davies (ID) | Cyngor Sir Ceredigion |
| **Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:** | |
| Diana Davies (DD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Tim Bray (TB) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Anwen Thomas (AT) | Cyngor Sir Ceredigion |

| 35.1 | Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datganiadau o fuddiant |
|---|---|

DRAFT

Croesawodd y Cadeirydd, Bryan Davies, bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.

**Ymddiheuriadau:**

Victoria Jones, Llywodraeth Cymru
Ross Evans, Heddlu Dyfed-Powys
Jan Batty, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Andrew Cornish, Coleg Sir Gâr
Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion
Maria Battle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Christine Harley, Gwasanaeth Prawf
Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

## 35.2 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Nododd y Cynghorydd Bryan Davies (BD) ei fod wedi dweud y llynedd pan ymgymerodd â rôl y Cadeirydd y byddai'n gwneud y rôl am flwyddyn cyn trosglwyddo i'r Is-gadeirydd. Felly cynigodd BD y dylai Hazel Lloyd-Lubran fod yn Gadeirydd newydd ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Roedd pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o blaid y cynnig a phenodwyd HLL yn Gadeirydd y Bwrdd, ac roedd hi'n hapus i ymgymryd â'r rôl. Diolchodd HLL i bawb am y cyfle ac roedd hi'n edrych ymlaen at gael eu cymorth i gyflawni'r amcanion a bennwyd yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028.

Cynigodd Rhodri Llwyd Morgan y dylai'r Is-gadeirydd newydd fod yn un o aelodau statudol y Bwrdd. Cynigwyd y dylai Gavin Brown (GB) o Gyfoeth Naturiol Cymru fod yn Is-gadeirydd am 6 mis i ddechrau, ac roedd GB yn hapus i dderbyn y cynnig.

## 35.3 Cyfarfod blaenorol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – 24 Ebrill 2023

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24.04.2023 yn gywir.

## 35.4 Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol

Cadarnhaodd Diana Davies (DD) a Tim Bray (TB) fod yr holl gamau gweithredu blaenorol (isod) wedi'u cwblhau:

**CAM GWEITHREDU:** Byddai Tîm Partneriaethau Cyngor Sir Ceredigion yn rhannu fersiwn ddrafft y Fframwaith Llywodraethu a Chyflawni gydag aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**CAM GWEITHREDU:** Byddai pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dangos y fframwaith i'w sefydliadau fel y gallent nodi'r grwpiau partneriaeth yr oeddent yn rhan ohonynt.

**CAM GWEITHREDU:** Byddai eitem ynghylch dyddiadau a lleoliadau posibl ar gyfer lansiad y Cynllun Llesiant newydd yn cael ei rhoi ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 35.5 Cynllun Llesiant Ceredigion 2023-28: Diweddariad am y Fframwaith Cyflawni

Estynnodd HLL groeso i TB i'w gyfarfod cyntaf o'r Bwrdd fel Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Posibl newydd Cyngor Sir Ceredigion (CSC). Yn ddiweddar, rhannodd TB ddiweddariad am y Fframwaith Cyflawni ag aelodau'r Bwrdd dros e-bost. Nododd y Cadeirydd fod angen i bartneriaid lleol ystyried lle byddant yn ychwanegu at y cynllun a nodi uwch swyddogion penodol. Nododd TB fod y fframwaith a rannwyd yn flaenorol yn un wag oherwydd roeddem eisiau adborth ynghylch sut i'w lenwi er mwyn sicrhau ein bod ni'n mynd ati yn y ffordd gywir i

DRAFT

gasglu, tracio a monitro'r gweithgarwch a oedd yn digwydd er mwyn cefnogi'r Cynllun Llesiant ac adnabod effaith ein gwaith yng Ngheredigion.

Roedd y Cadeirydd yn hapus â'r fframwaith arfaethedig a nododd ei fod yn ffordd dda o dracio a monitro cynnydd ar y cyd. Cytunodd RLM fod hyn yn ffordd effeithiol o arddangos yr amcanion llesiant a'r syniadau y tu ôl i'r camau a gymerwyd ar gyfer partneriaid, ynghyd â'r nodau a'r amcanion.

Nododd Joanna Dainton (JD) ei rôl fel Pennaeth Gwella Iechyd y Boblogaeth yng Nghyfarwyddiaeth Iechyd y Cyhoedd Hywel Dda. Cadarnhaodd eu bod nhw wedi creu cynllun gwella iechyd a llesiant drafft ar gyfer Hywel Dda a'r partneriaid a byddai'r cynllun yn mynd allan i ymgynghoriad yn fuan.

**CAM GWEITHREDU: Byddai JD a TB yn rhannu'r ymgynghoriad ynghylch Cynllun Gwella Iechyd a Llesiant Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ag aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus pan fyddai'r drafft terfynol yn barod.**

Cafodd y Bwrdd drafodaeth ynghylch y grwpiau gwahanol a oedd wedi'u rhestru yn y fframwaith cyflawni ynghyd â'r swyddogion arweiniol a restrwyd. Awgrymodd y Cadeirydd efallai y byddai'n amserol adolygu'r Cylch Gorchwyl a'r rhestr aelodaeth yng ngoleuni'r Cynllun Llesiant newydd.

**CAM GWEITHREDU: Byddai HLL, DD a TB yn adolygu rhestr aelodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn y Cylch Gorchwyl.**

Cytunodd y Bwrdd y dylai Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyfarfod i drafod llenwi mwy o'r fframwaith cyflawni.

**CAM GWEITHREDU: Dylai'r holl bartneriaid ddarparu adborth ynghylch y cynllun cyflawni drafft erbyn 26.06.2023.**

**CAM GWEITHREDU: Byddai Tîm Partneriaethau CSC yn trefnu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i lenwi mwy o'r fframwaith cyflawni.**

| 35.6 | Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28:<br>Trafodaeth ynghylch y Lansiad |
|---|---|

Cafwyd trafodaeth ynghylch nod y lansiad. Nododd y Cadeirydd bwysigrwydd cyfleu nodau ac amcanion y Cynllun Llesiant yn llwyddiannus ynghyd ag esbonio sut roeddem ni'n bwriadu cyrraedd y nodau a'r amcanion ynghyd â mesur y canlyniadau. Nododd Alun Williams (AW) fod Uwch Swyddogion o fewn y sefydliadau partner yn un o'r rhanddeiliaid allweddol i'w hystyried oherwydd dylai'r lansiad hwn amlinellu'r disgwyliadau o ran cyfraniad y sefydliadau partner. Awgrymodd GB y dylid cymharu ac archwilio meysydd gwaith y gallem ganolbwyntio arnynt yn rhanbarthol er mwyn cael mwy o effaith a denu pobl i mewn. Awgrymwyd y gallem gynnal un digwyddiad HWB canolog a rhai mwy lleol.
Awgrymodd TB efallai y byddai'n fuddiol aros ychydig o amser i'r Cynllun Cyflawni gael ei ddatblygu'n llwyr ac yna cael lansiad gyda chyfuniad o gyflwyniad a gweithdy er mwyn cael adborth oddi wrth y cyhoedd ynghylch y dull gweithredu.

Cynigodd y Cadeirydd y byddem angen o leiaf 2-3 wythnos ar ôl i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen gwrdd er mwyn deall sut mae'r proffil yn edrych ac i drefnu lansiad.

Cytunwyd y byddai'r lansiad yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r trafodaethau am y Cynllun Cyflawni.

| 35.7 | Cyflwyniad Cludiant Cyhoeddus Ceredigion |
|---|---|

Cyflwynodd Gerwyn Jones (GJ) ei hun i'r Bwrdd fel Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau

Amgylcheddol Cyngor Sir Ceredigion. Cafodd y bwrdd gyflwyniad a gyflwynwyd i Gabinet Cyngor Sir Ceredigion yn gynt yn 2023.
Isod nodir rhai o'r pwyntiau allweddol:

- Roedd amlder y bysiau ar y rhwydwaith craidd wedi lleihau ers cyn COVID ac roedd y gwasanaethau'n cael trafferth adfer.
- Cryfderau: Lefel dda o wasanaeth ar y prif lwybrau, cynllun arloesol 'Bwcabus' yn gwasanaethu rhan fawr o dde Ceredigion, disgwyliadau realistig gan y gymuned, Tîm CPTU sefydledig, perthynas iach â rhanddeiliaid.
- Gwendidau: Cyfleoedd cyfyngedig i ffwrdd o'r prif lwybrau, dibyniaeth ar grantiau Llywodraeth Cymru, diffyg gweithredwyr / cystadleuaeth.
- Cyfleoedd: Ehangu gwasanaethau ac ôl-troed TrawsCymru ar draws y sir, ehangu ôl-troed Bwcabus i ddarparu mwy o drafnidiaeth yn y gymuned, integreiddio tocynnau bws a thrên.
- Bygythiadau: Llai o alw (gweithio o gartref a siopa ar-lein), diffyg gyrwyr bws, diffyg cyllid tu ôl i'r cynlluniau sy'n cael eu trafod.
- Pe baem yn gallu profi bod y galw yno, mae'n bosib y byddem ni'n gallu cael cyllid ychwanegol i ddarparu llwybrau a gwasanaethau bws ychwanegol.
- Mae'n faes cymhleth gan nad oes un corff unigol yn llwyr gyfrifol am lywodraethu a darparu'r gwasanaethau.
- Ansicr sut fydd y rhwydwaith yn edrych yn y dyfodol.

Nododd y Cadeirydd y bu problemau sylweddol gyda thrafnidiaeth am yr 20 mlynedd diwethaf, ac wrth gwrs roedd natur wledig Ceredigion yn ffactor enfawr yn y problemau a wynebwyd. Pwysleisiodd GJ fod y gwasanaethau roeddem ni'n eu darparu'n adlewyrchu'r hyn yr oeddem ni'n gallu ei fforddio yn seiliedig ar y cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru. Roedd trafodaeth Cymru gyfan yn cael ei chynnal ynghylch y cyllid presennol a fyddai'n dod at ei derfyn ym mis Gorffennaf. Nid oedd disgwyl i hyn gael effaith mor andwyol ar Geredigion â'r ardaloedd trefol lle yr oedd pobl yn dibynnu'n helaeth ar drafnidiaeth bws.

Dywedodd TB fod gan Brifysgol Aberystwyth grŵp ymchwil a oedd yn cyfarfod i drafod trafnidiaeth a symudedd. Awgrymodd HLL y dylai hi a TB fynd i'r cyfarfod nesaf er mwyn deall cwmpas y gwaith cyn i'r Bwrdd ganolbwyntio ar hyn fel maes gwaith.
**CAM GWEITHREDU: Byddai HLL a TB yn trafod â Rhian Rees (Iechyd Cyhoeddus Cymru) ynghylch mynd i gyfarfod am Drafnidiaeth a Symudedd a drefnwyd gan Brifysgol Aberystwyth.**

| 35.8 | Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru |
|---|---|

Cafodd y Bwrdd gyflwyniad gan Iwan Davies, Rheolwr Corfforaethol – Ymyrraeth Gynnar Cyngor Sir Ceredigion. Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru, a nodir y prif bwyntiau isod:

- Cyflwynwyd cais gan Awdurdodau Lleol Ceredigion a Sir Gâr, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda, i fod yn ardaloedd braenaru. Cafwyd cyllid i beilota a phrofi ffyrdd o Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, a ffurfiwyd Grŵp Llywio Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar. Ym mis Ionawr 2021, llwyddodd Sir Benfro â'u cais nhw i ymuno â'r Rhaglen Fraenaru. Yn 2021 / 2022 bu cynrychiolwyr o'r tri Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cydweithio i lunio Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru.
- Roedd y strategaeth yn canolbwyntio ar gefnogaeth yn ystod 7 mlynedd gyntaf y plentyn, gan gydnabod pwysigrwydd y blynyddoedd ffurfiannol hyn wrth siapio iechyd a lles y plentyn

at y dyfodol, a nod y strategaeth oedd hyrwyddo cydweithio rhwng gwasanaethau cymorth yn y cyfnodau cyn geni a'r blynyddoedd cynnar.

- Roedd y strategaeth ar gael ar wefan Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru. Y nod oedd creu dogfen ddarllenadwy ar gyfer gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd. Roedd yn canolbwyntio ar ddarparu a gwella gwasanaethau ar gyfer plant, rhieni a gofalwyr.
- Roedd y wefan yn dangos y gwasanaethau a oedd ar gael, ynghyd â'r hyn yr oedd y strategaeth yn anelu at ei gyflawni yn y dyfodol o fewn y 5 thema a nodwyd.
- Roedd Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn gweithio ar adeiladu dangosfwrdd data ar gyfer mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer nifer o sefydliadau partner.
- Cymeradwywyd y strategaeth gan Grŵp Arweiniol, Pwyllgor Craffu a Chabinet y Cyngor. Pan fyddai sefydliadau partner wedi cael yr un gymeradwyaeth, byddai'r wefan yn fyw a byddai dolen yn cael ei rhannu ag aelodau'r Bwrdd.

**CAM GWEITHREDU: Byddai ID yn rhannu'r ddolen ag Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus pan fyddai gwefan 'Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar' yn fyw.**

| | |
|---|---|
| 35.9 | Diweddariad ar Brosiectau Peilot y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n seiliedig ar Le:<br>**i. Aberystwyth Carbon Niwtral a'r Strategaeth Datgarboneiddio**<br>(Rachel Jarvis, Cyfoeth Naturiol Cymru)<br>**ii. Gwella Lles Cymunedol a Mynd i'r Afael â Chaledi yn Aberteifi**<br>(Hazel Lloyd Lubran, CAVO)<br>**iii Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan** (Elen James, CSC) |

Rhannwyd copïau o ddiweddariadau prosiectau peilot ii ac iii â'r aelodau o flaen llaw, ac oherwydd prinder amser cynigodd y Cadeirydd y dylid trafod y diweddariadau hyn yn y cyfarfod nesaf. Cadarnhaodd GB y gellid rhannu diweddariad ysgrifenedig gan Rachel Jarvis yn y cyfamser.

**CAM GWEITHREDU: Byddai GB a RJ yn rhannu diweddariad ysgrifenedig ynghylch cyfarfod Aberystwyth Carbon Niwtral a'r Strategaeth Datgarboneiddio.**

| | |
|---|---|
| 35.10 | Adborth oddi wrth Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion |
| | Roedd y Cynghorydd Wyn Evans wedi gadael y cyfarfod, ond nododd DD fod cwestiwn penodol wedi codi ynghylch Adroddiad Gwaelodlin Cyfoeth Naturiol Cymru o ran y Risgiau yn Sgil y Newid yn yr Hinsawdd a'r amserlen ar gyfer yr adroddiad hwnnw. Cadarnhaodd GB fod adnoddau'n cael eu casglu er mwyn cynnal yr asesiad ar draws ardal pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ond yn anffodus nid oedd amserlen wedi'i gadarnhau ar y pryd. |
| 35.11 | Unrhyw fater arall |
| | Ni chodwyd unrhyw fater arall. |
| 35.12 | Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:<br>4 Medi 2023 am 14:00-16:00<br>4 Rhagfyr 2023 am 14:00-16:00 |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cyngor Sir CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | 11 Medi 2023 |
| **LLEOLIAD:** | Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron. |
| **TEITL:** | Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn<br>Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion. |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu weld Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion. |
| **Y RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | Y Pwyllgor Craffu hwn sy'n cadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol . |

**CEFNDIR:**

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gyfrifol am gwblhau Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn ac am roi **Strategaeth Diogelwch Cymunedol** ar waith ar gyfer y Sir. Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref yn awgrymu y dylai'r Asesiad Strategol gynnwys data a sylwebaeth oddi wrth y cyhoedd a'r holl asiantaethau sy'n bartneriaid ac y dylid defnyddio'r wybodaeth hon wrth lunio'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol.

**PARATOI'R ASESIAD STRATEGOL**

Mae'r Asesiad Strategol yn cynnwys data rhwng **1 Rhagfyr 2021 a 31 Rhagfyr 2022 (gan gynnwys y dyddiad hwnnw)** ac felly ceir blwyddyn gyfan o ddata i'w ddadansoddi.

Gallwch weld yr Asesiad Strategol yn **Atodiad 1.**

Paratowyd holiadur cynhwysfawr a'i ddosbarthu'n eang yn y gymuned. Roedd yr holiadur hwn yn un dwyieithog ac ar gael ar ffurf papur. Hefyd, roedd modd ymateb drwy ffurflen electronig ar wefan Cyngor Sir Ceredigion. Ar ben hyn, rhoddwyd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol ac anfonwyd datganiadau at y cyfryngau er mwyn cyfeirio'r cyhoedd at yr ymarfer ymgysylltu a'u hannog i gymryd rhan. Gweler **Atodiad 2.**

Defnyddiwyd data o'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd i baratoi **Adroddiad Adborth (Atodiad 3).**

Er mwyn sicrhau sylfaen tystiolaeth ehangach a chefnogi'r holiadur, cafodd data hefyd ei gasglu o nifer o ffynonellau perthnasol**.** Yn adroddiad yr Asesiad Strategol (**Atodiad 1)** ystyriwyd y data ychwanegol ochr yn ochr â'r ymatebion i'r holiadur. Roedd hyn yn gyfle i

gymharu canfyddiadau'r cyhoedd ac ofn troseddau â data empirig o ran troseddau a'r ffigurau ynghylch ymwneud pobl â'r gwasanaeth.
Mae'r adroddiad llawn hefyd yn cynnig rhywfaint o gyd-destun lleol ac mae'n rhoi syniad o'r tueddiadau sy'n bodoli o ran troseddau. Hefyd, roedd yn gyfle i ystyried i ba raddau yr oedd barn y cyhoedd am fygythiadau troseddau yn cyd-fynd â'r newidiadau go iawn yn nifer y digwyddiadau sy'n cael eu hadrodd.

**BLAENORIAETHAU - TROSEDDAU A THEIMLO'N DDIOGEL:**

Yng nghyfarfod Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a gynhaliwyd ar **19 Mehefin 2023**, cytunwyd ar gyfres o flaenoriaethau yn seiliedig ar adolygiad o'r dystiolaeth a gasglwyd. Cytunwyd y dylid rhannu'r blaenoriaethau i ddau gategori: **Y Blaenoriaethau o ran Troseddau a'r Blaenoriaethau o ran Teimlo'n Ddiogel.**

**Blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol o ran Trosedd ac Anhrefn:**

- Troseddau rhyw.
- Trais yn erbyn menywod a merched.
- Cyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon a chamddefnyddio sylweddau.
- Cam-drin domestig gan gynnwys stelcio ac aflonyddu.

**Blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol o ran Teimlo'n Ddiogel**

- Bwrgleriaeth.
- Troseddau seiber ar-lein / Twyll a Galwadau Diwahoddiad.
- Difrod troseddol.
- Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.
- Presenoldeb amlwg gan yr heddlu.

Bydd **Strategaeth Diogelwch Cymunedol** ddiwygiedig yn cael ei pharatoi ar ôl cyfarfod nesaf y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar **18 Medi** lle bydd y partneriaid yn pennu amcanion penodol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a gytunwyd iddynt. Hefyd, caiff strwythur effeithiol ar gyfer cyflawni ei bennu fel y gellir monitro'r cynnydd a wneir.

Mae'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd yn agos â Strategaeth Reoli ddiweddaraf Heddlu Dyfed-Powys sy'n targedu'r materion canlynol: cyflenwi / defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, treisio a throseddau rhyw, ac atal a thaclo cam-drin domestig. Hefyd, mae'r materion hyn wedi'u cynnwys yn y blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol fel y'u nodir yn Asesiad Strategol Heddlu Dyfed-Powys 2023-24.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam** | Nid ydyw wedi'i gwblhau gan nad yw'r adroddiad yn cynnig newid mewn Polisi na Gwasanaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | |
| | **Integreiddio:** | |
| | **Cydweithio:** | |
| | **Cynnwys:** | |
| | **Atal:** | |
| | | |

**ARGYMHELLION:**

i. Nodi canfyddiadau Asesiad Strategol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.
**ii.** Nodi'r blaenoriaethau o ran Troseddau a Theimlo'n Ddiogel a fydd yn rhan o Strategaeth y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2023-2024

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bartnerieth Diogelwch Cymunedol

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Tim Bray |
| **Swydd:** | Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 4 Medi 2023 |
| | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol



# PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL CEREDIGION

DIOGEL YNG NGHEREDIGION • SAFE IN CEREDIGION •

## Asesiad Strategol Trosedd ac Anrhefn 2023

## Cynnwys

Cyflwyniad ........ t.1
Cyfnod Astudiaeth yr Asesiad Strategol ........ t.1
Dull: Ymgysylltu â'r Cyhoedd ........ t.2
Tystiolaeth Ategol ........ t.4
Adroddiad yr Arolwg: Y Prif Ganlyniadau ........ t.5
Y Blaenoriaethau y Cytunwyd Arnynt ........ t.9
Y Strwythur Cyflenwi Presennol ........ t.11
Adolygu'r Strwythur Cyflenwi ........ t.13

# CYFLWYNIAD

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (y Bartneriaeth) yn gyfrifol am gwblhau **Asesiad Strategol** ac, ar sail yr asesiad hwnnw, am roi **Strategaeth Diogelwch Cymunedol** ar waith ar gyfer y sir. Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref yn awgrymu y dylid adolygu'r Asesiad a'r Strategaeth yn rheolaidd, a rhaid iddynt gynnwys:

- **Dadansoddiad:** o lefelau a phatrymau troseddu, anhrefn, camddefnyddio sylweddau, ac aildroseddu.
- **Newidiadau:** o ran lefelau a phatrymau troseddu, anhrefn, camddefnyddio sylweddau, ac aildroseddu ers yr asesiad strategol diwethaf.

Diben yr Asesiad hwn yw **nodi ac archwilio materion cyfredol a bygythiadau posibl** yn y dyfodol a allai effeithio ar y Sir, er mwyn darparu sylfaen gref sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth ar gyfer llywio Strategaeth Diogelwch Cymunedol a Chynllun Cyflawni ar gyfer Ceredigion.

Bydd yr Asesiad Strategol hefyd yn gymorth o ran **dyrannu adnoddau'n effeithiol** a **nodi blaenoriaethu o ran gweithgareddau**, gan ddarparu dull mwy cynhwysfawr a chyfannol fydd yn canolbwyntio ar y Bartneriaeth ar gyfer mynd i'r afael â Throsedd ac Ofn Trosedd.

# CYFNOD ASTUDIAETH YR ASESIAD STRATEGOL

Mae'r Asesiad Strategol yn trafod y cyfnod o **1 Rhagfyr 2021 hyd at a chan gynnwys 31 Rhagfyr 2022**, gan ddarparu 12 mis cyfan o ddata i'w dadansoddi. O ganlyniad i bandemig COVID-19 a Brexit, mae nifer o ffactorau cymdeithasol / economaidd wedi dylanwadu ar batrymau troseddu.

Rydym yn dal i fod mewn cyfnod o sefydlogi ac adfer o ran gweithgarwch. Mae hyn yn rhoi hyd yn oed mwy o bwyslais ar bwysigrwydd **adolygu'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol yn rheolaidd** yn y dyfodol.

# DULL: YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

I osod sail ar gyfer y Strategaeth Diogelwch Cymunedol nesaf ar gyfer y cyfnod 2023-2024, ac i ategu'r strategaeth honno, cynhaliodd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion ymarfer cynhwysfawr i **ymgysylltu â'r cyhoedd** drwy gyfrwng holiadur dwyieithog.



Cafodd yr holiadur ei ddosbarthu'n eang ymhlith **ystod eang o randdeiliaid**, a gofynnwyd iddynt rannu'r wybodaeth yn eang â'u staff, eu cydweithwyr a'u rhwydweithiau. Roedd y rhestr o randdeiliaid yn cynnwys **cynghorau tref a chymuned, aelodau etholedig, grwpiau yn y trydydd sector, fforwm anabledd,** a **mosgiau ac ystafelloedd gweddïo**. Cynhaliwyd sesiwn ymgysylltu â'r **Cyngor Ieuenctid** ar 17 Mawrth 2023 hefyd.

Roedd yr holiadur ar gael ar-lein i'w lawrlwytho mewn fformatau amgen, gan gynnwys fersiwn **hawdd ei ddarllen, fersiwn print bras, a fersiwn i bobl ifanc**, ac roedd **copïau caled** o'r holiadur, ynghyd ag amlenni wedi'u rhagdalu, ar gael ym mhob un o lyfrgelloedd a chanolfannau hamdden Ceredigion.





Rhannwyd **postiadau ar sianeli cyfryngau cymdeithasol** Cyngor Sir Ceredigion ar dri achlysur, ac fe gafodd y rhain eu rhannu ymhellach. Cafodd yr ymarfer ymgysylltu hefyd ei rannu ar wefan Teams Tîm Ceredigion, a thrwy'r cylchlythyr i staff. Cafodd **pecyn adnoddau digidol** ei greu a'i ddosbarthu ymhlith aelodau'r Bartneriaeth, y Bwrdd Trais Difrifol a Throseddu Cyfundrefnol a'r Bwrdd CONTEST. Roedd y pecynnau'n cynnwys datganiad i'r wasg, postiadau cyfryngau cymdeithasol a phosteri y gallai partneriaid eu rhannu â'u Tîm Cyfathrebu ac mewn unrhyw ddigwyddiadau a oedd yn yr arfaeth.

Gofynnwyd hefyd i bartneriaid **ddarparu data** i roi cyd-destun i'r data ansoddol a ddaeth i law drwy'r holiadur.

Yn dilyn ymgynghoriad â'r Bartneriaeth, **ehangwyd** y categorïau troseddau a gynhwyswyd yn yr holiadur diweddaraf er mwyn adlewyrchu tueddiadau cyfredol a newidiadau cymdeithasol e.e. i gynnwys Troseddau Seiber ac Ar-lein.

# GOFYNNWYD AM ADBORTH AR Y CATEGORÏAU CANLYNOL:

- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Presenoldeb Gweladwy gan yr Heddlu *(Tref a Chefn Gwlad)*
- Camddefnyddio Sylweddau *(Cyffuriau)*
- Cyflenwi Cyffuriau yn Anghyfreithlon
- Camddefnyddio Sylweddau *(Alcohol)*
- Diogelwch ar y Ffordd a Lleihau Marwolaethau ar y Ffordd
- Troseddau Ieuenctid: Diogelu Pobl Ifanc
- Fandaliaeth, Difrod Troseddol a Graffiti
- Troseddu Treisgar
- Goleuadau Stryd
- Troseddau Cerbydau
- Bwrgleriaeth
- Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Dylanwad y Cyfryngau
- Ofn Terfysgaeth
- Trefn Gyhoeddus
- Cynnau Tanau Bwriadol
- Lleihau Troseddau Busnes
- Troseddau Cefn Gwlad
- Trais yn Erbyn Menywod a Merched
- Trais Domestig *(gan gynnwys Stelcio ac Aflonyddu)*
- Troseddau Rhyw
- Troseddau Casineb *(gan gynnwys Hil, Crefydd, Anabledd, Homoffobia, Trawsffobia)*
- Cydlyniant ac Ymgysylltu Cymunedol, Lleihau Ofn Troseddau
- Lleihau Aildroseddu
- Troseddau Seiber ac Ar-lein

# TYSTIOLAETH ATEGOL

I ddarparu sylfaen dystiolaeth ehangach ac i ategu'r holiadur cyhoeddus, casglwyd data o'r **ffynonellau ychwanegol** a restrir isod. Cafodd y data ychwanegol hyn eu hystyried ochr yn ochr â'r ymatebion i'r holiadur. Roedd yn gyfle i **gymharu canfyddiadau'r cyhoedd ac ofn y cyhoedd o droseddu â'r data empirig am droseddu** a'r ffigurau ynghylch ymgysylltu â gwasanaethau.

**Ymhlith y ffynonellau hyn roedd:**

**Asesiad Llesiant Lleol** Cyngor Sir Ceredigion 2022

**Proffil Cymunedol** Heddlu Dyfed Powys

**Asesiad Strategol** Heddlu Dyfed Powys **2023-2024**

**Asesiad** Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o **Anghenion Camddefnyddio Sylweddau**

**Tablau data'r** Swyddfa Ystadegau Gwladol am **ardal Heddlu Dyfed Powys**



**Data Derbyniadau** Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Asesiad** Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o **Anghenion Iechyd Pobl Ddigartref**

**Data** Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda am **Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau**

**Asesiad** Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o **Anghenion Atal Hunanladdiad**

**Data Troseddu** Heddlu Dyfed Powys



Ar ôl cwblhau'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd, defnyddiwyd y data i baratoi **adroddiad adborth** sy'n tynnu sylw at rai penawdau sy'n codi o'r canlyniadau ac a ddangosir isod. Mae copi o'r adroddiad llawn wedi'i atodi.

# ADRODDIAD YR AROLWG: Y PRIF GANLYNIADAU

Daeth **89 ymateb** i law, gyda 167 o sylwadau ysgrifenedig ychwanegol.

Dywedodd **46%** fod troseddu wedi **cynyddu ychydig** dros y 12 mis diwethaf.

Dywedodd **58%** fod **camddefnyddio alcohol** yn broblem fawr.

Dywedodd **87%** fod **camddefnyddio cyffuriau** yn broblem fawr.

Y **tri phrif faes** a oedd wedi **gwella** dros y 12 mis diwethaf, yn nhyb y cyhoedd, oedd:

**Presenoldeb Gweladwy gan yr Heddlu**
**Diogelwch ar y Ffordd a Lleihau Marwolaethau ar y Ffordd**
**Goleuadau Stryd**

Y **prif flaenoriaethau o ran troseddu** a bennwyd yng Ngheredigion oedd:

1. Troseddau Rhyw
2. Trais yn Erbyn Menywod a Merched
3. Cyflenwi Cyffuriau yn Anghyfreithlon
4. Trais Domestig gan gynnwys Stelcio ac Aflonyddu
5. Troseddu Treisgar





Y **prif faterion** a oedd yn bygwth gallu pobl i **deimlo'n ddiogel** oedd:




Mae'r adroddiad adborth hefyd yn dadansoddi ac yn proffilio'r ymatebion rywfaint yn nhermau **lleoliadau, rhywedd a grwpiau oedran**. Yr hyn sy'n arwyddocaol yw bod **camddefnyddio sylweddau** a **chyflenwad anghyfreithlon cyffuriau** wedi'u nodi fel **blaenoriaeth yn nhair o'r chwe ardal** a gynrychiolwyd yn yr ymateb i'r arolwg.

Y brif flaenoriaeth yn **Aberystwyth:**
*Trais yn Erbyn Menywod a Merched*

Y brif flaenoriaeth yn **Aberaeron:**
*Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau)*

Y brif flaenoriaeth yn **Aberteifi:**
*Troseddau Rhyw*

Y brif flaenoriaeth yn **Llandysul:**
*Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau)*



Y brif flaenoriaeth yn **Llambed:**
*Troseddau Rhyw*

Y brif flaenoriaeth yn **Nhregaron:**
*Cyflenwi Cyffuriau yn Anghyfreithlon*

Cafodd canlyniadau'r holiadur eu pwyso a'u mesur yn erbyn canfyddiadau eraill. Daw'r data isod o Arolwg Troseddau Thematig Heddlu Dyfed Powys a gofnodwyd dros gyfnod o ddwy flynedd. Cafodd y data eu mapio gyda'r ymatebion i'r categorïau **Teimlo'n Ddiogel** a **Materion sy'n Flaenoriaeth** yn yr holiadur cyhoeddus. Mae'r golofn Ymatebion Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn dangos sut y bu i'r ymatebwyr flaenoriaethu'r materion diogelwch cymunedol a restrir ar dudalen 3 o'r Asesiad Strategol hwn, ynghyd â'r materion y dywedwyd eu bod yn effeithio ar allu pobl i deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi, yn nhrefn pa mor gyffredin oedd yr ymatebion hynny.

Mae'r data a gofnodwyd mewn gwirionedd yn awgrymu tueddiadau, felly gellir eu cymharu â'r safbwyntiau a fynegwyd drwy'r holiadur.

| Data ALl Ceredigion (Heddlu Dyfed Powys) | Digwyddiadau a Gofnodwyd 21-22 | Tuedd | Digwyddiadau a Gofnodwyd 22-23 | Ymatebion Ymgysylltu â'r Cyhoedd |
|---|---|---|---|---|
| Troseddau Rhyw | 263 | ↑ +17% | 308 | **Blaenoriaeth Troseddu 1** |
| Trais yn Erbyn Menywod a Merched | 226 | ↑ +23% | 278 | **Blaenoriaeth Troseddu 2** |
| Troseddau Cyffuriau *(Masnachu)* | 62 | ↓ -3% | 60 | **Blaenoriaeth Troseddu 3** |
| Cam-drin Domestig *(Troseddau)* | 797 | ↑ +11.5% | 888 | **Blaenoriaeth Troseddu 4** |
| Troseddu Treisgar *(yn erbyn y person)* | 1674 | ↑ +17% | 1957 | **Blaenoriaeth Troseddu 5** |
| Troseddau Cyffuriau *(Meddiant)* | 207 | ↑ +43% | 296 | **Blaenoriaeth Troseddu 6** |
| Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | 1014 | ↓ -25% | 757 | **Blaenoriaeth Troseddu 9** |
| Bwrgleriaeth | 194 | ↓ -9% | 175 | **Blaenoriaeth Teimlo'n Ddiogel 1** |
| Seiber *(Twyll Ar-lein)* | 685 | ↓ -6.4% | 641 | **Blaenoriaeth Teimlo'n Ddiogel 2** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Difrod Troseddol | 597 | ↑ +6.3% | 635 | **Blaenoriaeth Teimlo'n Ddiogel 3** |
| *Galw Diwahoddiad | - | - | - | **Blaenoriaeth Teimlo'n Ddiogel 4** |
| Troseddu sy'n Gysylltiedig ag Alcohol | 1130 | ↑ +15.5% | 1305 | **Blaenoriaeth Teimlo'n Ddiogel 5** |

*__* Galw Diwahoddiad:__ Nid oedd data ar gael ar gyfer croes-gymharu Blaenoriaeth Teimlo'n Ddiogel 4.*

Er nad oeddent yn cwmpasu'n union yr un cyfnod â'r cyfnod asesu, roedd y data troseddu a ddarparwyd gan Heddlu Dyfed Powys mor agos ag y gallem eu coladu ac, yn absenoldeb Asesiad Strategol mwy diweddar gan y Bartneriaeth, roeddent yn ddigonol i **ddangos rhai tueddiadau** o ran categorïau'r troseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt.

Roeddent hefyd yn sicrhau bod modd **mesur pa mor gydnaws oedd barn y cyhoedd â'r newidiadau gwirioneddol** yn nifer y digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt, fel isod.

Y pedwar categori lle'r oedd y data troseddu'n dangos bod y sefyllfa **wedi gwella** o ran y digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt oedd:

- Bwrgleriaeth
- Troseddau Cyffuriau *(masnachu)***
- Seiber *(troseddu ar-lein)**
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

***Dim ond masnachu cyffuriau a throseddau seiber oedd ymhlith y deg categori uchaf a oedd wedi gwella **yn nhyb y cyhoedd**.*

Y pedwar categori yr oeddent **yn tybio** eu bod wedi gwella oedd:

- Presenoldeb Gweladwy gan yr Heddlu
- Diogelwch ar y Ffordd a Lleihau Marwolaethau ar y Ffordd
- Goleuadau Stryd
- Troseddau Casineb

*Yr unig gategori a restrir uchod yr oedd gan Heddlu Dyfed Powys ddata ar ei gyfer oedd troseddau casineb, ac roedd y data'n dangos **gwelliant bach**.*

# Y BLAENORIAETHAU Y CYTUNWYD ARNYNT

Yng nghyfarfod **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2023**, cytunwyd ar gyfres o flaenoriaethau ar sail y dystiolaeth a amlinellir uchod. Cytunwyd y byddai'r blaenoriaethau'n cael eu rhannu'n ddau gategori: **Blaenoriaethau Troseddu**, a **Blaenoriaethau Teimlo'n Ddiogel**. Cytunwyd i wneud hyn oherwydd gallai'r dull o gyflawni'r tasgau a nodwyd o dan y blaenoriaethau hyn amrywio gan ddibynnu a yw'r Bartneriaeth yn mynd i'r afael ag ofn troseddu a phryderon y gymuned, neu fygythiadau gwirioneddol nad yw'r gymuned o reidrwydd yn sylwi arnynt. I hwyluso'r gwaith, cytunodd y Bartneriaeth hefyd i **gyfuno Cyflenwad Anghyfreithlon Cyffuriau a Chamddefnyddio Sylweddau** (Blaenoriaeth Troseddu 3), a **Throseddu Ar-lein, Twyll a Galw Diwahoddiad** (Blaenoriaeth Teimlo'n Ddiogel 2).

## Blaenoriaethau Trosedd

*Cynllun Gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol*

1. Troseddau Rhyw
2. Trais yn Erbyn Menywod a Merched
3. Cyflenwi Cyffuriau yn Anghyfreithlon
4. Trais Domestig gan gynnwys Stelcio ac Aflonyddu

## Blaenoriaethau Teimlo'n Ddiogel


*Cynllun Gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol*

1. Bwrgleriaeth
2. Trosedd Ar-lein, Twyll a Galw Diwahoddiad
3. Difrod Troseddol
4. Camddefnyddio Cyffuriau ag Alcohol
5. Presenoldeb Gweladwy gan yr Heddlu

Ar ôl cytuno ar y blaenoriaethau, bydd **Strategaeth Diogelwch Cymunedol yn cael ei llunio** i osod sail ar gyfer gweithgarwch a Chynllun Cyflenwi'r Bartneriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dylai'r amcanion fynd i'r afael â'r materion sy'n codi o ganfyddiadau'r Asesiad hwn, ac ychwanegu gwerth at flaenoriaethau lleol eraill, e.e. y Cynllun Llesiant Lleol ac anghenion cymunedau.

Mae gweithgareddau i wella ymdeimlad cymunedau eu bod yn ddiogel yn rhan bwysig o waith y Bartneriaeth. Drwy weithio mewn partneriaeth, bydd y gweithgareddau hyn yn cynnwys **tawelu ofnau'r cyhoedd, ymgyrchoedd gwybodaeth a digwyddiadau** y dylid eu targedu gan gyfeirio at yr wybodaeth am leoliadau a geir yng nghanlyniadau'r arolwg. **Teimlo'n ddiogel oedd un o brif ganfyddiadau** Asesiad Llesiant Lleol diweddar Ceredigion.

Mae data Heddlu Dyfed Powys, ynghyd â safbwyntiau'r gymuned a gasglwyd drwy'r arolwg, yn gosod **sylfaen dystiolaeth gadarn** ar gyfer y gweithgareddau y dylai'r Bartneriaeth fod yn rhoi sylw iddynt drwy ei **gwaith amlasiantaethol**. Bydd Cynllun Cyflenwi newydd y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn a bydd angen mynd i'r afael â nhw ar sail amlasiantaethol i wella diogelu, i leihau bregusrwydd, i leihau troseddu, ac i fynd i'r afael ag anghenion pobl Ceredigion o ran diogelwch cymunedol.



Mae'r blaenoriaethau hyn yn gydnaws â **Strategaeth Reoli 2023-2024 ddiweddaraf Heddlu Dyfed Powys** sy'n targedu cyflenwi a defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, treisio a throseddau rhyw, ac atal cam-drin domestig a mynd i'r afael ag ef. Ymhellach, mae blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol hefyd yn rhoi sylw i'r materion hyn, fel y nodir yn **Asesiad Strategol Heddlu Dyfed Powys 2023-24.**

Mae mentrau eraill hefyd yn dod i'r amlwg, e.e. y **Ddyletswydd Trais Difrifol** y bydd y Bartneriaeth yn chwarae rhan allweddol ynddi o ran cyfarwyddo ymyriadau yng Ngheredigion ac fel partneriaid yn y rhanbarth. Bydd y gweithgareddau hyn yn rhan integredig o flaenraglen waith y Bartneriaeth ac yn cyfrannu at ein gwaith yn y meysydd hyn sy'n flaenoriaeth.



# Y STRWYTHUR CYFLENWI PRESENNOL

Mae'r strwythur cyflenwi a ddefnyddir gan y Bartneriaeth ar hyn o bryd yn cynnwys pedair elfen thematig yr adroddir arnynt yn unigol yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth.

**THEMA 1** — **Gweithio Mewn Partneriaeth i Fynd i'r Afael â Throseddu ac i Gefnogi Diogelwch Cymunedol**

O dan arweiniad Arolygydd Plismona Bro Heddlu Dyfed Powys, mae'r grŵp hwn yn ymgynnull drwy **Gyfarfod Tactegol amlasiantaethol** sy'n cwrdd bob chwarter ac yn goruchwylio **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Plismona Cymunedol a Phlismona Bro, Grwpiau Datrys Problemau, a mentrau troseddu lefel isel**.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r grŵp wedi cael llwyddiant drwy brosiectau sydd wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â throseddu â chyllell, yr economi liw nos, sbeicio diodydd, diogelwch menywod, ymgyrchoedd diogelwch ar y ffyrdd, a llawer o fentrau diogelwch cymunedol eraill.

## THEMA 2 — Atal Terfysgaeth ac Eithafiaeth Dreisgar (CONTEST)

Mae’r gwaith yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Ceredigion a’i gyflawni drwy’r **Bwrdd CONTEST amlasiantaethol** lleol o dan gadeiryddiaeth y Rheolwr Corfforaethol – Partneriaethau a Pherfformiad. Mae’r grŵp hwn yn rhoi adroddiadau am ei waith i weithredu Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig o dan y **pedwar prif amcan, sef Atal, Diogelu, Paratoi ac Erlid**. Ceir cysylltiadau rhyngddo a’r Bwrdd CONTEST rhanbarthol, ac mae’n rhoi adroddiadau iddo, fel rhan o **strwythur CONTEST CYMRU**. Y blaenoriaethau presennol yw’r adolygiad diweddar o Strategaeth Prevent, hyfforddiant gwrthderfysgaeth i staff a phartneriaid, a pharatoi ar gyfer y Ddyletswydd i Ddiogelu (Deddf Martyn) a fydd yn dod i rym yn fuan.

## THEMA 3 — Trais Difrifol a Throseddu Cyfundrefnol (SVOC)

O dan arweiniad Prif Arolygydd Partneriaethau Heddlu Dyfed Powys, mae’r **Bwrdd Trais Difrifol a Throseddu Cyfundrefnol amlasiantaethol** yn cwrdd bob chwarter ac yn rhoi adroddiadau am faterion Trais Difrifol a Throseddu Cyfundrefnol i’r graddau y maent yn effeithio ar y sir. Gall y Bwrdd ddefnyddio tîm ymyrraeth o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu penodedig o dan **fenter INTACT** sy’n cynnwys swyddogion arbenigol rhanbarthol sy’n cydweithio â phartneriaid i dargedu’r rhesymau pam fod pobl iau yn cael eu denu i ymwneud â throseddu difrifol neu gyfundrefnol. Mae’r grŵp hefyd yn rhoi adroddiadau i bartneriaid am ymchwiliadau a gweithgareddau yn yr ardal sy’n ymwneud â throseddu cyfundrefnol, ac yn mynd ati i gydgysylltu dull amlasiantaethol o atal y gweithgareddau hyn ac ymdrin â’u canlyniadau a’u heffaith.

## THEMA 4 — Lleihau Troseddu, Aildroseddu a Niwed

Mae’r grŵp hwn yn cael ei arwain gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Mae’n rhoi adroddiadau am **fentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i reoli troseddwyr**.

### Cydlyniant Cymunedol

Yn ychwanegol at y pedwar maes thematig, mae'r Bartneriaeth hefyd yn cael adroddiadau gan y Tîm Cydlyniant Cymunedol sy'n gwasanaethu'r rhanbarth. Mae'r tîm yn adrodd yn ôl am ei waith a'i **weithgareddau prysur iawn o ran grantiau bach**. Mae hefyd yn cynnal **Grŵp Monitro Tensiynau** yn ardaloedd pob un o'r awdurdodau lleol yn Nyfed Powys. Yn y grwpiau hyn, mae gweithwyr proffesiynol yn ymgynnull yn anffurfiol bob wythnos, ac maent yn ffordd effeithiol o **fonitro tensiynau mewn cymunedau**, gan sylwi'n aml ar broblemau cyn iddynt ddwysáu. Mae'r cyfarfodydd monitro tensiynau a'r diweddariadau rheolaidd am gydlyniant wedi bod yn effeithiol iawn yn y gorffennol. Mae ffurfioli'r trefniadau adrodd yn cael ei ystyried.

# ADOLYGU'R STRWYTHUR CYFLENWI

Ar ôl iddi gytuno ar ei blaenoriaethau, bydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion yn cwrdd ar 18 Medi 2023 i **adolygu'r strwythur cyflenwi presennol** ac i sicrhau ei fod yn darparu llwyfan effeithlon i reoli'r flaenraglen waith. **Bydd y Bartneriaeth hefyd yn pennu tasgau** o dan bob blaenoriaeth, ac yn nodi pa grwpiau fydd yn arwain pob elfen o'r gwaith.

Bydd yr Asesiad a'r Strategaeth yn cael eu **hadolygu'n rheolaidd**.

# PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL CEREDIGION

Asesiad Strategol Trosedd ac Anrhefn 2023



Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion - Asesiad Strategol o Drosedd ac Anhrefn 2023

Holiadur Cyhoeddus

**Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion yn gofyn am eich barn ar droseddu ac anhrefn yn y sir.** Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Heddlu, yr Awdurdod Lleol, yr Awdurdod Tân ac Achub, y gwasanaeth Iechyd, y gwasanaeth Prawf, yn ogystal â sefydliadau eraill sy'n cael eu gwahodd.

**Partneriaid Statudol [Awdurdodau Cyfrifol]**
Cyngor Sir Ceredigion
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Heddlu Dyfed-Powys
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Aelodau Ychwanegol**
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol y Drindod Dewi Sant
Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Barcud
Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol
Tai Wales & West
Cynrychiolydd o'r Bwrdd Cynllunio Ardal
Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau

Mae aelodau'r Bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd i amddiffyn cymunedau lleol rhag troseddau ac i helpu pobl i deimlo'n fwy diogel. Rhan bwysig o'r gwaith yma yw nodi ac archwilio'r materion cyfoes a bygythiadau posib a allai gael effaith ar Geredigion yn y dyfodol.

Bydd y syniadau a'r farn a gasglir wrthych drwy'r holiadur yma yn cynorthwyo'r Bartneriaeth i nodi'r prif faterion sy'n effeithio ar yr ardal leol, i gael cipolwg ar faterion pwysig megis ofn troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnydd cyffuriau ac alcohol, yn ogystal â chynorthwyo i ddyrannu adnoddau yn effeithiol a blaenoriaethu gweithgarwch. Ar y cyd â'r data a gasglir oddi wrth bartneriaid, bydd eich adborth yn rhoi sylfaen dystiolaeth i lywio Cynllun Gweithredu nesaf Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion.

Er mwyn cefnogi'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i gadw Ceredigion yn ddiogel, byddwch cystal â llenwi'r holiadur isod **erbyn hanner dydd ar 28 Mawrth 2023.** Os oes angen i chi gysylltu â ni neu fod angen gwybodaeth arnoch mewn ffurf arall (er enghraifft, print bras, Hawdd ei Ddarllen neu fersiwn i bobl ifanc), cysylltwch â ni ar 01545 570881 neu clic@ceredigion.gov.uk.

| **1** | **Beth yw eich prif gysylltiad â'r sir?** | |
|---|---|---|
| | Byw yma ………………………………………… | ☐ |
| | Gweithio / Cynnal Busnes ………………………………………… | ☐ |
| | Byw a Gweithio / Cynnal Busnes ………………………………………… | ☐ |
| | Myfyriwr ………………………………………… | ☐ |
| | Cyngor Tref a Chymuned ………………………………………… | ☐ |

| 2 | Gyda pha rai o'r ardaloedd canlynol yr ydych yn ymwneud â nhw? | |
|---|---|---|
| | Aberystwyth ………………………………………………………………………………………… | ☐ |
| | Tregaron ………………………………………………………………………………………… | ☐ |
| | Aberaeron ………………………………………………………………………………………… | ☐ |
| | Llanbedr Pont Steffan ………………………………………………………………………………………… | ☐ |
| | Aberteifi ………………………………………………………………………………………… | ☐ |
| | Llandysul ………………………………………………………………………………………… | ☐ |

| 3 | Gyda'r materion canlynol, rhowch nhw yn ôl eich blaenoriaeth chi: | Uchel | Canolig | Isel |
|---|---|---|---|---|
| | Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Presenoldeb gweladwy gan yr Heddlu (tref a chefn gwlad) ………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau) ………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Cyflenwi Cyffuriau yn anghyfreithlon ………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Camddefnyddio Sylweddau (Alcohol) ………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Diogelwch ar y Ffordd a Lleihau Marwolaethau ar y Ffordd ………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Troseddau Ieuenctid - Diogelu Pobl Ifanc ………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Fandaliaeth / Difrod Troseddol / Graffiti ………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Troseddu Treisgar ………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Goleuadau stryd ………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Troseddau cerbydau ………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Bwrgleriaeth ………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Ymgysylltu â'r cyhoedd / Dylanwad y cyfryngau ………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Ofn Terfysgaeth ………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Trefn Gyhoeddus<br>……………………………………………………………….. | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Cynnau Tanau Bwriadol<br>……………………………………………………………….. | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Lleihau Troseddau Busnes<br>………………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Troseddau Cefn Gwlad<br>……………………………………………………………….. | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Trais yn erbyn Menywod a Merched<br>…..…………………………………………………………….. | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Trais Domestig (gan gynnwys Stelcio ac Aflonyddu)<br>………………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Troseddau Rhyw<br>………………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Troseddau Casineb (gan gynnwys Hil, Crefydd, Anabledd, Homoffobia, Trawsffobia)<br>………………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Cydlyniant ac Ymgysylltu Cymunedol, Lleihau Ofn Troseddau<br>………………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Lleihau aildroseddu<br>……………………………………………………………….. | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Troseddau Seiber ac Ar-lein<br>……………………………………………………………… | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Nodwch pa faterion sydd wedi gwella dros y 12 mis diwethaf, yn eich barn chi:** | |
| | Ymddygiad Gwrthgymdeithasol<br>…………………………………………………................... | ☐ |
| | Presenoldeb gweladwy gan yr Heddlu (tref a chefn gwlad)<br>……………………….................................................... | ☐ |
| | Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau)<br>……………………………………………………………….. | ☐ |
| | Targedu'r gwaith o Gyflenwi Cyffuriau yn anghyfreithlon<br>………………………………………………………………… | ☐ |
| | Camddefnyddio Sylweddau (Alcohol)<br>……………………………………………………………….. | ☐ |
| | Diogelwch ar y Ffordd a Lleihau Marwolaethau ar y Ffordd ……………………..…………………………….. | ☐ |
| | Troseddau Ieuenctid - Diogelu Pobl Ifanc<br>……………………………………………………………….. | ☐ |
| | Fandaliaeth / Difrod Troseddol / Graffiti<br>…………………………..…………………………………. | ☐ |
| | Troseddu Treisgar<br>..……………………………………………………………….. | ☐ |
| | Goleuadau stryd<br>………………………………………………………………… | ☐ |
| | Troseddau cerbydau<br>……………………………………………………………….. | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| | Bwrgleriaeth<br>…………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Ymgysylltu â'r cyhoedd / Dylanwad y cyfryngau<br>…………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Ofn Terfysgaeth<br>……………………………………………………………………… | ☐ |
| | Trefn Gyhoeddus<br>…………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Cynnau Tanau Bwriadol<br>…………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Lleihau Troseddau Busnes<br>…………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Troseddau Cefn Gwlad<br>…………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Trais yn erbyn Menywod a Merched<br>…………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Trais Domestig (gan gynnwys Stelcio ac Aflonyddu)<br>……………………………………………………………………… | ☐ |
| | Troseddau Rhyw<br>…………………………………………………………………….......... | ☐ |
| | Troseddau Casineb (gan gynnwys Hil, Crefydd, Anabledd, Homoffobia, Trawsffobia)<br>……………………………………………………………...................... | ☐ |
| | Cydlyniant ac Ymgysylltu Cymunedol, Lleihau Ofn Troseddau<br>……………………………………………………………………… | ☐ |
| | Lleihau aildroseddu<br>…………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Troseddau Seiber ac Ar-lein<br>………………………………………………………………… | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Nodwch pa faterion sydd wedi gwaethygu dros y 12 mis diwethaf, yn eich barn chi:** | |
| | Ymddygiad Gwrthgymdeithasol<br>……………………………………………………………................. | ☐ |
| | Presenoldeb gweladwy gan yr Heddlu (tref a chefn gwlad)<br>……………………………………………………………................. | ☐ |
| | Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau)<br>…………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Cyflenwi Cyffuriau yn anghyfreithlon<br>…………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Camddefnyddio Sylweddau (Alcohol)<br>…………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Diogelwch ar y Ffordd a Lleihau Marwolaethau ar y Ffordd<br>…………………………………………………………………….. | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| | Troseddau Ieuenctid - Diogelu Pobl Ifanc ………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Fandaliaeth / Difrod Troseddol / Graffiti ……………………………..……………………………… | ☐ |
| | Troseddu Treisgar ..……………………………………………………………………. | ☐ |
| | Goleuadau stryd ………………………………………………………………………. | ☐ |
| | Troseddau cerbydau ………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Bwrgleriaeth ………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Ymgysylltu â'r cyhoedd / Dylanwad y cyfryngau ………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Ofn Terfysgaeth ………………………………………………………………………. | ☐ |
| | Trefn Gyhoeddus ………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Cynnau Tanau Bwriadol ………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Lleihau Troseddau Busnes ………………………………………………………………………. | ☐ |
| | Troseddau Cefn Gwlad ………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Trais yn erbyn Menywod a Merched ………………………………………………………………………. | ☐ |
| | Trais Domestig (gan gynnwys Stelcio ac Aflonyddu) ………………………………………………………………………. | ☐ |
| | Troseddau Rhyw ………………………………………………………………………. | ☐ |
| | Troseddau Casineb (gan gynnwys Hil, Crefydd, Anabledd, Homoffobia, Trawsffobia) ………………………………………………………………………. | ☐ |
| | Cydlyniant ac Ymgysylltu Cymunedol, Lleihau Ofn Troseddau ………………………………………………………………………. | ☐ |
| | Lleihau aildroseddu ………………………………………………………………….. | ☐ |
| | Troseddau Seiber ac Ar-lein ……………………………………………………………… | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Faint o newid a fu o ran troseddau yn gyffredinol yn eich ardal chi dros y 12 mis diwethaf, yn eich barn chi:** | |
| | Llawer mwy ........................................................................................................................ | ☐ |
| | Ychydig yn fwy ........................................................................................................................ | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| | Tua'r un peth ........................................................................................................ | ☐ |
| | Ychydig yn llai ........................................................................................................ | ☐ |
| | Llawer llai ........................................................................................................ | ☐ |

| | |
|---|---|
| **7** | **A oes materion newydd sydd, yn eich barn chi, yn peri pryder ar hyn o bryd?** |

.........................................................................................................................................

.........................................................................................................................................

.........................................................................................................................................

.........................................................................................................................................

.........................................................................................................................................

.........................................................................................................................................

| | | |
|---|---|---|
| **8** | **Ydych chi'n credu fod camddefnyddio alcohol yn broblem fawr mewn cysylltiad â throseddu yng Ngheredigion?** | |
| | Ydw........................................................................................................ | ☐ |
| | Nac ydw........................................................................................................ | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **9** | **Ydych chi'n credu fod camddefnyddio cyffuriau yn broblem fawr mewn cysylltiad â throseddu yng Ngheredigion?** | |
| | Ydw........................................................................................................ | ☐ |
| | Nac ydw........................................................................................................ | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| **10** | **Ydych chi'n gwybod sut i riportio ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r dulliau a'r cosbau sydd ar gael i ddelio ag ef?** | |
| | Ydw........................................................................................................ | ☐ |
| | Nac ydw........................................................................................................ | ☐ |

| 11 | Ydy troseddau seiber ac ar-lein wedi cael effaith arnoch chi yn bersonol? |
|---|---|
| | Do........................................................................................................... ☐<br>Naddo...................................................................................................... ☐ |

| 12 | Mewn arolygon diweddar, mae'r cyhoedd wedi dweud mai teimlo'n ddiogel yn eu cartref eu hunain yw’r peth maen nhw'n ei werthfawrogi fwyaf. Beth yn eich barn chi sydd â'r potensial mwyaf i fygwth hyn? (e.e., troseddu ar-lein, bwrgleriaeth, difrod troseddol ac ati) |
|---|---|

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

| 13 | Ydych chi wedi clywed am waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion? |
|---|---|
| | Do........................................................................................................... ☐<br>Naddo...................................................................................................... ☐ |

| 14 | A oes yna bryderon eraill yr hoffech eu codi? |
|---|---|

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

Mae'r cwestiynau canlynol yn ddewisol ond mae angen i ni eu gofyn i weld a yw ein ymarfer ymgysylltu wedi cyrraedd y bobl iawn (yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010). Yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, bydd unrhyw wybodaeth a ofynnir ynghylch y cwestiynau canlynol yn cael ei chadw yn gwbl gyfrinachol ac at ddibenion dadansoddi data yn unig.

## Rhyw

1. Beth yw eich rhyw?

- ◯ Gwryw
- ◯ Benyw
- ◯ Arall
- ◯ Mae'n well gan eraill beidio â dweud

2. Ydy’ch rhyw yn awr yr un fath â’r un a ddyranwyd i chi ar eich genedigaeth?

- ◯ Ydy
- ◯ Nac ydy
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud

## Oedran

3. Beth yw eich grŵp oedran?

- ◯ O dan 16
- ◯ 45 – 64
- ◯ 16 – 24
- ◯ 65+
- ◯ 25 – 44
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud

## Cyfeiriadedd Rhywiol

4. Pa un o’r opsiynau canlynol sy’n disgrifio orau’r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun?

* Noder: Dylid gofyn y cwestiwn hwn i bobl dros 16 oed yn unig.

- ◯ Heterorywiol / Strêt
- ◯ Dyn Hoyw
- ◯ Menyw Hoyw /Lesbiaidd
- ◯ Deurywiol
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall ____________________

## Partneriaeth

5. Beth yw eich statws partneriaeth?

- ◯ Sengl
- ◯ Priod
- ◯ Byw gyda Phartner
- ◯ Wedi Ysgaru
- ◯ Gweddw
- ◯ Partner Sifil
- ◯ Wedi Gwahanu
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall ___________

## Hunaniaeth Genedlaethol

6. Sut fyddech chi’n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

- ◯ Cymro / Cymraes
- ◯ Sais / Saesnes
- ◯ Albanwr / Albanes
- ◯ Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
- ◯ Prydeiniwr / Prydeinwraig
- ◯ Gwyddel / Gwyddeles
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall ____________________

## Grŵp Ethnig

7. Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp ethnig neu'ch cefndir orau:

- ◯ Asiaidd
- ◯ Cymysg
- ◯ Teithwyr Sipsi
- Arall ___________
- ◯ Du / Affricanaidd / Caribïaidd
- ◯ Gwyn
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud

## Iaith

8. Beth yw'ch dewis iaith?

- ◯ Cymraeg
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud
- ◯ Saesneg
- Arall ___________________

9. Ydych chi’n deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

- ◯ Deall Cymraeg Llafar
- ◯ Darllen Cymraeg
- ◯ Dim un o’r uchod
- ◯ Siarad Cymraeg
- ◯ Ysgrifennu Cymraeg
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud

## Anabledd

10. A oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch tymor hir sy'n lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?

- ◯ Oes
- ◯ Nac Oes
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud

11. Os ydych wedi ateb 'oes', nodwch yr hyn sy'n berthnasol i chi:

- ◯ Nam ar y Clyw
- ◯ Nam ar y Golwg
- ◯ Nam Lleferydd
- ◯ Anableddau Dysgu
- ◯ Materion Iechyd Meddwl
- ◯ Nam ar y Lleferydd

Arall___________

## Cyfrifoldebau Gofalu

12. Ydych chi'n gofalu am rywun neu'n darparu cymorth neu gefnogaeth i aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd:

- Cyflwr iechyd / anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor; neu
- Problemau yn ymwneud â henaint

- ◯ Ydw
- ◯ Nac ydw
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud

## Crefydd neu Gred

13. Beth yw eich crefydd?

- ◯ Cristion (pob enwad)
- ◯ Bwdhydd
- ◯ Hindŵ
- ◯ Mwslim
- ◯ Sikh
- ◯ Iddew
- ◯ Anffyddiwr
- ◯ Dim crefydd
- ◯ Gwell gennyf beidio â dweud

Arall ____________________

## Datganiad Preifatrwydd

Mae'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi yn cael ei phrosesu gan Gyngor Sir Ceredigion a hynny yn unol â gofynion GDPR a'r Ddeddf Diogelu Data.

Am wybodaeth ynglŷn â sut mae data personol yn cael ei brosesu, gweler Hysbysiad Preifatrwydd y Cyngor: www.ceredigion.gov.uk/

**Mae modd cysylltu â ni drwy:**

**E-bost:**
partneriaethau@ceredigion.gov.uk

**Post:**
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Ffôn:**
01545 570881

Croesewir cwestiynau, sylwadau neu adborth.

**Beth sy'n digwydd nesa?**

Cyhoeddir canfyddiadau'r ymarfer ymgysylltu hwn ar wefan Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion ym mis Mehefin. Defnyddir eich sylwadau i lywio Cynllun Gweithredu nesaf Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion.

Diolch ichi am helpu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a'ch cymuned drwy rannu eich barn.

***Os oes gennych wybodaeth am achos o droseddu, gallwch ffonio yn ddi-enw:***

Wales/Cymru
CRIMESTOPPERS
0800 555 111
Call anonymously with information about crime
Ffoniwch yn ddienw os am roi gwybodaeth am drosedd

ACT
ACTION COUNTERS TERRORISM

# Ymgynghoriad ar yr Asesiad Strategol o Drosedd ac Anhrefn

## Adroddiad Adborth




Ebrill 2023

# PRIF GANLYNIADAU

## 89

o ymatebion wedi'u derbyn

(gyda 167 o sylwadau ysgrifenedig)

## 46%

wedi dweud bod trosedd wedi cynyddu **llawer** neu **ychydig** dros y 12 mis diwethaf

(51% wedi dweud ei fod yr un peth)

## 58%

wedi dweud bod camddefnyddio alcohol yn broblem fawr yng Ngheredigion

(40% wedi dweud nad oedd yn broblem, 1% heb ateb)

## 87%

wedi dweud bod camddefnyddio cyffuriau yn broblem fawr yng Ngheredigion

(13% wedi dweud nad oedd yn broblem)

**Presenoldeb Gweladwy gan yr Heddlu**
**Diogelwch ar y Ffordd a Lleihau Marwolaethau ar y Ffordd**
**Goleuadau Stryd**

wedi'u nodi fel y 3 phrif fater oedd wedi **gwella** dros y deuddeg mis

**Cyflenwi Cyffuriau yn anghyfreithlon**
**Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau)**
**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

wedi'u nodi fel y 3 phrif fater oedd wedi **gwaethygu** dros y deuddeg mis diwethaf

**Troseddau Rhyw**
**Cyflenwi Cyffuriau yn anghyfreithlon**
**Trais yn Erbyn Menywod a Merched**
**Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau)**
**Trais Domestig (gan gynnwys Stelcio ac Aflonyddu)**

wedi'u nodi fel y prif **faterion â blaenoriaeth** yng Ngheredigion ar hyn o bryd

**Bwrgleriaeth**
**Trosedd / Twyll Ar-lein**
**Difrod Troseddol**
**Galwadau Diwahoddiad / Sgamiau**
**Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol**
**Presenoldeb Gweladwy gan yr Heddlu / Cymryd Camau Pellach**

wedi'u nodi fel y prif faterion a fyddai'n bygwth gwneud i bobl **deimlo'n ddiogel** yn eu cartrefi eu hunain



**Ymgynghoriad wedi'i gynnal rhwng 31 Ionawr a 28 Mawrth 2023**

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein trwy wefan y Cyngor, gwefannau partneriaid, copi caled ac fe'i hysbysebwyd trwy'r cyfryngau cymdeithasol

Derbyniwyd cyfanswm o 89 o ymatebion

Mae'r canlyniadau llawn a'r wybodaeth monitro cydraddoldeb i'w gweld ar y tudalennau canlynol

## Cefndir

Rhwng 31 Ionawr a 28 Mawrth 2023, bu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion yn ymgysylltu â phreswylwyr fel rhan o'i Hasesiad Strategol o Drosedd ac Anhrefn.

Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Heddlu, Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Tân ac Achub, Gwasanaeth Prawf a Byrddau Iechyd.

Fel partneriaeth maent yn penderfynu sut i ddelio â materion trosedd ac anhrefn lleol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol ac aildroseddu er mwyn amddiffyn cymunedau lleol rhag troseddau, a helpu pobl i deimlo'n fwy diogel. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn parhau'n ymwybodol o natur a lefel trosedd ac anhrefn yn y Sir a chael persbectif ar faterion pwysig eraill fel ofn troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio cyffuriau.

Mae'r ymgynghoriad yn rhan hanfodol o'r adolygiad nesaf a bydd yn helpu i nodi dulliau o ddatblygu a gweithredu camau effeithiol i leihau'r problemau hyn a chyfeirio adnoddau er mwyn mynd i'r afael â nhw. Defnyddir yr ymgynghoriad cyhoeddus i ddarparu sylfaen dystiolaeth gryf a sylfaen a arweinir gan wybodaeth i'r Bartneriaeth er mwyn llywio Cynllun Cyflenwi Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion.

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein trwy wefannau partneriaid y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a chafodd ei hysbysebu trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd copïau printiedig ar gael i'w llwytho i lawr o wefan ymgynghoriadau'r Cyngor.


## Cyfradd Ymateb

Cafwyd cyfanswm o 89 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan gynnwys 167 o sylwadau ysgrifenedig. Cwblhawyd 3 chopi papur a chafwyd 9 ymateb trwy ddigwyddiad Cyngor Ieuenctid Ceredigion. Cwblhawyd 21% neu 19 o arolygon yn Gymraeg a 74% neu 66 yn Saesneg. Ar gyfartaledd, cymerodd ymatebwyr 13 munud 58 eiliad i gwblhau'r arolwg ar-lein. Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn rhoi crynodeb o'r casgliadau.

## Prif Gasgliadau


### Cw1: Beth yw eich prif gysylltiad â'r Sir?

Roedd y cwestiwn agoriadol yn gofyn i ymatebwyr nodi eu prif gysylltiad â'r Sir. Nododd y mwyafrif (63%) eu bod yn breswylwyr, tra bod ychydig dros chwarter (27%) wedi nodi eu bod yn byw ac yn gweithio yn y Sir. Mae 7% arall yn gweithio neu'n cynnal busnes yng Ngheredigion, tra bod 2% yn Gynghorau Tref neu Gymuned. Mae'r siart hon yn crynhoi cysylltiad ymatebwyr â'r Sir.




## Cw2: Gyda pha rai o'r ardaloedd canlynol yr ydych yn ymwneud â nhw?

Roedd y cwestiwn nesaf yn gofyn i ymatebwyr nodi pa ardal ddaearyddol y maent yn ymwneud â hi. Nododd y gyfran fwyaf o ymatebwyr (50%) Aberystwyth, sy'n cyfateb i 46 o ymatebwyr. Fel y dref fwyaf yn y Sir gyda 14,648 o drigolion, nid yw'n syndod bod yr ymatebwyr wedi'u pwysoli'n drwm tuag at Aberystwyth. Roedd gweddill trefi'r Sir yn cynrychioli'r 50% arall o ymatebwyr, yn amrywio o 13% yn Aberaeron a Llanbedr Pont Steffan i 8% yn Llandysul a Thregaron.





*(Nid yw'r ffigurau'n dod i gyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu cyfrifiadurol)*

## Cw3: Gyda'r materion cyfredol hyn, rhowch nhw yn ôl eich blaenoriaeth chi:

Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr roi rhestr o bump ar hugain o faterion diogelwch cymunedol cyfredol yn nhrefn pwysigrwydd trwy roi gradd uchel, canolig neu isel ar gyfer pob mater. Troseddau rhyw gafodd y nifer fwyaf o bleidleisiau "blaenoriaeth uchel" gyda 68, gyda thrais yn erbyn menywod a merched (66) a chyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon yn dilyn yn agos gyda 64, fel y dangosir yn y siart isod.


**Cw3. Gyda'r materion canlynol, rhowch nhw yn ôl eich blaenoriaeth chi: Nifer yr ymatebion blaenoriaeth "Uchel"**




Fodd bynnag, nid yw hyn yn ystyried y safleoedd is. Felly defnyddiwyd system bwysoli syml i sgorio pob un o'r materion diogelwch cymunedol trwy luosi'r nifer ym mhob categori â sgôr o 3 i 1, gyda 3 yr uchaf. Mae'r canlyniadau'n dangos bod **troseddau rhyw**, **cyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon** a **thrais yn erbyn menywod a merched** yn parhau i fod yn y safle uchaf o ran materion diogelwch cymunedol fel y dangosir yn y siart drosodd. Newidiodd y pwysoliad y drefn flaenoriaeth ar ôl y tri uchaf – roedd **camddefnyddio sylweddau (cyffuriau)**, **trais domestig**, **troseddau treisgar** a **throseddau casineb** yn dilyn yn agos iawn. Ar ben arall y raddfa, roedd **ofn terfysgaeth** yn cael ei ystyried y flaenoriaeth isaf, mae'n debyg oherwydd y canfyddiad ei fod yn llai perthnasol na'r bygythiadau uniongyrchol o droseddu yn eu hardal.


Mae'r blaenoriaethau hyn yn cyfateb yn agos â Strategaeth Reoli ddiweddaraf Heddlu Dyfed Powys sy'n targedu cyflenwi a defnyddio cyffuriau yn anghyfreithlon, treisio a throseddau rhyw, ac atal a mynd i'r afael â thrais domestig. At hynny, adlewyrchir y materion hyn mewn blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol fel yr amlinellir yn Asesiad Strategol Heddlu Dyfed Powys 2023-24.

## Cw3. Gyda'r materion cyfredol hyn, rhowch nhw yn ôl eich blaenoriaeth chi: sgôr wedi'i phwysoli




Yn ôl ardal ddaearyddol, roedd sawl tebygrwydd i'w gweld. Nodwyd materion yn ymwneud â chyffuriau fel y brif flaenoriaeth mewn tair o'r chwe ardal – camddefnyddio sylweddau (cyffuriau) yn Aberaeron a Llandysul, a chyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon yn Nhregaron. Yn Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan, cafodd troseddau rhyw ei nodi fel blaenoriaeth, ac yn Aberystwyth trais yn erbyn menywod a merched oedd y flaenoriaeth. Ar draws y prif flaenoriaethau, roedd cyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon yn ymddangos ym mhrif flaenoriaethau pump o'r chwe ardal, roedd camddefnyddio sylweddau (cyffuriau) yn ymddangos mewn pedair o'r chwe ardal, yn ogystal â throseddau rhyw. Mae'r casgliadau hyn wedi'u crynhoi yn y tabl isod. (Sylwer bod gan Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan ymatebion ar y cyd ar gyfer y drydedd flaenoriaeth uchaf).


Y 3 mater â blaenoriaeth uchaf yn ôl ardal (sgorau wedi'u pwysoli)




Ymhlith menywod y brif flaenoriaeth a nodwyd oedd trais yn erbyn menywod a merched ac yna troseddau rhyw a thrais domestig, tra bod pryderon dynion yn canolbwyntio ar faterion yn gysylltiedig â chyffuriau, gyda chyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon a chamddefnyddio sylweddau (cyffuriau) yn y ddau le uchaf, yna troseddau rhyw. Mae'r tabl isod yn cymharu'r 3 blaenoriaeth uchaf yn ôl rhyw, a chyflwynir dadansoddiad llawn o'r sgorau wedi'u pwysoli yn y siart trosodd.

Y 3 mater â blaenoriaeth uchaf yn ôl sgôr wedi'i phwysoli ac yn ôl rhyw


| Safle | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| 1 | Trais yn Erbyn Menywod a Merched | Cyflenwi Cyffuriau yn anghyfreithlon |
| 2 | Troseddau Rhyw | Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau) |
| 3 | Trais Domestig (gan gynnwys Stelcio ac Aflonyddu) | Troseddau Rhyw |




## Cw4: Nodwch pa faterion sydd wedi gwella dros y 12 mis diwethaf, yn eich barn chi:

Roedd y cwestiwn canlynol yn gofyn i ymatebwyr nodi pa faterion oedd wedi gwella yn eu barn nhw dros y deuddeg mis diwethaf. Ar frig y rhestr roedd **presenoldeb gweladwy gan yr Heddlu (tref a chefn gwlad)** a gafodd ei nodi gan 28 o ymatebwyr, wedi'i ddilyn gan **ddiogelwch ar y ffordd a lleihau marwolaethau ar y ffordd** gyda 24, a **goleuadau stryd** gydag 20. Mae'r rhestr lawn o ymatebion i'w gweld yn y siart drosodd. Ar ben arall y raddfa, dim ond tair gwaith y cafodd camddefnyddio sylweddau (cyffuriau) ac ofn terfysgaeth eu nodi. Mae'r canlyniadau hyn yn cyfateb i'r atebion i gwestiwn 5 lle'r oedd ymatebwyr o'r farn mai cyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon a chamddefnyddio sylweddau (cyffuriau) oedd y materion oedd wedi gwaethygu mwyaf dros y deuddeg mis blaenorol. Yn yr un modd, dim ond pedwar gwaith y cafodd ymddygiad gwrthgymdeithasol ei nodi yn y rhestr o faterion oedd wedi gwella, ond mae'n ymddangos yn drydydd yng nghwestiwn 5 yn y rhestr o faterion oedd wedi gwaethygu.

### Cw4. Nodwch pa faterion sydd wedi gwella dros y 12 mis diwethaf, yn eich barn chi:





## Cw5: Nodwch pa faterion sydd wedi gwaethygu dros y 12 mis diwethaf, yn eich barn chi:

Gofynnodd y cwestiwn dilynol pa faterion yr oedd yr ymatebwyr yn meddwl oedd wedi gwaethygu dros y deuddeg mis diwethaf. Roedd **cyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon** a **chamddefnyddio sylweddau (cyffuriau)** yn ymddangos ar frig y rhestr a gafodd eu nodi 47 o weithiau a 46 o weithiau. Yn dilyn materion yn ymwneud â chyffuriau, cafodd **ymddygiad gwrthgymdeithasol** ei nodi 41 o weithiau. Cafwyd llawer mwy o ymatebion i'r tri mater hyn na'r mater uchaf nesaf. I'r gwrthwyneb, dim ond 4 o ymatebwyr ar ben arall y raddfa oedd wedi nodi lleihau troseddau busnes. (Cafwyd dwywaith cymaint o ymatebion i'r cwestiwn hwn o'i gymharu â'r cwestiwn blaenorol oedd wedi gofyn i ymatebwyr dynnu sylw at y materion oedd wedi gwella).

Mae cymharu canfyddiadau ymatebwyr o droseddu â'r ffigurau troseddu diweddaraf ar draws Ceredigion yn dangos rhai gwahaniaethau amlwg rhwng y canfyddiad o droseddu a realiti troseddu. Er i gyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon gael ei nodi fel y prif fater oedd wedi gwaethygu, mewn gwirionedd roedd digwyddiadau masnachu mewn cyffuriau wedi lleihau ychydig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2023 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn yr un modd, cafodd digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol ei nodi hefyd fel un o'r prif faterion oedd wedi gwaethygu, ond mewn gwirionedd roedd y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd wedi lleihau'n sylweddol dros yr un cyfnod. Fodd bynnag, roedd pryderon ymatebwyr ynghylch camddefnyddio

cyffuriau yn gwbl ddi-sail gan fod nifer y troseddau bod â chyffuriau yn eich meddiant wedi cynyddu'n sylweddol.

**Cw5. Nodwch pa faterion sydd wedi gwaethygu dros y 12 mis diwethaf, yn eich barn chi:**




Yn ôl ardal, materion yn ymwneud â chyffuriau oedd y mater a gafodd y sgôr uchaf mewn pedair o'r chwe ardal – cyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon yn Aberaeron a Llandysul, a chamddefnyddio sylweddau (cyffuriau) yn Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan. Y broblem fwyaf yn Aberteifi oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn Nhregaron troseddau seiber ac ar-lein oedd y broblem fwyaf. Mae tueddiadau eraill i'w gweld – mae cyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon yn ymddangos yn y 3 phrif fater ym mhob ardal, tra bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymddangos yn y 3 uchaf ar gyfer Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan a Llandysul. Mae'r tabl trosodd yn crynhoi'r casgliadau hyn.

Roedd materion eraill a gafodd eu nodi yn cynnwys troseddau casineb oedd wedi ymddangos unwaith mewn perthynas â Thregaron, presenoldeb gweladwy gan yr Heddlu mewn perthynas ag Aberaeron, a chamddefnyddio sylweddau (alcohol) a fandaliaeth / difrod troseddol / graffiti yn Aberteifi. Yn Llandysul, roedd diogelwch ar y ffordd a lleihau marwolaethau ar y ffordd yn gydradd drydydd. Sylwch fod yr un materion yn drydydd ar gyfer Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan a Llandysul.

## Y 3 phrif fater sydd wedi gwaethygu dros y 12 mis diwethaf fesul ardal


| Aberaeron | Aberystwyth | Aberteifi | Llanbedr Pont Steffan | Llandysul | Tregaron |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflenwi Cyffuriau yn anghyfreithlon | Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau) | Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol | Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau) | Cyflenwi Cyffuriau yn anghyfreithlon | Troseddau Seiber ac Ar-lein |
| Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau) | Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol | Cyflenwi Cyffuriau yn anghyfreithlon | Cyflenwi Cyffuriau yn anghyfreithlon | Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol | Troseddau Casineb (gan gynnwys Hil, Crefydd, Anabledd, Homoffobia, Trawsffobia) |
| Presenoldeb Gweladwy gan yr Heddlu (Tref a Chefn Gwlad) | Cyflenwi Cyffuriau yn anghyfreithlon | Camddefnyddio Sylweddau (Alcohol)<br>Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau)<br>Fandaliaeth / Difrod Troseddol / Graffiti | Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol<br>Troseddau Seiber ac Ar-lein<br>Troseddau Ieuenctid – Diogelu Pobl Ifanc | Troseddau Seiber ac Ar-lein<br>Diogelwch ar y Ffordd a Lleihau Marwolaethau ar y Ffordd<br>Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau) | Cyflenwi Cyffuriau yn anghyfreithlon |

- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Troseddau Seiber ac Ar-lein
- Troseddau Casineb (gan gynnwys Hil, Crefydd, Anabledd, Homoffobia, Trawsffobia)
- Cyflenwi Cyffuriau yn anghyfreithlon
- Diogelwch ar y Ffordd a Lleihau Marwolaethau ar y Ffordd
- Camddefnyddio Sylweddau (Alcohol)
- Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau)
- Fandaliaeth / Difrod Troseddol / Graffiti
- Presenoldeb Gweladwy yr Heddlu (Tref a Chefn Gwlad)
- Troseddau Ieuenctid – Diogelu Pobl Ifanc

### Cw6. Faint o newid a fu o ran troseddau yn gyffredinol yn eich ardal chi dros y 12 mis diwethaf, yn eich barn chi:


Dywedodd mwyafrif bach o 51% fod y gyfradd droseddu gyffredinol yn eu hardal tua'r **un peth** â deuddeg mis ynghynt, tra bod bron i hanner (46%) yn dweud bod **ychydig yn fwy** neu **lawer mwy o** droseddau dros y deuddeg mis diwethaf. Dywedodd 13% o'r rheiny fod **llawer mwy** o droseddu. Dim ond 1% o ymatebwyr ddywedodd fod llai o droseddau, gweler y siart drosodd.

### Cw6. Faint o newid a fu o ran troseddau yn gyffredinol yn eich ardal chi dros y 12 mis diwethaf, yn eich barn chi?





Yn ôl ardal, roedd ychydig o wahaniaeth barn. Er enghraifft, dywedodd y mwyafrif helaeth (73%) o'r rhai sy'n ymwneud ag Aberaeron fod y gyfradd droseddu gyffredinol yn llawer mwy neu ychydig yn fwy, tra yn Llandysul dim ond 14% ddywedodd ei bod ychydig yn fwy, a dywedodd y mwyafrif (86%) ei bod tua'r un peth. Aberteifi oedd â'r gyfran uchaf o ymatebwyr a ddywedodd fod llawer mwy o droseddau, sef 25%, gweler y siart isod. Aberaeron hefyd oedd yr unig ardal lle teimlai unrhyw ymatebwyr fod llai o droseddau, gyda 9% yn dweud eu bod yn teimlo bod llawer llai o droseddau na ddeuddeg mis ynghynt.

### Faint o newid a fu o ran troseddau yn gyffredinol yn eich ardal chi dros y 12 mis diwethaf, yn eich barn chi? (Yn ôl ardal)




Yn ôl rhyw, roedd gan ddynion farn fwy negyddol am y newid dros y 12 mis diwethaf gyda'r mwyafrif (57%) yn nodi bod y gyfradd droseddu yn llawer mwy neu ychydig yn fwy o'i chymharu â 41% ar gyfer merched, gweler y siart drosodd.

**Faint o newid a fu o ran troseddau yn gyffredinol yn eich ardal chi dros y 12 mis diwethaf, yn eich barn chi? (Yn ôl rhyw)**




## Cw7. A oes materion newydd sydd, yn eich barn chi, yn peri pryder ar hyn o bryd?

Yna cafodd ymatebwyr gyfle i godi unrhyw faterion newydd oedd yn peri pryder iddynt. Nodwyd cyfanswm o 54 o faterion, er nad oedd y mwyafrif o'r rhain yn faterion newydd ond yn hytrach roedd ymatebwyr wedi pwysleisio pwysigrwydd y materion oedd eisoes wedi'u nodi mewn cwestiynau cynharach. Er enghraifft, roedd y mater mwyaf cyffredin a godwyd yn ymwneud â **chamddefnyddio cyffuriau** a **delio mewn cyffuriau** gydag 14 o ymatebion oedd hefyd yn ymddangos fel y 2 brif fater oedd wedi gwaethygu dros y deuddeg mis diwethaf yng nghwestiwn 5, gan ddarparu tystiolaeth bellach i awgrymu mai materion yn ymwneud â chyffuriau yw'r broblem fwyaf sy'n wynebu ymatebwyr ar hyn o bryd.

Yn dilyn hyn, cafodd **goryrru / diogelwch ar y ffordd**, **gweledededd gan yr Heddlu** ac **ymddygiad gwrthgymdeithasol** eu nodi hefyd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. O'r materion hollol newydd a godwyd, roedd tri yn sôn yn benodol am **daflu sbwriel** a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar eu hardal leol, ac un am bwysigrwydd **gwaith allgymorth mewn ysgolion** i helpu i osgoi ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu yn y dyfodol. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r materion a godwyd.

| Mater | Nifer y cyfeiriadau |
|---|---|
| Camddefnyddio cyffuriau / delio mewn cyffuriau | 14 |
| Goryrru / diogelwch ar y ffordd | 7 |
| Gweledededd gan yr Heddlu / yr Heddlu yn cymryd camau pellach | 7 |
| Ymddygiad gwrthgymdeithasol | 6 |
| Cydlyniant cymunedol / anghydfodau rhwng cymdogion / goddefgarwch | 3 |
| Taflu sbwriel | 3 |
| Galwadau diwahoddiad / sgamiau | 2 |
| Cam-drin domestig / Trais yn erbyn menywod | 2 |
| Troseddau casineb | 2 |
| Bwrgleriaeth | 1 |
| Camfanteisio'n rhywiol ar blant | 1 |
| Digartrefedd | 1 |
| Diogelwch ar-lein | 1 |
| Gwaith allgymorth mewn ysgolion | 1 |
| Goleuadau stryd / diogelwch yn y nos | 1 |
| Camddefnyddio sylweddau (Alcohol) | 1 |
| Fandaliaeth | 1 |


(Cafodd yr ymatebion eu codio yn ôl mathau o droseddau i gynorthwyo gyda'r dadansoddiad. Felly, mae amrywiadau yn y materion a restrir mewn ymateb i'r cwestiwn hwn o'i gymharu â'r cwestiynau caeedig mewn mannau eraill yn yr arolwg. Mae'r golofn nifer y cyfeiriadau yn rhoi syniad o gyffredinrwydd cymharol).

Manteisiodd rhai o'r ymatebwyr ar y cyfle i egluro eu hateb a rhoi enghreifftiau o'r effaith hefyd. Mae'r tabl canlynol yn rhoi sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd.

| Sampl o'r Sylwadau | |
|---|---|
| "Rwy' wedi dechrau sylwi ar fwy o grwpiau bach o bobl sydd â phroblemau cyffuriau neu alcohol neu'r ddau yn casglu mewn rhai ardaloedd, a gall hyn fod yn eithaf brawychus." | "Canabis yw'r arogl pennaf yn Aberystwyth. Dwi wedi byw yn y dref ers y 1990au cynnar a dydw i ddim yn cofio iddi fod mor wael â hyn. Dyw pobl ddim hyd yn oed yn ceisio cuddio'r ffaith eu bod yn ysmygu cyffur Dosbarth B; mae'n creu awyrgylch annifyr." |
| "Ychydig iawn o dystiolaeth o'r Heddlu "ar y strydoedd". Mae mor anghyffredin gweld swyddogion ar batrôl yng nghanol tref Aberystwyth yn ystod y dydd." | "Bydd pobl yn hongian o gwmpas ger y castell pan fydd y tywydd yn braf. Mae'r bobl hyn yn creu ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn taflu sbwriel ac yn yfed gormod o alcohol." |
| "Problemau difrifol gyda diffyg presenoldeb yr Heddlu a defnyddwyr ffyrdd sy'n gyrru'n beryglus a rasio ar gyflymdra." | "Mae mwy o sgamiau nid yn unig ar-lein ond gyda phobl yn mynd o ddrws i ddrws. Fel rhywun sy'n byw mewn ardal lle mae nifer fawr o bobl oedrannus, rwy'n poeni y gallan nhw fod yn agored i'r mathau hyn o sgamiau." |

## Cw8: Ydych chi'n credu fod camddefnyddio alcohol yn broblem fawr mewn cysylltiad â throseddu yng Ngheredigion?

Yna rhoddwyd pedwar cwestiwn i'r ymatebwyr ar agweddau penodol ar droseddu a sut i riportio hyn. Roedd y cyntaf yn ystyried a oedd camddefnyddio alcohol yn broblem fawr mewn perthynas â throseddu yng Ngheredigion. Teimlai'r mwyafrif o ymatebwyr (58% neu 52 o ymatebwyr) ei fod yn broblem fawr, ond teimlai cyfran sylweddol (40% neu 36 o ymatebwyr) nad oedd yn broblem fawr, gweler y siart isod.





*(Nid yw'r ffigurau'n dod i gyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu cyfrifiadurol)*

Yn ôl ardal ddaearyddol, mae'n amlwg bod y canlyniadau cyffredinol ar gyfer y Sir wedi'u chwyddo gan nifer yr ymatebwyr yn Aberystwyth a ddywedodd fod camddefnyddio alcohol yn broblem fawr mewn perthynas â throseddu. Dywedodd 71% o'r ymatebwyr a oedd yn ymwneud ag Aberystwyth ei bod yn broblem, a dywedodd 29% nad oedd yn broblem. Aberteifi oedd yr unig ardal arall lle teimlai'r mwyafrif o ymatebwyr fod camddefnyddio alcohol yn broblem (62.5%). Er bod y mwyafrif o ymatebwyr yn y pedair ardal arall wedi nodi nad oedd camddefnyddio alcohol yn broblem, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr yn dal i deimlo ei fod yn broblem, yn amrywio o 33% yn Aberaeron i 43% yn Llandysul. Dangosir crynodeb o'r ymatebion fesul ardal yn y siart isod.

**Ydych chi'n credu fod camddefnyddio alcohol yn broblem fawr mewn cysylltiad â throseddu yng Ngheredigion? (Yn ôl ardal)**

▼ Canran




Yn ôl grŵp oedran, roedd safbwyntiau tebyg iawn ar gamddefnyddio alcohol ymhlith y grwpiau 16-24, 45-64 a 65+ lle nododd rhwng 58% a 71% ei bod yn broblem fawr. Fodd bynnag, roedd y grŵp oedran 25-44 yn llawer llai tueddol o'i nodi fel problem fawr ar 37.5%, ac mae'r ymatebion wedi'u crynhoi yn y tabl isod. Yn ôl rhyw, roedd menywod yn fwy tebygol o nodi bod camddefnyddio alcohol yn broblem ar 65% o ymatebwyr benywaidd o'i gymharu â 50% o ymatebwyr gwryw.


Ydych chi'n credu fod camddefnyddio alcohol yn broblem fawr mewn cysylltiad â throseddu yng Ngheredigion? (Yn ôl grŵp oedran)

| *Grŵp oedran:* | 16-24 | 25-44 | 45-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|
| Ydw | 71% | 37.5% | 67% | 58% |
| Nac ydw | 29% | 62.5% | 33% | 42% |

## Cw9: Ydych chi'n credu fod camddefnyddio cyffuriau yn broblem fawr mewn cysylltiad â throseddu yng Ngheredigion?


Gofynnodd y cwestiwn dilynol a oedd camddefnyddio cyffuriau yn broblem fawr yng Ngheredigion. Dywedodd y mwyafrif helaeth, sef 87% (neu 77 o'r 89 ymateb), ei bod yn broblem fawr mewn perthynas â throseddu, gweler y siart drosodd. Mae hyn yn adlewyrchu'r teimladau a fynegwyd yn yr atebion i gwestiynau 5 a 7 lle nodwyd materion yn ymwneud â chyffuriau fel y ddau brif fater oedd wedi gwaethygu dros y deuddeg mis diwethaf a'r pryder mwyaf i ymatebwyr ar hyn o bryd. Teimlai'r 13% neu'r 12 ymateb sy'n weddill nad oedd camddefnyddio cyffuriau yn broblem fawr.

### Cw9. Ydych chi'n credu fod camddefnyddio cyffuriau yn broblem fawr mewn cysylltiad â throseddu yng Ngheredigion?




Yn ôl lleoliad daearyddol, gwelodd pob ardal fwyafrif mawr yn nodi bod camddefnyddio cyffuriau yn broblem mewn perthynas â throseddu, gweler y siart isod. Dywedodd yr holl ymatebwyr oedd yn ymwneud ag Aberaeron a Thregaron ei bod yn broblem. Mae'r siart ganlynol yn crynhoi'r canlyniadau yn ôl ardal ddaearyddol.

### Ydych chi'n credu fod camddefnyddio cyffuriau yn broblem fawr mewn cysylltiad â throseddu yng Ngheredigion? (Yn ôl ardal)





Nododd y mwyafrif helaeth ym mhob grŵp oedran fod camddefnyddio cyffuriau yn broblem fawr hefyd mewn perthynas â throseddu, gyda phobl ifanc 45-64 oed yn arbennig o bryderus ar 91%. Y grŵp 25-44 oedd â'r lefel isaf o bryder, sef 75%, gyda'r 25% arall yn nodi nad oedd camddefnyddio cyffuriau yn broblem fawr. Mae'r canlyniadau hyn wedi'u crynhoi yn y tabl isod. Nododd y mwyafrif llethol o fenywod a dynion fod camddefnyddio cyffuriau yn broblem – 90% o ddynion ac 84% o fenywod.

Ydych chi'n credu fod camddefnyddio cyffuriau yn broblem fawr mewn cysylltiad â throseddu yng Nghheredigion? (Yn ôl grŵp oedran)

| *Grŵp oedran:* | 16-24 | 25-44 | 45-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|
| Ydw | 88% | 75% | 91% | 84% |
| Nac ydw | 12% | 25% | 9% | 16% |

## Cw10: Ydych chi'n gwybod sut i riportio ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r dulliau a'r cosbau sydd ar gael i ddelio ag ef?

Symudodd y cwestiynau wedyn at ymwybyddiaeth ymatebwyr o sut i riportio achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, y dulliau a'r cosbau sydd ar gael i ddelio â hyn. Yn gadarnhaol, dywedodd y mwyafrif (54%) eu bod yn ymwybodol o sut i wneud hyn ynghyd â'r dulliau a'r cosbau sydd ar gael, sy'n cyfateb i 48 o'r 89 o ymatebwyr. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol, 46% neu 41 o ymatebwyr, wedi dweud nad oeddent yn gwybod sut i wneud hyn, gweler y siart isod.




Y grŵp oedran 25-44 oedd y mwyaf gwybodus gyda 69% yn nodi eu bod yn gwybod sut i riportio'r digwyddiadau hyn, fel y nodir yn y tabl isod. Y grŵp 65+ oedd y lleiaf gwybodus, lle roedd llai na hanner (37%) yn gwybod sut i adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd gan fenywod a dynion lefel debyg o ymwybyddiaeth o sut i riportio'r digwyddiadau hyn – dywedodd 55% o fenywod a 53% o ddynion eu bod yn gwybod sut i wneud hyn.


Ydych chi'n gwybod sut i riportio ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r dulliau a'r cosbau sydd ar gael i ddelio ag ef? (Yn ôl grŵp oedran)

| *Grŵp oedran:* | 16-24 | 25-44 | 45-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|
| Ydw | 47% | 69% | 61% | 37% |
| Nac ydw | 53% | 31% | 39% | 63% |

## Cw11: Ydy troseddau seiber ac ar-lein wedi cael effaith arnoch chi yn bersonol?

Yna cafodd troseddau seiber ac ar-lein eu codi fel pwynt penodol, gan ofyn i ymatebwyr a oeddent wedi cael eu heffeithio hyn yn bersonol. Nid oedd y mwyafrif o ymatebwyr (76%) wedi cael eu heffeithio, ond roedd bron i chwarter (24%) yn dweud eu bod wedi cael eu heffeithio gan droseddau seiber ac ar-lein, gweler y siart drosodd. Mae'r pryderon cynyddol ynghylch troseddau seiber yn cael eu hadlewyrchu yn Asesiad Strategol Heddlu Dyfed Powys 2023-24, lle nodir bod 15 o droseddau seiber yn cael eu riportio ar gyfartaledd ar draws ardal yr heddlu bob dydd, a chyfathrebu maleisus ac aflonyddu yw'r troseddau sy'n cael eu riportio yn fwyaf aml.[1]

[1]"Asesiad Strategol Heddlu Dyfed Powys 2023-24." Heddlu Dyfed Powys, 2023. 5.




Y grŵp oedran 16-24 oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi cael eu heffeithio, sef 35%. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gydberthyniad uniongyrchol ag oedran, gan mai'r nesaf a oedd yn fwyaf tebygol o nodi eu bod wedi cael eu heffeithio oedd y grŵp oedran 65+ ar 32%. Y grŵp oedran oedd yn lleiaf tebygol o nodi eu bod wedi cael eu heffeithio oedd pobl ifanc 25-44 oed ar 6% yn unig. Mae'r casgliadau hyn wedi'u crynhoi yn y tabl isod. Roedd dynion yn fwy tebygol o nodi eu bod wedi cael eu heffeithio gan droseddau seiber ac ar-lein ar 27%, o'i gymharu â 22% o ymatebwyr sy'n fenywod. Roedd y rhai oedd wedi cael eu heffeithio gan droseddau seiber ac ar-lein yn llawer mwy tebygol o'i nodi fel blaenoriaeth 'uchel' yng nghwestiwn 3, ac roedd 81% o'r rhai a gafodd eu heffeithio wedi ei nodi yn flaenoriaeth uchel o'i gymharu â 50% o'r rhai oedd heb gael eu heffeithio.

Ydy troseddau seiber ac ar-lein wedi cael effaith arnoch chi yn bersonol? (Yn ôl grŵp oedran)

| *Grŵp oedran:* | 16-24 | 25-44 | 45-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|
| Do | 35% | 6% | 24% | 32% |
| Naddo | 65% | 94% | 76% | 68% |

### Cw12: Mewn arolygon diweddar, mae'r cyhoedd wedi dweud mai teimlo'n ddiogel yn eu cartref eu hunain yw'r peth maen nhw'n ei werthfawrogi fwyaf. Beth yn eich barn chi sydd â'r potensial mwyaf i fygwth hyn? (e.e., troseddu ar-lein, bwrgleriaeth, difrod troseddol ac ati)


Pan ofynnwyd iddynt nodi'r mater a oedd â'r potensial mwyaf i fygwth pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain, manteisiodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ar y cyfle i fynegi eu barn. Mae'r tabl isod yn dangos y materion a godwyd yn nhrefn cyffredinrwydd. Mae'n amlwg bod dau fater mawr sy'n effeithio ar bobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi – **bwrgleriaeth** a gafodd ei nodi 30 o weithiau ac yna **troseddu/twyll ar-lein** a gafodd eu nodi 21 o weithiau. Fodd bynnag, o'i gymharu â ffigurau troseddau go iawn, mae bwrgleriaeth a throseddu/twyll ar-lein wedi lleihau rhwng y blynyddoedd a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2022 a 2023. Nid oedd mathau eraill o droseddau a oedd yn amlwg mewn mannau eraill yn yr arolwg yn cael eu hystyried mor bwysig y tu mewn i'r cartref, megis camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a goryrru.

| Mater | Nifer y cyfeiriadau |
|---|---|
| Bwrgleriaeth | 30 |
| Troseddu / twyll ar-lein | 21 |
| Difrod troseddol | 8 |

| | |
|---|---|
| Galwadau diwahoddiad/sgamiau | 4 |
| Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol | 4 |
| Presenoldeb gweladwy gan yr Heddlu a chymryd camau pellach | 4 |
| Diffyg cydlyniant cymunedol / parch at ei gilydd | 3 |
| Ymddygiad gwrthgymdeithasol | 3 |
| Goryrru | 2 |
| Cyfryngau cymdeithasol | 1 |
| Aflonyddwch sŵn | 1 |
| Materion amrywiol | 1 |
| Cam-drin domestig / trais yn erbyn menywod | 1 |
| Grantiau i bob tŷ ar gyfer pethau sy'n atal troseddau | 1 |
| Dwyn cerbydau | 1 |

## Cw13: Ydych chi wedi clywed am waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion?

Yna trodd yr arolwg ei sylw at Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a gofynnodd i ymatebwyr a oeddent yn ymwybodol o'i gwaith. Nid oedd y mwyafrif (65%) yn ymwybodol o'i gwaith, tra bod dros un rhan o dair (34%) yn ymwybodol ohono, gweler y siart isod.




Y grŵp oedran 65+ oedd yn fwyaf gwybodus gyda 53% yn ymwybodol o fodolaeth y Bartneriaeth a'i gwaith, ond ar ben arall y raddfa roedd un 1 (6%) o'r rhai 16-24 oed yn ymwybodol ohono. Yn ôl rhyw, roedd dynion yn fwy ymwybodol o waith y Bartneriaeth ar 43% o'i gymharu â 28% o fenywod.

Ydych chi wedi clywed am waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion?

| *Grŵp oedran:* | 16-24 | 25-44 | 45-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|
| Do | 1% | 50% | 30% | 53% |
| Naddo | 94% | 50% | 70% | 47% |

## Cw14: A oes yna bryderon eraill yr hoffech eu codi?

Roedd y cwestiwn olaf yn gyfle i ymatebwyr dynnu sylw at unrhyw bryderon eraill oedd heb gael sylw yn yr arolwg cyn hynny. Cafwyd cyfanswm o 38 o sylwadau. Manteisiodd y rhan fwyaf o ymatebwyr ar y cyfle i bwysleisio pryderon presennol yn hytrach na nodi rhai newydd. Cafodd **presenoldeb gweladwy gan yr Heddlu / dilyn i fyny a chymryd camau** ei nodi gan 15 o ymatebwyr ac yn amlwg dyma'r prif fater a nodwyd fel y dangosir yn y tabl isod. Unwaith eto, cafodd materion yn ymwneud â chyffuriau (camddefnyddio cyffuriau a delio mewn cyffuriau) ei nodi fel pryder gan ymatebwyr, ac yna goryrru. Cafodd amrywiaeth o faterion eraill eu nodi a'r unig rai newydd oedd baw cŵn, llygredd golau a rôl ysgolion o ran cefnogi teuluoedd.

| Mater | Nifer y cyfeiriadau |
|---|---|
| Presenoldeb gweladwy gan yr Heddlu / dilyn i fyny a chymryd camau | 15 |
| Camddefnyddio cyffuriau / delio mewn cyffuriau | 7 |
| Goryrru | 4 |
| Cydlyniant cymunedol | 2 |
| Ymddygiad gwrthgymdeithasol | 1 |
| Camfanteisio'n rhywiol ar blant | 1 |
| Baw ci | 1 |
| Digartrefedd / cardota ar y stryd | 1 |
| Taflu sbwriel | 1 |
| Llygredd golau | 1 |
| Ysgolion yn gorfod delio â phroblemau teuluol | 1 |
| Goleuadau stryd | 1 |
| Mannau anniogel mewn trefi | 1 |
| Fandaliaeth | 1 |

Manteisiodd rhai o'r ymatebwyr ar y cyfle i egluro eu hateb a rhoi enghreifftiau o'r effaith y mae'r materion hyn yn ei chael arnyn nhw a'u cymuned. Mae'r tabl isod yn rhoi sampl o'r sylwadau a gafwyd.

| Sampl o'r Sylwadau | |
|---|---|
| "Patrolau heddlu gweladwy ond rwy'n deall yn iawn eu bod yn gwneud y gorau y gallant gydag adnoddau cyfyngedig." | "Dylai gorsafoedd heddlu mewn trefi gael staff priodol yn hytrach na swyddogion yn ymateb o 20 neu 30 milltir i ffwrdd." |
| "Byddwn i'n teimlo'n llawer mwy diogel pe bai mwy o blismyn ar y stryd." | "Mae plismona yn waith anodd ac rwy'n deall y pwysau sydd ar y llu, ond mae gweld swyddogion o gwmpas yn gwneud i mi deimlo'n fwy diogel. Ble bynnag ydw i." |
| "Dylai fod llawer mwy o bresenoldeb gan yr heddlu, nid dim ond gyrru o gwmpas mewn ceir." | "Mae'n hanfodol bwysig i ddilyn i fyny adroddiadau o fasnachu mewn cyffuriau." |
| "Dechrau gweld grwpiau bach o bobl gyda phroblemau cyffuriau neu alcohol neu'r ddau yn casglu mewn rhai mannau, er bod nhw heb wneud dim neu wedi dweud dim byd wrtha i, dwi'n teimlo dan fygythiad." | "Mae nifer fawr / o leiaf 50% o bobl ifanc yn eu harddegau ar lawer o wahanol gyffuriau neu alcohol sydd, fel arfer yn arwain at nifer fawr o ymosodiadau rhywiol a chorfforol." |

## Ymatebion y Cyngor Ieuenctid

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys fersiwn person ifanc o'r arolwg a ddosbarthwyd i aelodau Cyngor Ieuenctid Ceredigion. Cwblhawyd a dychwelwyd cyfanswm o 9 ffurflen. Dylid nodi bod yr ymatebion hyn yn cynnwys rhai ymatebion gan yr oedolion sy'n mynychu'r Cyngor Ieuenctid. Dengys y canlyniadau mai'r prif flaenoriaethau ar hyn o bryd yw **trais yn erbyn menywod a merched** a **chamddefnyddio domestig**, ac yna **troseddau treisgar**, **bwrgleriaeth**, **cynnau tanau bwriadol** a **throseddau rhyw**. Mae tebygrwydd â chanlyniadau cyffredinol yr arolwg – trais yn erbyn menywod a merched oedd y drydedd flaenoriaeth uchaf yn gyffredinol, a throseddau rhyw oedd y flaenoriaeth uchaf yn gyffredinol. Y prif wahaniaeth yw bod cyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon yn flaenoriaeth uchaf ond un yn gyffredinol, ond nid yw'n ymddangos ymhlith materion â blaenoriaeth uchaf y Cyngor Ieuenctid. Mae'r tabl isod yn dangos y prif flaenoriaethau a nodwyd gan y Cyngor Ieuenctid.


| O'r materion cyfredol hyn, rhowch sgôr iddynt yn nhrefn blaenoriaeth yn eich barn chi | Sgôr wedi'i phwysoli |
|---|---|
| Trais yn Erbyn Menywod a Merched | 27 |
| Trais Domestig (gan gynnwys Stelcio ac Aflonyddu) | 27 |
| Troseddu Treisgar | 26 |
| Bwrgleriaeth | 26 |
| Cynnau Tanau Bwriadol | 26 |
| Troseddau Rhyw | 26 |

Pan ofynnwyd am y materion a oedd wedi gwella neu waethygu dros y deuddeg mis diwethaf, roedd tebygrwydd barn rhwng y Cyngor Ieuenctid a'r canlyniadau cyffredinol. Roedd ymatebion y Cyngor Ieuenctid yn nodi presenoldeb gweladwy gan yr Heddlu fel y mater a oedd wedi gwella fwyaf, yr un peth ag yn y canlyniadau cyffredinol. Roedd targedu cyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon hefyd yn amlwg ynghyd â throseddau stryd a oedd hefyd yn un o'r materion sydd wedi gwella fwyaf ar draws y Sir.

Fodd bynnag, roedd y pwyslais ychydig yn wahanol o ran y materion oedd wedi gwaethygu dros y deuddeg mis diwethaf. Roedd ymatebion y Cyngor Ieuenctid wedi nodi trais domestig fel y prif fater oedd wedi gwaethygu, ond nid oedd hwn ymhlith y materion pwysicaf ledled y Sir, sef cyflenwi cyffuriau yn anghyfreithlon a chamddefnyddio sylweddau (cyffuriau). Roedd y Cyngor Ieuenctid hefyd wedi tynnu sylw at gamddefnyddio sylweddau (alcohol), fandaliaeth, trais yn erbyn menywod a merched, troseddau casineb a throseddau rhyw ymhlith y rhai oedd wedi gwaethygu. Roedd troseddau casineb, camddefnyddio sylweddau (alcohol) a throseddau rhyw ymhlith y prif faterion ar draws y Sir. Y prif wahaniaeth rhwng barn y Cyngor Ieuenctid a'r canlyniadau cyffredinol oedd bod ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion yn ymwneud â chyffuriau yn llawer uwch yn gyffredinol, ond nid oeddent yn y chwe prif fater a nodwyd gan y Cyngor Ieuenctid. Mae'r tabl canlynol yn rhestru ymatebion y Cyngor Ieuenctid i gwestiynau 4 a 5.

| Cw4. Nodwch pa faterion sydd wedi gwella dros y 12 mis diwethaf, yn eich barn chi: | Cw5. Nodwch pa faterion sydd wedi gwaethygu dros y 12 mis diwethaf, yn eich barn chi: |
|---|---|
| Presenoldeb gweladwy gan yr Heddlu (tref a chefn gwlad) | Trais Domestig (gan gynnwys Stelcio ac Aflonyddu) |
| Cyflenwi Cyffuriau yn anghyfreithlon | Camddefnyddio Sylweddau (Alcohol) |
| Troseddau Ieuenctid – Diogelu Pobl Ifanc | Fandaliaeth / Difrod Troseddol / Graffiti |
| Goleuadau Stryd | Trais yn Erbyn Menywod a Merched |
| Bwrgleriaeth | Troseddau Casineb (gan gynnwys Hil, Crefydd, Anabledd, Homoffobia, Trawsffobia) |
| Troseddau Seiber ac Ar-lein | Troseddau Rhyw |

Teimlai ymatebwyr y Cyngor Ieuenctid fod camddefnyddio alcohol a chamddefnyddio cyffuriau yn broblemau mawr mewn perthynas â throseddu yng Ngheredigion, gyda saith o'r naw ymateb yn nodi bod y ddau yn broblemau mawr. Fel yr ymatebion i'r arolwg cyffredinol, nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi clywed am waith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, a dim ond un ymatebwr a ddywedodd ei fod wedi clywed amdano. Yn y cyfamser, nid oedd y mwyafrif yn ymwybodol hefyd o sut i riportio digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn wahanol i'r ymatebion cyffredinol lle'r oedd mwyafrif bach wedi nodi eu bod yn gwybod sut i wneud hynny. Mae'r atebion i gwestiynau 8, 9, 10, 11 ac 13 wedi'u crynhoi yn y siart isod.




Pan ofynnwyd iddynt nodi unrhyw faterion penodol sy'n peri pryder iddynt ar hyn o bryd, cafodd amrywiaeth o faterion eu nodi gan gynnwys rhai oedd heb eu nodi'n benodol mewn man arall yn yr arolwg, megis camfanteisio'n rhywiol ar blant, effaith y cyfryngau cymdeithasol ar bobl iau, ac effaith yr argyfwng costau byw sy'n achosi straen ymhlith pobl iau ac yn arwain at fwy o ddigwyddiadau, a'r angen am fwy o wasanaethau iechyd meddwl i atal pobl ifanc rhag troi at alcohol a chyffuriau. Roedd y rhain yn wahanol i raddau helaeth i'r canlyniadau cyffredinol, a'r unig debygrwydd oedd y cyfeiriad at lai o bresenoldeb gan yr Heddlu a gafodd ei nodi hefyd ymhlith y canlyniadau cyffredinol. Rhestrir y materion a nodwyd gan y Cyngor Ieuenctid yn y tabl isod.

| Cw7. Oes unrhyw faterion newydd sy'n peri pryder ar hyn o bryd, yn eich barn chi? | Nifer y cyfeiriadau |
|---|---|
| Camfanteisio'n rhywiol ar blant | 1 |
| Llai o bresenoldeb gan yr Heddlu | 1 |
| Camddefnyddio sylweddau (alcohol) | 1 |
| Effaith y cyfryngau cymdeithasol | 1 |
| Effaith yr argyfwng costau byw | 1 |
| Angen mwy o wasanaethau iechyd meddwl | 1 |

Roedd mwy o debygrwydd yn yr atebion i gwestiwn 12 a oedd yn gofyn i ymatebwyr am eu barn ar deimlo'n ddiogel yn eu cartref eu hunain. Nododd ymatebion y Cyngor Ieuenctid ac ymatebion cyffredinol i'r arolwg yr un pedwar prif fater. Bwrgleriaeth oedd y mater a oedd fwyaf tebygol o fygwth teimlo'n ddiogel yn eich cartref eich hun, ond roedd difrod troseddol, troseddau seiber ac ar-lein a galwyr diwahoddiad i gyd yn ymddangos yn y pedwar uchaf yn y ddwy restr. Mae'r materion a nodwyd gan ymatebwyr y Cyngor Ieuenctid i'w gweld yn y tabl isod.


| Cw12. Mewn arolygon diweddar mae'r cyhoedd wedi dweud mai teimlo'n ddiogel yn eu cartref eu hunain yw'r peth maen nhw'n ei werthfawrogi fwyaf. Beth sydd â'r potensial mwyaf i fygwth hyn yn eich barn chi? | Nifer y cyfeiriadau |
|---|---|
| Bwrgleriaeth | 4 |
| Difrod troseddol | 3 |
| Troseddau seiber ac ar-lein | 3 |
| Galwyr diwahoddiad | 2 |
| Dwyn a difrodi cerbydau | 2 |

Yn y cwestiwn olaf, a roddodd gyfle i ymatebwyr nodi unrhyw bryderon eraill oedd heb gael sylw mewn mannau eraill yn yr arolwg, dim ond un ymateb oedd yn ailadrodd y pryder ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant ac a nododd eu pryderon ynghylch model llinellau cyflenwi cyffuriau ar gyfer masnachu mewn cyffuriau mewn ardaloedd gwledig a threfi llai.


# Cwestiynau Monitro Cydraddoldeb

Gofynnwyd cwestiynau monitro demograffig a chydraddoldeb safonol y Cyngor fel rhan o'r arolwg.

**15. Oedran - Beth yw eich grŵp oedran?**





**16. Rhyw – Beth yw eich rhyw?**





*Nid yw'r ffigurau'n dod i gyfanswm o 100% oherwydd talgryniadau cyfrifiadurol*

**17. Trawsrywiol – Ydy'ch rhyw yr un fath nawr â'r un a bennwyd i chi adeg eich geni?**





**18. Cyfeiriadedd Rhywiol – Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau'r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun?**





*Nid yw'r ffigurau'n dod i gyfanswm o 100% oherwydd talgryniadau cyfrifiadurol*

**21. Partneriaeth – Beth yw eich statws partneriaeth?**





*Nid yw'r ffigurau'n dod i gyfanswm o 100% oherwydd talgryniadau cyfrifiadurol*

**21. Hunaniaeth Genedlaethol – Sut fyddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?**





**22. Hil – Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp ethnig neu'ch cefndir orau.**





*Nid yw'r ffigurau'n dod i gyfanswm o 100% oherwydd talgryniadau cyfrifiadurol*

**23. Iaith – Beth yw'ch dewis iaith?**





*Nid yw'r ffigurau'n dod i gyfanswm o 100% oherwydd talgryniadau cyfrifiadurol.*


**24. Iaith – Ydych chi'n deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**





**25. Anabledd – A oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch tymor hir sy'n lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?**




**26. Anabledd – Os ydych wedi ateb 'oes', nodwch yr hyn sy'n berthnasol i chi?**




**27. Ydych chi'n gofalu am rywun neu'n darparu cymorth neu gefnogaeth i aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd: Cyflwr iechyd / anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor; neu broblemau yn ymwneud â henaint**




*Nid yw'r ffigurau'n dod i gyfanswm o 100% oherwydd talgryniadau cyfrifiadurol.*

**28. Crefydd neu Gred – Beth yw eich crefydd?**



Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

 Eitem Agenda 11

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **11 Medi 2023** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2022/2023** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Rhoi gwybodaeth am waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ystod 2022/2023** |

Mae'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu yn amlinellu'r prif faterion a ystyriwyd gan y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod 2022/2023.

Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i gyhoeddi adroddiad blynyddol ynglŷn â gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar y dudalen we ynghylch Trosolwg a Chraffu ar wefan y Cyngor.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad / Argymhellion:** | Gofynnir i'r pwyllgor nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad cyn i'r adroddiad cael ei cyflwyno i'r Cyngor ar 21 Medi 2023. |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | Er mwyn bodloni'r gofyniad statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol am y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. |
| **Swyddogion Adrodd:** | Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu<br>Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu |
| **Dyddiad:** | 4 Medi 2023 |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol


Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## TROSOLWG A CHRAFFU

2022-23



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Galw penderfyniadau i mewn | 2 |
| Pwyllgor Cydlynu | 6 |
| Adnoddau Corfforaethol | 13 |
| Cymunedau Iachach | 25 |
| Cymunedau sy'n Dysgu | 32 |
| Cymunedau Ffyniannus | 42 |


Caru·Love Ceredigion

# Cyflwyniad

**BETH YW TROSOLWG A CHRAFFU?**

Mae pwyllgorau craffu'n rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithredu yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r gofyniad i sefydlu gweithrediaeth sy'n gwneud penderfyniadau, mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 hefyd yn peri iddi fod yn ofynnol sefydlu un neu ragor o bwyllgorau craffu i ddwyn y penderfynwyr i gyfrif, i hybu gwelliannau, i weithredu fel llais y gymuned, ac i gynorthwyo â'r gwaith o lunio ac adolygu polisïau.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn argymell pedair prif egwyddor i gynorthwyo Aelodau i ymgymryd â gwaith craffu effeithiol:

i. Herio'r rheini sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau fel 'cyfaill beirniadol';
ii. Sicrhau bod llais a phryderon y cyhoedd a chymunedau'n cael eu clywed;
iii. Sicrhau mai 'llywodraethwyr annibynnol eu meddwl' sy'n arwain ac yn perchnogi'r broses graffu;
iv. Sicrhau bod y broses yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn hybu gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus.

Mae *Canllawiau Statudol i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen* (2006) yn esbonio bod *pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn rhan hanfodol ac annatod o'r trefniadau gweithrediaeth.*

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn o'r enw Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad. Roedd y papur gwyn yn gofyn am sylwadau ar gynigion i beri iddi fod yn orfodol gweithio ar sail ranbarthol i ddarparu gwasanaethau amrywiol, i fynd i'r afael â materion gweithlu, ac i fynd ati i ddiwygio'r drefn etholiadol. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur gwyrdd sy'n egluro ei dyheadau ac yn amlinellu datganiad o'i bwriad i gryfhau ac i rymuso llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r cynigion hyn yn amlinellu dull o sicrhau y bydd modd i lywodraeth leol fynd ati yn y dyfodol "i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cryfach, mwy cadarn a chynaliadwy, gydag atebolrwydd democrataidd yn graidd iddi".

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi cynnal cyfarfodydd hybrid, ac rydym felly wedi bod yn craffu ar waith y Cyngor yn y Siambr ac o bell.

**GALW PENDERFYNIADAU I MEWN**



Pan wneir penderfyniad gan y Cabinet, aelod o'r Cabinet neu un o bwyllgorau'r Cabinet, neu pan wneir penderfyniad dan drefniadau ar y cyd, bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi, gan gynnwys drwy ddulliau electronig lle bo hynny'n bosibl, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor cyn pen dau ddiwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei wneud fel rheol. Bydd y sawl sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad yn anfon copi o'r cofnodion at yr Aelodau cyn pen dau ddiwrnod gwaith. Bydd yr hysbysiad yn dangos dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad ac yn nodi y bydd yn dod i rym, ac y gellir ei roi ar waith, ar ôl i bum diwrnod gwaith fynd heibio ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad, oni bai fod tri aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y mae ei gylch gorchwyl yn gysylltiedig â phenderfyniad y Cabinet (fel y nodir yn Erthygl 6 o Ran 2 o'r Cyfansoddiad) neu chwe Aelod Etholedig o'r Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw, yn gwrthwynebu'r penderfyniad a'i alw i mewn. Ceir mwy o wybodaeth am y broses o alw penderfyniadau i mewn ar dudalen 295 o Gyfansoddiad y Cyngor. http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ynglyn-cyngor/cyfansoddiad-y-cyngor/

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ni alwyd yr un o benderfyniadau Cyngor Sir Ceredigion i mewn.

**Y PWYLLGORAU**

Ceir pum pwyllgor trosolwg a chraffu thematig:

- Cydlynu 

- Cymunedau Ffyniannus 




- Cymunedau sy'n Dysgu

- Cymunedau Iachach




- Adnoddau Corfforaethol




O dan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, rhoddir pwerau adolygu a chraffu eang i'r pwyllgorau, ynghyd â'r gallu i lunio adroddiadau ac i wneud argymhellion o ran unrhyw fater sy'n berthnasol i'r ardal a'i thrigolion. Yn ôl y canllawiau, swyddogaethau'r cynghorwyr sy'n ymgymryd â gwaith trosolwg a chraffu yw:

i. dal y weithrediaeth i gyfrif am arfer swyddogaethau'r weithrediaeth mewn modd effeithlon – yn enwedig perfformiad y weithrediaeth fel y'i mesurir yn erbyn y safonau, yr amcanion a'r targedau a nodwyd yn y polisïau a'r cynlluniau y mae'n eu rhoi ar waith;
ii. helpu i wella ac i ddatblygu polisïau'r Cyngor drwy bwyso a mesur a ydynt yn cyrraedd yr amcanion a nodwyd, a yw'r polisïau hynny a'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau lleol a thrwy gyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r weithrediaeth neu i'r Cyngor llawn;
iii. adolygu a llunio adroddiadau ar faterion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu ei drigolion; ac
iv. ystyried a yw'r systemau sydd yn eu lle gan y weithrediaeth i gyflawni ei swyddogaethau yn gadarn ac yn cael eu dilyn yn briodol.

Yn ychwanegol at hyn, gallant adolygu sut y mae'r swyddogaethau anweithredol yn cael eu cyflawni a llunio adroddiadau am faterion o ddiddordeb lleol mwy cyffredinol.

Gallai hyn gyd-fynd â phŵer yr awdurdod o dan Ran 1 o'r Ddeddf i hyrwyddo llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, drwy adnabod meysydd y gallai'r weithrediaeth roi sylw iddynt drwy ddefnyddio'r pŵer hwn.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn amlinellu rôl glir ar gyfer swyddogaeth graffu'r awdurdod yn ei brosesau gwella: fel rhan o'i rôl o ddal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau lleol a llunwyr polisïau i gyfrif, a'i rôl ym maes datblygu polisi. Dylai hyn ymestyn i:

i. graffu ar y prosesau y mae'r awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
ii. craffu ar addasrwydd y sefydliad i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i wella;
iii. craffu ar y prosesau y mae'r awdurdod wedi mynd trwyddynt wrth ddewis ei amcanion gwella, gan gynnwys adolygu lefel yr ymgysylltu â rhanddeiliaid;
iv. craffu ar fonitro cynnydd wrth gyflawni amcanion gwella'r awdurdod;
v. hyrwyddo arloesi drwy herio'r sefyllfa bresennol ac annog ffyrdd gwahanol o feddwl a dewisiadau ar gyfer cyflenwi.

O dan adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol sicrhau bod gan ei bwyllgorau trosolwg a chraffu bŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr awdurdod lleol, neu'r camau a gymerir ganddo, pan fydd yn arfer ei swyddogaethau.

Yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol, bu aelodau'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'n trin a thrafod materion a oedd yn ymwneud â chraffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (y Bwrdd).

I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac i sicrhau bod trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol ar waith ar gyfer y Bwrdd, cytunwyd y byddai Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gael trosolwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.

Cytunodd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion i ddefnyddio'r dull a ganlyn i gael trosolwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd:

Adolygu'r **penderfyniadau a wnaed neu'r camau a gymerwyd** gan y Bwrdd, neu graffu arnynt, drwy wneud yr hyn a ganlyn:

- Gweithredu fel ymgynghorai ffurfiol ar gyfer yr Asesiad o Lesiant Lleol
- Gweithredu fel ymgynghorai ffurfiol ar gyfer y Cynllun Llesiant Lleol
- Derbyn yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol
- Derbyn cofnodion y Bwrdd
- Derbyn adroddiadau monitro perfformiad.

i. Adolygu **trefniadau llywodraethu'r** Bwrdd, neu graffu arnynt, drwy wneud yr hyn a ganlyn:

- Derbyn cylch gorchwyl y Bwrdd ar ôl pob un o gyfarfodydd gorfodol y Bwrdd (rhaid cynnal cyfarfod gorfodol o'r Bwrdd cyn pen 60 diwrnod ar ôl pob etholiad arferol i ethol cynghorwyr fan bellaf).
- Gwahodd aelodau o'r Bwrdd i roi tystiolaeth o ran y modd y mae cyd-swyddogaethau'n cael eu harfer (ond dim ond o ran arfer y cyd-swyddogaethau a roddwyd iddynt fel aelod statudol o'r Bwrdd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

ii. Llunio adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Bwrdd o ran ei swyddogaethau neu ei drefniadau llywodraethu.

iii. Cyfeirio materion at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Thematig Perthnasol i'w ystyried ymhellach fel y bo'n briodol.

iv. Cyflwyno argymhellion y Pwyllgor Craffu i'r Cabinet, y Bwrdd a'r is-grŵp perthnasol.

**Gall y pwyllgorau craffu gyflawni eu gwaith drwy un o'r ffyrdd a ganlyn:**

i. Ystyried pwnc yn ystod cyfarfod ffurfiol;
ii. Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ymchwilio i bwnc mewn mwy o fanylder;
iii. Ystyried pwnc mewn ffrwd waith (gweler yr adran am y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar dudalen 39 isod), ac
iv. Ymweld â safleoedd.

Bu'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n canolbwyntio ar y meysydd hynny lle y gallent ddylanwadu fwyaf ar y canlyniadau i bobl Ceredigion. O ganlyniad, aeth y pwyllgorau ati i adolygu pynciau amrywiol, ac mae rhai o'r adolygiadau hyn yn dal i fynd rhagddynt.


Mae aelodau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi gweithio'n galed i greu diwylliant lle mae tryloywder, cyfranogiad ac atebolrwydd yn cael eu croesawu a lle mae her yn cael ei hystyried yn rhan anhepgor a chadarnhaol o'r broses o wella canlyniadau. Mae'n dal i fod yn hanfodol bod y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n parhau i gyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor drwy eu rôl fel cyfaill beirniadol.

**Hunanwerthuso'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Bob blwyddyn, cynhelir adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Gellir llenwi'r holiadur ar-lein. O ran holiadur 2022/23, daeth 15 ymateb i law (allan o gyfanswm posibl o 38).

## Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 8 achlysur yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2022/2023.



Ymhlith yr eitemau safonol a drafodir ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y mae diweddariad am ddatblygiadau o ran y swyddogaeth graffu, a diweddariad gan y Cadeiryddion am waith eu pwyllgorau. Mae hyn yn rhoi ffocws clir i waith y pwyllgorau thematig.

Y prif faterion a drafodwyd

Rôl y Pwyllgor Cydlynu yw goruchwylio holl flaenraglenni gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i sicrhau eu bod yn berthnasol, eu bod yn gydnaws â'r blaenoriaethau corfforaethol, a'u bod yn canolbwyntio ar feysydd allweddol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn sicrhau bod y blaenraglenni gwaith yn cael eu cydlynu i osgoi dyblygu, gan sicrhau eu bod yn realistig ac yn ymarferol o ystyried yr adnoddau sydd ar gael, a'u bod yn debygol o ychwanegu gwerth. Mae pob pwyllgor yn cytuno i ystyried ei flaenraglenni gwaith ei hunan.

Ystyriodd y Pwyllgor yr eitemau canlynol:

**CONTEST - Strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU**.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Aelodau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau a oedd ar waith i gyflawni'r strategaeth CONTEST yng Ngheredigion, ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol. Hefyd, roedd yr adroddiad yn nodi cyfraniad staff y Cyngor wrth gyflawni'r gwaith pwysig hwn.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**

CYTUNWYD i nodi'r diweddariad a roddwyd.

**Y Datganiad Polisi Rheoli Perfformiad a'r Cyflwyniad i drefniadau Hunanasesu Perfformiad yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Mynegwyd y canlynol:

- Gofynnwyd am eglurhad o ran pwy fyddai'n archwilio'r archwilydd a beth fyddai'r broses apelio yn dilyn yr asesiadau hyn. Mewn ymateb, dywedwyd mai proses hunanasesu oedd hon. Bydd llawer iawn o dystiolaeth berthnasol ac ategol yn cael ei chasglu i gydymffurfio â gofynion yr asesiad, yn unol â'r Cynllun Gweithredu. Ar ôl ei gwblhau, cyflwynir yr asesiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn iddo bwyso a mesur yr adroddiad ac ystyried argymhellion, cyn i'r Cabinet ei gymeradwyo.
- Y gallai hunanasesiad blynyddol y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu hefyd gyfrannu at yr hunanasesiad hwn. Anogwyd yr Aelodau i ymateb i'r asesiad hwn mewn ffordd agored a thryloyw er mwyn datrys unrhyw anawsterau.
- Bod Cadeiryddion yr holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn mynychu cyfarfodydd Chwarterol y Bwrdd Perfformiad a oedd ar fin ailddechrau, er mwyn iddynt ystyried unrhyw faterion/risgiau perthnasol ar gyfer eu Blaenraglenni Gwaith. Adroddwyd bod y cyfarfodydd hyn yn rhoi trosolwg o'r Cyngor yn ei gyfanrwydd.

Cytunodd y Pwyllgor i gymeradwyo Datganiad drafft y Polisi Rheoli Perfformiad a'r trefniadau Hunanasesu Perfformiad (yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

**Adroddiadau rheolaidd ynglŷn â chyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion**
**Yr Asesiad o Lesiant Lleol**
**Adroddiad Blynyddol Llesiant Lleol Ceredigion 2021-2022**
**Fersiwn Ddrafft Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28.**
O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol yn ymwneud â chyflawni eu Cynlluniau Llesiant. Mae'n ofyniad statudol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 bod Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol yn craffu ar adroddiadau blynyddol.

Hefyd, daeth Prif Weithredwr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Gwnaeth y Pwyllgor:

- dderbyn cofnodion drafft cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion;
- derbyn Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion;

- cytuno y byddai'r Aelodau yn annog y Cynghorau Tref a Chymuned i lenwi arolwg ymgysylltu Cynllun Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (roedd y Cynghorau Tref a Chymuned wedi derbyn yr holiadur drwy e-bost).
- derbyn fersiwn ddrafft Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28.

**Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-22**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ystyried anghenion pob unigolyn yn ein gwaith bob dydd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Penodol i Gymru sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor bennu Amcanion Llesiant mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac mae'n rhaid adolygu'r cynllun bob pedair blynedd.

Mae'r modd y caiff y Gymraeg ei hybu a'i defnyddio yn cael sylw ym Mesur y Gymraeg 2011, yn hytrach na'r Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, rydym yn ystyried gofynion y Gymraeg ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn hyrwyddo dull cyfannol.

Mae cynllun gweithredu yn sicrhau bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 y Cyngor yn cael ei gyflawni, a chaiff ei rannu'n 5 Amcan Cydraddoldeb.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y prif bwyntiau.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i dderbyn Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2021-22, gan argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r adroddiad.

**Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2022 ac Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2022**

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i dderbyn yr Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2022 a'r Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2022.

**Adroddiad Hunanasesu 2021/22**

Mae Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn disodli Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a arferai fodoli ac mae'n cyflwyno cyfundrefn berfformiad newydd ar gyfer Prif Gynghorau yn seiliedig ar Hunanasesu. Bwriad y gyfundrefn berfformiad newydd yw adeiladu a chefnogi diwylliant lle mae cynghorau yn ceisio gwella a gwneud yn well yn barhaus ym mhopeth a wnânt, heb ystyried pa mor dda y maent yn perfformio eisoes. Mae'r Ddeddf yn disgwyl y bydd cynghorau bob amser yn ymdrechu i gyflawni mwy a cheisio sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl a chymunedau lleol. Un ffordd o wneud hyn yw herio'r sefyllfa bresennol yn barhaus a gofyn cwestiynau ynghylch sut y maent yn gweithredu.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y canlynol:

- Dylid sicrhau bod y buddion cymunedol yn parhau a'u bod yn rhai gwerthfawr.
- Dylid cefnogi contractwyr lleol i gydweithio ar dendrau ar gyfer contractau mwy o faint.
- Awgrymodd yr Aelodau y dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu gwasanaethau hyd braich.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i dderbyn Adroddiad Hunanasesu 2021/22 gan gynnwys yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad a'r Amcanion Llesiant.

**Adroddiadau rheolaidd am Adroddiadau Chwarterol Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol CYSUR, y Grŵp Gweithredol Lleol ar Ddiogelu. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth reoli am y camau a gymerwyd o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth a ddarperir gan asiantaethau eraill o ran diogelu llesiant plant yng Ngheredigion. Trafodir yr wybodaeth reoli gan aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR (Ceredigion) i fonitro ac i werthuso effeithiolrwydd y trefniadau i ddiogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Mae'r cyfarfodydd amlasiantaeth yn gyfle i bennu problemau o ran perfformiad a materion eraill yn y maes hwn, ac i weithredu ar eu sail. Mae gwybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y Rhanbarth.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau chwarterol y Gwasanaeth Diogelu Oedolion. Mae'r adroddiadau hyn yn tynnu sylw at weithgarwch a pherfformiad y Gwasanaeth Diogelu Oedolion ac yn rhoi data ystadegol i sicrhau bod modd cymharu gweithgarwch o chwarter i chwarter ac o flwyddyn i flwyddyn, yn ogystal â nodi'r prif bethau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn pwysleisio'r prif feysydd gwaith a'r prif welliannau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

***<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>***

Gwnaeth y Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol. Bu i'r Aelodau ofyn cwestiynau'n rheolaidd ynglŷn â chynnwys yr adroddiadau a'r data a gyflwynwyd ac atebwyd y cwestiynau gan y swyddogion. Gallwch weld y cwestiynau a'r atebion yn y cofnodion.

**Cofnod Penderfyniadau Grŵp Rheoli Aur Covid-19.**

***<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>***

Cytunodd y Pwyllgor i nodi cynnwys cofnod penderfyniadau Grŵp Rheoli Aur Covid-19 ar gyfer y cyfnodau dan sylw.

**Adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)**

Mae Aelodau'r Pwyllgor Cydlynu yn gyfrifol am adolygu defnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA). Cyflwynir yr adroddiadau i'r Pwyllgor bob 6 mis.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.

**Adroddiad ar yr adolygiad o Bolisi RIPA ac Arolygiad IPCO (Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio)**

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd Aelodau'r Pwyllgor:

- Nodi cynnwys y copi drafft diwygiedig o Bolisi Corfforaethol RIPA a'r Ddogfen Weithdrefnau,
- Nodi cynnwys Adroddiad Arolygiad IPCO,
- Nodi cynnwys ymateb yr Uwch-swyddog Cyfrifol i Adroddiad Arolygiad IPCO,
- Nodi cynnwys y Cais E-bost wedi'i ddiweddaru am Weithgarwch RIPA, a,
- Nodi cynnwys Cylchlythyr Chwarterol IPCO ar gyfer Hydref 2022.

**Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2021/2022**

Tynnodd yr adroddiad sylw at y prif faterion a ystyriwyd gan y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod 2021/2022. Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i gyhoeddi adroddiad blynyddol ynglŷn â gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar y dudalen Trosolwg a Chraffu ar wefan y Cyngor.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Cytunodd yr Aelodau i nodi'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad cyn y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor.

**Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft 2022-27**

Roedd angen paratoi Strategaeth Gorfforaethol newydd i nodi Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd y Cyngor (blaenoriaethau corfforaethol) a'r uchelgeisiau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r Strategaeth yn nodi sut y bydd y Cyngor yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion a chymunedau Ceredigion a chynyddu ei gyfraniad tuag at y saith Nod Llesiant Cenedlaethol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Hefyd, dywedodd yr Arweinydd hefyd fod gan yr Awdurdod gyfnod heriol o'i flaen.

Yr Amcanion Llesiant Corfforaethol arfaethedig yw:

- Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
- Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
- Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu
- Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd

Esboniwyd bod yr amcanion wedi'u nodi trwy ddadansoddi tystiolaeth ac ymgysylltu gyda thrigolion, gan gynnwys uchelgeisiau'r weinyddiaeth wleidyddol newydd,

Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion a'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar y strategaeth ddrafft.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Cododd un Aelod o'r Pwyllgor bryder gan ofyn a allai'r Awdurdod fforddio'r targedau uchelgeisiol a amlinellwyd yn yr adroddiad. Cadarnhawyd bod modd eu cyflawni ar hyn o bryd.

Mynegwyd pryder ynghylch Ffosffadau gan y gallai atal yr amcan HYBU'R ECONOMI, CEFNOGI BUSNESAU A GALLUOGI CYFLOGAETH rhag symud ymlaen. Cadarnhawyd bod yna grŵp penodol sy'n monitro'r sefyllfa ffosffadau yn ofalus ac sy'n cynnal trafodaethau parhaus gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr hefyd fod Ffosffadau yn cael ei nodi fel risg ar hyn o bryd a'i fod ar gofrestr risg yr Awdurdod ac felly gallai gadarnhau bod y mater hwn yn cael sylw dyledus. Roedd hyn hefyd yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn ystod y flwyddyn.

Gofynnwyd rhagor o gwestiynau i'r swyddogion ac aethant i ffwrdd i ymchwilio i'r materion dan sylw cyn dychwelyd i'r Pwyllgor i roi'r atebion. Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod arall yn ddiweddarach i ystyried yr ymatebion ymhellach ac i wneud argymhelliad cyn i'r Strategaeth fynd gerbron y Cabinet a'r Cyngor llawn.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell i'r Cabinet gymeradwyo Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2022-2027, gan gynnwys yr Amcanion Llesiant Corfforaethol, yn amodol ar ystyried yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor.

**Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog, fel y'i nodwyd yn Neddf y Lluoedd Arfog 2021**

Cafodd y Pwyllgor wybod am y sefyllfa a oedd ohoni. Wrth gyflawni ei ymrwymiadau presennol, roedd y Cyngor yn rhoi sylw dyladwy i ofynion Cymuned y Lluoedd Arfog, ac roedd wedi ceisio adeiladu'n gadarnhaol ar ei ymrwymiad ers gwneud ei addewid cychwynnol. Roedd hyn wedi arwain at wneud gwelliannau uniongyrchol i bolisïau'r Cyngor fel rhan o'i ymrwymiad i'r Cyfamod. Roedd hyn i'w weld yn glir yn y polisi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a oedd yn cefnogi opsiynau gweithio hyblyg. Roedd y polisi hwn hefyd yn cydnabod yr angen clir i aelodau'r lluoedd arfog a milwyr wrth gefn gael cyfnodau awdurdodedig ychwanegol o absenoldeb i gefnogi eu hymrwymiadau ychwanegol.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Yn ogystal â'r gwaith yr oedd y Cyngor eisoes yn ei wneud, cynigiwyd y byddai'r camau ychwanegol canlynol yn cael eu cymryd wrth baratoi ar gyfer y ddyletswydd:

- Archwilio cyfleoedd i wella'r prosesau a ddefnyddir gan y gwasanaethau i gasglu data. Byddai Swyddog Cyswllt Rhanbarthol y Lluoedd Arfog yn darparu cyngor am y categorïau y byddai angen i'r gwasanaethau unigol eu defnyddio.
- Nodwyd bod cyllid grant ar gael i blant (hyd at £2,000 y plentyn) yn ddibynnol ar anghenion.

- Byddai gweithwyr ac aelodau etholedig yn cael eu hannog i wneud trefniadau ar CERINET i fynd i'r sesiynau codi ymwybyddiaeth am Gyfamod y Lluoedd Arfog.

**Diweddariad ar Brosiect Cylch Caron**

Rhoddodd swyddogion y Cyngor a Chyfarwyddwr Sirol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ddiweddariad ar brosiect Cylch Caron. Dywedwyd bod hwn yn brosiect partneriaethol rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ynghyd â Llywodraeth Cymru.

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth:

- Byddai angen cyflwyno cais cynllunio newydd ar ôl i bartner newydd gael ei benodi. Roedd yr elfen ffosffadau yn parhau'n risg. Roedd posibilrwydd hefyd y gallai'r dyluniad fod yn wahanol i'r dyluniad gwreiddiol.
- A fyddai modd gofyn am gymorth cwmnïau adeiladu lleol lle bynnag bo modd gwneud hynny? Roedd posibilrwydd y gellid annog y partner newydd i gyflogi contractwyr lleol.
- Cadarnhawyd y byddai gofyniad i adolygu'r pecyn ariannu ar y cyd â Llywodraeth Cymru ar ôl i'r broses dendro gael ei chwblhau.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan un o'r Aelodau, cadarnhawyd ei bod yn holl bwysig bod y cynllun yn cael ei gyflawni.
- Mewn ymateb i gwestiwn arall, cadarnhawyd bod y tir wedi'i ddiogelu.

Cytunwyd y byddai'r Swyddogion yn dychwelyd i roi diweddariad unwaith y byddai'r broses dendro wedi'i chwblhau.

**Adroddiad ynglŷn â'r Diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban**

***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Cytunodd y Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban.

**Cyllideb ddrafft 2023/24**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad ar gyllideb ddrafft 2023/2024 gan gynnwys rhaglen gyfalaf aml-flwyddyn, a nododd mai setliad dros dro oedd hwn.


***CANLYNIAD A/NEU EFFAITH***

Cytunodd yr Aelodau ar sefyllfa gyffredinol y gyllideb fel yr oedd wedi'i nodi yn yr adroddiad i'r Cabinet a bu iddynt ofyn am i fwy o fanylion gael eu cyflwyno pan fyddai'r pwyllgorau craffu thematig yn ystyried y gyllideb.

Mae'r Pwyllgor yn monitro'r goblygiadau i'r gyllideb drwy gydol y flwyddyn ac mae'n cael diweddariadau ariannol rheolaidd pan fydd yn ystyried adroddiadau.

# Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Cyfarfu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol chwe gwaith yn ystod blwyddyn fwrdeistrefol 2022/2023.



Y prif faterion a drafodwyd

Swyddogaeth y Pwyllgor hwn yw cyflawni holl swyddogaethau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Corfforaethol (gan gynnwys adnoddau dynol, gwasanaethau cwsmeriaid, TGCh, rheoli'r trysorlys a gwasanaethau cyfreithiol), cynhwysiant/cyfle cyfartal, argyfyngau sifil, parhad busnes, rheoli ystadau a chofrestru sifil.

Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 27 Mai 2022 i ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor hwn. Etholwyd y Cynghorydd Rhodri Evans yn Gadeirydd ac etholwyd y Cynghorydd Geraint Hughes Is-gadeirydd.

Ar 21 Mehefin, 2022, cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd newydd y cyngor, adroddiad ynghylch y Strategaeth Ddrafft ar gyfer Gweithio Hybrid a'r Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro. Dywedwyd bod pandemig Covid-19 wedi gorfodi cyfyngiadau cenedlaethol ar symud a bod hynny wedi digwydd yn sydyn ac wedi arwain at y gofyniad i aros gartref a gweithio gartref lle bynnag y bo modd. Roedd y mesurau hyn wedi ei gwneud hi'n ofynnol i'r rhan fwyaf o staff swyddfa'r Cyngor weithio mewn ffordd wahanol iawn. Ymatebodd y staff yn gyflym ac yn gadarnhaol i'r newid hwn. Ar y cyfan, roedd yr ymateb cadarnhaol hwn yn bosibl o ganlyniad i'r camau a oedd eisoes wedi'u cymryd o ran ffordd fwy hyblyg a doethach o weithio, gan gynnwys buddsoddi mewn offer a meddalwedd digidol, a gwella'r trefniadau gweithio hyblyg presennol a oedd eisoes ar waith.

Ar ôl ymateb yn dda i heriau cychwynnol y pandemig, dywedwyd bod y ffocws wedi symud i sut y gallai'r Cyngor ddysgu ac adeiladu o'r profiad. Sefydlwyd prosiect o'r enw 'Y Ffordd yr Ydym yn Gweithio' i adolygu'r arferion gweithio o bell a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig. Nod y prosiect oedd archwilio'r awydd am newid hirdymor o fewn y gweithlu gan sicrhau mai darparu gwasanaethau oedd y prif

ffocws o hyd. Roedd y prosiect yn gyfle i archwilio i ba raddau yr oedd yna newid yn y weledigaeth strategol ehangach o ran ble, pryd a sut y byddai'r sefydliad yn mynd ati i weithio.

Yn rhan o'r prosiect, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu sylweddol â staff i gasglu adborth, profiadau, syniadau a gofynion o ran y gweithle yn y dyfodol er mwyn cefnogi penderfyniadau strategol.



**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*CYTUNWYD i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth Gweithio Hybrid a'r Polisi Gweithio Hybrid yn amodol ar ystyried y newidiadau canlynol:*

- *Paragraff 3.1.1 – dylai rheolwyr llinell* ***anelu*** *at gynnal cyfweliadau yn rhithwir;*
- *Paragraff 3.1.2 – caniateir i'r rheolwyr llinell gynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb os credant fod cyfiawnhad dros wneud hynny;*
- *Paragraff 3.2.2 – dylai rheolwyr fonitro'r defnydd y maent yn ei wneud o e-byst a'r defnydd y mae eu timau yn ei wneud o e-byst rhwng 9pm a 6am er mwyn sicrhau nad oes pwysau ar staff i weithio y tu hwnt i'r oriau hyn.*
- *Argymhelliad bod adolygiad y gweithwyr yn cael ei gynnal ar ôl 6 mis.*

*Ystyriodd y Cabinet yr argymhellion uchod yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2022 a chytunodd y dylai adolygiad y gweithwyr gael ei gynnal ar ôl 12 mis yn hytrach na'r 6 mis a awgrymwyd gan y Pwyllgor Craffu.*

Hefyd, bu i'r Pwyllgor dderbyn adroddiad am y Polisi Sicrwydd a Bondiau Corfforaethol. Cynigiwyd y dylai'r Cyngor gyflwyno polisi bondiau corfforaethol er mwyn i swyddogion fod ag agwedd glir, deg a chyson at gymeradwyo a llunio bondiau gyda thrydydd partïon. Cyflwynwyd yr adroddiad i sicrhau y gellir cael gafael ar fondiau'n hawdd a'u defnyddio'n hawdd os byddai angen, a bod bondiau a warantwyd gyda thrydydd partïon yn cael eu llunio â thrydydd partïon â statws credyd uchel yn unig er mwyn diogelu sefyllfa'r Cyngor.

**CANLYNIAD A/NEU EFFAITH**
*Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr argymhellion canlynol:*
*(i) mai bond a geir mewn arian parod oedd dewis y Cyngor.*

*(ii) y byddai bond sy'n cael ei warantu gan drydydd parti yn ei gwneud yn ofynnol i'r trydydd parti fod â statws credyd A3 gyda Moody's neu statws credyd A- gyda Standard & Poor's neu Fitch,*
*(iii) argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Bondiau a Sicrwydd.*

*Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r argymhelliad i sicrhau y gellir cael gafael ar fondiau'n hawdd a'u defnyddio'n hawdd os oes angen a bod bondiau a warantwyd gyda thrydydd partïon yn cael eu llunio â thrydydd partïon â statws credyd uchel yn unig er mwyn diogelu sefyllfa'r Cyngor.*

Ar 3 Hydref 2022, ystyriwyd y diweddariad ynghylch Ystâd Ffermydd y Sir. Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan y Swyddogion a'r Aelod Cabinet, y Cynghorydd Clive Davies.



- Cyflwyniad
- Ystâd Ffermydd y Cyngor Sir
- Casgliadau blaenorol
- Materion cyfredol yn ymwneud ag Ystâd Ffermydd y Cyngor
- Tenantiaethau yn y dyfodol.

***<u>CANLYNIAD A/NEU EFFAITH</u>***

*Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu i ystyried materion penodol o fewn Ffermydd y Sir yn fanwl ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Adeg ysgrifennu'r adroddiad blynyddol hwn, mae gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn parhau a chaiff canfyddiadau'r Grŵp eu hadrodd yn Adroddiad Blynyddol 2023/2024.*

Hefyd, ystyriwyd yr adroddiad ar Ddatblygu Asedau/Eiddo Gwag a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Clive Davies a'r Rheolwr Corfforaethol. Cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol:


- CEFNDIR: Cyd-destun Strategol a *Dull Gweithredu ac Adnoddau*
- Gwaith ers Mawrth 2020
- Galw
- Cynllun Gweithredu Eiddo Gwag
- Ffrydiau Gwaith yn y dyfodol – Prosiectau Strategol, Sicrhau Cydbwysedd Asedau, *Gwaredu / Datblygu Asedau, Asesu Blaenoriaethau.*

*Cytunwyd i argymell y canlynol i'r Cabinet:*

1. *Cadw'r Panel Asedau,*
2. *y byddai adroddiad ynghylch prynu maes parcio Aberteifi yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol ar 19 Rhagfyr 2022,*
3. *ystyried asiant allanol i werthu Asedau'r Cyngor er mwyn cael mwy o gynulleidfa o brynwyr, ac,*
4. *y byddai adroddiad cynnydd ar y gwaith wrth symud ymlaen ar asedau'r Cyngor yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.*

*Bu i'r Cabinet nodi'r adroddiad.*

| 2 | | Mae hyfforddiant mewn cadeirio craffu yn cael ei ddarparu, ond yn fy mhrofiad i mae hyn wedi canolbwyntio mwy ar gadeirio cyfarfodydd yn gyffredinol. Hoffwn dderbyn mwy ar gadeirio craffu - beth sydd yn wahanol am gadeirio craffu o'i gymharu â chadeirio mwy 'cyffredinol'? Hefyd, mae pwyllgorau craffu yn gallu gwneud eu hargymhellion eu hunain i'r Cabinet heblaw am argymhellion sydd yn dod i gyfarfod craffu.<br><br>Training in chairing scrutiny is provided, but in my experience, this has focused more on chairing meetings in general. I would like to receive more on chairing scrutiny – what's different about chairing scrutiny compared to more 'general' chairing? Also, scrutiny committees are able to make their own recommendations to Cabinet besides the recommendations that come to a scrutiny meeting. |
| 3 | | Nid yw'r gwaith craffu ond cystal â'r aelodau ar y pwyllgor craffu hwnnw / Scrutiny is only as good as the members on that scrutiny |
| 4 | | MAE ANGEN I BAWB AR Y PWYLLGORAU GYMRYD RHAN A DEALL EU BOD YN GALLU GWNEUD GWAHANIAETH DIM OND IDDYNT YMROI I'R GWAITH AC MAE YN LAWER MWY O WAITH OND GWERTH CHWEIL /<br>EVERYONE ON THE COMMITTEES NEEDS TO GET INVOLVED AND UNDERSTAND THAT THEY CAN MAKE A DIFFERENCE IF THEY PUT IN THE WORK AND IT IS A LOT MORE WORK BUT WELL WORTH IT |
| 5 | | Rwy'n credu y dylid gwneud darn o waith rhwng craffu a'r cabinet / I do think there should be a piece of work done between scrutiny and cabinet. |
| 6 | | Dim / None |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Aelodau Cabinet - Holiadur Hunanwerthuso – Craffu / Scrutiny Self Evaluation Questionnaire

| 2 | 01:39 | Active |
|---|---|---|
| Responses | Average time to complete | Status |

1. Enw / Name

2
Responses

2. **Mae Craffu yn rhoi her effeithiol i'r Weithrediaeth / Scrutiny provides an effective challenge to the Executive**

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf / Strongly agree | 1 |
| Cytuno / Agree | 1 |
| Anghytuno / Disagree | 0 |
| Anghytuno'n gryf / Strongly dis... | 0 |



3. **Mae Partneriaethau a sefydliadau partner wedi bod yn destun Craffu effeithiol / Partnerships and partner organisations have been the subject of effective Scrutiny**

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf / Strongly agree | 0 |
| Cytuno / Agree | 1 |
| Anghytuno / Disagree | 0 |
| Anghytuno'n gryf / Strongly dis... | 0 |



4. **Mae'r cyhoedd yn gallu cyfrannu at y gwaith trosolwg a chraffu / The public able to contribute to overview and scrutiny**

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf / Strongly agree | 0 |
| Cytuno / Agree | 1 |
| Anghytuno / Disagree | 0 |
| Anghytuno'n gryf / Strongly dis... | 0 |



5. **Mae gan Craffu berchnogaeth dros ei raglen waith ei hun / Scrutiny have ownership of its own work programme**

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf / Strongly agree | 1 |
| Cytuno / Agree | 1 |
| Anghytuno / Disagree | 0 |
| Anghytuno'n gryf / Strongly dis... | 0 |



6. **Mae aelodau'r pwyllgor Craffu o'r farn fod ganddynt rôl werthfawr a boddhaus / Scrutiny members consider that they have a worthwhile and fulfilling role**

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf / Strongly agree | 0 |
| Cytuno / Agree | 1 |
| Anghytuno / Disagree | 0 |
| Anghytuno'n gryf / Strongly dis... | 0 |



7. **Mae yna bartneriaeth waith adeiladol gyda'r swyddogion / There is a constructive working partnership with officers**

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf / Strongly agree | 0 |
| Cytuno / Agree | 1 |
| Anghytuno / Disagree | 0 |
| Anghytuno'n gryf / Strongly dis... | 0 |



8. **Mae digon o drefniadau cymorth ar gael i'r broses Graffu / There is sufficient support arrangements for scrutiny**

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf / Strongly agree | 1 |
| Cytuno / Agree | 0 |
| Anghytuno / Disagree | 0 |
| Anghytuno'n gryf / Strongly dis... | 0 |



9. **Darperir hyfforddiant a datblygiad gyda'r nod o wella craffu / Training and development has been provided with a view to improving scrutiny**

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf / Strongly agree | 0 |
| Cytuno / Agree | 2 |
| Anghytuno / Disagree | 0 |
| Anghytuno'n gryf / Strongly dis... | 0 |



10. **Mae newidiadau wedi digwydd o ganlyniad i waith craffu / Changes have been brought about as a result of scrutiny activity**

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf / Strongly agree | 0 |
| Cytuno / Agree | 2 |
| Anghytuno / Disagree | 0 |
| Anghytuno'n gryf / Strongly dis... | 0 |



11. Sylwadau / Comments

1 responses 1 Responses

| ID | Name | Responses |
|---|---|---|
| 1 | | dydw i ddim yn gallu ateb rhai cwestiynau gan nad ydw i'n gwybod yr atebion. |

1.
Sylwadau / Comments

1 ymateb 1Responses

| ID | Enw / Name | Ymatebion / Responses |
|---|---|---|
| 1 | | Dydw i ddim yn gallu ateb rhai cwestiynau gan nad ydw i'n gwybod yr atebion. / I can't answer some questions because I don't know the answers. |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynadledda ddydd Llun, 22 Mai 2023**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd), Wyn Evans, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans.

**YN BRESENNOL YN RHITHWIR:** Endaf Edwards, Chris James, Caryl Roberts, Marc Davies.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet.
Y Cynghorwyr Matthew Vaux, Wyn Thomas, Aelodau o'r Cabinet.

**AELODAU NAD YDYNT AR Y PWYLLGOR YN BRESENNOL YN RHITHWIR:** Y Cynghorydd Gareth Lloyd.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, Tim Bray, Rheolwr Argyfyngau Sifil Posibl a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Harry Dimmack, Swyddog Llywodraethu, Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu, Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu, Carol Thomas a Llinos Williams, Cyfieithwyr.

(10.00am - 12.00pm)

**1 Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Manteisiodd y Cynghorydd Rhodri Evans ar y cyfle i longyfarch y Cadeirydd, y Cynghorydd Keith Evans, ar gael ei ethol yn Is-gadeirydd y Cyngor yng nghyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar Fai 19$^{eg}$ 2023. Hefyd llongyfarchodd y Cadeirydd y Cynghorydd Maldwyn Lewis a etholwyd yn Gadeirydd yn yr un cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Geraint Wyn Hughes a Ceris Jones am fethu mynychu'r cyfarfod.

Ymddiheurodd Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, am ei hanallu i fynychu'r cyfarfod.

**2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**

Datgelodd y Cynghorydd Rhodri Evans fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 4 ar yr agenda, Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion.

3 **Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol Cyfun CYSUR / CWMPAS Chwarter 3 2022/23**

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i Adroddiad Diogelu Chwarter 3 y Grŵp Gweithredu Lleol Cyfun CYSUR/CWMPAS, rhwng y cyfnod 1.10.2022 a 31.12.2022, 2022/23.

Croesawodd y Cadeirydd Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol, i roi crynodeb o'r pwyntiau allweddol, a oedd fel a ganlyn:

Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol:

- Yn Chwarter 3, bu cynnydd yn nifer y cysylltiadau / adroddiadau a dderbyniwyd ynghylch plant / pobl ifanc o'i gymharu â Chwarter 2. Derbyniwyd 1112 o gysylltiadau / adroddiadau yn Chwarter 3 o'i gymharu â 1030 yn Chwarter 2.
- Bu cynnydd yng nghyfanswm y cysylltiadau / adroddiadau a arweiniodd at gymryd camau o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Plant. Roedd 193 yn Chwarter 3 o'i gymharu â 171 yn Chwarter 2.
- Canran yr adroddiadau a aeth ymlaen i Drafodaeth Strategaeth yn y chwarter hwn oedd 17.3% o'i gymharu â 16.7% yn Chwarter 2.
- Yn Chwarter 3, aeth 7.3% o'r adroddiadau ymlaen i Ymholiad Adran 47 o'i gymharu ag 8.3% yn Chwarter 2. Roedd angen i 0.97% o'r adroddiadau symud ymlaen i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant yn Chwarter 2 o'i gymharu ag 1.6% yn y chwarter hwn, sef Chwarter 3. Felly bu cynnydd yn nifer y cysylltiadau / adroddiadau a dderbyniwyd yn Chwarter 3 a arweiniodd at gynnydd yn nifer y trafodaethau strategaeth a gynhaliwyd a chynnydd yn nifer y plant a oedd yn destun Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant.
- Cyfanswm y plant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn yn dilyn y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant oedd 31 o'i gymharu ag 16 yn Chwarter 2.
- Cyfanswm y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn y chwarter hwn yn dilyn y Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant oedd 28 o'i gymharu â 13 yn Chwarter 2.
- Cyfanswm yr ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y chwarter hwn oedd 81 o'i gymharu ag 86 yn Chwarter 2. Yn y chwarter hwn, cafodd 59 o'r ymholiadau eu cynnal ar y cyd â'r Heddlu a chafodd 22 eu cynnal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel Asiantaeth Sengl.
- Y prif gategorïau o gam-drin a arweiniodd at ymholiad Adran 47 yn Chwarter 3 oedd cam-drin corfforol (40), cam-drin / cam-fanteisio'n rhywiol (15), esgeulustod (13) a cham-drin emosiynol (9). Mae hyn yn dilyn yr un patrwm â'r hyn a welwyd yn Chwarter 2.
- Roedd 49 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ddiwedd y chwarter hwn, o'i gymharu â 46 ar ddiwedd Chwarter 2. Yn y chwarter hwn, cofrestrwyd 29 o dan y categori cam-drin emosiynol / seicolegol, 14 o dan y categori esgeulustod a 6 o dan y categori esgeulustod a cham-drin corfforol.

- Y prif ffactorau risg ar gyfer y 49 o blant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31/12/2022 oedd cam-drin domestig, iechyd meddwl rhieni, rhieni'n camddefnyddio sylweddau / alcohol a rhieni'n gwahanu.
- O ran Diogelu Oedolion, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin a / neu eu hesgeuluso, gyda 128 oedolyn yn cael eu hadrodd yn y chwarter hwn o'i gymharu â 113 yn Chwarter 2. Yn arbennig, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr oedolion yr adroddwyd eu bod mewn perygl yn ystod mis Tachwedd (67) o'i gymharu â 53 ym mis Hydref a 37 ym mis Rhagfyr. Nid yw'n glir pam y bu cymaint o gynnydd yn y mis hwnnw, ond roedd yr adroddiadau'n ymwneud â phryderon ynghylch cam-drin domestig.
- Unwaith eto'r categori o gam-drin yr adroddwyd amdano fwyaf yn ystod y chwarter hwn oedd cam-drin emosiynol / seicolegol, gyda 64 adroddiad yn datgan mai hwn oedd y prif gategori o gam-drin. Esgeulustod oedd yr ail brif gategori o gam-drin a adroddwyd (51), yna cam-drin ariannol (42), cam-drin corfforol (33) a cham-drin rhywiol (23). Mae hyn yn dilyn patrwm y chwarter blaenorol.
- O'r adroddiadau a dderbyniwyd ynghylch pob categori o gam-drin, menywod oedd mwyafrif y bobl yr adroddwyd eu bod mewn perygl, ac roedd nifer y menywod yn sylweddol uwch na nifer y dynion. Fodd bynnag, o ran cam-drin ariannol adroddwyd bod bron yr un nifer o ddynion a menywod mewn perygl (20 dyn, 22 menyw). 3
- Yn Chwarter 3, yr Heddlu oedd prif ffynhonnell yr adroddiadau (40) o'i gymharu â Chwarter 2 lle gwelwyd mai'r brif ffynhonnell oedd Asiantaethau Darparu (30). Yn Chwarter 3, roedd nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gan yr Heddlu yn sylweddol uwch nag unrhyw asiantaeth arall. Y ffynhonnell â'r ail nifer uchaf oedd Asiantaethau Darparu (26).

Yn dilyn trafodaethau, nodwyd y canlynol:

- Yn dilyn cwestiwn ynghylch cynnydd mewn atgyfeiriadau amddiffyn plant, cytunwyd y byddai'r Swyddog yn rhoi gwybodaeth am dueddiadau atgyfeirio amddiffyn plant cyn covid hyd yma,
- Gofynnwyd am eglurhad ar y diffiniad o 'gam-drin ariannol' – rhoddodd y Swyddog rai enghreifftiau o hyn,
- Gofynnwyd am esboniad i'r broses atgyfeirio Amddiffyn Plant, h.y., y camau sydd ynghlwm wrth y broses o roi plentyn ar y gofrestr a chymryd plentyn oddi ar y gofrestr,
- Yn dilyn cwestiwn, bydd y Swyddog yn codi pryderon y Pwyllgor gyda chydweithwyr Addysg ynglŷn â chyfanswm y plant (229) sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn y Sir.

Cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch gyda'r Awdurdod Lleol, fel bod llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner yn cael eu monitro.

**4 Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a chyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023**

Croesawodd y Cadeirydd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, Diana Davies a Tim Bray, Swyddogion, i'r cyfarfod i gyflwyno Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a chyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Ceredigion a gynhaliwyd ar Ebrill 24ain 2023. O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau. Mae Adran 39 hefyd yn nodi bod yn rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus anfon copi o'i Gynllun Llesiant Lleol i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Awdurdod Lleol.

Mae'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu wedi derbyn diweddariadau yn y gorffennol am y broses o ddatblygu'r Asesiad Llesiant Lleol a Chynllun Llesiant Lleol 2023-2028 yng Ngheredigion.

Ar ôl i Gynllun Llesiant Lleol 2023-28 gael ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar Fawrth 6ed 2023, gwnaeth pob un o sefydliadau statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried y Cynllun Llesiant Lleol yng nghyfarfodydd eu byrddau yn unigol, gan wneud hynny rhwng Mawrth 22ain ac Ebrill 20fed. Gallwn gadarnhau bod pob un o aelodau statudol unigol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 drwy eu trefniadau llywodraethu arferol. Fel un o'r aelodau statudol, cymeradwyodd Cyngor Sir Ceredigion y cynllun yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar Fawrth 22ain 2023, y Cabinet ar Ebrill 4ydd 2023 a'r Cyngor llawn ar Ebrill 20fed 2023. Cyfarfu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar Ebrill 24ain 2023 i gadarnhau'r broses o gymeradwyo'r Cynllun Llesiant 2023-28 a bu i'r holl bartneriaid gytuno'n unfrydol. Cytunwyd y byddai'r Cynllun yn cael ei gyhoeddi ar 2il Mai, gan fodloni'r terfyn amser statudol fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (ddim hwyrach na blwyddyn ar ôl y dyddiad y cynhelir pob etholiad cyffredin o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972).

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn dwyn dyddiad Ebrill 24ain 2023.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y canlynol:

- Swyddogion i adrodd yn ôl drwy e-bost ar y cwestiwn a ofynnwyd ynghylch sut mae'r cynnydd o 1% yn nifer y perchnogion tai yng Ngheredigion, yn unol â Chyfrifiad 2021, yn cymharu ag Awdurdodau eraill,
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch Adroddiad Sylfaenol Cyfoeth Naturiol Cymru o ran Risgiau yn Sgil y Newid yn yr Hinsawdd, bydd Swyddogion a Chadeirydd y pwyllgor hwn yn codi'r cwestiwn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu ag Aelodau'r Pwyllgor,
- Gofynnwyd cwestiwn ynghylch y ffigurau cyflogaeth a Statws Gweithgarwch Economaidd a ddangoswyd yn y Cyfrifiad diwethaf. Dywedwyd bod y ffigurau hyn yn cael eu monitro'n barhaus gan Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac felly mae'r blaenoriaethau yn y Cynllun Llesiant Lleol yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i:

1. Nodi bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cymeradwyo Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion, a,
2. Derbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar Ebrill 24ain 2023.

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion ac Arweinydd y Cyngor am fynychu a chyflwyno'r wybodaeth yn y cyfarfod heddiw.  Diolchodd Arweinydd y Cyngor hefyd i Aelodau'r Pwyllgor am eu mewnbwn i'r Cynllun Llesiant Lleol yn ystod y broses lywodraethu.

5 **Dyletswydd Trais Difrifol**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod o'r Cabinet, Diana Davies a Tim Bray, Swyddogion, i gyflwyno'r adroddiad.

Dechreuodd y Ddyletswydd Trais Difrifol ar Ionawr 31ain 2023 ac mae'n cynnwys y gofynion a nodir ym Mhennod 1 o Ran 2 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu, a'r Llysoedd 2022. Mae'r rhain yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau penodedig i gydweithio i atal a lleihau trais difrifol. Mae'r awdurdodau penodedig yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub, y Sector Heddlua a Chyfiawnder (timau prawf a throseddu ieuenctid). Y sefydliadau hyn sy'n gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd ac sy'n gyd-atebol am gyflawni prif gerrig milltir yr arian grant rhanbarthol a ddarperir gan y Swyddfa Gartref i weithredu gofynion y Ddyletswydd.  Yn ogystal â'r awdurdodau penodedig a nodir uchod, mae yna awdurdodau perthnasol sy'n cynnwys awdurdodau addysgol (ynghyd ag awdurdodau dalfa ieuenctid a charchardai). Mae gofyn i'r awdurdodau hyn gydweithio â'r awdurdodau penodedig, yn ôl yr angen, i gyflawni'r ddyletswydd a hefyd rhaid i'r awdurdodau penodedig ymgynghori â nhw wrth baratoi'r strategaeth. Rhaid i awdurdodau penodedig nodi'r mathau o drais difrifol sy'n digwydd yn yr ardal, achosion y trais hwnnw (cyhyd ag y bo modd gwneud hynny), a pharatoi a gweithredu strategaeth ar gyfer atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Dylai'r strategaeth gynnwys atebion pwrpasol i atal a lleihau trais difrifol. Rhaid cadw golwg ar hyn ac adolygu yn flynyddol a'i ddiweddaru pan fo angen. Asesiad o Anghenion Strategol I fwydo i'r broses, dylai awdurdodau penodedig wneud dadansoddiad ar y cyd, yn seiliedig ar dystiolaeth o achosion trais difrifol o fewn eu hardal, a defnyddio'r dadansoddiad hwn i ddatblygu Asesiad o Anghenion Strategol a ddylai lywio'r strategaeth leol. Bydd hyn yn cynnwys ystod eang o ddata, er enghraifft gallai gynnwys data lleol a chenedlaethol am droseddau, data'r cyfrifiad, a data ysbytai a gofal sylfaenol. O safbwynt awdurdod lleol, gallai hefyd gynnwys data addysgol megis presenoldeb, data am atal a gwahardd disgyblion, a data am ofal cymdeithasol plant. Bydd yr Asesiad o Anghenion Strategol yn cynnwys dealltwriaeth gyffredin o'r carfanau sydd fwyaf agored i drais difrifol a bydd angen i'r strategaeth leol ddangos sut mae pob ardal yn cyfeirio adnoddau i'r boblogaeth ddiffiniedig sydd fwyaf angen cymorth.

Nid yw'r Ddyletswydd yn diffinio trais difrifol oherwydd mae'n fater i bob ardal unigol wneud hynny – bydd hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth leol ar gyfer yr Asesiad o Anghenion Strategol. Wrth ystyried yr Asesiad, mae'n eglur nad yw trais yn gyfyngedig i drais corfforol yn erbyn person. Mae'n darparu, at ddibenion y Ddyletswydd, bod trais yn cynnwys cam-drin domestig, troseddau rhyw, trais yn erbyn eiddo a bygythiadau o drais. At hynny, mae Strategaeth Trais Difrifol 2018 yn nodi fod Trais Difrifol yn ymwneud â mathau penodol o droseddau megis lladd, trais â chyllyll a gynnau, a meysydd lle mae trais difrifol neu ei fygythiad yn gynhenid, megis mewn gangiau a llinellau cyffuriau. Mae hefyd yn cynnwys bygythiadau sy'n dod i'r amlwg mewn rhai ardaloedd o'r wlad, megis defnyddio sylweddau cyrydol fel arf.

Mae'r ddyletswydd hon yn creu 'dull iechyd cyhoeddus' newydd o fynd i'r afael â Throseddau Treisgar gan nodi'r hyn sy'n achosi trais a chanfod ymyriadau sy'n gweithio er mwyn atal trais rhag lledaenu. Mae'r 'dull iechyd cyhoeddus' yn cynnwys nifer o wasanaethau cyhoeddus a chymdeithasol sy'n gweithio gyda'i gilydd i roi ymyriadau cynnar ar waith i atal pobl rhag mynd ynghlwm â throseddau treisgar.

Bwriad y Ddyletswydd yw creu'r amodau cywir i awdurdodau gydweithio a chyfathrebu'n rheolaidd, gan ddefnyddio partneriaethau presennol lle bo modd a rhannu gwybodaeth a chymryd camau effeithiol, cydlynus, yn eu hardaloedd lleol. Bydd pob sefydliad ac asiantaeth sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd yn atebol am eu gweithgarwch a'u cydweithredu.

Dywedodd y swyddogion wrth Aelodau'r Pwyllgor am yr amserlen bresennol, sef:

- 31ain Ionawr 2023 – dechrau'r Ddyletswydd Trais Difrifol
- 31ain Mawrth 2023 – cadarnhau'r cytundeb partneriaeth
- 28ain Ebrill 2023 – llunio fersiwn dros dro o'r cynllun cyflawni a chadarnhau'r defnydd a wneir o gyllid y Swyddfa Gartref
- 29ain Medi 2023 – cytuno ar fersiwn uwch o'r cynllun cyflawni
- 31ain Ionawr 2024 – cwblhau'r Asesiad o Anghenion Strategol o ran Trais Difrifol
- 31ain Ionawr 2024 – cwblhau'r Strategaeth Leol (gan gynnwys fersiwn derfynol o'r cynllun cyflawni)

Gellir gweld dogfen y Canllawiau Statudol fel y'i cyhoeddwyd ar 16eg Rhagfyr 2022 ar y Wefan ganlynol: Dyletswydd Trais Difrifol - GOV.UK (www.gov.uk) (noder y Canllawiau penodol i Gymru o dudalennau 20 ymlaen).

Dyrannwyd cyllid i ranbarth Dyfed-Powys gan y Swyddfa Gartref i weithredu'r Ddyletswydd Trais Difrifol, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth bydd hyn yn cael ei oruchwylio gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a fydd hefyd yn darparu cymorth, yn monitro gweithgarwch ac yn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol.
Cadarnhawyd cyllid gan y Swyddfa Gartref hyd at 2024/2025, ar sail y dyraniadau blynyddol canlynol:
2022/2023: Costau llafur £30,000 Costau heb gynnwys llafur: £0

2023/2024: Costau llafur £180,000 Costau heb gynnwys llafur: £39,737.48
2024/2025: Costau llafur £77,041.71 Costau heb gynnwys llafur: £111,655.25

Ar hyn o bryd, mae'r adnodd yn cael ei ddyrannu i gynyddu capasiti dadansoddi Heddlu Dyfed-Powys, er mwyn paratoi a chyflawni'r Asesiad rhanbarthol o Anghenion Strategol. Ar ben hyn, y bwriad yw defnyddio'r cyllid i gydlynu'r cynllun cyflawni, y strategaeth a'r llifoedd gwaith cysylltiedig yn y rhanbarth.

Mae Crest Advisory wedi ei gomisiynu gan y Swyddfa Gartref i weithio gyda'r sefydliadau a fanylir yn y Ddyletswydd Trais Difrifol (noder uchod) a'r partneriaid lleol yn ystod 2023 i weld a ydynt yn barod ar gyfer y Ddyletswydd ac i roi cymorth pwrpasol i ddatblygu a sicrhau cydymffurfiaeth. Mae partneriaid ledled y rhanbarth, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion, wedi mynychu cyfarfodydd gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac mae arweinwyr Trais Difrifol wedi'u nodi mewn sefydliadau allweddol. Yr Arweinydd Strategol ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion yw Barry Rees, sef Cadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, a'r ymarferwyr a enwebwyd yw Diana Davies (Rheolwr Corfforaethol - Partneriaethau a Pherfformiad) a Tim Bray (Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil).

Gellir defnyddio'r trefniadau partneriaeth presennol i gyflawni'r Ddyletswydd hon gan fod y Canllawiau Statudol yn nodi nad oes rheidrwydd creu partneriaethau newydd. Felly cytunwyd mai'r lle cywir i arwain ar gynllunio a gweithredu gofynion y Ddyletswydd Trais Difrifol yw'r strwythur presennol ar gyfer Trais Difrifol a Throseddu Cyfundrefnol, a'r Bwrdd Rhanbarthol Trais Difrifol. Mae'r Rheolwr Corfforaethol - Partneriaethau a Pherfformiad a'r Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil yn mynychu cyfarfodydd Rhanbarthol Trais Difrifol a Throseddu Cyfundrefnol ar hyn o bryd, a byddant yn parhau i wneud hynny ac i adrodd yn ôl lle bo angen. At hynny, i gydnabod rôl hanfodol addysg wrth ddiogelu, argymhellir bod cynrychiolydd o fyd addysg strategol yr ardal yn mynychu'r cyfarfodydd i drafod y Ddyletswydd Trais Difrifol. Bydd hyn yn gymorth i gynnig dolen rhwng yr awdurdodau cyfrifol penodedig a sefydliadau unigol, a rhwng Cwricwlwm newydd Cymru a'r cyfleoedd y mae hyn yn eu cyflwyno o ran cefnogi maes llesiant. Cynigir bod y Ddyletswydd Trais Difrifol yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet, er gwybodaeth, ar 6ed Mehefin 2023.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y canlynol:

- Mynegwyd pryder ynghylch y cynnydd mewn gweithgarwch o ran cyffuriau a Llinellau Cyffuriau yn y Sir a chytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylid monitro hyn yn agos.
- Ymhellach i gwestiwn ynghylch dyraniad cyllid, cadarnhaodd y Swyddog nad yw'n glir eto pa asiantaeth fydd yn arwain ar ddod o hyd i allu ychwanegol i gydlynu'r gwaith hwn. Dylid cadarnhau hyn erbyn Medi 2023.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad a ganlyn:

i. Nodi'r Ddyletswydd newydd o ran Trais Difrifol a'r goblygiadau i Gyngor Sir Ceredigion ac i'r partneriaethau perthnasol a fynychir gan gynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi'r Ddyletswydd newydd o ran Trais Difrifol a'r goblygiadau i Gyngor Sir Ceredigion ac i'r partneriaethau perthnasol a fynychir gan gynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion.

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ddeall y dyletswyddau ychwanegol y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion ymateb iddynt ac ystyried.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod o'r Cabinet a'r Swyddogion am fynychu a chyflwyno'r wybodaeth i'r Pwyllgor**.**

**6 Adroddiad ar ddefnydd yr Awdurdod o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod o'r Cabinet, a Harry Dimmack, Swyddog Llywodraethu, i gyflwyno'r Adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 i Aelodau'r Pwyllgor.

Cyflwynwyd Polisi RIPA diwygiedig i'r Pwyllgor ar 23ain Tachwedd 2022, ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 26ain Ionawr 2023. Cafodd yr aelodau ddiweddariad hefyd yn dilyn arolygiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) yng nghyfarfod mis Tachwedd.

Yn ogystal â'r newidiadau a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn ar 23ain Tachwedd 2022, gwnaeth y Cyngor gymeradwyo dau newid pellach i'r adran a geir yn y polisi RIPA ar y Weithdrefn ar gyflwyno cais am Awdurdodiad Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig (gweler adroddiad y Cyngor am ragor o wybodaeth). Cymeradwywyd y newidiadau ychwanegol hyn cyn cyfarfod y Cyngor a hynny gan Gadeirydd y Pwyllgor hwn.

Y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu sy'n gyfrifol am fonitro defnydd y Cyngor o Ddeddf RIPA. Cyflwynwyd y diweddariad diweddaraf ynglŷn â gweithgarwch RIPA i'r Pwyllgor ar 26ain Medi 2022. Cyflwynir adroddiadau bob 6 mis.

Rhwng 4ydd Gorffennaf 2022 a 26ain Ebrill 2023, cafodd un cais am wyliadwriaeth gyfeiriedig ei gyflwyno a'i gymeradwyo. Cafodd yr awdurdodiad ei gymeradwyo gan ynadon ar 13eg Ionawr 2023 a daeth i ben ar 13eg Ebrill 2023 (3 mis). Gwnaed adolygiad ar 11eg Ebrill 2023 a ddaeth i'r casgliad na ddylai'r awdurdodiad gael ei adnewyddu.

Ar Fai'r 12fed 2023 cafodd diweddariad RIPA gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ei gyhoeddi ar Newyddion Cerinet a hynny ar gyfer holl staff y Cyngor. Roedd hwn yn hysbysu'r staff bod Dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Corfforaethol y Cyngor ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig, Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol a Data Cyfathrebu, ar sail Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) RHAN II, wedi cael eu diweddaru. Roedd y

diweddariad hwn hefyd yn rhoi braslun i'r staff o'r ffurflenni a'r canllawiau RIPA a oedd ar gael ar CeriNet. Bwriedir cylchredeg negeseuon ar Cerinet bob chwe mis i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn ymwybodol o'r angen i ystyried RIPA.

Mae cylchlythyr chwarterol hefyd wedi'i gyhoeddi gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) ac mae ar gael i'w weld ar eu Gwefan. https://www.ipco.org.uk/publications/correspondence/

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y canlynol:

- Codwyd cwestiwn ynghylch ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Cadarnhaodd y Swyddog Llywodraethu y byddai'n rhaid i'r Awdurdod gadw at y polisi Rhyddid Gwybodaeth wrth ymateb i unrhyw gais.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r adroddiad.
Cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad, er mwyn sicrhau bod y pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddefnydd y Cyngor o RIPA a gweithrediad polisïau.

**7 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod Cydlynu a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023 fel cofnod cywir o'r trafodion ac nid oedd dim materion sy'n codi o'r cofnodion hynny.

**8 Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft**

Rhoddodd pob Cadeirydd (neu Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd) yn ei dro ddiweddariad ar Flaengynlluniau Gwaith eu Pwyllgorau priodol.

1. <u>Cymunedau Ffyniannus</u>
   Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad mewn perthynas â blaengynllun gwaith Cymunedau Ffyniannus.
   Llongyfarchodd y Cynghorydd Wyn Evans y Cadeirydd am drefnu cyfarfod diweddar i drafod sefyllfa'r Gwastraff.
2. <u>Cymunedau Iachach</u>
   Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad mewn perthynas â blaengynllun gwaith Cymunedau Iachach.
   Roedd yr aelodau'n siomedig bod yr adroddiad ynghylch Recriwtio//cadw Llesiant Gydol Oed wedi'i symud ymlaen i 3ydd Gorffennaf 2023 o gyfarfod y Pwyllgor ar 24ain Mai 2023.
3. <u>Cymunedau sy'n Dysgu</u>
   Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad mewn perthynas â blaengynllun gwaith Cymunedau sy'n Dysgu.
   Gofynnodd Aelod o'r Pwyllgor gwestiwn mewn perthynas â Datganiad o Ddiddordeb a dywedodd y Swyddog Safonau a Chraffu y dylai'r Cynghorydd gysylltu â'r Swyddog Monitro.
4. <u>Adnoddau Corfforaethol</u>
   Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad mewn perthynas â blaengynllun gwaith Adnoddau Corfforaethol.

5. Pwyllgor Cydlynu
   Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad mewn perthynas â blaengynllun gwaith y Pwyllgor Cydlynu. Nodir ar hyn o bryd y bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu ar 29 Mehefin 2023. Dywedodd Cadeirydd yr Adnoddau Corfforaethol, y Cynghorydd Rhodri Evans, y dylid cyflwyno'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'r Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol gan ei fod yn dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn. Dywedodd y Swyddog Trosolwg a Chraffu ei bod wedi bod mewn cysylltiad â Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol. Y broblem yw'r amserlen ar gyfer cwblhau adroddiadau. Fodd bynnag, efallai y bydd cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol ar Orffennaf y 19eg 2023 yn bosibilrwydd.

Awgrymwyd y dylai pob Pwyllgor gael adroddiad yn yr Hydref ar sefyllfa'r Gyllideb er mwyn i'r Aelodau allu paratoi ar gyfer cyfarfodydd mis Chwefror. Byddai hyn yn rhoi cyfle i drafod lle mae arbedion yn debygol o fod yn rhoi mwy o fewnbwn gan Aelodau ynghylch yr opsiynau sydd ar gael.

Awgrymodd Aelod y dylid cynnwys Caffael ar Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor perthnasol.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor, Aelodau'r Cabinet, Swyddogion am fynychu a daeth y trafodion i ben am 12 hanner dydd.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 29 Mehefin 2023**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu** |
| **DYDDIAD:** | **11 Medi 2023** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | **Blaenraglen Waith Ddrafft 2023/24** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |
| **Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**
Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Dynodiad:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 4/9/2023 |
| **Acronymau:** | BW- Blaenraglen Waith<br>FWP- Forward Work Programme |

<u>Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2023/24</u>

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cydlynu*** | | | |
| 22 Mai 2023 | Dyletswydd Trais Difrifol<br><br>Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a chyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2023<br><br>Adroddiad ar ddefnydd yr Awdurdod o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)<br><br>CYSUR / CWMPAS | | |
| 11 Medi 2023 | Fframwaith rheoli perfformiad<br><br>Adolygiad IIA<br><br>Cynllun Cydraddoldeb Strategol 24-28<br><br>Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol<br><br>Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2023 ac Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2023<br><br>Cofnodion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Canlyniad Asesiad Strategol Trosedd ac Anrhefn 2023 a gynhaliwyd gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol<br><br>CWMPAS/CYSUR<br><br>Adroddiad Blynyddol craffu<br><br>Hunanwerthuso’r trefniadau craffu | | |
| 6 Tachwedd 2023 | Cofnodion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | | |
| 19 Chwefror 2024 | Cyllideb | | |
| 4 Mawrth 2024 | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | | | |

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Adnoddau Corfforaethol*** | | | |
| 12 Mehefin 2023 | Trefi SMART<br><br>Diweddariad Cysylltedd Digidol<br><br>Adroddiad Blynyddol Cynllun Ymgysylltu a Chyfranogi 2022-23 | Arwyn Davies<br><br>David Owen<br><br>Cathryn Morgan | Ar gais y Cadeirydd<br><br>Ar gais y Cadeirydd |
| 19 Gorffennaf 2023 | Polisi'r Menopos<br><br>Cynllun y Gweithlu<br><br>Diweddariad ar weithio'n Hybrid<br><br>Diweddariad ar Clic (wedi gofyn am)<br><br>Medium Term Financial Plan (MTFP)<br><br>Strategaeth Caffael a Comisynu | Geraint Edwards<br><br>Geraint Edwards<br><br>Russell Hughes-Pickering/Geraint Edwards<br><br>Joy Lake/Anna Gawthorpe<br><br>Duncan Hall<br><br>Duncan Hall | Cyn Cabinet<br><br>Cyn Cabinet<br><br>Ar gais y Pwyllgor |
| 19 Hydref 2023 | I Ethol is-gadeirydd ar gyfer gweddill blwyddyn fwrdeistrefol 2023/2024 I gychwyn yn syth<br><br>Mynd i'r Afael â Chaledi<br><br>Adroddiadau Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth<br><br>Strategaeth Digidol a ICT | Cathryn Morgan<br><br>Marie Niege-Hadfield<br><br>Alan Morris | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Strategaeth Caffael a Comisynu<br><br>Diweddariad ar y contract Bancio | Duncan Hall/George Ryley<br><br>Duncan Hall | |
| 7 Rhagfyr 2023 | Adroddiad cynnydd ar y Cynllun Ymgysylltu a Chyfranogi 2022-23<br><br>Gwahodd Peter Williams WG a Openreach i diweddaru'r Pwyllgror ar y gwaith yng Ngheredigion<br><br>Polisi Rheoli Straen<br><br>Polisi Gwyliau Blynyddol a Chydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith | Cathryn Morgan<br><br>Geraint Edwards<br><br>Geraint Edwards | Cytunwyd yng nghyfarfod Mehefin<br><br>Pre-Cabinet<br><br>Pre-Cabinet |
| 23 Chwefror 2024 | Paratoi ar gyfer y Gyllideb | | |
| 16 Mai 2024 | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | • Adroddiad ar yr Ystad Corfforaethol | | |
| Grwp Gorchwyl a Gorffen | Ffermydd y Sir – yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd. | | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Iachach*** | | | |
| 24 Mai 2023 | Adroddiad CSSIW a'r Cynllun Gweithredu<br><br>Diweddariad ar Gofal Cartref<br><br>Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru<br><br>Trefniadau mabwysiadu ar y cyd | Audrey Somerton-Edwards<br><br>Donna Pritchard<br><br>Iwan Davies/Elen James<br><br>Audrey Somerton-Edwards | Ar gais y Pwyllgor<br><br>Cyn-Cabinet |
| 3 Gorffennaf 2023 | Recriwtio/Cadw staff Gydol Oes a Llesiant<br><br>Taliadau Uniongyrchol<br><br>Adroddiad ar y Gofrestr Tai | James Starbuck<br><br>Donna Pritchard<br><br>Llyr Hughes/Cerys Purches-Phillips | Ar gais y Pwyllgor<br><br>Ar gais y Pwyllgor<br><br>Ar gais y Pwyllgor |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18 Medi 2023 | Strategaeth Tai<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23<br><br>IRO | Llyr Hughes<br><br>Audrey Somerton-Edwards<br><br>Elizabeth Upcott | Cyn-Cabinet<br><br>Cyn-Cabinet |
| 22 Tachwedd 2023 | Adroddiad ynghylch arolygiadau safonau bwyd ac arolygiadau ffermydd<br><br>Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) adroddiad arolygiad – monitor 6 mis<br><br>Cynllun Gweithredu Dementia<br><br>Gwasanaethau Seibiant a Gwasanaethau Dydd | Carwen Evans<br><br>James Starbuck<br><br>Donna Pritchard<br><br>Donna Pritchard | Cais gan y Pwyllgor |
| 22 Chwefror 2024 | Paratoi'r Gyllideb | | |
| 11 Mawrth 2024 | Gwahodd:<br>Barcud<br>WWHA<br>Caredig | | |
| Eitemau agenda ar gyfer y dyfodol | Diweddariad ar y Gwasanaeth Cymorth ac Atal<br><br>Adroddiad Ebrill/Mai 2024 ar yr 15 pwynt y 'Pledge' – Gofal Cartref | Gethin Jones<br><br>Donna Pritchard/Heather West | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2022/23

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Ffyniannus*** | | | |
| 22 Mehefin 2023 | Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd (o'r gofrestr risgiau)<br><br>Creu Grwp Gweithio Gwasanaeth Gwastraff<br><br>Diweddariad ar lwyth achosion Rheoli Datblygu a Gorfodi | Phil Jones<br>Gwahoddiad i Adnoddau Naturiol Cymru<br><br>Rhodri Llwyd<br><br>Russell Hughes Pickering | O'r gofrestr risgiau<br><br>Adolygiad<br><br>Monitro |
| 31 Gorffennaf 2023 | Adroddiad ar yr opsiwn o ganiatáu 2 awr o barcio am ddim cyn 11am (o'r cyfarfod cyllideb)<br><br>Gwasanaeth Gaeaf<br><br>Trafodaeth ar gynllunio a ffosffadau Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) | <br><br><br><br>Gwahoddiad i Dwr Cymru | Argymhellion<br><br>Adolygiad<br><br>Monitro |
| 23 Hydref 2023 | Adolygu Polisi Rheoli Harbyrau<br><br>Canolfan Bwyd Cymru | Gerwyn Jones<br><br>Arwyn Davies | Polisi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18 Rhagfyr 2023 | | | |
| 23 Chwefror 2024 | Cyllideb | | |
| 18 Mawrth 2024 | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | Awgrymiadau:<br>Effaith cynlluniau a ariennir gan grant – beth yw'r effaith, pa mor dda mae arian yn cael ei dynnu i lawr<br><br>Defnydd o le – sut allwn ni ei wneud yn fwy bywiog, cynyddu incwm<br><br>CDLI<br><br>Adolygu strategaeth toiledau cyhoeddus<br><br>Y defnydd a wneir o adeiladau<br><br>Y Polisi Torri Porfa<br>Y berthynas rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru o ran Cynllunio Gwlad a Thref | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cymorth i Fusnesau ac Adfywio | | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2023/24

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| Cymunedau sy'n Dysgu | | | |
| 8 Mehefin 2023 | Cynllun Busnes Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru<br><br>Dogfen trosglwyddo ADY<br><br>Cofnodion cyngor ieuenctid<br><br>Arolygiadau ESTYN | Arweinydd Strategol PACC a'r Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion | Argymhellion<br><br>Argymhellion<br><br>Monitro<br><br>Monitro |
| 6 Gorffennaf 2023 | Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant<br><br>E-sgol | Carys Davies<br><br>Gwion Dafydd | Monitro<br><br>Monitro |
| 28 Medi 2023 | Adolygiad ol 16<br><br>Canlyniadau TGAU/ lefel A | | Argymhellion<br><br>Monitro |
| 27 Tachwedd 2023 | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Sgiliau Bywyd, Sgiliau Gwaith & Multiply<br><br>Diweddariad 6 mis ar Digonolrwydd Gofal Plant<br><br>Curiclum | Mark Gleeson<br><br>Carys Davies<br><br>Gareth Lanagan | |
| 22 Chwefror 2024 1.30pm | Cyllideb | | |
| 9 Mai 2024 | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | Asesiad Digonolrwydd Chwarae<br><br>Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru (adroddir bob hydref) | | |
| Ffrydiau Gwaith | 1. Sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu darparu'n effeithiol<br><br>2. Sicrhau ecwiti i bob disgybl<br><br>3. Sicrhau is adeiledd effeithiol ac effeithlon i gwrdd â'n blaenoriaethau | | |